Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cronfa
Setting Research Free

## Swansea University E-Theses

# Y darlun o blant yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol.

**Miles, Eiry**

How to cite:

Miles, Eiry (2002) *Y darlun o blant yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol..* thesis, Swansea University.
http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42250

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/

# Y DARLUN O BLANT

# YN LLENYDDIAETH

# GYMRAEG

# YR OESOEDD CANOL

EIRY MILES

ProQuest Number: 10797958

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS
The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript
and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed,
a note will indicate the deletion.

ProQuest 10797958

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.
This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346

UNIVERSITY OF
LIBRARY
WALES SWANSEA

**Crynodeb**

Bwriad y traethawd hwn yw cyflwyno darlun cytbwys o blentyndod yn yr Oesoedd Canol, trwy ddefnyddio tystiolaeth newydd a ganfuwyd yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod. Ceir astudiaeth fanwl o blant yn y Mabinogion a thestunau crefyddol megis Bucheddau'r Seintiau, yn ogystal â rhyddiaith ffeithiol megis Hanes Gruffudd fab Cynan. Fodd bynnag, canolbwyntir yn bennaf ar farddoniaeth, oherwydd ynddi y cawn y darlun mwyaf cyflawn a byw o blant.

Llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol yw canolbwynt y traethawd, ond astudiaeth ryngddisgyblaethol ydyw, ac mae ei ffynonellau yn amrywiol. Trafodir themâu a motiffau rhyngwladol sydd i'w gweld yn gyson yn llenyddiaeth a chwedlau yr Oesoedd Canol, megis Y Plentyn Rhyfeddol a Gwaedoliaeth a Magwraeth. Ystyrir cyd-destun hanesyddol y llenyddiaeth, statws plant yn y cyfreithiau Cymreig, a dylanwad syniadau diwinyddol ar y darlun o blant yn yr Oesoedd Canol.

Y mae'n draethawd arbennig o gyfoes, oherwydd cyflwynwyd syniadau cyferbyniol ar blentyndod yn yr Oesoedd Canol gan nifer o haneswyr a chymdeithasegwyr yn ddiweddar. Dadleuodd rhai ysgolheigion, megis Philippe Ariès yn ei lyfr *Centuries of Childhood,* mai creadigaeth fodern yw plentyndod, ac nad oedd plant yn cael eu trin yn wahanol i oedolion yn yr Oesoedd Canol. Gwrthodwyd y syniadau hynny'n chwyrn mewn gweithiau mwy diweddar, megis *Children in the Middle Ages* gan Nicholas Orme, ond gellid dadlau bod elfen o wirionedd yn rhai o honiadau Ariès. Ar y cyfan, 'oedolion bychain' yw plant yn y llenyddiaeth gynharaf a drafodir yn y traethawd hwn, ond cyfleir anwyldeb tuag at blant yn gryfach tuag at ddiwedd yr Oesoedd Canol, a mynegir ymwybyddiaeth o blentyndod fel cyfnod pwysig ac unigryw mewn bywyd. Yn ogystal â chodi nifer o ddadleuon diddorol, gellid dadlau bod y llenyddiaeth Gymraeg a drafodir yn y traethawd hwn yn adlewyrchu newid yn agweddau pobl Gorllewin Ewrop tuag at blant yn yr Oesoedd Canol.

## TUDALEN DATGANIAD/GOSODIADAU

### DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac ni chyflwynwyd ef ar hyn o bryd wrth ymgeisio ar gyfer unrhyw radd.

Llofnodwyd ... (ymgeisydd)
Dyddiad 16/04/02

### GOSODIAD 1

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ymchwiliadau i fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol. Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd ... (ymgeisydd)
Dyddiad 16/04/02

### GOSODIAD 2

Rhoddaf yma gydsyniad i'm traethawd, os derbynnir ef, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd . ... (ymgeisydd)
Dyddiad 16/04/02

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | i |
| **Strwythur y Traethawd a'r Ffynonellau** | | iii |
| **Byrfoddau** | | vii |
| **Pennod 1** | | |
| **Y Cefndir Hanesyddol** | | 1 |
| **Pennod 2** | | |
| **Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant** | | 26 |
| **Pennod 3** | | |
| **Rhyddiaith** | | |
| I | Y Darlun o Blant a Gyflwynir yn y Mabinogion | 56 |
| II | Llenyddiaeth Grefyddol | 64 |
| III | Ysgrifennu Hanesyddol | 72 |
| IV | Cynghorau Catwn | 76 |
| V | Meddygon Myddfai | 80 |

Pennod 4

**Themâu**

| | | |
|---|---|---|
| I | Y Plentyn Rhyfeddol | 83 |
| II | Gwaedoliaeth a Magwraeth | 93 |

**Pennod 5**

**Barddoniaeth**

| | | |
|---|---|---|
| I | Plant yn y Canu Serch | 96 |
| II | Cerddi Mawl | 99 |
| III | Cymhariaeth o Waith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi | 109 |
| IV | Marwnadau Canoloesol i Blant | 117 |
| V | Gwerthfawrogiad o Farwnad Siôn y Glyn | 133 |

| | |
|---|---|
| **Diweddglo** | 145 |
| **Llyfryddiaeth** | 151 |

# Rhagair

Nid yw plant a phlentyndod yn yr Oesoedd Canol yn bwnc sydd wedi derbyn llawer o sylw yn y cyd-destun Cymreig. Mae sawl ysgolhaig megis Miranda Green wedi trafod y darlun o fenywod yn y Mabinogion;[1] y mae'n bwnc arbennig o boblogaidd oherwydd cefndir mytholegol y cymeriadau. Yn ddiweddar, cafwyd traethawd PhD gan Lowri Lloyd ar y teulu yn yr Oesoedd Canol,[2] ond nid oes llawer o drafodaeth ar blant fel y cyfryw ynddo - trafod newidiadau yn strwythur yr uned deuluol a wna fwyaf. Mae Andrew Breeze yn cyfeirio at blant y Mabinogion yn ei lyfr *Medieval Welsh Literature*,[3] ond ei fwriad wrth wneud hynny yw cryfhau ei ddadl mai menyw yw awdur y Pedair Cainc.

Heddiw, y mae plant a natur plentyndod yn bynciau a drafodir yn helaeth, a phlentyndod cynnar yn bwnc academaidd a astudir mewn sawl prifysgol. Mae rhieni yn poeni mwy nag erioed am les eu plant, yn wyneb newidiadau cymdeithasol megis twf y teulu un rhiant a dylanwad cynyddol y cyfryngau a'r rhyngrwyd. O ystyried hynny, diddorol yw astudio agweddau pobl yr Oesoedd Canol tuag at blant, cyn i'r 'teulu niwclear' ddod yn ddelfryd, a chyn datblygiadau addysgol y byd modern.

Plant yw prif gymeriadau rhai o'n gweithiau llenyddol Cymraeg mwyaf poblogaidd, megis *Un Nos Ola Leuad*, *Sioned* a *Te yn y Grug*. Eithr o ail-edrych ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol, gellir canfod darluniau eithriadol o ddiddorol o blant yn rhyddiaith a barddoniaeth y cyfnod hwnnw. Cyhoeddwyd astudiaeth bwysig gan Dafydd Johnston ar farwnadau canoloesol i blant yn ei gyfrol *Galar y Beirdd*,[4] ond nid oes neb wedi trafod y darlun o blant yn y rhyddiaith a'r farddoniaeth ar y cyd. Bwriad y traethawd hwn yw tynnu at ei gilydd yr holl dystiolaeth am blant sydd ar wasgar, o lenyddiaeth Gymraeg ganoloesol o bob math.

Mentrodd sawl hanesydd drafod plentyndod yn yr Oesoedd Canol, ac agweddau rhieni'r oes tuag at blant. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd y gyfrol *Medieval Children* gan Nicholas Orme.[5] Fodd bynnag, er mor ddadlennol yw astudiaethau o'r fath, y mae

[1] Miranda Green, *Celtic Goddesses* (Llundain, 1995)
[2] Lowri Wyn Lloyd, 'Agweddau ar y Teulu ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol', traethawd PhD Prifysgol Cymru 2000
[3] Andrew Breeze, *Medieval Welsh Literature* (Dublin, 1997)
[4] Dafydd Johnston, *Galar y Beirdd* (Caerdydd, 1993)
[5] Nicholas Orme, *Medieval Children* (New Haven & London, 2001)

llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc dieithr, i raddau helaeth, i'r rhai a'u lluniodd, ac nid yw plant Cymru'r Oesoedd Canol wedi derbyn sylw haeddiannol ganddynt o ganlyniad i hynny. Bwriad y traethawd hwn yw unioni'r cam hwnnw, gan dynnu ar waith haneswyr canoloesol.

Yn anorfod, y mae'n draethawd rhyngddisgyblaethol. Rhaid ystyried astudiaethau cymdeithasegol a seicolegol yn ogystal â gweithiau hanesyddol a llenyddol wrth drafod y darlun o blant yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Wrth ychwanegu at waith ysgolheigion o bob math gyda deunydd Cymraeg, gobeithir cyflwyno darlun byw o fywydau plant yn yr Oesoedd Canol, ac agweddau rhieni'r Oesoedd Canol tuag atynt.

## Strwythur y Traethawd a'r Ffynonellau

Rhannwyd y traethawd yn bum pennod. Mae Pennod 1, Y Cefndir Hanesyddol, yn gosod y traethawd yn ei gyd-destun, ac yn disgrifio'r ffactorau a ddylanwadodd ar y llenyddiaeth a drafodir ynddo. Arolwg o derminoleg yn ymwneud â phlant yw yr ail bennod. Esbonnir ystyr a tharddiad y termau, trwy ddefnyddio enghreifftiau a dynnwyd o lenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Yn y drydedd bennod, cawn drafodaeth ar y darlun o blant a gyflwynir yn rhyddiaith yr Oesoedd Canol. Rhannwyd y bennod yn is-adrannau, sydd yn canolbwyntio ar fathau gwahanol o ryddiaith yn eu tro. Trafodaeth ar themâu poblogaidd yn ymwneud â phlant yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yw pennod 4; mae'r adran gyntaf yn sôn am Y Plentyn Rhyfeddol, a'r ail adran yn trafod thema Gwaedoliaeth a Magwraeth. Ym Mhennod 5, trafodir y darlun o blant ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol. Fe'i rhannwyd yn nifer o adrannau, fel Pennod 3, er mwyn canolbwyntio ar fathau gwahanol o farddoniaeth yn unigol, megis y canu mawl. Ceir adran hefyd yn cymharu gwaith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi, ac adran arbennig ar farwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab, Siôn. Wedi hynny, crynhoir y dadleuon a'r casgliadau yn y diweddglo.

Mae'r ffynonellau a ddefnyddir yn ymestyn dros gyfnod maith, gan ddechrau oddeutu 1100 hyd at 1500. Ond, mae peth o'r deunydd cyfreithiol a'r Pedair Cainc yn mynd yn ôl yn bellach, ac yn adlewyrchu syniadau cynharach.

### Terminoleg

Casglwyd gwybodaeth o *Eiriadur Prifysgol Cymru,*[1] ac archwiliwyd y ffynonellau a ddefnyddir ynddo. Bu ymweliad ag adran Geiriadur Prifysgol Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn fuddiol iawn er mwyn gweld unrhyw ychwanegiadau diweddar.

### Rhyddiaith

Yn wahanol i'r disgwyl, nid yw'r achau'n ffynonellau gwerthfawr, oherwydd dim ond sôn am y rhai a ddechreuodd eu hachau eu hunain a wnânt. Nid ydynt yn crybwyll plant a fu farw, nac oedolion a fu farw'n ddi-blant. Er hynny, maent yn fuddiol oherwydd cawn wybodaeth ynddynt am blant a aned y tu allan i briodas. Ni thrafodir y cyfreithiau yn y bennod ar ryddiaith; yn hytrach, cyfeirir atynt ym mhennod gyntaf y traethawd, wrth

esbonio statws y plentyn yn yr Oesoedd Canol. Manylir yn arbennig ar gyfreithiau etifeddu Hywel, oherwydd nid oedd yn gwahaniaethu rhwng plant anghyfreithlon a phlant o uniad priodasol. Pwyntiau eraill diddorol yw pwysigrwydd troi'n saith mlwydd oed i blentyn yn y cyfnod, a'r gwahaniaeth rhwng statws bechgyn a merched.

Y ffynhonnell fwyaf cyfoethog yn yr ail bennod yw'r Mabinogion, er nad yw'r darlun o blant yn y Mabinogion yn arbennig o realistig. Fe'i lliwiwyd i raddau helaeth gan fotiff y 'Plentyn Rhyfeddol';[2] yr unig blentyn 'cyffredin' yn y chwedlau yw Gwern yn yr ail gainc. Ond, mae rhagor i'w drafod yn y chwedlau na hynny. Cawn gip ar rai o agweddau'r oes tuag at blant, a gwelwn ynddynt glymau emosiynol rhwng rhieni a'u plant.Gellir trafod barn haneswyr ar blant yn yr Oesoedd Canol o ddefnyddio'r dystiolaeth a geir yn y chwedlau.

Bu chwedl Gwion Bach yn fyw ar lafar am ganrifoedd, ond mae'r copi ysgrifenedig cynharaf ohoni yn dod o gyfnod mwy diweddar na'r Oesoedd Canol. Fodd bynnag, mae nodweddion ynddi, megis motiff y Plentyn Rhyfeddol, yn ei gwneud yn berthnasol i'r drafodaeth ar themâu, felly ceir trafodaeth fanwl arni, ynghyd â chwedl Myrddin, ym Mhennod 4.

Er ei bod yn ddogfen hanesyddol, ac yn fywgraffiad o gymeriad real, bydd modd cymharu *Historia Gruffud Vab Kenan* â'r chwedlau, gan fod elfen o ramant ynddi, a Gruffudd yn debyg i blentyn rhyfeddol. Dogfen hanesyddol arall a drafodir yw Brut y Tywysogion. Nid oes llawer o sôn am blant yn y testun hwn, eithr cawn ddarlun o gymdeithas ryfelgar yr Oesoedd Canol, a'r tensiynau a fyddai'n rhwygo teuluoedd. Gwelwn y math o fywyd a wynebai plentyn o waed brenhinol yn y cyfnod.

Math arall o ryddiaith ffeithiol a drafodir yn y traethawd yw gwaith Meddygon Myddfai - casgliad o destunau meddygol canoloesol a briodolir i deulu o feddygon gwlad o blwyf Myddfai, Caerfyrddin. Mewn gwirionedd, nid oes llawer o sôn am blant yng ngwaith Meddygon Myddfai, heblaw am gynghorion i fenywod sy'n methu â beichiogi, ac ofergoelion am ddyfalu rhyw baban yn y groth. Ond, mae'r testun yn ddiddorol o safbwynt ieithyddol, fel y gwelir yn y bennod ar derminoleg. [3]

Cyfieithiad o destun Lladin clasurol yw 'Cynghorau Catwn'; mae'n debyg y gellir tybio iddo gael ei lunio oddeutu 1200. Mae'r cynghorion wedi eu hanelu at ddarllenydd

---

[1] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, (Caerdydd, 1950 -)
[2] Gw. Y Plentyn Rhyfeddol, isod.
[3] Gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, isod.

gwrywaidd sydd ar drothwy bod yn oedolyn. Ni cheir darlun o blant yn y testun hwn, ond y mae'n werth ei drafod gan ei fod yn adlewyrchu syniadau a oedd yn cylchredeg ar y pryd, a'r hyn a ddysgid i blant yr Oesoedd Canol.

Ni ellir anghofio am ddylanwad aruthrol Cristnogaeth ar feddylfryd yr Oesoedd Canol. Ceir trafodaeth ar Fucheddau'r Seintiau, er nad oes llawer o sôn am blentyndod y seintiau ynddynt. Gwrthdaro rhywiol yw thema nifer o fucheddau'r santesau, felly mae eu hanes yn dechrau yng nghyfnod eu llencyndod. Gwelwn fotiff y Plentyn Rhyfeddol yn y bucheddau eraill, ond yn wahanol i'r chwedlau, cyneddfau deallusol y seintiau a bwysleisir. Y mae testunau crefyddol llai adnabyddus hefyd yn haeddu sylw; ceir darluniau diddorol o blant yn *Llyma Vabinogi Iessu Grist* a *Pryd y Mab.*

**Barddoniaeth**

Mae digon o ddeunydd crai i'w drafod yn y farddoniaeth, a syniadau amrywiol am blant yn cael eu hadlewyrchu ynddi. Mae'r canu serch, er enghraifft, yn mynegi agwedd negyddol tuag at blant. Nid yw'r beirdd eisiau i'w cariadon feichiogi, gan y byddai'n peri embaras iddynt. Ar y llaw arall, cawn ddarlun mwy cadarnhaol o blant yn y cerddi mawl, megis canu Iolo Goch i Owain Glyndŵr. Mae'r rheiny'n cyflwyno darlun o anwyldeb y tad tuag at ei blant, a gellir canfod ambell em annisgwyl, megis cerdd Ieuan Deulwyn i Risiart Herbert. Mae honno'n arbennig o ddadlennol, gan ei bod yn cyfeirio at arferion yr oes, megis defnyddio mamaeth, ac anfon plant ar faeth. Dengys y pryder y byddai rhieni yn ei deimlo dros eu plant, a chyfran eu marwolaethau mor uchel.

Dewiswyd canolbwyntio'n arbennig ar waith Lewys Glyn Cothi, gan fod nifer o elfennau anghonfensiynol yn ei ganu mawl. Tuedd nifer o feirdd yw crybwyll plant yn fras; tybiant mai parhau'r llinach anrhydeddus yw eu hunig swyddogaeth. Ond, mae Lewys Glyn Cothi yn amlwg wedi profi perthynas emosiynol agos â phlant. Defnyddir plant a babanod yn drosiadol yn ei waith yn aml er mwyn cyfleu teimlad o fodlonrwydd, ac mae cariad o fewn teuluoedd yn ddigon pwysig iddo ei gofnodi. Cawn sawl darlun o deuluoedd hapus â chwlwm emosiynol rhyngddynt yn ei waith, e.e. y 'tri dedwydd' yn y gerdd 'I Ofyn March gan Siôn Phylib'. Cyferbynnir hyn â'r darluniau mwy confensiynol a llai emosiynol o blant a welwn yng ngwaith Guto'r Glyn.

Prif ffynonellau'r adran ar farddoniaeth yw'r marwnadau canoloesol i blant sydd i'w cael yn y llyfr *Galar y Beirdd* gan Dafydd Johnston.[4] Mewn cyfnod pan nad oedd swyddogaeth 'gathartig' i farddoniaeth, mae'r marwnadau hyn yn arbennig o drawiadol, oherwydd mynegant deimladau diffuant rhieni tuag at eu plant. Yn ogystal â hynny, fel y soniwyd eisoes, maent yn ymestyn dros gyfnod helaeth, ac felly'n adlewyrchu newid yn agweddau pobl tuag at blant. Y farwnad fwyaf trawiadol i blentyn yw marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn ei fab; ceir ynddi ddarlun byw o blentyn cyffredin a mynegiant ingol o alar y bardd. Mae'r gerdd felly yn haeddu trafodaeth ar ei phen ei hun.

Mae'n anochel y bydd yr adran ar farddoniaeth yn llawer hwy na'r adran ar ryddiaith. Darlun cyntefig o'r plentyn a geir yn y chwedlau, gan eu bod yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif. Erbyn y bymthegfed ganrif, sef cyfnod y rhan fwyaf o'r cerddi, gwelwn wahaniaeth mawr yn yr agweddau tuag at blant. Nid oes deunydd rhyddieithol i adlewyrchu'r newid hwnnw, ac felly mae mwy o sylwedd i'w drafod yn y farddoniaeth.

---

[4] Dafydd Johnston, *Galar y Beirdd* (Caerdydd, 1993)

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **Ariès** | Philippe Ariès, *Le'Enfant et la vie familiale sous l'ancien régime* (Paris, 1960); arg. Saesneg, *Centuries of Childhood* (New York, 1962) |
| **B** | *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* |
| **C** | *The Black Book of Camarthen,* ed. J. Gwenogvryn Evans, 1906 |
| **CA** | *Canu Aneirin,* gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938) |
| **CBT** | *Cyfres Beirdd y Tywysogion* |
| **CBU** | *Cyfres Beirdd yr Uchelwyr* |
| **CMOC** | *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol,* gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991) |
| **CO** | *Culhwch ac Olwen* gol. Rachel Bromwich & D. Simon Evans (Caerdydd, 1997) |
| **DEW** | *A Dictionary in Englyshe and Welshe,* William Salesbury (1547) |
| **DN** | *The Poetical Works of Dafydd Nanmor,* ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923) |
| **GB** | *Galar y Beirdd,* gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1993) |
| **GDG** | *Gwaith Dafydd ap Gwilym,* gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952) |
| **GGG** | *Gwaith Guto'r Glyn,* gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1939) |
| **GIG** | *Gwaith Iolo Goch,* gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1988) |
| **GLGC** | *Gwaith Lewys Glyn Cothi,* gol. *Idem* (Caerdydd, 1995) |
| **GPC** | *Geiriadur Prifysgol Cymru,* (Caerdydd, 1950-) |
| **LlA** | *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi,* 1346, gol. J. Morris Jones & John Rhŷs, (1894) |
| **LlC** | *Llyfr Colan,* Dafydd Jenkins (gol.) (Caerdydd, 1963) |
| **LL** | *The Text of the Book of Llan Dâv,* J. Gwenogvryn Evans & John Rhŷs, (1893) |
| **LLI** | *Llyfr Iorwerth,* Aled Rhys Wiliam (gol.) (Caerdydd, 1960) |
| **KLl** | *Kynniver Llith a Ban,* William Salesbury (1551) (adarg., 1931, gol. John Fisher) |
| **Orme** | Nicholas Orme, *Medieval Children* (New Haven & London, 2001) |
| **PKM** | *Pedeir Keinc y Mabinogi,* gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1951) |
| **R** | *The Poetry in the Red Book of Hergest,* gol., J. Gwenogvryn Evans, 1911 |
| **TrCy** | *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* |

## Pennod 1

## Y Cefndir Hanesyddol

Hawdd yw ystyried yr Oesoedd Canol fel cyfnod syml, disymud, ond trafodir cyfnod sy'n ymestyn dros oddeutu pedwar can mlynedd, o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif hyd at 1500, yn y traethawd hwn. Yn ogystal â hynny, y mae peth o'r deunydd cyfreithiol a'r Pedair Cainc yn perthyn i gyfnod tipyn cynharach na'r ddeuddegfed ganrif. Rydym hefyd yn delio â chyfnod cymhleth, a brofodd nifer o newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol. Llifodd dylanwad y Normaniaid i Gymru'n raddol ar ôl eu dyfodiad yn 1066, tan ergyd olaf y goncwest gyda marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf yn 1282. Yn 1400, taniwyd gwrthryfel Glyndŵr, cychwynnwyd rhyfel y Rhosynnau yn 1455, a daeth brenhiniaeth y Lancastriaid i ben gyda marwolaeth Harri VI yn 1471. Gwahanol iawn yw'r byd cyn-Normanaidd a welwn yn 'Culhwch ac Olwen', er enghraifft, a'r byd cwrtais, trefnus, Ffrengig ei naws ym mawl Iolo Goch i Lys Owain Glyndŵr.

Yn ddiamau, un o ganlyniadau cadarnhaol y Goncwest oedd agor llifddorau Cymru i ddylanwadau llenyddol estron. Yn ogystal â hynny, arweiniodd y Goncwest at dwf dosbarth yr uchelwyr; heb eu nawdd a'u cefnogaeth hwy, ni fyddai cyfran helaeth o'r llenyddiaeth a drafodir yn y traethawd hwn wedi ei chyfansoddi. Yr uchelwyr, a phlant yr uchelwyr, yw testun y llenyddiaeth hefyd.

Fodd bynnag, faint o effaith a gafodd hyn oll ar <u>blant</u> yn yr Oesoedd Canol, ac ar natur teuluoedd y cyfnod? A oedd y werin bobl yn ymwybodol o'r newidiadau gwleidyddol hyn?

Yn gyntaf, dylid ystyried yr hyn yr oedd y gair 'teulu' yn ei olygu yn yr Oesoedd Canol. Ffurf wreiddiol y gair oedd 'teilu', a oedd yn gyfuniad o'r geiriau 'tai' a 'llu', ond newidiodd ei ystyr yn ystod yr Oesoedd Canol. Roedd y 'teilu' yn cynnwys perthnasau (agos ac estynedig, neu blant maeth), gweision, morynion, milwyr a chyfeillion - yr holl bobl a fyddai'n cyd-fyw yn un o gartrefi uchelwrol byrlymus yr Oesoedd Canol, yn hytrach na milwyr y tŷ yn unig. Yn yr un modd, cyfeiriai'r gair Saesneg 'family' (a darddodd o'r gair Lladin *famulus* - 'caethwas' neu 'was') at yr hyn y byddem yn ei alw'n 'deulu niwclear', yn ogystal â'r holl weision a oedd yn byw gyda hwy.[1] Yn aml, byddai cartrefi'r taeogion dan eu sang hefyd, ac yn lloches i deulu estynedig a chyfeillion yn ogystal â rhieni a'u plant. Byddai llawer o gartrefi yn ganolfannau masnach, ac felly'n wahanol iawn i gartrefi preifat ein hoes ni, â'u drysau

caeëdig. Fel y gwelwn o ddarllen llenyddiaeth y cyfnod, dieithr hefyd oedd y syniad o uned deuluol fechan a ffyddlon i fwyafrif uchelwyr yr Oesoedd Canol, â'u plant llwyn a pherth niferus. Eithr, yn raddol, cyfyngodd y cartrefi hyn i gynnwys dim ond rhieni a phlant o dan yr un to (er, wrth gwrs, i lawer o bobl fyw fel hyn erioed). Adlewyrchir y newid hwnnw yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol. Mae plant a phriodas yn cael eu portreadu mewn ffordd fwy ffafriol tuag at ddiwedd yr Oesoedd Canol, a thafla ein llên oleuni ar y ffactorau a arweiniodd at y newidiadau o fewn yr uned deuluol.

**Cyfran uchel marwolaethau plant**

Yn yr Ewrop gyn-ddiwydiannol, gellir amcangyfrif y byddai rhwng 200 a 300 o bob mil o blant a enid yn marw yn ystod eu blwyddyn gyntaf, a hanner y rhai oedd yn weddill a fyddai'n byw i fod yn bum mlwydd oed.[2] Byddai cyfran eu marwolaethau hyd yn oed yn uwch adeg y pla. Nid oes gennym ffigurau pendant, ond gallwn gasglu i boblogaeth rhai dinasoedd a phentrefi ostwng 70 neu 80% ar adegau felly.[3] Yn nghelfyddyd yr Oesoedd Canol, cawn sawl darlun o'r Forwyn Fair yn magu'r baban Iesu gan fyfyrio ar ei farwolaeth anochel, ac y mae nifer o hwiangerddi Saesneg y cyfnod yn sôn am galedi bywyd a chysgod marwolaeth yn hytrach na chreu darlun o fodlonrwydd.[4] Dengys y gerdd *Bendith ar Edudful ferch Gadwgon a'i Meibion* gan Lewys Glyn Cothi y peryglon y byddai plant yn eu hwynebu'n feunyddiol yn yr Oesoedd Canol.[5] Mae plant Edudful ar drothwy bod yn oedolion, a gŵyr Lewys iddynt fod yn eithriadol o lwcus i oroesi. Yn ei dyb ef, gweddïau Edudful drostynt a ofalodd amdanynt :

*Duw a'i saint a'u cedwis hwy*
*rhag adwyth yn drigadwy,*
*rhag cas a chras echrysaint,*
*rhag rhaib, rhag gwewyr a haint,*
*rhag gortrech, rhag afiechyd,*
*rhag afles, rhag gwres, rhag cryd,*
*rhag gwenwyn yn nhrwyn y rhwyd,*
*rhag haearnwaith, rhag cornwyd.*

---

[1] Orme, t.52
[2] Shulamith Shahar, *Childhood in the Middle Ages* (London, 1992) t.143
[3] David Herlihy, *The Black Death and the Transformation of the West* (Cambridge, Massachusetts, 1997)
[4] Barbara A. Hanawalt, *Growing Up in Medieval London* (Oxford, 1993) t.61
[5] GLGC, 168, tt.371-2

Cynyddodd nifer marwolaethau plant hyd yn oed yn fwy gyda dyfodiad y pla yn 1349; gellir dadlau mai dyna un o'r ffactorau a ddylanwadodd fwyaf ar deimladau pobl yr Oesoedd Canol tuag at blant.[6]

**Statws Cyfreithiol Plant**

Yng Nghymru'r Oesoedd Canol, gwaedoliaeth a bennai statws dyn, yn hytrach na'i incwm; gallai perthyn i ach arbennig roddi'r teitl 'uchelwr' iddo. Y mae'r syniad hwn i'w weld yn glir yn y canu mawl, pan folir campau cyndeidiau'r noddwyr, a phan welwn y rhes o enwau yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu harddel yn falch, megis y Dafydd Llwyd ap Dafydd ap Rhydderch a folodd Dafydd Nanmor.[7] Sylwodd Gerallt Gymro ar obsesiwn y Cymry â'u hachau ac mae dogfennau Saesneg diweddarach yn cyfeirio at eu "overmuch boastying of the Nobilitie of their stocke".[8] Erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, fodd bynnag, roedd y trahauster hwn braidd yn chwerthinllyd, oherwydd mân dirfeddiannwyr oedd llawer o'r 'uchelwyr' honedig.[9] Serch hynny, o ddarllen y cyfreithiau, gwelwn y byddai dysgu achau yn hollbwysig i ddyn o dan Gyfraith Hywel am resymau economaidd; gallai dyn ddychwelyd i dir ei hynafiaid hyd at naw cenhedlaeth i fynnu ei gyfran ohono.

Diflannodd Cyfraith Hywel o rai ardaloedd yn gynt nag eraill, ond parhaodd yn system gyfreithiol i ardaloedd megis Dyffryn Clwyd a Dyffryn Teifi tan i'r Deddfau Uno ddod i rym. Mewn ardaloedd eraill, defnyddid rhai o gyfreithiau Hywel, ond 'ffosil' mewn gwirionedd yw cyfraith *galanas* mewn testunau cyfreithiol wedi'r drydedd ganrif ar ddeg a chafodd Cyfraith Loegr ei harfer wrth ddelio â llofruddiaeth o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ymlaen. Er hynny, goroesodd cred sylfaenol y *galanas*, sef y syniad o berthyn i genedl a balchder yn yr ach, felly cofnodwyd cyfraith *galanas* o hyd. O ddarllen nifer o gerddi Beirdd yr Uchelwyr, gwelwn na pheidiodd teuluoedd â dial am gam a wnaethpwyd i un o'u haelodau. Ym marwnad Lewys Glyn Cothi i Tomas ap Syr Rhosier Fychan, mae ei deulu'n ymgynnull er mwyn dial am y cam a wnaethpwyd iddo.

*Wynt-hwy ddielyn' eu tad*

---

[6] Gw. Marwnadau Canoloesol i Blant, isod.
[7] Thomas Roberts (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, 1923) tt.70-3
[8] R. R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales* (Oxford, 1978) tt.258
[9] *Idem., The Age of Conquest: Wales 1063 - 1415* (Oxford, 1991) t.115

*ar Loegr cyn hun ar lygad.*[10]

Elw ariannol a balchder fyddai symbyliad sawl pâr i atgenhedlu, a modd o ehangu grym a pharhau'r llinach oedd cael plant. Rhoddai Cyfraith Hywel y galanas uchaf posib i faban a gamesgorwyd o ganlyniad i ymosodiad ar y fam, sef galanas dyn, ac o dan y gyfraith Germanaidd telid dirwyon eithriadol o uchel am ladd neu anafu menyw feichiog.[11] Mewn cyfreithiau hynafol, roedd lladd baban yn drosedd llawer llai difrifol na lladd menyw feichiog, oherwydd gallai menyw ffrwythlon gynhyrchu llawer o blant, a sicrhau parhad i fywyd yr ach. Un bywyd yn unig a ddiweddai gyda marwolaeth baban.Yng ngeiriau Danièle Alexandre-Bidon a Didier Lett:

*In the value system of barbaric law, it was first and foremost a matter of reprimanding most severely those who caused injury to economic and familial holdings ...*[12]

Rhoddai pob cyfraith hynafol werth uchel ar blant, ond, yn anochel, byddai eu *wergeld* yn cynyddu wrth iddynt dyfu'n hŷn, gan fod cyfran marwolaethau plant ifanc mor uchel bryd hynny.[13] Serch hynny, roedd cyfreithiau Harri'r Cyntaf yn cosbi menywod a erthylai eu babanod yn llym iawn, ac erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, roedd lladd plentyn cyn waethed â lladd oedolyn yn llygaid Cyfraith Loegr; gellid cosbi'r llofrudd â'r gosb eithaf.[14]

Ymddengys bod cyfraith y Gwyddel yn fwy amddiffynnol o blant na'r cyfreithiau Cymreig, fel y sylwodd Christopher McAll:

*Welsh law does not ... recognise in quite the same way as the Irish the special sanctity attaching to children in their first seven years, defined in Irish law as* <u>*grád maice,*</u> *"the status of childhood"...*[15]

Er hynny, y mae cyrraedd saith mlwydd oed yn drobwynt pwysig i blant yng Nghyfraith Hywel. Gallai plant o bob rhyw dyngu llw wedi cyrraedd yr oedran cyfrin

[10] GLGC, 124, t.279-80 ll.55-6
[11] David Nicholas, *The Evolution of the Medieval World* (New York, 1992) t.69
[12] Danièle Alexandre-Bidon & Didier Lett, *Children in the Middle Ages* (Notre Dame, Indiana 1999) t.10
[13] Nicholas, *op. cit.* t.162
[14] Orme, t.95

hwnnw, a byddai bachgen saith mlwydd oed bellach yn ddigon hen i dderbyn addysg gan offeiriad. Yr oedd saith mlwydd oed yn oedran pwysig yng ngweddill Gorllewin Ewrop hefyd, o ganlyniad i waith dylanwadol yr ysgolhaig o'r seithfed ganrif, Isodore o Seville - *Liber Etymologiarum.* Yn y geiriadur hwnnw, ceir darlun o 'gyfnodau' bywyd. Yn ei dyb ef, yr oedd person yn ei fabandod tan ei fod yn saith mlwydd oed, yn blentyn tan yn bedair ar ddeg, ac yn llanc neu'n llances tan ei fod yn wyth ar hugain. Addaswyd system Isodore sawl gwaith, ond ni wrthodwyd ei ddiffiniad o fabandod yn aml.

Ceir yr argraff o ddarllen Cyfraith Hywel fod rhieni yn gofalu am eu plant yn ofalus. Cawn syndod o weld pwyslais ar rôl y tad ym magwraeth ei blant mewn cyfreithiau patriarchaidd; disgwylid i dad gynnal plentyn yn faterol am flwyddyn a hanner pe bai'n gwahanu â'r fam. Diddorol yw gweld y pethau y credid eu bod yn hanfodol ar gyfer bywyd cynnar y baban, megis 'buuch llaethauc, a peys a talho pedeyr keynnyauc, a padell a talho keynnyauc ...'[16] Pe bai'r rhieni'n aros gyda'i gilydd ( a hynny oedd y norm), byddai merch yng ngofal ei thad tan ei bod yn ddeuddeng mlwydd oed, a lle'r mab oedd 'urth noe e tat, a'e tat en arglwyd arnau' tan ei fod yn bedair ar ddeg mlwydd oed. [17] Ni fyddai ganddo hawl i gael eiddo tan ei fod yn hŷn na'r oedran penodedig hwnnw.

Yn ôl y gyfraith, yr oedd disgwyl i dad ddisgyblu ei blant a darparu gofal emosiynol yn ogystal â gofal materol drostynt. Yn ei lyfr *Children in the Middle Ages,* honna Nicholas Orme fod ffigwr Joseff, a dyfodd yn wrthrych cwlt yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn ymgorfforiad o'r tadau tyner a chariadus oedd i'w cael yn yr Oesoedd Canol.

*Saint Joseph was honoured because he remained chaste in his married life and he was not the natural father of Jesus. He was the symbol of the father who, outside of all ties of carnal filiation, defended his wife and child out of his love for God.*[18]

Gellir dadlau bod y drefn frodorol Gymreig yn decach na Chyfraith Loegr, gan nad oedd yn ffafrio'r mab hynaf; rhennid tir yn gyfartal rhwng pob mab. Fodd bynnag,

---

[15] Christopher McAll, 'The Normal Paradigms of a Woman's Life in the Irish and Welsh Law Texts', *The Welsh Law of Women,* gol. Dafydd Jenkins & Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980) t.7
[16] Ll t.28
[17] *Ibid.,* t.65
[18] Shahar, *op.cit.* t.63

problem wleidyddol fwyaf Cymru yn yr Oesoedd Canol oedd y byddai tir yn ymrannu'n fân freniniaethau tan y byddai'n ddiwerth. Nid yw'n syndod felly mai cyfraith tir Lloegr oedd y gyfraith Seisnig gyntaf i'w chroesawu a'i derbyn gan y Cymry.

Nid oedd Cyfraith Hywel yn gwahardd plant anghyfreithlon rhag etifeddu tir, ac yr oedd dyletswydd ar ddyn i gynnal plentyn a gafodd ar ôl beichiogi 'gureyc o luen a pherth'.[19] Yn ôl P.C. Bartrum yn ei lyfr *Welsh Genealogies,* yr oedd agwedd ryddfrydig y Cymry tuag at blant anghyfreithlon i'w gweld yn yr hen achau:

*Up to the time of the Edwardian Conquest, illegitimacy was an academic matter if it had any significance at all. In the older, narrative pedigrees it was usual to give a person's mother rather than wife, and in this way the question of legitimacy did not arise.*[20]

a diddorol yw sylwi ar agweddau'r beirdd tuag at blant anghyfreithlon mewn cerddi megis cywydd Iolo Goch i Lys Owain Glyndŵr. Ynddi, y mae plant Owain Glyndŵr yn ymddangos yn niferus:

*A'i blant a ddeuant bob ddau,*
*Nythaid teg o benaethau.*[21]

Ceir cofnod o dri phlentyn ar ddeg i Owain Glyndŵr yn yr achau, ond saith o'r rheiny yn unig oedd yn blant cyfreithlon iddo. Canodd Lewys Glyn Cothi fawl i'w ferch o ordderch, Gwenllian, a'i gŵr, Phylip ap Rhys. Y mae'r cerddi hynny'n cyfeirio'n aml at ei thad, gan brofi nad oedd y plant llwyn a pherth yn destun cywilydd iddo.[22]

Dadleua R.R. Davies nad yw'r agwedd *laissez faire* hon yn brawf o ddiffyg moesau rhywiol y Cymry, canys y mae Cyfraith Hywel yn mynnu safon uchel o ddiweirdeb, ac ymddygiad diwair o fewn priodas.[23] Y rheswm dros oddefgarwch y Cymry tuag at blant siawns, yn ei dyb ef, oedd mai sefydliad llac, anffurfiol oedd priodas yn y cyfnod; nid oedd yn llw annileadwy. Ar y cyfan, dyna oedd y drefn ledled Ewrop, er gwaethaf dysgeidiaeth yr Eglwys - cytundeb yn hytrach na sacrament oedd

[19] Williams (gol.), *op.cit.* t.27
[20] P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies* 1, (Cardiff, 1974) t.5
[21] GIG, X, ll. 85-86
[22] GLGC, 187, t.410
[23] R.R. Davies, 'The Status of Women and the Practice of Marriage in late-medieval Wales', *The Welsh Law of Women,* gol. Dafydd Jenkins & Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980) tt.93-114

priodas. Os byddai dyn a menyw yn cyd-fyw, byddai'r gyfraith Gymreig yn eu derbyn fel pâr priod, ac yr oedd hyn yn dân ar groen yr Eglwys Normanaidd. Gallai gŵr a gwraig wahanu'n weddol ddi-drafferth ar ôl saith mlynedd, neu gallai'r wraig ysgaru ei gŵr am un o'r tri rheswm canlynol:

*O glafri, ac eisseu kyt, a dryc anadyl* [24]

Ar ôl cytuno i ysgaru, rhennid y plant rhyngddynt, a dosberthid eu heiddo'n gyfartal.

Oherwydd y sefyllfa seml hon, roedd yn anochel y byddai'n gyffredin i ŵr neu wraig gael plant o fwy nag un uniad. Yr unig wahaniaeth a wêl Cyfraith Hywel yw'r gwahaniaeth rhwng plentyn a gydnabyddir gan ei dad, a phlentyn a wedir ganddo, ac y mae'r cyfreithiau'n manylu'n helaeth ar y dull symbolaidd y gallai tad arddel ei fab. Gwelwn bwysigrwydd cydnabod plentyn yn y gerdd 'Yr Haf' gan Ddafydd ap Gwilym. Yn y gerdd honno, mynega ei ddirmyg tuag at yr Eiddig yn drosiadol trwy ddweud mai'r Eiddig yw *cyswynfab* Adda, sef mab nad oedd Adda yn ei arddel.[25] Serch hynny, roedd y gyfraith ar adegau yn ffafrio plentyn o uniad sefydlog. Y cyntaf o dri rheswm a rwystrai teulu rhag diarddel mab oedd iddo gael ei genhedlu yn y 'gwely cyfreithlon' a chael ei fagu ar gost y tad am flwyddyn a diwrnod.[26] Newidiodd Siartr Cydweli yn 1356 o dan ddylanwad Cyfraith Loegr, a fynnodd yn y ddeuddegfed ganrif y dylai plentyn fod yn ffrwyth uniad priodas gyfreithlon er mwyn cael ei ystyried yn blentyn cyfreithlon.[27] Ond ymddengys na chafodd y gyfraith lawer o ddylanwad ar agweddau pobl. Cafodd Harri'r Cyntaf oddeutu ugain o blant anghyfreithlon, a chafodd ei fab dri ohonynt, o leiaf. Ni chafodd y plant llwyn a pherth eu trin yn union fel eu brodyr a'u chwiorydd cyfreithlon, ond, gyda chydnabyddiaeth y rhiant, gallent fwynhau statws a breintiau eu gwaedoliaeth.[28]

**Disgwyliadau gwahanol i fechgyn a merched**

Nid oedd disgwyl i ferch fwynhau ei hieuenctid am gyfnod hir; yr oedd meibion yng ngofal eu tadau tan eu bod yn bedair ar ddeg mlwydd oed, ond ni ddisgwylid i dad ofalu am ei ferch wedi iddi droi'n ddeuddeng mlwydd oed. Yn hynny o beth, y mae'r

---

[24] Stephen J. Williams & J. Enoch Powell (gol.), *Llyfr Blegywryd* (Caerdydd, 1942) t.64
[25] GDG, 24
[26] R. R. Davies, 'Property Interests', *op. cit.* Jenkins & Owen (gol.)
[27] Orme, t.56
[28] *Ibid.*, t.57

cyfreithiau Cymreig yn llawer llymach na'r rhai Gwyddelig o'r un cyfnod, yn ôl Christopher McAll.[29] Yng nghyfraith y Gwyddel, yr oedd pris anrhydedd plentyn yn uchel tan ei fod yn saith mlwydd oed, waeth beth oedd ei ryw a'i gefndir cymdeithasol. Byddai merch yn mwynhau yr un statws a breintiau â'i brawd tan y byddai'n ddeuddeng mlwydd oed yn Iwerddon, eithr hanner pris ei brawd fyddai *sarhaed* a *galanas* Cymraes ieuanc, a phan fyddai'n briod, un rhan o dair o werth ei gŵr fyddai'r taliadau hynny.

Yn ôl arfer yr oes, yr oedd merched yn priodi pan fyddent yn iau na'u darpar wŷr. O dan gyfraith Eingl-Sacsonaidd Lloegr, byddai merch yn gadael cartref ei thad ac yn symud i'r *mund,* sef i ofal ei darpar ŵr, ar drothwy ei glasoed.[30] Pedair ar ddeg yw'r oedran a bennir yng Nghyfraith Hywel i ferched briodi; unwaith y byddent wedi dechrau cael misglwyf, tybid eu bod yn barod yn seicolegol i briodi ac atgenhedlu. Ceir dau ddisgrifiad o ddatblygiad corfforol y ferch yn Llyfr Iorwerth; manylir ar ei haelodau rhywiol ac ymddengys mai cynhyrchu plant yw unig bwrpas y ferch yn llygaid y Gyfraith:

*...o'y pedeyr bluyd ar dec hyt e deu ugeyn bluyd e dele emduen.*[31]

Yn y gerdd *Morfudd a Dyddgu* gan Ddafydd ap Gwilym, dywedir mai 'mam ei blant' yw Morfudd i'w gŵr; ei dyletswydd oedd cynhyrchu plant iddo - plant a oedd bellach fel petaent yn eiddo iddo ef.[32]

Gall nifer o gyfreithiau Hywel ymddangos yn anffafriol tuag at fenywod i'r darllenydd modern. Y mae'r fenyw fel petai'n wrthrych ac yn eiddo yn hytrach nag yn fod dynol. Manylir ar dri thâl yn ymwneud â menywod; câi arglwydd dâl a elwid yn *amobr* ar gyfer pob merch o dan ei awdurdod pan fyddai'n cysgu â dyn am y tro cyntaf. Byddai gŵr yn talu *cowyll* i'w wraig newydd yn dâl am gymryd ei gwyryfdod, a thelid *agweddi* iddi pe bai'r uniad yn dod i ben o dan amgylchiadau penodol.

Yr oedd pwysau eithriadol ar fenywod i ymddwyn yn ddiwair yn yr Oesoedd Canol. Yr oedd yn hollbwysig nad oedd darpar wraig eisoes wedi cael perthynas rywiol, gan y gallasai fod yn feichiog â phlentyn rhywun arall. Mewn oes a roddai fri ar waedoliaeth, byddai hynny'n drychineb. Cyfrifoldeb tad y ddarpar wraig oedd sicrhau bod ei ferch yn ddiwair cyn cael gŵr iddi. Yr oedd trefnu priodas yn broses gymhleth o

[29] McAll, *op.cit.* t.7
[30] Henrietta Leyser, *Medieval Women* (London, 1995) t.47
[31] LlI t.66

gyfnewid arian, ond byddai'r taliadau'n ddiwerth pe bai'r gŵr neu'r darpar ŵr yn honni nad oedd y ferch yn wyryf. Gelwid ar y *cyfneseifiaid* (y teulu agosaf) i amddiffyn y ferch, ond os na chredid eu ple, ceid dull cyntefig, creulon o ddelio â thwyllforwyn:

*Os twyllvorwyn a geffir heb wat, y chrys a torrir tu rocdi a'e thrachefyn, ac odyna y gwr a dyry idi enderic gwedy iraw y loscwrn, ac or dichawn hi y attal herwyd y loscwrn, kymeret yn y hegwedi.*[33]

Wrth gwrs, rhaid petruso cyn gweld y cyfreithiau fel adlewyrchiad cywir o arferion yr oes, ond gellir tybio i'r prawf gwyryfdod gael ei ddefnyddio'n helaeth yn yr Oesoedd Canol, gan ei fod yn fotiff poblogaidd mewn llenyddiaeth Hindwaidd a Moslemaidd yn ogystal â llên y gorllewin.[34] Mae'n debyg mai adlais o brawf gwyryfdod yw'r prawf a roddir i Arianrhod ym mhedwaredd gainc y Mabinogi, a'r weithred o dorri'r crys yn chwedl Tegau Eurfron eto'n adleisio'r arfer.

O ganlyniad i obsesiwn y gymdeithas â diweirdeb, rhoddwyd pwyslais ar ddiweirdeb y Forwyn Fair. Er mor bwerus oedd delwedd Mair fel mam, ei phrif rinwedd, bellach, oedd ei gwyryfdod. Yng ngherdd Siôn Cent iddi, cawn y llinellau canlynol:

*O buost, er bost i'r byd,*
*Feichiog heb ddim afiechyd,*
*Cedwaist, mawr egluraist glod,*
*Fair wendeg, dy forwyndod.*[35]

Aeth diwinyddwyr i gryn drafferth i esbonio sut y gallai Mair fod yn forwyn ac yn fam ar yr un pryd. Mewn cerdd gan un o gyfoeswyr Iolo Goch i Sioasym, Anna a Mair, ceir yr esboniad canlynol:

*Bu Fair, o'r gair yn ddi-gêl,*
*Yn feichiog, o nef uchel.*
*Mal yr haul y molir hon*
*Drwy ffenestr wydr i'r ffynnon.*
*Yr un modd, iawnrhodd anrheg,*

---

[32] GDG, 79
[33] Williams & Powell (gol.), *op. cit.* t.61
[34] Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wyryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999) t.5
[35] T. Matthews (gol.), *Gwaith Siôn Cent* (Llanuwchllyn, 1914) tt. 42-4

*Y daeth Duw at famaeth deg ...* [36]

Byddai'r eglwys yn annog dynion i gadw eu gwyryfdod, eithr rhinwedd fenywaidd oedd gwyryfdod yng ngwaith Tadau'r Eglwys dro ar ôl tro.[37] Beiwyd Efa am gwymp y ddynoliaeth; yr oedd menywod yn demtwragedd naturiol, felly roedd arnynt ddyletswydd i aros yn ddiwair. Serch hynny, y mae'r ffaith fod adran arbennig wedi ei chlustnodi ar gyfer menywod yn y cyfreithiau yn profi na chawsant eu hamharchu a'u diystyru'n llwyr.

**Diniweidrwydd Plant**

Am ddau fileniwm, bu gwrthdynnu rhwng dau ddarlun o blant. Ar y naill law, ceid darlun delfrydol o blant yn gwisgo dillad gwynion mewn gweithiau celf, yn symbol o'u purdeb a'u diniweidrwydd. Roedd y byd yn llawn drygioni, ac roedd yn anochel y byddai plant yn cael eu llygru ganddo wrth dyfu'n hŷn, ond natur dda oedd gan bob plentyn yn y bôn. Ar y llaw arall, y mae sawl ffynhonnell ganoloesol, yn weithiau addysgol neu foesegol â gogwydd grefyddol, yn cyflwyno agweddau gwrthun, yn ein golwg ni, tuag at blant. Fe'u seiliwyd yn bennaf ar waith Aristotlys; credai ef mai plentyndod oedd y cyfnod isaf ym mywyd dyn, gan fod y plentyn yn anghyflawn. Ni allai reoli ei gorff na meddwl yn rhesymol, a phleserau synhwyrus yn unig a gâi. Aeth Awstin o Hippo â'r ddadl gam ymhellach trwy ddweud fod natur ddrwg gynhenid gan blant, a'u bod wedi etifeddu pechod gwreiddiol Adda ac Efa. Genid babanod mewn pechod, canys ffrwyth cyfathrach rywiol eu rhieni oeddent.

Mae delweddau negyddol o blant i'w gweld yn yr Hen Destament, ond ceir y dadleuon mwyaf eithafol, a mynegiant o atgasedd llwyr tuag at blant yn llyfr y Pab Innocent III, *De Contemptu Mundi.* Yn ei dyb ef, roedd babanod yn is nag epil bwystfilod, oherwydd gallent hwy sefyll ar eu traed ar ôl eu genedigaeth. Ni allai baban gropian hyd yn oed.[38] Nid bodau pur, dilychwin oedd plant, ac felly byddai'n rhaid bedyddio baban a fu farw cyn cael ei eni, gan na ellid ei gladdu yn nhir sanctaidd yr eglwys os nad oedd sicrwydd yr âi i'r nefoedd. Yr oedd bedydd felly yn hanfodol, ac yr oedd hawl gan unrhyw un i fedyddio plentyn a oedd ar fin marw. Yn ôl nifer o ysgolheigion y cyfnod, âi eneidiau plant na chafodd eu bedyddio i fan a elwid yn

[36] Ifor Williams *et al., Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Bangor, 1925) Rhif XXXV
[37] Cartwright, *op. cit.* t.3
[38] Shahar, *op. cit.* t.15

'limbus inferni' - trothwy Uffern.[39] Yn Statud Orleans a luniwyd yn y nawfed ganrif, mae lladd baban nad oedd wedi cael ei fedyddio yn drosedd llawer mwy difrifol na lladd baban a fedyddiwyd, oherwydd yr oedd baban heb fedydd wedi ei amddifadu o fywyd tragwyddol, yn ogystal â'r bywyd daearol. [40]

Yr oedd llawer o syniadau negyddol eraill am blant yn tarddu o gyfnod cyn-Gristnogol.Y mae sawl hanesydd, a nifer o hen chwedlau, yn cyfeirio at ofergoel y 'mab symud' neu'r 'Changeling'. Pe bai baban yn wan, yn dioddef anhwylderau'n gyson, neu yn wylo'n ddi-baid, credai ei rieni fod y tylwyth teg wedi cipio eu baban, gan adael un o'u babanod dieflig hwy yn ei le. Er mwyn i'r tylwyth teg neu'r diafol ddod i'w gasglu, a dychwelyd y plentyn cywir atynt, rhaid oedd poenydio'r baban nes ei fod yn sgrechian ac yn wylo. Defnyddid dulliau artaith gan rai, a allai'n sicr arwain at farwolaeth y plentyn.[41] Tarddodd yr ofergoel mewn cyfnod cyn-Gristnogol; gwyddwn iddi fodoli ymhlith y Celtiaid, yr Almaenwyr a'r Slafiaid. Dan ddylanwad Cristnogaeth, newidiodd y tylwyth teg i fod yn gythreuliaid, a chynhaliwyd yr ofergoel o fewn yr eglwys. Hyd at y Diwygiad Protestannaidd, byddai bedydd fel arfer yn cynnwys proses o allfwrw'r Diafol, a chredid yn hir wedi hynny fod plentyn a wylai yn ystod ei fedydd yn rhyddhau'r Diafol o'i enaid.[42]

Fodd bynnag, er y credai'r Eglwys fod plant wedi eu maeddu â'r Pechod Gwreiddiol, bodolai darlun llawer mwy cadarnhaol ohonynt yn y Beibl. Ym Matthew 18.3, cawn eiriau adnabyddus yr Iesu: "Oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Yn y gerdd *Pearl* o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sydd yn ôl pob tebyg yn alarnad i ferch fach, pwysleisir diniweidrwydd y pleyntyn yn y nefoedd. [43]

Mewn gwirionedd, ni wyddwn a oedd syniadau Awstin a'i debyg yn gyffredin ai peidio. Yn fwy na dim, mae ofergoelion megis y 'mab symud' yn fynegiant o anwybodaeth pobl yr Oesoedd Canol am anableddau ac anhwylderau plant, a'u hofn a'u dryswch wrth ymgymryd â thasg mor fawr â gofalu am faban. Maent yn cyfleu diymadferthedd cymdeithas wrth wynebu unrhyw beth y tu hwnt i'r cyffredin.

---

[39] Orme, t.124
[40] Shahar, *op. cit.* t.17
[41] *Ibid.*, t.132
[42] Lloyd deMause, 'The Evolution of Childhood', *The History of Childhood* (New York, 1974) t.10
[43] Gw. Marwnadau Canoloesol i Blant, isod

**Y famaeth**

Heddiw, y mae sawl mudiad yn ymgyrchu'n frwd yn erbyn y cwmni *Nestlé,* gan ei fod yn ceisio annog menywod y trydydd byd i ddefnyddio eu llaeth powdr yn hytrach na llaeth y fron. Yma yn y gorllewin, fe'n dysgwyd gan feddygon, athrawon a thoreth o lyfrau arbenigol fod llaeth y fron yn fwyd llawer mwy maethlon i faban nag unrhyw gynnyrch artiffisial. Gwyddom hefyd am bwysigrwydd seicolegol y broses o fwydo â llaeth o'r fron, fel y nododd Dr. Richard Jolly yn ei ragair i lyfr Naomi Baumslag, *Milk, Money and Madness*:

*Conceiving and carrying a fetus connects a mother to her child genetically, but it is nurturing - and especially breastfeeding - that provides both mother and child with the powerful emotional connection.*[44]

Eithr nid oedd canllawiau o'r fath i gynorthwyo rhieni'r Oesoedd Canol. Gan amlaf, mam naturiol baban fyddai yn ei fwydo yn yr Oesoedd Canol a hynny oedd y 'norm', ond y mae tystiolaeth helaeth y byddai rhieni cefnog yng Ngorllewin Ewrop yn anfon eu babanod newydd-anedig at famaethau. [45] Aeth yr arfer yn ei flaen ymhlith lleiafrif amlwg - y dosbarth uchaf - tan y ddeunawfed ganrif yng Ngorllewin Ewrop, er y byddai llawer o fabanod yn marw o ganlyniad i esgeulustod y famaeth.[46] Yr oedd nifer o resymau am hyn; yn bennaf, sylwodd yr uchelwyr yn fuan ar effaith atal cenhedlol bwydo â llaeth o'r fron. Felly, pe defnyddid mamaeth, gellid cael cymaint ag un plentyn y flwyddyn ac roedd hyn yn fodd i deuluoedd cefnog ehangu eu grym, eu cyfoeth a'u dylanwad.

Nid oedd rhieni'r Oesoedd Canol yn sylweddoli y gallai perthynas emosiynol agos ddatblygu rhwng mamaeth a baban, ar draul y berthynas rhwng y baban a'i fam naturiol, neu efallai nad oeddent yn hidio am hynny. Ym marddoniaeth y cyfnod, gwelwn y famaeth yn ddelweddol i gyfleu gofal neu deimlad o ddiogelwch a bodlonrwydd. Yn y gerdd 'Moliant Llywelyn ap Gwilym', [47] dywed Lewys Glyn Cothi ei fod yn hapusach 'no mab mam ar ei famaeth' yng nghartref ei noddwr, ac y mae Dafydd ap Gwilym hefyd yn ei ddelweddu ei hunan fel baban yn y gerdd 'Breichiau

---

[44] Naomi Baumslag, *Milk, Money and Madness : The Culture and Politics of Breastfeeding* (Conneticut, 1995) t.xxii

[45] Defnyddir y gair 'mamaeth' i olygu *wetnurse,* a 'mam faeth' yn yr ystyr *foster mother*

[46] deMause, *op. cit.* t.34

[47] GLGC, 53

Morfudd' wrth ddisgrifio mwythau Morfudd yn 'famaethaidd'.[48] Mewn cerdd serch arall, 'Y Cusan' gan Ddafydd ab Edmwnd, disgrifir cusan ei gariad fel 'Sinamwm cusan mamaeth'. [49] Gwelwn y famaeth eto yn ffug farwnad Dafydd ap Gwilym i Rydderch. Ceir defnydd diddorol o'r gair er mwyn pwysleisio agosatrwydd y ddau gyfaill enwog, Amlyn ac Amig:

*Och Amlyn o'i dyddyn dig,*
*Alaeth mamaeth, am Emig;*[50]

Awgrymir fod galar mamaeth dros faban yn gryfach na galar mam naturiol, oherwydd hi a'i magodd.

Bu cryn feirniadu ar yr arfer o ddefnyddio mamaethau. Yn y Beibl, cythruddwyd Jeremiah gan fenywod ffasiynol a oedd yn amharod i fwydo eu plant o'r fron, a bu moesegwyr a meddygon yn beirniadu'r arfer ers dyddiau Galen a Plutarch,[51] ond nid pryder am berthynas y fam a'r plentyn oedd sail eu beirniadaeth. Yn hytrach, poenid y byddai llaeth 'estron' yn llygru'r baban. Credid fod bwydo o'r fron yn fodd o drosglwyddo cyneddfau a deallusrwydd llinach y fam i'r baban; yr oedd llaeth mamaeth felly'n israddol, gan mai taeoges fyddai hi gan amlaf. Parhaodd y gred hon yn rhinweddau llaeth y fron hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar blantaethau yn ne America, roedd yn gyffredin i gaethferched duon fwydo babanod eu meistri gwynion o'u bron, ond poenai rhai meistri y byddai'r caethferched yn trosglwyddo eu harferion, eu priod-ddulliau a'u hacenion i'r babanod trwy gyfrwng y llaeth.[52] O ystyried hyn, diddorol yw sylwi ar y disgrifiad canlynol o wraig Owain Glyndŵr yng ngherdd Iolo Goch i'w lys:

*Merch eglur llin marchoglyw,*
*Urddol hael anianol yw*[53]

Y mae defnydd y bardd o'r gair 'anianol' yn ddadlennol, oherwydd awgrymir fod ei wraig yn urddasol ac yn hael o ganlyniad i'w llinach aruchel. Clywn am ei phlant yn y

[48] GDG, 53
[49] Eurys I. Rowlands, *Poems of the Cywyddwyr* (Dublin, 1976) Rhif 13, ll.25-6
[50] GDG, 17, ll.15-6
[51] Baumslag, *op.cit.* t.5; gweler hefyd de Mause, *op. cit.* t.34
[52] Baumslag, *op. cit.* t.50
[53] GIG, X

llinellau nesaf; efallai y gobeithid y byddai'n trosglwyddo rhinweddau 'urddol hael' ei llinach iddynt hwy trwy gyfrwng llaeth ei bron.

Grym y Forwyn Fair oedd i'w gyfrif am wrthwynebiad Eglwys yr Oesoedd Canol i'r famaeth. Magwyd yr Iesu ar fron Mair, a dyletswydd holl fenywod yr Oeseodd Canol oedd dilyn ei hesiampl hithau. Mae'r darlun cynharaf a oroesodd o'r Forwyn Fair, sydd mewn beddrod o'r ail ganrif ger Milan, yn ei dangos â'r baban Iesu ar ei bron,[54] a chredid fod grym arbennig yn ei llaeth. Honnid fod peth ohono wedi'i gadw mewn ffiolau mewn sawl eglwys, a theithiai pererinion o bell ac agos i'w weld. Gyda thwf poblogrwydd y Sistersiaid, hyrwyddwyd y ddelwedd o'r Forwyn fel mam gyffredin. Yn yr Eidal a Ffrainc, nid oedd y forwyn ar orsedd yn y sêr bellach - roedd hi ar y llawr gyda'i phlentyn, yn ei fwydo fel y byddai taeoges yn ei wneud. Roedd y ffaith ei bod yn bwydo'r Iesu o'r fron yn ei gwneud yn fwy dynol, a chlosiodd ei dilynwyr tuag ati hi a'r Iesu oherwydd hynny.[55] Rhydd Lewys Glyn Cothi ddarlun clasurol o'r Forwyn Fair yn bwydo'r Iesu o'r fron yn ei gerdd 'Bendith ar Edudful ferch Gadwgon a'i Meibion':

*rhoddes, brenhines hoywnef,*
*ei bron wen yt, Brenin nef;* [56]

ac y mae cywydd anhysbys un o gyfoeswyr Iolo Goch yn rhoi darlun manylach o'r Forwyn yn magu'r Iesu:

*Hon a fagodd o'i bronnau,*
*Hynaws mawl o'r hanes mau,*
*Baich ar ei braich oedd ei brawd,*
*A'i baich a'n dug o bechawd.* [57]

Mae llenyddiaeth yr oes hefyd yn dyrchafu'r mamau meidrol hynny, megis Ida Fendigaid o'r Bwrgwyn, a fynnodd fwydo eu babanod eu hunain,[58] ac yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, ceir sawl darlun o 'fam ddelfrydol' yn bwydo ei phlant o'r fron. Yn ei farwnad i Gwladus ferch Syr Dafydd Gam, defnyddir y fron fel arwydd o fagwraeth,

[54] Marina Warner, *Alone of All Her Sex* (New York, 1976) t.103
[55] *Ibid.*, tt.181-2
[56] GLGC,168, ll.9-10
[57] Ifor Williams *et. al., Cywyddau Iolo Goch ac Eraill,* XXXV, ll.51-4

er na fyddai disgwyl i uchelwraig fel Gwladus fwydo ei phlant ei hun:

*a heddiw mae'n rhoddi medd*
*o fron honno'n frenhinedd* [59]

Honnai'r Iorciaid eu bod yn ddisgynyddion i Gwladus Du, felly mae'r llaeth a dderbyniant o fron eu mam yn arbennig ac yn frenhinol. Yng nghân fawl Lewys Glyn Cothi i Siasbar Tudur, dywedir mai *un fron yw hwn â'i frenin,*[60] oherwydd yr oedd ef a Harri Tudur yn rhannu yr un fam. Nid yw mawl Lewys Glyn Cothi i'r mamau hyn yn annisgwyl; mae'n debyg y byddai'r bardd wedi gwrthwynebu'r arfer o ddefnyddio mamaeth, gan iddo dderbyn addysg eglwysig. Roedd ffigwr y fam ddelfrydol, rinweddol i'w weld mewn rhyddiaith seciwlar hefyd. Enghraifft nodweddiadol yw mam Peredur - gwraig weddw, a chwech o'i meibion wedi eu lladd mewn brwydrau. Mae hi'n benderfynol o amddiffyn ei mab ieuengaf, Peredur:

*Gwreic kymen, ystrywys oed yn uam idaw. Medylyaw a wnaeth am y mab a'y gyuoeth. Sef a gauas yn y chyghor, fo a'r mab y ynialwch a diffeithwch ac ymadaw a'r kyuanned. Neb ny duc yn y chetymdeithas namyn gwraged a meibon a dynyon didraha diwala, ny ellynt ac ny wedei udunt nac ymladeu na ryueloed.*[61]

**Rhieni Maeth**

Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol, efallai na fyddai'r rhan fwyaf o fabanod yr uchelwyr yn cael eu hanfon at famaethau, ond byddent yn debygol o gael eu hanfon at rieni maeth ar ôl troi'n saith mlwydd oed. Gellid tybio nad oedd yn arferiad cyffredin yng Nghymru adeg llunio Cyfraith Hywel, gan mai cyfeiriadau bras yn unig at y pwnc sydd ynddi. Sonnir am fechgyn yn derbyn addysg gan offeiriaid, eithr nid yw'r ferch yn cwrdd â dylanwadau o'r tu allan i'w theulu. Mae'n debyg mai'r pwyslais mawr a rydd Cyfraith Hywel ar ddiweirdeb sydd i'w gyfrif am hynny. Cyfrifoldeb tad oedd sicrhau bod ei ferch yn ddiwair, ac ni allai fod yn sicr o hynny os oedd ei ferch wedi gadael y nyth pan oedd rhwng saith a phedair ar ddeg mlwydd oed. Roedd anfon plant at rieni maeth yn arferiad mwy cyffredin yn Iwerddon ymhlith pobl o bob dosbarth

---

[58] Mary Martin McLaughlin, 'Survivors and Surrogates: Children and Parents from the ninth to the thirteenth centuries', deMause, *op. cit.* t.116
[59] GLGC, 110 ll.27-8
[60] GLGC, 11, ll.8

cymdeithasol; y mae cyfraith y Gwyddel yn clustnodi adran ar ei phen ei hun i drafod y pwnc yn helaeth. Dysgwn am y ffioedd a delid i rieni maeth; byddent yn amrywio o dri *sét* yn ôl un testun cynnar (sef uned a oedd werth hanner buwch laethog).[62] Eithr, er nad yw'r cyfreithiau Cymreig yn manylu ar blant maeth, crybwyllir y pwnc mewn sawl testun diweddarach. Yn ogystal â hynny, yr un yw tarddiad y gair *cyfaill* a'r gair Gwyddelig *comaltae*, sy'n golygu perthynas maeth. Oherwydd hyn, cred Nora Chadwick a Myles Dillon bod yr arfer o roi plant ar faeth yn tarddu o gyfnod cynnar yn y byd Celtaidd.[63]

Yn nhyb sawl hanesydd, y mae'r arfer o anfon plant at famaeth neu rieni maeth yn profi nad oedd rhieni'r Oesoedd Canol yn caru eu plant, gan eu bod mor barod i'w rhoi yng ngofal pobl eraill. Fodd bynnag, dylid cofio eu bod yn byw mewn byd gwahanol iawn i'r byd modern. I ddechrau, yr oedd llawer o rieni'r cyfnod yn ifanc, ac yn gyffredinol, ychydig o addysg a dderbynient; byddent felly yn dilyn confensiynau'r oes yn ddigwestiwn yn eu hanwybodaeth. Yn ogystal â hynny, yr oedd strwythur cymdeithas yn wahanol. Nid uned gadarn, anwahanadwy oedd y teulu niwclear, ac yn hynny o beth, roedd cymdeithas yr Oesoedd Canol yn debyg i'n cymdeithas ni heddiw. Roedd bron i un plentyn o bob tri yn byw mewn teulu 'newydd' gyda llys-riant. Ond, marwolaeth cymar yn hytrach nag ysgariad oedd rheswm rhiant dros ail-briodi gan amlaf.[64] Felly, ni ddylid bod yn rhy feirniadol o'r arfer o roi plant ar faeth. Yng ngeiriau Anne Laurence:

*The early age at which children left home was evidence not of lack of affection, but of a belief that the family was a network of obligations, of which children were as much a part as adults. Sending children away was a way of extending the family's range of contacts, since many parents both dispatched their own children and received other peoples: they were not negating parental feelings.*[65]

Dylid ystyried natur bywydau'r uchelwyr hefyd; byddent yn teithio'n aml ac felly anodd fyddai darparu cartref a gofal sefydlog i'w plant. Nid dieithriaid fyddai'r rhieni maeth ychwaith; fe'u dewisid yn ofalus, oherwydd eu pwrpas oedd addysgu a chynnig

---

61 Glenys Witchard Goetinck, *Historia Peredur vab Efrawc* (Caerdydd, 1976) t.7
62 Myles Dillon & Nora Chadwick, *The Celtic Realms* (London, 1967)tt.133-4
63 *Ibid.*, t.138
64 Alexandre-Bidon & Lett, *op. cit.* t.54
65 Anne Laurence, *Women in England 1500 - 1760* (London, 1994) t.91

arweiniad moesol i'r plant yn eu gofal. Cyfeirir at yr arfer yn helaeth yn y Mabinogion. Anfonir Lleu at fam faeth, rhoddir Gwern ar faeth, ac ar ôl ei ddiflaniad hir, mae Pryderi yn cael ei anfon at ŵr o statws cymdeithasol uchel, sef Pendaran Dyfed. Pwysleisir yn y chwedlau mai er lles y plant y gwnaed hynny; mae Gwern ar faeth yn y 'lle goreu y wyr yn Iwerdon'. Lles y plant oedd symbyliad rhieni eraill dros roddi eu plant ar faeth, yn nhyb Nicholas Orme:

*Why should such motives have been selfish rather than altruistic: the wish for children to better themselves through aquiring skills and patronage?* [66]

Gan amlaf, byddai rhieni maeth yn gyfeillion i'r teulu, a'r arfer cyffredin yng Nghymru oedd anfon meibion at eu hewythrau. Dengys llenyddiaeth epig fod hynny'n arfer mewn gwledydd eraill hefyd. Megir Vivien gan ei ewythr Guillaume, a megir Trystan gan Marc.[67] Ceir sôn am y ffenomen yng ngherddi'r beirdd hefyd. Ym marwnad Dafydd Nanmor i Edmwnd Tudur, gwelwn mai dyletswydd Siasbar, brawd Edmwnd, oedd gofalu am Harri a chynnig arweiniad iddo wedi marwolaeth ei dad:

*Mae ar i nai, marw a wnaeth,*
*Eisiav ewythr, yssywaeth.*[68]

ac y mae cerddi Dafydd ap Gwilym i'w ewythr Llywelyn ap Gwilym yn brawf o'r berthynas agos a allai ddatblygu rhwng ewythr a nai. Yn ei gerdd fawl iddo, cawn ddarlun o'r llys bywiog a fu'n gartref i Ddafydd, a mynegir parch tuag at y gŵr, y gallwn dybio, a'i magodd ac a'i haddysgodd:

*Lle cymyrrawdd cawdd i'm coddi - nid caeth,*
*Llywodraeth a wnaeth, a maeth i mi.*[69]

Yn ei farwnad i'w ewythr, gwelwn ergyd drom marwolaeth ei ewythr arno:

*Fy nghanllaw, y'm gadawud,*
*Fy nghâr am aur, fy ngharw mud* [70]

---

[66] Orme., t.309
[67] Alexandre-Bidon & Lett, *op.cit*, t.44
[68] Thomas Roberts, *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, 1923) XV, ll.5-6
[69] GDG, 12, ll.15-6
[70] GDG, 13, ll.15-6

Y mae perthynas arbennig y nai a'r ewythr i'w gweld mewn sawl chwedl Gymraeg hefyd, megis *Peredur* a *Math fab Mathonwy*. Cyfeiriodd Gerallt Gymro at agosatrwydd teuluoedd maeth[71] ac yn aml yn y canu mawl, y mae rhieni maeth yn ddelweddau sy'n cyfleu croeso a chysur. Yn y gerdd 'Mawl i'r Haf' gan Ddafydd ap Gwilym, defnyddir *tadmaeth* yn drosiadol i gyfleu llawnder a bwrlwm yr haf:

*Tadmaeth wyd, proffwyd priffyrdd,*
*Teml daearlwyth, garddlwyth gwyrdd.*[72]

Yn ogystal â hynny, ceir trosiad o'r tad maeth i gyfleu haelioni ei noddwyr Ifor Hael a Ieuan Llwyd. [73] Ceir y defnydd trosiadol mwyaf trawiadol o blant maeth yn y gerdd 'Y Mab Maeth'. Yn y gerdd honno, y mae'r 'mab maeth' yn ddelwedd estynedig i gynrychioli'r cariad a fagodd tuag at Forfudd; *Tadmaeth serch y ferch* yw Dafydd:

*Mab anodd, mi a boenais,*
*I'w feithring yw fyth rhwng ais.*
*Aflonydd yw fo 'leni*
*Y mab a fegais i mi.*[74]

Yng nghân fawl Lewys Glyn Cothi i Lywelyn ap Gwilym, cawn ddarlun cadarnhaol o dad maeth i gyfleu croeso a gofal ei noddwr amdano:

*E'm magodd â'i rodd nai Rhys,*
*E'm gwnaeth yn fab maeth moethus;*[75]

Gan amlaf, byddai bechgyn yn dychwelyd at eu rhieni naturiol pan fyddent oddeutu dwy ar bymtheg mlwydd oed, ond byddai cyswllt annatod wedi ei greu. Yr oedd disgwyl i blant maeth gynnal eu rhieni maeth pan fyddent yn hŷn, ac yn aml, byddai perthynas emosiynol agosach rhwng brodyr a chwiorydd maeth na'r rhai a berthynai drwy waed. Yn ei farwnad gan Peryf ap Cedifor, disgrifir Hywel ab Owain Gwynedd yn ymladd gyda'i frodyr maeth:

---

[71] Mc Laughlin, *op. cit.* t.170
[72] GDG, 27, ll.19-20
[73] GDG, 11 ac 14
[74] GDG, 104, ll.37-40

*Dielid Mab Duw ddygn alaeth - Hywel,*
*Hawl Echel (och arfaeth*
*Am ledrad frad freuolaeth!)*
*Ef a'i frodyr, mawrwyr, maeth.*[76]

Darlun cadarnhaol o deuluoedd maeth a welwn yn y rhyddiaith hefyd; dengys y chwedlau y berthynas agos a allai ddatblygu rhwng plant maeth â'i gilydd, a phwysigrwydd teuluoedd maeth yn y cyfnod. Brodyr maeth Matholwch sydd yn edliw gweithred dreisgar Efnisien, gan droi Matholwch yn erbyn Branwen, a phan fo Gronw ar fin cael ei ladd yn *Math Uab Mathonwy*, geilw ar frawd maeth i gymryd ei le. Mae clymau emosiynol rhwng brodyr maeth â'i gilydd i'w gweld mewn chwedlau Gwyddelig hefyd, megis *Táin Bó Cualnge.*[77] Felly, nid oedd plant a fagwyd gan rieni maeth yn cael eu hamddifadu o gariad a gofal. Ni ellir ffurfio barn am deimladau pobl yr Oesoedd Canol ar sail tystiolaeth am rieni yn unig; roedd canghennau eraill o'r gymdeithas - rhieni maeth, yr eglwys a'r teulu estynedig - yn darparu gofal a oedd yr un mor agos.

Erbyn y bymthegfed ganrif, gwelwn dwf yn y cerddi am frodyr, megis cerdd Tudur Penllyn i dri mab Llywelyn Fychan o Iâl. Y mae'r gerdd honno'n dathlu perthynas agos y tri brawd, gyda llinellau megis:

*Teirw a'u sâl rhwng tir a sêr,*
*Tyrau brwydr fydd tri broder;*
*Tri a eilw am waith Troelus,*
*Tri phenaig a'u teirffon us;*[78]

Efallai bod cerddi o'r math hwn yn arwydd o ddirywiad yr arfer o roi plant ar faeth ac y byddai teuluoedd bellach yn cael eu magu ar yr un aelwyd. Cyn hynny, y mae'n bosib na fyddai brodyr o'r un teulu yn adnabod ei gilydd yn dda, gan y byddent wedi cael eu hanfon ar faeth i gartrefi gwahanol.

---

[75] GLGC, 53, ll.17-20
[76] *Gwaith Llywelyn Fardd I ac eraill*, CBT II, 21, ll.9-12
[77] Dillon & Chadwick, *op. cit.*
[78] Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, (Caerdydd, 1958) t.16

**Astudiaethau Haneswyr ar blant yn yr Oesoedd Canol**

Nid mater syml yw ysgrifennu am blant yn yr Oesoedd Canol. Yn gyntaf, nid oes dim a ysgrifennwyd gan blentyn o'r Oesoedd Canol wedi goroesi, felly rhaid edrych ar blentyndod trwy lygaid oedolion. Er eu bod hwy, wrth gwrs, wedi bod yn blant eu hunain, ni chawn ddarlun 'byw' o brofiadau plant yn yr Oesoedd Canol ganddynt, ac fel y gwelwyd eisoes, ymddengys i nifer o'r awduron clerigol a ysgrifennai am blant arddel syniadau dirmygus amdanynt. Problem arall yw'r diffyg tystiolaeth am blant o ddosbarthiadau isaf cymdeithas; plant yr uchelwyr a welwn yn y llenyddiaeth, yn ddi-ffael.[79] Rhaid ystyried hefyd fod bywydau plant yn amrywio o wlad i wlad, ac o ardal i ardal hyd yn oed. Gwahanol iawn, er enghraifft, fyddai bywyd plentyn o winllannoedd Ffrainc neu ardal wledig, amaethyddol yng Nghymru i fywyd plentyn yn Llundain.

O ganlyniad i brinder y dystiolaeth yn y maes, y mae haneswyr, cymdeithasegwyr ac arbenigwyr ar ddatblygiad plant yn rhydd, fwy neu lai, i ddehongli'r dystiolaeth brin mewn ffyrdd amrywiol. Daeth sawl un i'r casgliad mai yn yr Oes Fodern y datblygodd y syniad o blentyndod fel cyfnod unigryw, ac nad oedd pobl yn caru eu plant nac yn gofalu amdanynt yn dyner tan yn gymharol ddiweddar. Ymddengys bod y gred honno'n dal i fodoli yn ein diwylliant poblogaidd; mewn colofn yn *The Guardian* ym mis Mai 2001, trafododd Jeanette Winterson fywydau rhywiol plant yn eu harddegau, gan ganolbwyntio ar achos a hawliai sylw'r cyfryngau ar y pryd, sef y ferch feichiog 13 oed o Rotherham na wyddai pwy oedd tad ei phlentyn, o bum dyn posib. Honnodd ei haelod seneddol mai pwysau ar bobl ifanc i dyfu'n oedolion yn rhy ifanc oedd gwraidd y broblem, ond gwadodd Jeanette Winterson yr honiad yn ffyrnig:

*The 19th century invented childhood, so that it could sentimentalise its own brutality. Throughout history, kids have always been little adults, expected to contribute to the family economy and usually to marry very young. What we call progress... has not produced happier, stable individuals who make good spouses and parents.*[80]

Mae'n debyg mai Philippe Ariès a blannodd hedyn y syniadau hynny am blentyndod yn yr Oesoedd Canol. Yn ei lyfr *L'Enfant et la vie familiale sous l'ancien*

---

[79] Gw. Gwaedoliaeth a Magwraeth, isod.

[80] Jeannette Winterson, 'Who's guilty of teenage sex', *The Guardian* Mai 15 2001 (gweler archif y wefan *www.guardian.co.uk*)

*régime,* a gyhoeddwyd yn 1960, canolbwyntia'n helaeth ar syniadau ac arferion negyddol y cyfnod. Tybia Ariès na theimlai pobl yr Oesoedd Canol gyswllt emosiynol â phlant, gan honni:

*People could not allow themselves to become too attached to something that was regarded as a probable loss*[81]

Craidd dadleuon Ariès yw fod y darlun o blant mewn gwaith celf canoloesol yn brin ac yn anrealistig; yn ei dyb ef, yr oedd artistiaid y cyfnod yn gweld plant fel 'oedolion bychain' ac felly yn eu portreadu yn y dull hwnnw:

*This undoubtedly means that the men of the tenth and eleventh centuries did not dwell on the image of childhood, and that the image had neither interest nor even reality for them. It suggests too that in the realm of real life, and not simply in that of aesthetic transposition, childhood was a period of transition which passed quickly and which was quickly forgotten.*[82]

Ond gwrthodwyd y ddadl hon yn ffyrnig gan sawl hanesydd megis Lloyd deMause - cyhuddodd Ariès o adael celf yr henfyd mewn *limbo*, ac o ddiystyru toreth o ddarluniau canoloesol realistig o blant.[83] Yn y drydedd ganrif ar ddeg, darluniodd artistiaid Carolignaidd, Otomanaidd a Romanésg blant mewn modd ffafriol,[84] ac mae darluniau Jehan de Grise ar gyfer Rhamant Alecsandr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn dangos ymwybyddiaeth o blentyndod fel cyfnod unigryw ar ei ben ei hun, trwy bortreadu plant yn gwneud yr hyn a ddaw'n naturiol iddynt, sef chwarae.[85]

Yn hytrach na chydnabod fod cofnodion am blant yr Oesoedd Canol yn brin, dewisodd Philippe Ariès ddefnyddio tystiolaeth negyddol a ddaeth o du'r rhai nad oedd yn gyfarwydd â phlant, sef y clerigwyr. Dewisodd gyffredinoli a chreu gorffennol wrth lunio ei ddarlun tywyll, a phardduo ei dystiolaeth â'i ragdybiaethau. Nid oes llawer o ddogfennau sy'n trafod perthynas rhieni â'u plant i'w cael - anodd fyddai llunio dogfennau o'r fath oherwydd natur agored a diffyg preifatrwydd cartrefi'r Oesoedd

[81] Philippe Ariès, *L'Enfant et la vie familiale sous l'ancien régime* (Paris, 1960); arg. Saesneg, *Centuries of Childhood* (New York, 1962) t.37
[82] *Ibid.*, t.32
[83] deMause (gol.), *op. cit.* t. 5
[84] Shahar, *op. cit.* t.95

Canol - ond nid yw hynny'n profi nad oedd rhieni'r Oesoedd Canol yn caru eu plant. Yn ogystal â hynny, nid ystyria Ariès y ffaith fod cyfran helaeth o'r boblogaeth yn anllythrennog ar y pryd, ac nad oedd modd i lawer o bobl fonheddig, hyd yn oed, fynegi eu teimladau ar bapur.Trosglwyddwyd hwiangerddi a'r caneuon mwyaf addfwyn a thyner gan rieni i'w plant ar lafar, ac mae'n hollol debygol fod toreth werthfawr ohonynt wedi mynd yn angof drwy'r canrifoedd.

Un gerdd i blentyn nad aeth yn angof, ac sydd yn gwrth-brofi nifer o honiadau Ariès yw 'Pais Dinogad'. [86] Nid cerdd o'r Oesoedd Canol ydyw - gellir tybio i'r fersiwn ohoni a oroesodd yn Llyfr Aneirin gael ei chofnodi yn y seithfed ganrif - eithr mae'n debyg ei bod yn perthyn i gyfnod cynharach na hynny. Ceir cyfeiriad at Raeadr Derwennydd yn yr Hen Ogledd ynddi, a sonnir am anifeiliaid a drigai yn yr ardal honno sydd bellach wedi hen ddifodi. Yn ôl John T. Koch, mae hi'n gerdd hynafol iawn:

*...this verse is better understood as being composed in a language that was the common Brittanic ancestor of both Welsh and Breton.* [87]

Yr hyn sydd yn arbennig am y gerdd yw ei bod wedi ei llunio o safbwynt mam yn cyfarch ei phlentyn, yn adrodd hanes ei dad yn mynd i hela. Dynion oedd awduron y marwnadau i blant sydd yn ein meddiant, ond clywn lais menyw yn 'Pais Dinogad' (neu efallai mai gwryw yn canu *in persona* ydyw, megis yng Nghanu Heledd). Yn ogystal â hynny, rhydd y gerdd ddarlun o rôl addysgol y fam. Dim ond bwydo eu babanod a wna'r mamau yn y canu mawl gan amlaf, ond yma, mae'r fam yn cyfathrebu â'i phlentyn ac yn hybu ei ddatblygiad meddyliol.

Ni wyddwn yn union beth oedd swyddogaeth 'Pais Dinogad'. Yn ôl Gwyn Thomas, mae'n bosibl nad mam y plentyn a gyfansoddodd y gerdd, oherwydd un o ddyletswyddau'r bardd teulu oedd canu i'r frenhines pan fynnai hi hynny. [88] Gallai hefyd fod yn farwnad i dad y plentyn; cyfeirir at y tad yn amser y gorffennol trwy gydol y gerdd. Fodd bynnag, 'Hwiangerdd' yw'r teitl a rydd Thomas Parry arni ym Mlodeugerdd Barddoniaeth Rhydychen, a byddai'n deg tybio mai dyna, yn syml, oedd 'Pais Dinogad'. Prin iawn yw'r dystiolaeth ysgrifenedig o hwiangerddi tan y cyfnod modern, ond mae canu yn ffordd effeithiol i fam dawelu a chysuro ei baban. Gallwn

---

[85] Orme, t.166
[86] Thomas Parry, *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962) t.8
[87] John T. Koch, *The Gododdin of Aneirin* (Cardiff, 1997) t. ixxxi

dybio i famau ganu i'w plant ers cyn cof, a bod 'Pais Dinogad' yn rhan o draddodiad cyfoethog a gollwyd.

Mae 'Pais Dinogad' yn cyfleu agosatrwydd a thynerwch rhwng rhiant a phlentyn mewn ffordd nas gwelir tan y marwnadau i blant, ar ddiwedd yr Oesoedd Canol. Yn nhyb Nicholas Orme, mae hi'n gerdd arbennig o bwysig:

*It is informative about things outside the home - terrain, animals, and hunting - and might, if the child was old enough, fire its imagination. It suggests that far more words and ideas passed between medieval adults and young children than have been recorded.*[89]

Yn sicr, mae'r gerdd yn chwalu unrhyw ddamcaniaethau syml am agweddau rhieni tuag at blant yn y gorffennol, a honiadau Ariès fod plant yn derbyn mwy o sylw wrth nesu at y cyfnod modern. Byddai rhagor o enghreifftiau tebyg yn sicr yn cyfoethogi'r darlun o blentyndod yn yr Oesoedd Canol.

Bellach, nid ystyrir Philippe Ariès yn awdurdod ar blentyndod yn yr Oesoedd Canol, ac mae'r cyfieithiad Saesneg o'i lyfr allan o brint. Ond, bu ei waith yn eithriadol o bwysig er mwyn codi dadleuon ynglŷn â phlentyndod yn yr Oesoedd Canol, a magu diddordeb haneswyr yn y pwnc. Ceir rhai o'r dadleuon mwyaf argyhoeddiadol yn erbyn ei waith gan Shulamith Shahar. Yr hyn sy'n clymu dadleuon Shahar ynghyd yn ei llyfr *Childhood in the Middle Ages,*[90] yw ei ffydd ddiysgog yn y ddynoliaeth a greddfau naturiol i ofalu am blant.

*No society could physically survive without a tradition of child-nurturing. And no society with any awareness of its own essence and aims could endure as a society without ways of transmitting knowledge and cultural traditions during the late stages of childhood, and without an effort on the part of those entrusted with the task of socialization of the young generation.*[91]

---

[88] Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976) t.51
[89] Orme, t.134
[90] Shahar, *op. cit.*
[91] *Ibid.*, t.1

Fodd bynnag, nid oedd gwaith Shahar wrth fodd rhai haneswyr, ychwaith. Fe'i beirniadwyd gan James A. Schultz, am iddi ei seilio ar ddamcaniaethau seicolegol Erik Erikson:

*Having filled the gaps with modern elements, she can then write about medieval childhood as if it really were modern childhood. The psychological historians take modern categories for timeless truths, transport them into the past, and then act as if the imports were indigenous.*[92]

Cyfeiria Schultz at astudiaeth gynharach yn y maes a oedd hefyd yn or-ffyddiog yn y natur ddynol. Yn 1868, cyhoeddodd Ignaz Zingerle *Das deutsche kinderspiel im Mittelatler* (Gemau Plant Almaenig yn yr Oesoedd Canol). Dadleuai fod babanod yr Oesoedd Canol yn chwarae â theganau rhuglo, neu forthwylion sinc, er nad oes cyfeiriad atynt i'w ganfod yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Mae'n sicr iddynt fodoli bryd hynny - 'since so little changes in the world of children'.[93] Nid yw Zingerle na Shahar yn cydnabod fod digwyddiadau hanesyddol, addysg, crefydd a sefyllfa'r gymdeithas ar y pryd yn dylanwadu ar arferion pobl. Yn yr un modd, defnyddia Nicholas Orme y geiriau 'as we do today' yn aml yn ei lyfr *Medieval Children,*[94] ac mewn erthygl yn *The Daily Express* am y Nadolig yn yr Oesoedd Canol, rhydd ormod o bwyslais ar debygrwydd arferion yr Oesoedd Canol a rhai yr Oes Fodern, yn hytrach na'r gwahaniaethau:

*The New Year presents that medieval children received were remarkably like modern Christmas ones. Edward II got his equivalent of the Harry Potter castle in 1290, when he was six - a beautiful painted castle made by his cook.*[95]

Fodd bynnag, er mor gadarnhaol yw'r darlun o blant mewn nifer o ddogfennau canoloesol, nid oes modd cuddio'r gwirionedd; roedd byd yr Oesoedd Canol yn wahanol iawn i'r byd datblygedig heddiw (er, wrth gwrs, fod rhai cymdeithasau sydd heb newid eu credoau a'u ffordd o fyw ers miloedd o flynyddoedd ). Roedd yn fyd treisgar, ble yr oedd cosbau corfforol a'r gosb eithaf yn dderbyniol. Amddifadwyd nifer

---

[92] James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995) t.6
[93] *Ibid.*, t.5
[94] Orme

o blant anghyfreithlon, ac ni chafwyd system i ofalu amdanynt tan y cyfnod modern. Nid oedd sensoriaeth o fewn cymdeithas; gallai plant fynychu tafarndai a gallent wylio pobl yn cael eu crogi. Gosodwyd hwy wyneb wrth wyneb â rhai o elfennau caletaf bywyd o oedran cynnar. Yn ôl Schultz, rhaid delio â hyn os am geisio cyflwyno gwir ddarlun o blentyndod yn yr Oesoedd Canol:

*... if we are interested in the history of childhood, we must note the differences as well as the similarities; we must acknowledge the unattractive as well as the attractive; above all we must respect the complex integrity of the knowledge of childhood in past times.*[96]

Felly, nod y traethawd hwn yw trafod y darlun o blant yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, boed yn ddarlun ffafriol neu anffafriol. Ystyrir y ffactorau a arweiniodd at newid yn agweddau pobl tuag at blant, a cheisir penderfynu a fu rhai digwyddiadau arbennig yn yr Oesoedd Canol yn sbardun i'r cyfan.

---

[95] Nicholas Orme, 'Festivities have always dragged on - for ages' *The Daily Express*, 31 Rhagfyr 2001
[96] Schultz, *op. cit.*, t.20

## Pennod 2

## Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant

Wrth ymchwilio i'r deunydd ar gyfer yr adran hon, syndod oedd gweld prinder termau i ddisgrifio plant a babanod yn yr Oesoedd Canol. Y mae'r un prinder i'w weld mewn ieithoedd eraill; yn y Ffrangeg, benthyciad o'r gair Eidaleg 'bambino' yw'r gair 'bambin', ac ni chafwyd y gair safonol 'bébé' tan y benthycwyd y gair Saesneg 'baby' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. 'Baban' yw'r ffurf Saesneg gynharaf o'r gair a gofnodwyd, a chredir iddo darddu o ymdrechion oedolion i efelychu sŵn babanod. Roedd termau eraill yn y Saesneg i ddisgrifio plant hŷn yn amwys; defnyddid y gair 'maid' i ddisgrifio marchogion diwair, ac ar un adeg, roedd 'girl' yn cyfeirio at blentyn o unrhyw ryw (Orme, t.6). Awgryma Philippe Ariès nad oedd plant yn bwysig i bobl yr Oesoedd Canol oherwydd nad oedd termau clir ganddynt i'w disgrifio (Ariès, tt.23-6), ond gellir ystyried rheswm arall dros y diffyg hwn. Mewn diwylliannau cynnar, bodolai ofergoeliaeth ynghylch plant, a chyfran eu marwolaethau mor uchel, ac yr oedd credoau am fodau megis y *changeling* yn boblogaidd (gw. y Cefndir Hanesyddol, uchod). Credai pobloedd yr Aztec, er enghraifft, y byddai Ciuapipitlin yn cipio eu plant pe baent yn siarad amdanynt. Dengys y nofel *So Far From God* gan Ana Castillo (The Women's Press, Great Britain 1994) fod yr ofergoel honno yn fyw hyd heddiw ymhlith disgynyddion yr Aztec. Efallai mai ofergoeliaeth debyg yw'r rheswm dros amwysedd termau pobloedd Gorllewin Ewrop am blant. Ond ni ellir bod yn sicr ynglŷn â hynny, felly taro golwg dros ddatblygiad geiriau Cymraeg sy'n ymwneud â phlant a wneir yn yr adran hon, yn nhrefn yr wyddor, gan ddefnyddio diffiniadau *Geiriadur Prifysgol Cymru* (GPC).

**Baban**

Yn GPC, cawn y diffiniad canlynol o'r gair *Baban:*

[amrywiaeth ar *maban* tan ddyl. S. *babe*, Crn. *baban*]
*Plentyn newydd-eni neu ieuanc iawn...*
(GPC,t.245)

Gwelwn *maban* yn Llyfr Aneirin, yn golygu *mab* (gweler isod), ond yr enghraifft gynharaf sydd gennym o'r gair *baban* yw'r llinell isod gan Ddafydd ap Gwilym, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg:

*Buarth baban yr annwyd*
(GDG, 140)

Gwelwn y term *buarth baban* yng ngwaith Lewys Glyn Cothi hefyd:

*buarth baban rhag annwyd,*
*bord glo rhwng dau bared glyd;*
(GLGC, 146 ll. 5-6)

Term o'r iaith lafar y byddai mamau yn ei ddefnyddio oedd *buarth baban.* Camddehonglwyd y term gan William Owen Pughe yn ei eiriadur; yn ei dyb ef, 'a baby ring, a lighted stick turned around to divert a child' ydoedd (*A National Dictionary of the Welsh Language*, Cyfrol 1 (Dinbych, 1803) t.245) - dull braidd yn beryglus o ddiddanu baban! Credir bellach mai rhyw fath o gawell, megis *playpen* i ddiogelu baban, a'i rwystro rhag cropian o olwg ei fam, oedd y *buarth baban.* Gellir tybio i'r gair *baban* ledu yn ei ddefnydd trwy gyfrwng y term hwnnw, eithr ni cheid y gair *baban* ar ei ben ei hun yn yr Oesoedd Canol. Y mae defnydd William Salesbury ohono yn llawer mwy diweddar. Yn ei eiriadur o'r unfed ganrif ar bymtheg, (DEW), ceir y diffiniad canlynol o'r gair:

*baban*, a babe.

Ceir y defnydd nesaf o'r gair gan R.Vaughan yn 1630, yn ôl GPC.

**Bachgen**

Gair diweddarach na 'baban', ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig, yw 'bachgen'; ceir y diffiniad canlynol o'r gair yn GPC:

*Plentyn gwyryw, hogyn, crwt, llanc, gwas, gŵr ifanc, mab, gŵr mewn oed.*
(GPC, t.247)

Ni chawn darddiad y gair yn GPC, ond gellir tybio mai o'r Frythoneg yn hytrach nag o unrhyw iaith fwy diweddar y daeth.

Dylid cofio nad yw llenyddiaeth yn adlewyrchu iaith lafar y cyfnod bob amser. Nid yw'r gair 'bachgen' yn ymddangos yn y chwedlau rhyddiaith, er y defnyddid geiriau cyfoes ynddynt yn aml. Yr oedd beirdd proffesiynol yn geidwadol, ac yn amharod i gynnwys geiriau byw, poblogaidd yn eu gwaith. Felly, daw'r enghraifft gynharaf o'r gair 'bachgen' o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yng ngherdd ddychan Trahaearn Brydydd Mawr i Gasnodyn:

*Diadurn seicuurn soevwch yw bryntyn is bechgyn eis bachgwch.*

Mae'r gerdd i'w chael yn Llyfr Coch Hergest (c.1400), ond mae'n debyg ei bod yn perthyn i gyfnod oddeutu 1320. Cywair masweddus a iaith ddigon amrwd oedd gan gerddi dychan yn aml, felly dewisa Trahaearn ddefnyddio'r gair *bechgyn* yn hytrach na therm mwy parchus megis *meibion*. Ceir golygiad o'r testun yn *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur etc*, CBU (N.G. Costigan *et al.* (gol.), Aberystwyth, 1995 t. 110.) Ni allai'r golygydd ddeall y gyffelybiaeth aneglur, felly cyfieithiad llythrennol o'r llinell a geir yn y gyfrol.

Yn wahanol i'r beirdd, yr oedd William Salesbury yn barod i gynnwys elfennau ieithyddol byw a chyfoes yn ei waith, er ei fod yn ysgolhaig mawr ac yn ieithydd penigamp. Yn ei eiriadur, y mae *bachken* yn gyfystyr â *lad* (DEW, xvi). Diddorol hefyd yw ei ddefnydd o'r gair yn y testun *Kynniver Llith a Ban:*

*dyret i weret kyn marw [vymachkenyn] Ieshu a [vy map] dyuot wrtho / kerda ymaith / y may dy vap yn vyw ... may dy vachken yn vyw.*
(William Salesbury, *Kynniver Llith a Ban,* 1547 t.lxviia)

Gwelwn *bachgen* â'r ystyr *son* o gyfnod cynnar yma, a dengys enghraifft arall o'r gair yn y testun nad oedd cywair is-raddol i'r gair o gwbl bellach:

*Pan oyddwn yn vachken, mal bachken ydd ymddyddanwn.*

Ni allwn wybod pam y byddai *bachgen* wedi disodli *gwas* a *mab* i olygu plentyn gwrywaidd, oherwydd defnyddid y ddau derm yn helaeth mewn testunau canoloesol.

**Bun**

Mae'r gair *bun* wedi diflannu'n llwyr o'r iaith bellach. Er ei fod yn cyfeirio at fenyw ifanc gan amlaf, mae'r ystyr *cariadferch* ymhlyg ynddo yn y canu serch, felly nid yw'n ymwneud â phlentyndod. Serch hynny, y mae'r gair yn gyfystyr a *bachgennes* yn ôl geiriadur William Salesbury.

**Cu**

Er nad yw'n cyfeirio at blant yn arbennig, dylid trafod y gair *cu* yma oherwydd fe'i defnyddir yn aml i gyfleu cariad o fewn teuluoedd. Y mae'n air hynafol; ceir y diffiniad canlynol ohono yn GPC:

[Crn. *cuf,* H. Lyd. *-cum* ... Llyd. C. *cuff,* Diw. *kunu,* H. Wydd. *coim* 'tlws, annwyl': < Clt. **koimo* -, cf. S. home] (GPC, t. 626)

Diddorol yw sylwi ar y gair cytras Saesneg uchod - *home* - o ystyried cyswllt y gair 'cu' â byd yr uned deuluol.

Gwelwn y defnydd cyntaf o 'cu' yng nghanu Aneirin; 'ku kyveillt' yw Owain iddo, ac mae i'w weld mewn cyd-destun teuluol yn y testun *Cynghorau Catwn* a luniwyd oddeutu 1200, yn y llinell 'vy mab i y cu yr awrhonn...' (Ifor Williams (gol.) 'Cynghorau Catwn', B II (Llundain, 1925) t.16). Erbyn heddiw, y mae'r gair i'w glywed yn bennaf yn yr enwau 'mam-gu' a 'tad-cu'.

Lluniwyd enw haniaethol o'r gair *cu* - *cudeb* neu *cudab* - i olygu anwyldeb neu gariad. Mae'r defnydd mwyaf effeithiol o'r gair ym marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn ei fab:

*Gwae a edid, o gudab,*
*I boeni mwy heb un mab.*
(GB, t.102-5 ll.3-4)

Mae'r bardd fel petai'n ymwybodol o gysylltiad *cudab* â'r teulu. Mae'r gair yn cyfleu cryfder ei deimladau tuag at Siôn - cariad angerddol sydd heb fod yn rhywiol; cariad a deimlir tuag at berthynas agos.

**Dyn**

Yn wreiddiol, cyfeiriai'r gair *dyn* at berson o unrhyw oedran neu ryw, ac mae'r gair Gwyddeleg cyfatebol wedi cadw'r ystyr hwnnw. Ni olygai 'oedolyn gwrywaidd' tan oddeutu'r bedwaredd ganrif ar ddeg neu'r bymthegfed ganrif. Yn yr enghraifft isod o gainc gyntaf y Mabinogi, y mae'r gair *dyn* yn ddiryw; ystyr tebyg i *person* sydd iddo yn y cyswllt hwn:

*"Arglwyd," heb y Teirnon, " y wreic a'e magwys ef, nyt oes yn y byt dyn uvy y galar no hi yn y ol..."*
( PKM, t.26)

Mae barddoniaeth yr Oesoedd Canol yn ffynhonnell werthfawr wrth ymchwilio i holl ystyron posib y gair 'dyn'. Yn y gerdd fasweddus 'Yr Oed', a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, y mae *ennill dyn* a *cael dyn* yn golygu beichiogi:

*Dy nawdd rhag ennill dyn ym*
*Cael dyn, pa fodd y cêl dau?*
(CMOC, t.66 ll.56-7)

Mewn cerdd gan Iolo Goch, mae *dyn* yn cyfeirio at faban (GIG, xxxvi). Ond, byddai'r gair *dyn* yn cael ei amodi â *bach/bychan* gan amlaf er mwyn dynodi plentyn ifanc neu faban. Enghraifft gynnar o hynny, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yw'r dyfyniad canlynol o 'Hystoria Lucidar' yn *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*:

*Abwyd yr eneidyeu avont ygkorfforoed ydynyon bychein dim. ef adarlleir am Ieuan vedyddyvr ry fynnav oe eneit ef etwan yngkroth yvam.*
( *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, tt.36-7)

Defnyddid term tebyg - *petit peuple* - yn y Ffrangeg. Erbyn heddiw, mae'r term hwnnw yn dynodi teimlad o anwyldeb tuag at blant, a'r digrifwch sydd i'w gael yn eu cwmni.

Fodd bynnag, roedd ystyr y gair 'dyn' yn fwy amwys yn yr Oesoedd Canol. Mae'n debyg mai gair syml i ddisgrifio bod dynol o unrhyw oedran ydoedd, ac felly nid oes awgrym o anwyldeb neu ddigrifwch yn ei gylch yn y cyd-destun hwn. Awgrymodd Philippe Ariès fod termau o'r fath yn dynodi awydd i drin plant fel oedolion. (Ariès, t.26)

Ceir enghreifftiau o 'dyn bychan' yng ngwaith William Salesbury, megis yn *Kynniver Llith a Ban:*

*Pa ryw vn vyd y [dyn bychan hwn?]*

Ar ochr y ddalen, ceir yr aralleiriad *bachken, plentyn* am *dyn bychan.* Yng nghyfieithiad William Morgan o'r Beibl, cawn yr ymadrodd canlynol:

*yn ddyn-bach, ac yn blentyn sugno.*
(1 Sam xv.3, Y Beibl, 1588)

a cheir enghraifft gynharach gan Lewys Glyn Cothi, yn y llinell:

*Yr enaid yn wirionach*
*a dau'n y byd fal dyn bach.*
(GLGC, 80 t.133)

Yn ei farwnad i'w fab, Siôn y Glyn gwelwn y gair 'dyn' yn cyfeirio at blentyn unwaith eto. Defnyddir tri therm i gyfeirio at Siôn o fewn ugain llinell: *Mab*, *gwas* a *dyn*. Mae'r tri yn cyfleu oedran ifanc, a *dyn* yn gyfystyr â'r ddau arall. Dyma enghraifft brin o'r gair *dyn* yn cyfeirio at fachgen yn benodol. Yn ôl y nodyn ar ddiwedd y gerdd yn GB, roedd Siôn yn bum mlwydd oed pan fu farw, felly nid *dyn bach*, sef *baban* ydoedd.

Ceir enghreifftiau o *dyn* ag ystyr fenywaidd yn GPC - dônt o'r canu serch a *Gereint*. Yn y Rhamant honno, mae y *ddyn* yn cyfeirio at ferch ifanc, y math o ferch y byddai Dafydd ap Gwilym neu Dafydd Nanmor yn eu hedmygu. Sylwer ar yr enghraifft isod o'r 14-15g, sydd yn *Chwedleu Seith Doethon Rufein:*

*A phan deuth, nyt oed namyn morwynwreic ieuanc yn eisted oduch bed newyd gladu ...*
*A gofyn a wnaeth ef beth a wnaei dyn mor ieuanc o oetran a mor dinerth o gorff a mor*

*adfwyn o bryt yn lle mor ofnawc a hwnnw ehunan.* (Henry Lewis (gol.) (Wrecsam, 1925) t.64)

Mae *dyn* yn cyfeirio at *morwynwreic ieuanc,* felly gellir tybio fod *dyn* yn cynnwys y cysyniad o ieuenctid. Mae'n debyg fod dadansoddiad *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn anghywir, gan na ddefnyddir *dyn* wrth sôn am wraig. Efallai bod *llances* neu *merch* yn well cyfieithiad o'r gair.

Y mae enghreifftiau lluosog o'r gair *dyn* mewn ystyr fenywaidd yng ngherddi Dafydd ap Gwilym, ac mae rhai enghreifftiau yn ymddwyn fel enwau benywaidd ac yn peri treiglad medal yn yr ansoddair, e.e:

*... ddynan fechan fach* (GDG, 50)

Mae *dynan* yn derm anwyldeb, a chyfeiria at ferch dro arall fel *dynyn* (GDG, 49). Cyfeirio at wrthrych serch y mae Dafydd ap Gwilym yn aml wrth ddefynddio'r gair *dyn*; mae'r gair yn golygu yr un peth â *bun* iddo, fel y gwelwn yn yr enghreifftiau canlynol:

*Deune geirw dyn a garaf*
*Dan frig, a'i rhyfyg yw'r haf.*
(GDG, 24)

*Siprys dyn giprys dan gopr,*
*Rhagorbryd rhy gyweirbropr.*
(GDG, 118)

*A lluddias ym, gyflym gael,*
*Fyned at fy nyn feinael.*
(GDG, 68)

*Gorwyllt foethusddyn geirwir,*
*Yn gronfferf, yn ddiderfysg.*

ac

*Yn berchennog, barch uniawn,*
*Tŷ a gŵr, yn ddyn teg iawn.*

(GDG, 79)

Yn y gerdd 'Morfudd a Dyddgu', (GDG, 79) fe ymddengys ar yr olwg gyntaf fod *dyn* yn cyfeirio at wryw, sef gŵr Morfudd; mae Dafydd yn ffoi *Rhag dyn o'i phlas dan laswydr.* Tybiodd Gwyn Thomas mai cyfeirio at yr eiddig a wna 'dyn' a rhydd y cyfieithiad canlynol o'r llinell:

*From a man from her place beneath bright glass*
(*Dafydd ap Gwilym - his poems* (Caerdydd, 2001))

Eithr, awgryma'r treiglad ei fod yn cyfeirio at Forfudd; *gŵr* yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio'r eiddig yn llinell 27. Yn ogystal â hynny, *Er dyn o'i phlas dan laswydr* yw'r llinell yn Peniarth 49, llawysgrif awdurdodol John Davies Mallwyd, ond *rhag* sydd yn y llawysgrifau eraill. Gan i lawer gamddeall ystyr ddeublyg *dyn*, dewiswyd cadw'r gair *rhag* mewn copïau wedi hynny.

'Dyn' yw Morfudd trwy gydol 'Morfudd Fel Yr Haul', ac yn y gân serch 'Yr Adfail', mae *dyn* yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â *morwyn* a *meinir.* Yn y gerdd 'Morfudd yn Hen', defnyddir *dyn* i gyfleu ieuenctid, gan y dywed y Brawd Du:
*Nid a fal aur da liw'r dyn.*

Weithiau, nid yw'r gair *dyn* yn cael ei dreiglo, er ei fod yn cyfeirio at ferch, e.e *Duw a'i maddeuo i'r dyn* (CMOC, t.10). Mae Dafydd yn chwarae ag amwyster *dyn* yn fwriadol yn y gerdd 'Basaleg' gyda'r llinell:

*Yn caru dyn uwch Caerdyf* (GDG, 8)

Gallai *dyn* gyfeirio at gariadferch neu at Ifor yn y cyd-destun hwn. Ond, daeth amwysedd o'r fath i ben pan amodwyd y gair gyda *dynes* yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

**Edling**

Benthyciad o'r gair Hen Saesneg *ædeling* yw *edling.* Rhydd GPC y diffiniad canlynol ohono:

*Etifedd brenin, aer y goron, y nesaf i etifeddu'r orsedd, gwrthrychiad teyrnas; plentyn, epil.* (t.1165)

Mae'r enghreifftiau cynharaf o'r gair fel petaent yn arddel ei ystyr wreiddiol, sef etifedd brenin. Cawn yr enghraifft ganlynol o'r ddeuddegfed ganrif yn *Y Llyvyr Du o'r Weun:*

*Edlyng eu er hwn adele gleduchu guedy ebrenyn.*
(J. Gwenogvryn Evans (gol.) Llanbedrog 1909)

Eithr, ymddengys iddo ddod iolygu 'plentyn' yn syml ymhen amser, i lenwi'r gwagle yn yr iaith, gan nad oedd 'plentyn' eto yn air cyfredol. Hyd yn oed yn yr unfed ganrif ar bymtheg, 'edling' yn hytrach na 'plentyn' a ddefnyddir gan Gruffudd Ellis i ddisgrifio Taliesin:

*'Wele dal Jesin!' Seef yw hynny, 'talken kannaid'. Ar y geiriau*
*Jr attebodd yr edling o'r korwgyl, Taaliesin bid!'*
(Patrick K. Ford, *Ystoria Taliesin* (Caerdydd, 1992) .t.69)

Eithr, yn ôl Patrick K. Ford, efallai bod *edling* yn cyfeirio at y ffaith mai Taliesin fydd 'brenin' nesaf y beirdd (gw. Y Plentyn Rhyfeddol, isod).

**Geneth**

Tarddodd y gair *geneth* o'r gair Brythoneg **genettā,* ond prin yw'r enghreifftiau cynnar ohono. Ymddengys y gair mewn cerdd ddychan gan Ddafydd y Coed yn Llyfr Coch Hergest, gan awgrymu mai cywair ieithyddol isel oedd i'r gair, fel 'bachgen':

*Gwywbeth cul eneth kylorwyn o oerlwm*
*yn erlit ffulberdyn guin hvyr ymed na gvenyn*
*gvas ageiff nychdavt agvyn.*
(R, t.130, 1359.43-44)

Serch hynny, ganrif yn ddiweddarach, cyplysir *geneth* a *diwair* ym marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, gan brofi fod ystyr y gair bellach yn gadarnhaol:

*gwyddiau, nis diwad, distewi - cleiriach,*
*diwair eneth bach, wrth dirioni.*
(GB, t.80)

Ceir y diffiniad canlynol o *geneth* yn GPC:

*Plentyn benyw, llances, lodes, hogen, croten, crotes, rhoces, bachgennes, merch ifanc; morwyn: girl, lass, maid, damsel, maiden; virgin.*

Diddorol yw gweld gair a fu unwaith â chywair mor ddirmygus yn gyfystyr â *virgin.* Erbyn heddiw, gair tafodieithol a ddefnyddir ar y cyd â *hogan* yng Ngogledd Cymru yw *geneth* yn bennaf. Diddorol yw sylwi nad oes ffurf luosog o *hogan* ar gael, er y ceir *hogiau* yn lluosog i *hogyn.* Rhaid defnyddio'r lluosog *genethod* oherwydd hynny.

**Gwas**

Term hynafol yw *gwas,* fel y dengys y geiriau cyfatebol Cernyweg *guas,* Hen Lydaweg *guos* a'r Hen Wyddeleg *foss.* (GPC, t.1590) Yr oedd yn derm poblogaidd i ddisgrifio bachgen yn yr Oesoedd Canol, a gwelwn yr enghraifft ysgrifenedig gynharaf o'r gair yn Llyfr Du Caerfyrddin, sy'n perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg:

*Ar gueisson gleisson yscawin travodi*
(C, 47, ll.5-6)

Enghraifft adnabyddus o'r gair yw'r llinell ganlynol yng nghanu Aneirin, a ddaw o gyfnod tipyn cynharach na'r Oesoedd Canol:

*Gredyf gwr oed gwas.*
(Ifor Williams, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938) I ll.1)

Gan amlaf, cyfeirir at Lleu fel *guas* ym *Math fab Mathonwy.* Mae'r gair yn cyfleu ieuenctid, ond yn cynrychioli cam ymlaen o *mab.* Ni ddefnyddir *gwryanc* yn y naratif, ond defnyddia Gwydion y gair ddwywaith (PKM, tt. 82-83) wrth gyfeirio at Lleu, er mwyn dynodi ei oedran. Adeg llunio Blodeuwedd, *deledíwaf was* yw Lleu, a cheir pwyslais ar ei ddatblygiad, ond ar ôl cysgu gyda Blodeuwedd, mae Lleu yn cael ei alw'n *ŵr.*

Adlewyrchir syniad cyntefig yma; tybir mai gallu corfforol a phrofiad rhywiol yw'r hyn sy'n gwneud gŵr, yn hytrach nag addysg ac aeddfedrwydd emosiynol. Yn yr un modd, profiad rhywiol sy'n dynodi'r newid o fod yn *forwyn* i fod yn *wraig.*

Ceir enghraifft ddiddorol o'r gair gwas mewn cerdd gan Lywelyn Fardd a luniwyd oddeutu 1300:

*Cedwis Duw urddas, yn ŵr ac yn was,*
*I fab Eneas, eurwas fyged*
(Catherine McKenna (gol.) CBT II, Rhif I, 11-12)

a cheir y llinell ganlynol mewn cerdd o gylch Llywarch Hen, 'Maenwynn a Gereint a Chadwallawn':

*Maen Wynn, tra u [u]um i efras,*
*Oedwn dywal galanas.*
*Gwnawn weithret gwr kyt bydwn gwas.*
(Ifor Williams (gol.) *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1953) IV, ll.4-6)

Mae'r enghreifftiau uchod yn bur sicr yn adleisio Canu Aneirin, wrth gyferbynnu *gŵr* a *gwas*, a cheir enghraifft arall o'r gair 'gwas' mewn cerdd gan fardd anhysbys yn y Llyfr Coch, 'Ev yn Grwm yn Gryman Gwillmer':

*ef yn uab yn uebit ouer. ef ynwas an wastat gallder. ef ynoet yn edrym llymder. ef yn vr ynareil prudder.*
(R, t.30, 1159.39 – 1160)

Y mae'r enghraifft hon yn ddiddorol, oherwydd gwelwn raddau gwahanol y geiriau - *mab - gwas - ynoet - gŵr*. Hefyd, mynegir y syniad mai cyfnod ffôl yw ieuenctid; *prudd-der,* sef doethineb, a ddaw gyda henaint.

**Mab**

Term arall hynafol a ddefnyddid yn helaeth yn yr Oesoedd Canol oedd *Mab.* Ceir y diffiniad canlynol ohono yn GPC:

[H.Grn. *mab*, gl. *filius,* Crn. C. *mab,* H. Lyd. a Llyd. Diw. *mab*: < Brth. *mapo*]

(a) Bachgen, gwryw yn ei berthynas a'i rieni, baban, plentyn (benyw neu wryw), person dan oed, llanc ifanc; disgynnydd; dyn, gwryw; hefyd yn ffig.(GPC, t.2293)
Daw'r enghraifft gynharaf o'r gair o'r nawfed neu'r ddegfed ganrif, mewn glosau yn *Oxoniensis Prior* yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen:

*Hinn map diiob*
(Ox 1, VVB 180)

a cheir enghraifft gynnar arall o'r gair yn *Culhwch ac Olwen*; mae oedran Culhwch yn amwys, gan y cyfeiria Arthur ato fel *mab* ac *unben* o fewn yr un sgwrs ( CO, t.14).
Oddeutu 1100, ceir y cofnod canlynol mewn ach:

(11) *Gurci ha Peretur mepion Eleuther.*
(P.C. Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts,* 1966)

a diddorol yw edrych ar y cyfreithiau, megis:

*Pan dycker mab y genedyl o lv degwyr adeugeint ymab bieu tygu ymlaen y genedyl kanyt kyfreithavl y guaran.*
(A.W. Wade-Evans, *Welsh Medieval Law* (Rhydychen, 1909) t.142)

Gellid tybio bod Cyfraith Hywel yn diystyru merched, gan mai *mab* yw'r term a ddefnyddir ynddynt amlaf. Defnyddid y gair di-ryw *bearn* mewn cyfreithiau Sacsonaidd o Gaint o'r seithfed ganrif (gw. Henrietta Leyser, *Medieval Women* (London, 1995) t.50). Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol mai gwagle yn yr iaith Gymraeg yw'r rheswm am hynny, gan nad oedd y gair di-ryw unigol *plentyn* yn bodoli. Oherwydd hynny, *disgynnydd* yn hytrach na *bachgen* yw ystyr *mab* yn y testunau cyfreithiol. Gwelwn yr un gwagle yn yr iaith mewn testun o'r bymthegfed ganrif, sef gwaith Meddygon Myddfai; *mab bychan* a ddefnyddir ynddo wrth sôn am faban (P. Diverres, *Le Plus Ancien Texte des Meddygon Myddveu* (Paris, 1913) t.62).

*Mab* yw gair safonol Lewys Glyn Cothi i ddynodi ei fab yn ei farwnad iddo. Bryd hynny, yr oedd dau ystyr i'r gair, sef *boy* a *son.* Bellach, dim ond yr ystyr o berthyn i rieni sydd i'r gair, ond mae *mebyd* yn gyffredin hyd heddiw.

Gall y gair *mab* ar ei ben ei hun gyfeirio at Y Mab Darogan fel y gwelwn yn yr enghraifft ganlynol o Peniarth 26, o'r bymthegfed ganrif:

*mab a gyfyt a bryt wrthaw/awen gorawen gwyr ymanaw*
(Peniarth 26 (37), c.1456)

Felly, gall olygu *gŵr* yn ogystal â *dyn ifanc.*

Gwelwn gyfuniad o'r ystyr 'disgynnydd' a 'phlentyn' gyda'r term 'Meibion Addaf', sy'n golygu 'yr hil ddynol'. Gwelwn y term yn Llyfr Coch Hergest (R,1196.25) ac yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Yn y gerdd 'Yr Haf', sonnir am *hil eiddil Addaf*, a *cyswynfab Addaf* (GDG, 24).
Rhyw fath o blentyn siawns nad oedd yn cael ei gydnabod, neu a ddiarddelwyd gan ei dad oedd *cyswynfab*; y mae Dafydd yn chwarae â'r ymadrodd yma er mwyn cyfleu ei ddirmyg tuag at yr eiddig.

Ceir y diffiniad canlynol o'r ymadrodd *Mab aill(t)* yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru:

[ cf.Gwydd. C. *mac ailte* 'mab maeth'] : (i) unfree landholder, villein; serf, slave, bondman; farmer; also fig.

Yn ôl Dafydd Jenkins, roedd ystyr wreiddiol *mab aillt* yn wahanol:

*Gellir tybio i'r gair <u>aillt</u> olygu'n gyntaf <u>deiliad</u> yn syml, a dirywio'n ddiweddarach i olygu deiliad darostyngedig; yn y diwedd magodd yr un math o rin diraddiol â <u>taeog</u>, fel y gwelir yn glir oddi wrth yr enghreifftiau yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, GDG 238, 533.*
(LlC, t.48, 14)

Nid yw oedran yn berthnasol yma ac nid sôn am berson ifanc y mae'r term. Yr oedd Owain Glyndŵr yn *fab darogan* yn y cerddi brud, felly nid cyfleu ieuenctid a wna *mab* ym mhob cyd-destun. 'Mab llwyd' yw Dafydd ap Gwilym yn y gerdd 'Merched Llanbadarn', gan awgrymu ei fod yn heneiddio (GDG, 130), ac enghraifft arall o *mab*

mewn ystyr mwy amwys yw *mab llên*. Gwelwn y term *mab llên* yng ngherdd Guto'r Glyn i Ddafydd Cyffin:

*Llawen o fab llên yw fo,*
*Llawenach yw'r lle yno.*
(GGG, xl, t.106)

Er mai cyfeirio at ŵr ifanc y mae'r bardd yn yr enghraifft benodol hon, ystyr *mab llên* yw *myfyriwr,* o unrhyw oedran.

Ceir yr enghraifft gynharaf o'r term *mab maeth* yn Llyfr Colan, o'r drydedd ganrif ar ddeg:

*Or kymer tayawc brenhin mab breyr ar vaeth gan ganhat y brenhin, kyfrannawc vyd y mab hwnnw ar tref tat y tayawc mal vn o'e veibon ehun.*
(LlC, 575)

Ganrif yn ddiweddarach, ceir delwedd estynedig o serch fel mab maeth mewn cerdd gan Ddafydd ap Gwilym, gyda llinellau megis:

*Megais, neur guriais, gariad,*
*Mab maeth o brydyddiaeth brad.* (GDG, 104)

Ni thrafodir rhoi ar faeth yn aml yn y farddoniaeth, ond bydd yn aml yn codi fel delwedd (gw. Cymhariaeth o Waith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi, isod).

Ceir term diddorol mewn cywydd serch o'r unfed ganrif ar bymtheg a briodolir i Lewys Morgannwg ac i Dudur Aled. Yma, ystyr *mab symud* yw *changeling*:

*ny chredir drych ir ydwyf*
*o ddelw grist meddylgar wyf*
*mwy bwys ym na mab symud*
*ne r dyn a vai r ioed yn vud.*

(J.J. Saunders, *Gweithiau Lewys Morgannwg,* Traethawd M.A. Prifysgol Cymru Bangor (1922) t.134)

Defnyddir delwedd y mab symud i gyfleu tristwch; y mae hynny'n addas iawn o gofio creulondeb pobl tuag at blant y credid eu bod yn feibion symud (gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod).

Golygwyd y gerdd gan T Gwynn Jones, eithr ni ddeallodd yr ymadrodd 'mab symud'; sylwer ar y modd yr atalnododd yr ail gwpled:

*Mwy bwys im no'r mab, symud,*
*Neu'r dyn a fai 'rioed yn fud.*

( T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled II* Caerdydd (1926) CXXIII, ll.15-6)

Yn anffodus, nid oes enghraifft gynharach o'r term wedi'i chadw.

**Mabinogi**

Diffiniad GPC o'r gair *Mabinogi* yw:

*Mebyd, ieuenctid; digwyddiadau neu gampau ieuenctid, hanes mebyd (rhywun), stori, chwedl; (yn y ll.) yr enw a roddir ar gasgliad o chwedlau Cymraeg o'r Oesoedd Canol.*

Hanes bywyd cynnar Crist a gawn mewn testun canoloesol o'r enw *Mabinogi Jessu Grist* (gw. Llenyddiaeth Grefyddol, isod) ac felly gellir derbyn mai ystyr wreiddiol y gair oedd *mebyd.* Mae amwysedd yn nefnydd Lewys Glyn Cothi o'r gair ym Marwnad Siôn y Glyn; gallai olygu *mebyd,* neu fe allai gyfeirio at hoffter Siôn o'r chwedlau (gw. Gwerthfawrogiad o Farwnad Siôn y Glyn, isod). Eithr, symlach o lawer yw ystyr y gair *Maboed;* diffiniad GPC ohono yw:

*Babandod, plentyndod, bachgendod, ieuenctid, llencyndod, mebyd.*

ac nid yw'r gair fel petai wedi newid ei ystyr er 1346; ceir y llinell ganlynol yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi:

*Diolchwn yon ytt dy rodyon/ yni veibon. vaboet dirym.*

(LlA, 95)

Mewn awdl i ferch gan Hywel ab Owain Gwynedd, y mae'r bardd yn chwarae â ffurfiau a luniwyd o'r gair *mab*. Mae tair llinell yn dechrau â *mab*, e.e *mabwraig* a *mabddysg*. Cawn ddisgrifiad o'r ferch:

*Bechanigen wen, wan ei gogwydd*
*Bychan y mae hyn no dyn dengmlwydd*

Fe'i gelwir yn *wraig*, felly mae'n rhaid ei bod yn briod ac yn aeddfed yn rhywiol, ond wrth amodi'r gair â *mab,* pwysleisir ei bod yn ifanc.

*Mabwraig, mwy yd ffaig ffenedigrwydd - ar wen*
*No pharabl o'i phen anghymenrwydd.*

(*Gwaith Hywel ab Owain Gwynedd,* CBT II, Rhif 7, ll.11-4)

**Mabolaeth**

Ceir sawl enghraifft o'r gair *Mabolaeth* yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Diffiniad GPC ohono yw:

[ *mabol + (i)aeth*] *eb.g.* Babandod, plentyndod, llencyndod, ieuenctid, mebyd, hefyd yn *ffig.;* digwyddiadau neu gampau ieuenctid, hanes mebyd (rhywun); y cyflwr neu'r ystad o fod yn fab ...
(GPC, t.2295)

Ceir enghraifft o'r gair mor gynnar ag oddeutu 1250, yn llawysgrif Peniarth 14 mewn testun o'r enw *Gwyrthyeu y Wynvydedic Veir:*

*A phan wyl enteu [vei]beon e cristyonogyon ereill nyt amgen e gedemdeitheon en redec y gyt ar bobyl. dyuot a oruc enteu gyt ac wyntwy o vabolaeth a pha beth bennac a weles a lleill ene wneithur. enteu ae goruc.*
(Gwenan Jones (gol.), *Gwyrthyeu y Wynvydedic Veir,* BBGC IX. 1939, t.145)

Unwaith eto ym Mheniarth 14, gwelwn y gair yn y testun *Llyma Vabinogi Iessu Grist:*

*...a dywedut yn ry dywanu oth santolyaeth di ar lyuyr evrei en ysgrivenedic o law e gwynuydedicaf vatheu euengylwr en er hvn e mae en ysgrivenedig buched e wyry vam a mabolaeth an yachwydaul arglwyd ni.*

(Mary Williams (gol.), *Llyma Vabinogi Iessu Grist,'Revue Celtique* xxxiii, t.238)

Ym Marwnad Bleddyn Fardd gan Cynddelw yn llawysgrif Hendregadredd, cawn y llinellau:

*Mabolaeth feddfaeth facwy,*
*Mab o oed a'i hoed yn hwy.*

(Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr,* CBT III Rhif 29, ll.19-20)

Y mae aralleiriad golygyddion y gerdd yn egluro ystyr y cwpled, sydd eto yn adleisio'r *Gododdin*:

*Gŵr ifanc wedi ei fagu ar fedd yn ei ieuenctid,*
*Llanc o ran oedran a'r hiraeth amdano yn hwy [na'i flynyddoedd]* (t.364)

ac yng 'Nghywydd y Celffaint' gan Ithel Ddu o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, cawn:

*Nwy' a'm gwnaeth mabolaeth bas,*
*Neithwyr, mi ac anoethwas*

( Rhiannon Ifans *et al.* (gol.), *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog ac Eraill,* (Aberystwyth, 1997) )

Ceir sawl enghraifft o'r gair yn y ddeuddegfed ganrif yn y cerddi canlynol o Lyfr Coch Hergest:

*Mab Garddun arddunig fawredd,*
*Maboliaeth arfoliaeth waredd.*

(Canu Tysilio Sant gan Gynddelw, CBT III, Rhif 3 ll.17-8)

'Kanu y Duw Brenhined Benn'

*Caru amynnu uy mabolaeth.*

(cerdd anysbys ei hawduriaeth, R, t.36, 1171.38)

'Englynyon Gruffud Vychan y Grist'

*Vnben hael hylwyd wavr. eureit env aroet yn avr yno ygunaeth vabolaeth vavr.*

(R, t.130, 1359.43 - 1360.1)

Yn yr un ganrif, gwelwn Dafydd ap Gwilym yn ei ddefnyddio:

*Gwyllt wyf tra gwelwyf gwaly mabolaeth*
*Gwenwynwys ynof gwin wasanaeth*

(GDG, 14, I Ieuan Llwyd o Enau'r Glyn)

ac mae *mabolaeth* yng ngherdd Gruffudd Gryg i Ddafydd ap Gwilym, 'Yr Ywen Uwchben Bedd Dafydd':

*Dafydd, gwedy dy dyfu,*
*A'th wnaeth, o'i fabolaeth fu,* (GDG, 429)

Cyfyd eto yn y gerdd 'I Gyffelybu Dyn i Ddiwrnod' gan Siôn Cent:

*Mabolaeth mab a welir*
*Ei barhau fel bore hir.*
*Diau i'r mab wedi'r maeth*
*Yn greulon ddwyn gwrolaeth.*

(Henry Lewis *et al.* (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Caerdydd,1937) LXXXIII t.253, ll.10-3

Diddorol yw enghraifft o'r gair o'r bymthegfed ganrif, mewn cerdd a briodolir i Dudur Penllyn:

*mabolaeth a wnaeth fy ner*
*fy nuw hud yw fy hyder*
*ugeinmlwydd deuddeng mlynedd*
*I bu kynn i roi mewn bedd*

(Abraham Jenkins, Traethawd M.A. Prifysgol Cymru (1921) t.98)

Sôn am Iesu Grist y mae'r gerdd hon. Credid iddo gael ei groeshoelio pan oedd ar ddechrau ei dridegau - ar uchafbwynt ei aeddfedrwydd, cyn i henaint ei ddifwyno. Oherwydd hynny, credid bod person ar ei anterth yn feddyliol ac yn gorfforol pan oedd yn ei dridegau cynnar. Gallai'r term *mabolaeth* gyfeirio at y cyfnod hyd at hynny yn y gerdd hon.

Ym 'Marwnad Edmwnd Tudur' gan Lewys Glyn Cothi, mae'r bardd yn disgrifio effaith marwolaeth Edmwnd ar y cartref. Yma, ystyr *mabolaeth* yw *plant:*

*Gwag tir a welir heb reolaeth,*
*gwag tŷ heb wely a mabolaeth,*

(GLGC, 10, t.30-33, ll.109-10)

Eithr, ceir enghreifftiau eraill o'r gair nad ydynt yn cyd-fynd yn union â diffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru ohono bob amser. Ceir y llinell ganlynol yng ngherdd Llywelyn ap y Moel 'I'r Bedwlwyn' o'r bedwaredd ganrif ar ddeg neu'r bymthegfed ganrif:

*Brig wyd belydr mabolaeth,*
*Bob un sydd uniawn fel saeth.*

(Henry Lewis *et al.* (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (1937) t.189)

Roedd y fedwen yn gysylltiedig â dathliadau Calan Mai, a'r dathliad hwnnw'n ymwneud â serch, felly gellir tybio fod cysyniad ffalig i'r gair *mabolaeth* yn y gerdd hon.
Mae'r llinell ganlynol o Farwnad Siôn y Glyn yn ategu'r ddadl honno:

*fy serch, fy mwa, fy saeth,*
*f'ymbiliwr, fy mabolaeth*

(GB, t.102-105, ll.109-10)

Yn ngeiriau Dafydd Johnston yn ei lyfr *Galar y Beirdd*:

*Trwy alw Siôn yn 'fy ngusan', 'fy serch', a 'fy mabolaeth', mae'r bardd fel petai'n gweld ei fab yn ymgorfforiad o'r grym rhywiol a'i cenhedlodd.*

(GB, t.17)

Honna hefyd fod ystyr anllad i *mabolaeth* ar brydiau, e.e. mewn dwy gerdd gan feirdd anhysbys yn *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol,* sef 'Cywydd y Cydio':

*ac yn ôl fy mabolaeth*
*ynddi hi ddefni a ddaeth.*
(CMOC, t.54-57, ll. 31-2)

ac 'Ymddiddan Rhwng Mab a Merch':

*'I ble'r aeth, mabolaeth byd,*
*y geiriau oedd gynnau gennyd?'*
(CMOC, t.78-81, ll.19-20)

Defnyddia Johnston y gair *masculinity* i gyfieithu *mabolaeth*; nid *mebyd* na'r *cyflwr o fod yn fab* yw ei ystyr yma. O ddarllen y cerddi yn eu cyfanrwydd, gellir tybio mai cyfeirio at rym rhywiol gwrywaidd a wna *mabolaeth.* Disgrifiad o gyfathrach rywiol ymosodol yw'r gerdd gyntaf, tra bo'r ferch yn yr ail gerdd yn mynegi ei siom ym mherfformiad rhywiol di-blwc y bachgen.

**Mastr / Meistr**

Dadlennol fu sylwi ar y gair *meistr* yng ngerdd fawl Ieuan Deulwyn i Syr Rhisiart Herbert a'i wraig Margaret; ynddi, geilw'r bardd eu mab bychan yn 'maistir wiliam'. Y mae ystyr wahanol i'r cyffredin i'r gair 'meistr' yma; y mae'r baban yn uwch ei statws na'r gweision a'r bardd, ond nid yw eto'n ddigon hen i gael ei alw'n 'Mr.' Oherwydd hynny, defnyddir y teitl 'meistr' yn arwydd o barch tuag ato. Diddorol yw edrych ar un diffiniad o'r gair 'Master' yn *The Oxford English Dictionary:*

23a In early use *(my) young master, little master,* occur as designations applied by servants and inferiors generally to the boys and young men of the families of their superiors. App. as a development from this mode of expression, the word *master* (after the phonetic separation of *Mr.*) came to be the usual prefix to the name of a young

gentleman not considered old enough to be entitled to be called '*Mr.*'. Hence occas. *masters and misses* = young people. Also † *master-miss:* an effeminate youth.
(*The Oxford English Dictionary* vol. IX, Rhydychen 1989 t.444)

Yr enghraifft gynharaf a rydd *The Oxford English Dictionary* o 'Master' yn y cyswllt hwn yw cyfeiriad at faban yng nghroth y frenhines Mari, yn 1596: *young master.* (FOXE A. & M. (ed.4) tt.156-83). Felly, y mae'r enghraifft gynharaf o'r bathiad Cymraeg 'Meistr' a geir yng ngherdd Ieuan Deulwyn yn hŷn na'r enghraifft Saesneg gynharaf o 'master' yn y cyd-destun hwn.

Ceir enghraifft arall o'r teitl 'Meistr' mewn cerdd fawl i Syr Tomas ap Rhosier Fychan o Dretŵr gan Hywel Swrdwal:

*Mastr Tomas, dart ymyr*
*Y barnaf i dy bren fyr.*
(Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu,* (Aberystwyth, 2000) 3, t.28 ll.3-4)

Y mae gwrthrych y gerdd yn amlwg yn ddyn ifanc, gan y gelwir ef yn 'facwy' ac yn 'genau llew' (ll. 13-14). Y mae'r term hefyd i'w gael yng ngwaith Guto'r Glyn. Ym 'Moliant Ieuan ab Einion o'r Cryniarth a'r Hendwr', cyfeirir at un o'i feibion yn y modd canlynol:

*Meistr Rhydderch yn annerch Nêr*
*Yw meistr yr holl rymuster.*
(GGG, xv, t.41)

Y mae'r bardd yn chwarae â dau ystyr *meistr* - y mae'n deitl ar Rydderch yn llinell gyntaf y cwpled, ac yn enw yn yr ystyr 'un sy'n rheoli' yn yr ail. Fodd bynnag, yng ngherddi Ieuan Deulwyn a Hywel Swrdwal, y mae *meistr* fel teitl o barch i ŵr ifanc yn cael ei sillafu'n wahanol - naill ai fel 'mastr' neu 'maistir'. Ond efallai bod y gwahaniaeth hwnnw i'w weld yn llawysgrif wreiddiol y gerdd. Yng ngherdd Guto'r Glyn i Siôn Talbod, y mae 'meistr' eto'n amlwg yn deitl ar ŵr ifanc:

*Cyfod, Meistr Talbod hy,*

*Faner dy dad i fyny.*
(GGG, xxviii)

Gwelwn y gair 'meistr' bedair gwaith yng ngherdd Guto'r Glyn i Ddafydd Cyffin - cerdd sy'n disgrifio'r berthynas rhwng Dafydd a'i ewythr, Hywel. (GGG xl) Y mae sillafiad y gair yn anghyson - ceir 'Mastr Hywel', 'Mastr Dafydd', 'meistr Hywel' a 'meistr Dafydd' yn y gerdd. Gellid tybio mai camgymeriad yw hyn, gan y dylai'r sillafiad 'mastr' gyfeirio at Ddafydd yn unig, gan ei fod ŵr ifanc. Eithr, gyda'r pwyslais a rydd y bardd ar ddysg y ddau yn y gerdd, gellid casglu mai ystyr wahanol eto sydd i 'meistr' yma, sef un sydd wedi ennill gradd MA.

**Merch**

Diffiniad GPC o'r gair *merch* yw:

*Plentyn benyw, geneth, llances; menyw, gwraig (ieuanc neu ddibriod), dynes; menyw yn ei pherthynas â'i rhieni; disgynnydd benyw.*
(GPC, t.2432)

Mae *merch* wedi cadw'r ddwy ystyr sydd wedi'u rhannu rhwng *mab* a *bachgen.*
Gwelwn yr enghraifft gynharaf o'r gair mewn achau o'r ddeuddegfed ganrif:

*[O]uein map Elen merc Ioumarc map Himeyt map Tancoystl merc Ouein ap Margetiut*
(P.C. Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts* (Caerdydd, 1966) t.9)

'disgynnydd' benywaidd yw yr ystyr yma. Yn Llyfr Du Caerfyrddin yn y drydedd ganrif ar ddeg, ceir y llinell:

*Ry reuineis y mab ae merch*
(C, 50.3)
a *daughter* yw'r ystyr yn y cyswllt hwn. Ond, yng ngwaith Dafydd ap Gwilym, gwelwn ei fod yn cyfleu'r ystyr 'gwraig ifanc', yn hytrach na 'menyw'; mae Dafydd yn gwahaniaethu rhwng menywod ifanc a menywod hŷn trwy ddweud ei fod yn:

*Caru merched a gwragedd*
(GDG, 363)

**Morwyn**
Hynafol yw tarddiad y gair *Morwyn*; ceir y gair cyfatebol *moroin* mewn Hen Gernyweg, a tharddodd y ddau air o'r gair Brythoneg *Morigna.* Un o ystyron y gair, a'i ystyr fwyaf amlwg heddiw yw:

*Gwraig neu ferch mewn gwasanaeth, gwasanaeth ferch, llawforwyn.*
(GPC, t.2496)

Dyna yw ei ystyr yn y llinell ganlynol ym mhedwaredd gainc y Mabinogi:

*Sef a wnaeth Blodeuwed ... kymryt y morynyon gyt a hi.*
(PKM, t.91)

Ond yn yr Oesoedd Canol, ei ystyr gan amlaf oedd *gwyryf,* ac o ganlyniad i bwysigrwydd cadw gwyryfdod i ferch yn yr Oesoedd Canol, mae'r gair i'w weld yn aml yn llenyddiaeth y cyfnod. Ceir enghraifft gynnar o'r gair yn Llyfr Du Caerfyrddin o'r drydedd ganrif ar ddeg:

*Morynion moelon. gwraget revit*
(C, 61.7-8)

a'r un yw ystyr y gair yn Llyfr Iorwerth, o'r un cyfnod:

*O rodyr moruen y vr a'e chaffael en llygredyc, a'e dyodef hy o'r gur yn y wely hyt trannoeth, ny eyll ef trannoeth caffael dym o'e delyet hy.*
(LlI, t.26)

Yn yr Almaen yn ystod yr Oesoedd Canol, defyddid term tebyg i *morwyn* yn helaeth, yn ôl James A. Schultz:

*Virtually the only word used to designate a child as female is maget or 'virgin'... There is no way to designate female sex without also designating sexual status in relation to men.*
(Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995) t.256)

Yn sicr, y mae hynny'n wir yn yr iaith Gymraeg; 'morwyn' a 'gwraig' a ddefnyddid fynychaf i ddynodi benyw. Yn yr Almaeneg, ceid llawer o dermau i ddisgrifio bechgyn, megis *knabe, junge, jungelinc, degen, kneht* neu *knappe* (Schultz, 257); yn y Gymraeg hefyd, mae llawer mwy o dermau i ddisgrifio bechgyn na merched, a'u hystyron yn fwy penodol.

**Plant**

Yn sicr, un o'r termau mwyaf diddorol i'w astudio yw'r gair *plant* ei hun. Yn ôl GPC, benthycwyd y gair o'r Lladin o gyfnod cynnar. Cadwyd y llythyren gyntaf 'P' yn y Gymraeg, eithr esblygodd i *cland* yn y Wyddeleg. Yr un yw ystyr *clan* yn yr Alban. Gellir tybio y byddai *plant* wedi golygu *planhigyn* o ryw fath yng nghyfnod cynnar y Gymraeg, ac iddo gael ei fabwysiadu i ddisgrifio epil oherwydd ei fod yn dynodi rhywbeth a dyfai. Diffiniad GPC ohono yw:

*Personau ieuainc (gwrywaidd neu fenywaidd) dan oed, bechgyn neu ferched, rhai bychain, bodau dynol cyn eu geni neu newydd eu geni; meibion neu ferched yn eu perthynas â'u rhieni, epil (weithiau am anifeiliaid), hiliogaeth; disgynyddion; dilynwyr, disgyblion, gweision; pobl neu bersonau o'u hystyried yn gynnyrch lle, amser, digwyddiad, amgylchiadau etc...*

Mae'r enghreifftiau cynharaf o'r gair *plant* yn dod o gyd-destun dysgedig yn aml; cawn yr argraff nad oedd yn air cyfredol a phoblogaidd ar lafar yn yr Oesoedd Canol.

Daeth y gair *plant* o'r Lladin, felly y mae'n air amhersonol sydd yn addas i'w ddefnyddio mewn testunau academaidd, neu destunau a anelwyd at bobl ddysgedig; y mae hyn yn nodwedd ar fenthyciadau o'r Lladin yn gyffredinol Y mae hefyd yn wahanol i *mab*, gan ei fod yn awgrymu'r ystyr 'disgynyddion' yn gryfach. Ceir yr enghraifft gynharaf o'r gair yn y ddeuddegfed ganrif, yn Llyfr Llandaf:

*haybot ynemelldicetic ... ef hay plant guety ef*
(LL, t.121)

a defnyddir y gair 'plant' yn helaeth yn Llyfr Iorwerth o'r drydedd ganrif ar ddeg, gan ei fod yn destun cyfreithiol manwl; rhaid oedd cael gair di-ryw er mwyn mynegi'r cyfreithiau yn glir, e.e:

*O deruyd rody Kemraes e alltut a bot plant udunt, e plant a dele tref tat o uamues ...*
(LlI, t.30)

*...ac o henne allan nyt a galanas arney, ac nyt a llv na bo ydy plant, canys dyheu yu na byd ydy.*
(LlI,t.66)

*A'r gwraged a'r escolheygon a'e tal [galanas], ony wadant na bo plant udunt byth; ac esef e talant, tros eu plant*
(LlI, t.71)

*E da enteu e ford y mynno aet, ony byd plant ydau; o byd plant ydau enteu, ny dele enteu kemynnu eythyr dayret e'r egluys a'e delyedyon.*
(LlI,t.79)

Yn y drydedd ganrif ar ddeg, cawn enghreifftiau o'r gair o destunau nad ydynt yn academaidd, megis o chwedlau yn Llyfr Du Caerfyrddin:

*Sew awnaethant plant Kai y vrth y medel ym chueli.* (C, t.45)

*Hyuel guledic. vt gveithvutic. id y guystlvy. tharkiveir ar pennic penn. o plant nevuy.* (C, t.75)

ac yng ngherdd Dafydd Benfras, 'Marwnad i'r Trywyr Ynghyd':

Ll. 8: *Llywelyn glodfawr a'i* ***feibion***

Ll. 31:*Llywelyn ai* ***blant*** *pla gelynion*

Ll.63 - *Tri eryr yn* ***wyr*** *ac yn* ***weision***

( *The Myvyrian Archaiology of Wales,* 1870 2229.23/ GDB)

Y mae llinell 63 yn debyg i *Gredyf gwr...*, ac y mae'n bur debyg bod yr adleisio hwnnw'n fwriadol, er mwyn cyfleu yr un ystyr; maent yn llanciau arwrol a dewr, ac yn ymddwyn fel dynion cyn eu hamser. Mae dyddiadau brwydrau Llywelyn Fawr a'i feibion yn hysbys; buont yn ymladd pan oeddent yn ifanc iawn fel yr oedd yr arfer yn y cyfnod. Mae hon yn gerdd anghyffredin gan ei bod yn farwnad i dad a dau o'i feibion.

Yr oedd 'Plant Addaf' yn ymadrodd cyffredin am yr hil ddynol yn yr Oesoedd Canol (gw. CBT IV, t.343). Cyffredin hefyd oedd termau megis *Plant Eingl* (gw. CBT III, 16 t.190). Mewn cerdd gan Lywarch ap Llywelyn, a *Rhun blant*, cyfeirir at hil Rhun ap Maelgwn Gwynedd sydd yn mynd yn ôl saith canrif (CBT V, 23 t. 200). Gwelwn felly bod *plant* yn amlwg yn golygu *hil* i ddechrau.

Ceir enghraifft o'r gair *plant* yn Llawysgrif Hendregadredd, ym Mawl Cynddelw i Owain Cyfeiliog – cerdd a luniwyd yn y ddeuddegfed ganrif, beth amser cyn y cwblhawyd Llawysgrif Hendregadredd (c.1300):

*Dychynne fflamdrais i dan fflamdai Lloegr,*
*A phlant Eingl yng ngwander.*

(CBT III, Rhif 16 ll.189-90)

ac ym Marwnad y Prydydd Bychan i Cynan fab Hywel:

*Gwarant Gymry blant, bla diochel,- mawr*
*Marw Cynan fab Hywel.*

(CBT VII, Rhif 6 (t.58) ll.13-4)

Yng ngoleuni hynny, mae defnydd Dafydd Benfras o'r gair *plant* yn fodern, gan ei fod yn cyfeirio at ddau unigolyn yn hytrach na hil gyfan neu ddisgynyddion anniffiniedig. Dyma'r enghraifft gynharaf o dipyn o *plant* yn yr ystyr ddiweddar.

Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, gwelwn *plant* mewn cerdd a briodolir i Daliesin yn Llyfr Coch Hergest, 'Mal Rot yn Troi Tramhweilyeu':

*Ohonav disgoganaf na hilia plant. ac nyt mi ae kel nys treulant - Oesuot adyuyd douyd ae diuant.*
(R, t.19, 1050.42 – 44)

ac mewn awdl gan Bleddyn Ddu:

*proves eua pla plant vedyssyavt. Profant or lledwyd heb ffyd heb ffavt.*
(R, t.92, 1284 21-22)

Y mae'n digwydd hefyd yn y testun o'r un ganrif, *Llyma Vabinogi Iessu Grist*. Dogfen anghyflawn sy'n delio â digwyddiadau ym mywyd cynnar Crist ydyw, sy'n dechrau â'r ddihangfa i'r Aifft.

*A thra yttoed yn di6edut hynny gar y bron hy y ymdangosses idi agel. yn dy6edut. Anna. nac ofnaha. Canys yg kygor Duw y mae dy blant ty. ac a aner o honat ty.*
(Peniarth 14/ Mary Williams (gol.), *Revue Celtique* XXXIII (1870 -1934) t.210)

Mewn cyfreithiau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, cawn enghreifftiau o'r gair:

*Deuparth y plant adav y gvr. nyt amgen yr hynaf ar ieuhaf. ar trayan yr vam.*
(*Welsh Medieval Law,* t.90)

ac yn nysgeidiaeth Meddygon Myddfai, a luniwyd oddeutu 1400 ceir y cyngor canlynol:

*Da yw y wraged a uynno kael plant, bwytta y kennin.*
(P. Diverres (gol.), *Le Plus Ancien Texte des Meddygon Myddveu* (Paris, 1913)

Ceir enghreifftiau o'r gair yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, megis

*A'i 'stad, a'i blwyf, a'i ystod, a'i blant.*
(GLGC, 263)

a cheir defnydd diddorol ohono ym 'Moliant Dafydd ap Tomas Fychan'. Y mae'r bardd fel petai'n ymwybodol o darddiad y gair, ac yn chwarae â'i ystyr trwy ei gyfosod â'r syniad o blannu a thyfiant:

*Coed plan Tomas Fychan fu*
*ei blant ef abl yn tyfu;*
(GLGC, 80)

Gwelwn y gair yn aml yng ngwaith William Salesbury; fel y nodwyd eisoes, roedd yn barod i gynnwys geiriau anghyfarwydd yn ei waith. Yn *Kynniver Llith a Ban,* cawn y llinell ganlynol:

*Ac Iesu a atebad ac a dyuot : Nyd da cymeryd bara y plant ae vwrw ir cwn.*
(*Kynniver Llith a Ban,* (1551), t.xviii)
ac yn Ioan, ceir yr ymadrodd:

*Ha blantynyot*
( t.199)

Ffurfiodd luosog o *plentyn* i ddangos anwyldeb, megis y gair *plantos.* Rhydd *veibiones* yn gyfystyr iddo ar ymyl y ddalen.

Ceir defnydd cynnar o *plant* mewn cyd-destun nad yw'n academaidd yn y Mabinogion, yn *Culhwch ac Olwen.* Mae gwraig newydd Cilydd yn holi gwrach a oes ganddo blant. Ateb yr hen wraig yw:

*Nyd oes plant itaw.*

Defnyddir y gair eto, pan ddywed y wraig wrth Cilydd:

*Pwy ystyr yw gennyt ti kelu dy blant ragof i?*
(CO, t.2)

Ond gelwir Culhwch yn *mab* yn hytrach nag yn blentyn.
Yn *Pwyll Pendefig Dyfed*, mae Pwyll yn gwrthod ysgaru Rhiannon gan y gŵyr iddi esgor ar blentyn:

*Plant a wnn i y uot idi hi.*
(PKM, t.21)

Felly, mae'r gair *plant* yn gymharol anghyffredin yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, a chymerodd beth amser i'r benthyciad gael ei dderbyn. Mae'n debyg mai ofergoeliaeth oedd wrth wraidd y benthyciad, oherwydd fel y soniwyd eisoes, byddai ar bobl ofn cyfeirio at eu plant yn uniongyrchol. Trwy ddefnyddio term dieithr wrth sôn amdanynt, byddent yn drysu unrhyw fodau goruwchnaturiol megis y tylwyth teg a oedd am niweidio eu plant. Nid yw'r gair *plant* yn cyfleu cynhesrwydd ac anwyldeb fel y byddai term megis 'cywion' neu 'genafon'; mae'n amhersonol ac ni fyddai'n debygol o ennyn chwilfrydedd unrhyw rai a oedd am gyflawni drygau.

Oherwydd mai benthyciad oedd y gair *plant,* ni ddatblygodd mewn modd naturiol. Gan amlaf, ceir gair unigol cyn y ceir gair lluosog, felly bodolai'r term *plant* ar ei ben ei hun am flynyddoedd maith. Eithr, pan ddaeth *plant* i olygu epil, ac i fod yn air lluosog yn hytrach na gair torfol, bu'n rhaid bathu'r gair unigol *plentyn.* Felly, gweddol ddiweddar yw'r enghreifftiau o'r gair *plentyn.* Yn y llyfr *Kynniver Llith a Ban* gan William Salesbury, mewn nodyn ar ymyl tudalen ixxviii, rhoddir *bachken, plentyn* yn aralleiriad i *dyn bychan.* Yn Nhestament Newydd William Salesbury, cawn yr enghraifft hon:

*Ydd oeddent illdau yn gyfiawn geyrbron Dew, ac yn rhodio yn yr oll 'orchmynnae ac ordinadae yr Arglwydd yn ddi-veius. Ac nid oedd vn plentyn iddynt, can vot Elisabet heb planta : ac ill dau gwedy myned mewn swrn da o oedran.*
(Y Testament Newydd, 80b)

Gwelwn y gair eto yn y gerdd ganlynol gan Gronw Wiliam:

*kelwyd hanog yw trwy r byd, a ffalster bryd malaiusys / gan bob plentyn jevank bach, a chann bob gwrach oedranys.*

(L.J. Hopkin-James & T.C. Evans (gol.), *Hen Gwndidau, Carolau a Chywyddau,* (1910))

Enghraifft William Salesbury yw'r enghraifft gynharaf o'r gair 'plentyn' y gellir ei dyddio, ond y mae'n bosibl fod defnydd Gronw Wiliam o'r gair yn gynharach. Serch hynny, nid oes enghraifft o'r gair *plentyn* wedi goroesi o'r Oesoedd Canol; y mae hyn yn brawf pellach nad oedd *plant* yn air cyfredol yn yr Oesoedd Canol.

Hyd at rai canrifoedd yn ôl, natur gyfnewidiol ac amwys oedd gan dermau Cymraeg am blant. Dewisodd Gruffudd Ellis ddefnyddio'r gair 'edling' i ddisgrifio plentyn mor ddiweddar â'r unfed ganrif ar bymtheg yn *Ystoria Taliesin*, oherwydd nid oedd y term safonol 'plentyn' yn rhan o iaith bob dydd y Cymry eto, ac nid oedd gair di-ryw a gyfatebai iddo yn bodoli ychwaith.

Efallai nad yw natur hylif y termau canoloesol am blant yn annisgwyl; wedi'r cyfan, newidiodd strwythur yr uned deuluol ac agweddau pobl tuag at blant yn sylweddol yn yr Oesoedd Canol. Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, datblygodd ymwybyddiaeth cryfach o blentyndod fel cyfnod unigryw a phwysig ar ei ben ei hun erbyn dechrau'r cyfnod modern. Gellid dadlau bod datblygiad y term 'plentyn' yn adlewyrchu'r ymwybyddiaeth hwnnw.

## Pennod 3

## Rhyddiaith

### I

### Y Darlun o Blant a Gyflwynir yn y Mabinogion

Fel y nodwyd uchod, yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, rhoddir y diffiniad canlynol o'r gair *mabinogi* :

*mebyd, ieuenctid; digwyddiadau neu gampau ieuenctid, hanes mebyd (rhywun), stori, chwedl; (yn y ll.) yr enw a roddir ar gasgliad o chwedlau Cymraeg o'r Oesoedd Canol.*[1]

Yn ddiamau, y mae'r gair yn cynnwys yr elfen *mab*, a chytunir mai ei ystyr wreiddiol oedd 'mebyd'. Serch hynny, dadleua Eric Hamp fod ystyr fanylach i'r gair, sef '... what pertains to the god Maponos (Welsh *Mabon*) and his family'.[2] Y mae achos cryf dros ddadlau fod Mabon i'w weld yn y chwedlau o dan enwau eraill, ond ni ddigwydd yr enw *Mabon* yn y *Pedair Cainc.* Gallwn gasglu felly mai 'hanes mebyd' oedd ystyr *mabinogi* erbyn cyfnod llunio'r chwedlau. *Mabinogi Jessu Grist* yw teitl testun canoloesol am fywyd cynnar Crist,[3] ac fel y gwelwn yn yr adran hon, mae mebyd prif gymeriadau'r Mabinogion yn rhan ganolog o'u hanes.

Fodd bynnag, er mor bwysig yw mebyd sawl cymeriad i rediad y chwedlau, cyfnod cymharol fyr yw plentyndod yn y Mabinogion. Fel nifer o chwedlau seciwlar eraill, maent yn canolbwyntio ar y broses o gefnu ar blentyndod, yn hytrach na'r profiad o fod yn blentyn. Nid yw'r Mabinogion yn delfrydu plentyndod, ac mae rhyw fath o seremoni i ddynodi'r broses o droi'n oedolyn yn uchafbwynt i nifer o'r chwedlau.[4] Yn *Culhwch ac Olwen*, mae ennill Olwen yn dynodi fod Culhwch bellach yn ŵr. Y mae hefyd

---

[1] GPC, t.2295

[2] Andrew Breeze, *Medieval Welsh Literature* (Dulyn, 1997) t.69
ac Eric P. Hamp TrCy (Llundain, 1975), 243 ff.

[3] Mary Williams (gol.), ' Llyma Vabinogi Iessu Grist', *Revue Celtique*, XXXIII (Paris, 1870-1934) tt.184-207

[4] James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995)t.247

adlais o hen ddefod yn y chwedl, pan anfonir Culhwch at Arthur i gael torri ei wallt. Yn yr Oesoedd Canol, byddai llawer o fechgyn o dras frenhinol yn tyfu eu gwalltiau yn hir, yn symbol o'u statws uchel. Pan fyddai bachgen yn cyrraedd deuddeng mlwydd oed - oedran a ddynodai ei fod ar drothwy bod yn ddyn - torrid ei wallt. Enw'r ddefod Rufeinig honno oedd *capillaturia*, a phan fyddai'n bryd i'r bachgen eillio am y tro cyntaf, dethlid hynny gyda seremoni'r *barbatoria.*[5]

Nod Peredur yw cyrraedd llys Arthur, ond rhaid iddo yntau gyflawni tasgau cyn dod at ei gyrchfan. Gellid ystyried bod taith Peredur yn cynrychioli ei ddatblygiad, ac efallai bod arwyddocâd arall iddi gan i dad Peredur farw pan oedd yn blentyn. Yn ei lyfr *Childhood in the Middle Ages,*[6] nododd Shulamith Shahar fod sawl enghraifft o thema cymhlethdod Oedipaidd i'w gweld yn llên yr Oesoedd Canol. Sylwer nad oes tadau gan nifer o arwyr chwedlau eraill yr Oesoedd Canol, megis Trystan, Lawnslot a Lleu.[7] Amddifadwyd Peredur o ofal ac arweiniad ei dad, ac y mae modd gweld Arthur fel ffigwr a allai lenwi'r gwagle a adawyd ganddo. Felly, y mae'n rhaid iddo gyrraedd llys Arthur er mwyn datblygu'n ŵr cyflawn.

Gellir cymharu Lleu a Chulhwch â'i gilydd gan fod y ddau yn cael eu gormesu gan dynged a osodwyd arnynt. Serch hynny, tipyn creulonach yw tynged Lleu na thynged Culhwch, gan na chaiff y priodoleddau a fyddai yn ei wneud yn ŵr. Ni chaiff enw, oni wna Arianrhod ei enwi. O ganlyniad i hynny, nid oes ganddo hunaniaeth, na modd o ddynodi ei ach - roedd hyn o bwys mawr yn yr Oesoedd Canol.[8] Ni chaiff arfau i'w amddiffyn ei hun ychwaith. Byddai hyn yn tolcio balchder llanc ifanc yn yr Oesoedd Canol, oherwydd roedd derbyn arfau yn arwydd ei fod yn barod i ymladd ac i ymddwyn fel dyn. Yn ogystal â hynny, ni chaiff wraig byth '... o'r genedyl yssyd ar y dayar honn'.[9] Ond, trwy hudoliaeth gyfrwys Gwydion, goresgynnir y tair tynged. Y mae'r enghreifftiau hyn yn pwysleisio mai tras, dawn filwrol a phrofiad rhywiol yw'r pethau hanfodol er mwyn bod yn ŵr o statws uchel.

Ceir darlun manylach o blentyndod yn *Pwyll Pendefig Dyfed.* Yn yr adran sy'n trafod diflaniad mab Pwyll a Rhiannon, clywn am lawenydd Teyrnon a'i wraig, sy'n ei

---

[5] Danièle Alexandre-Bidon & Didier Lett, *Children in the Middle Ages* (Notre Dame, Indiana 1999) t.45

[6] Shulamith Shahar, *Childhood in the Middle Ages* (Llundain, 1992)

[7] Gw.Y Plentyn Rhyfeddol, isod.

[8] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod.

[9] PKM, t.83

ganfod a'i fagu. Cawn ddisgrifiadau o dwf a datblygiad y baban; ei fedydd, ei wallt, ei ddiddordeb mewn ceffylau a threfniadau gwraig Teyrnon iddo gael ceffyl, a disgrifir tristwch dirdynnol gwraig Teyrnon pan fo'n rhaid dychwelyd y plentyn at ei rieni. Seiliodd Andrew Breeze ei ddamcaniaeth ynglŷn ag awduriaeth y Pedair Cainc ar yr adran honno, yn bennaf. Yn ei lyfr *Medieval Welsh Literature*[10] dadleua mai menyw oedd eu hawdur, o ganlyniad i'r sylw i blant sydd ynddynt, ac â mor bell â honni mai Gwenllian ferch Gruffudd ap Cynan a'u lluniodd. Cyflwyna wybodaeth helaeth am fywyd Gwenllian er mwyn cryfhau ei ddadl, ond nid yw'r cyfan yn argyhoeddi. Dywed mai cyffyrddiad benywaidd yw'r disgrifiad o wisg sidan y baban, eithr onid bwriad yr awdur yw dangos mai baban o uchel dras ydyw, sef baban Rhiannon? Ni noda fod datblygiad y baban yn rhyfeddol o gyflym, ac nid ystyria mai bwriad yr awdur wrth fanylu ar ei ddatblygiad yw pwysleisio ei hynodrwydd. Wedi hynny, gwrthyd ddadl Proinsias Mac Cana mai mynach oedd yr awdur:[11]

> *...it is difficult to accept that a monk would have the concern of a woman writer in matters like child-bearing, childlessness, wet-nursing, fosterage, and the upbringing of children.*[12]

Gellir dadlau mai bwriad yr awdur trwy gynnwys y manylion hyn yw adleisio arferion bonheddig yr oes, er mwyn dilysu'r chwedlau a phwysleisio statws uchel y cymeriadau. Yn ogystal â hynny, nid yw hanes Teyrnon a'i wraig yn arbennig o wreiddiol, nac yn arwydd o ddiddordeb yr awdur mewn plant - mae'n adleisio motiff llenyddol hynafol. Yn y Beibl, mae parau di-blant megis rhieni Isaac a Samuel a'u gwragedd, a rhieni Ioan Fedyddiwr ac Ishmael, yn cael eu bendithio â baban mewn amgylchiadau rhyfedd ar ôl dyheu am faban ers amser maith.[13] Wrth gwrs, nid yw gwraig Teyrnon yn esgor ar y baban ei hun, ond gellir tybio mai ffurf ar y motif yw ei hanes.

Nid yw Breeze yn ystyried natur awduriaeth y Pedair Cainc yn ei ddadl. Er y credir yn gyffredinol mai un person a gofnododd y Pedair Cainc, ac er bod nodweddion arddull yn clymu'r chwedlau hynny ynghyd, nid 'awdur' yn yr ystyr fodern oedd y person hwnnw. Nid un person a'u cyfansoddodd, o'i ben a'i bastwn ei hun; roedd y

---

[10] Breeze, *op. cit.*, t.75-80
[11] Proinsias Mac Cana, *The Mabinogi* (Caerdydd, 1977) t.51
[12] Breeze, *op.cit.*, t.75

chwedlau yn bodoli ar lafar ers blynyddoedd maith, a phlant yn rhan annatod ohonynt. Ni allai'r 'awdur' hepgor y cyfeiriadau at blant, heb golli rhediad a strwythur y storïau. Hyd yn oed pe credem mai syniadau gwreiddiol un awdur sy'n llywodraethu'r chwedlau, annheg fyddai tybio mai menyw yw awdur y Pedair Cainc ar sail y darlun o blant ynddynt. Ar y cyfan, ymdrinnir â hwy mewn ffordd arwynebol a byddai'n decach cytuno â Proinsias Mac Cana, a thybio mai mynach oedd awdur y Pedair Cainc. Nid oes llawer o dystiolaeth yn y chwedlau o ddealltwriaeth o blant, a gellid casglu yn rhesymol nad oedd yr awdur ei hun yn rhiant. Darlun afreal o blant a gawn yn y Mabinogion - mae eu datblygiad corfforol yn rhyfeddol o gyflym, ac nid yw eu hymddygiad yn nodweddiadol o blentynnaidd. Dylanwad chwedlau poblogaidd rhyngwladol ar y Mabinogion sydd wrth wraidd y darlun hwn o blant, gan fod y 'Plentyn Rhyfeddol' yn fotiff amlwg mewn llên werin.[14]

Cafodd 'awdur' y Pedair Cainc flas ar liwio cymeriadau byw megis Rhiannon, eithr ni cheisiodd roi cig ar esgyrn plant y Mabinogi. Bwriad y gainc gyntaf a'r bedwaredd gainc yw cyflwyno hanes arwyr, felly pwysleisir eu doniau rhyfeddol pan oeddent yn blant. Nid hanes arwr, ond gwrthdaro rhwng teuluoedd sy'n llywodraethu ail gainc y Mabinogi, felly yn y chwedl honno y cawn Gwern - yr unig blentyn 'normal' o'u plith. Mae'r drydedd gainc yn barhad o'r ail mewn gwirionedd, felly nid yw'n annisgwyl na cheir sôn am blant ynddi o gwbl. Glynir yn rhy ddeddfol wrth y straeon ac nid oes gan y plant bersonoliaethau unigryw. 'Teipiau', yn hytrach na chymeriadau, yw plant y Mabinogi mewn gwirionedd.

Nid yw perthynas y plant â chymeriadau eraill y chwedlau yn taro deuddeg, ychwaith. Sylwodd James A.Schultz ar rywbeth a oedd yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'r plant yn chwedlau canoloesol yr Almaen: nid oes brodyr, chwiorydd na chyfeillion ganddynt.

*... their important relations are with adults : parents, guardians, nurses, tutors, and a whole range of strangers they encounter. The only serious relations children sustain with each other are love relationships – but in falling in love they are understood to be behaving like adults ...* [15]

---

[13] Gw. Llenyddiaeth Grefyddol, isod
[14] Gw. Y Plentyn Rhyfeddol, isod
[15] Schultz, *op. cit.*, t. 248

Y mae hyn yn sicr yn wir o ystyried plant y Mabinogion. Er y byddai uchelwyr fel arfer yn cael nifer helaeth o blant yn y cyfnod, mae Gwern yn unig blentyn, a dim ond yng nghwmni oedolion y gwelwn ef. Mae gan Lleu frawd - Dylan Eil Don - ond nid yw yn ei adnabod, a Gwydion, ei ewythr, yw ei unig gyfaill. Mae Pryderi hefyd yn unig blentyn, ac yn treulio'i amser yng nghwmni ceffylau. Mae hanner chwaer gan Culhwch, ond nid yw hi'n bwysig iddo; mae ei gariad tuag at Olwen, o oedran cynnar, yn llywio ei fywyd. Yn y drydedd gainc, cawn ddathliad o gyfeillgarwch, ond rhwng oedolion yn hytrach na phlant y mae'r cyfeillgarwch hwnnw.

Fel y gwelwyd eisoes, dadleuai nifer o haneswyr tan yn ddiweddar nad oedd perthynas agos rhwng rhieni a'u plant yn yr Oesoedd Canol.[16] Yn sicr, y mae enghreifftiau yn y chwedlau o agweddau oeraidd tuag at blant, gan fod elfennau materol cyn bwysiced ag emosiynau yn aml wrth i'r cymeriadau ddelio â phlant, ac etifedd fel petai'n wrthrych yn hytrach na pherson. Ar ddechrau *Culhwch ac Olwen*, y mae'n hanfodol i Cilydd a Goleuddydd gael etifedd gwrywaidd, gan na allai merch etifeddu eiddo ei thad o dan Gyfraith Hywel. Teimlwn ryddhad y cymeriadau wrth glywed iddi gael mab 'trwy weti y wlad'. Yna, pan ddaw'r wraig newydd i gymryd lle Goleuddydd, mae hi'n siomedig pan greda nad oes gan Cilydd blentyn a pharhad i'w linach; ei hymateb yw: 'Gwae uinheu uyn dyuot ar anuab', sef gŵr anffrwythlon. Yn *Pwyll Pendeuic Dyuet*, y mae brodyr maeth Pwyll yn digio wrth Rhiannon yn ystod trydedd flwyddyn priodas y ddau, 'o welet gwr kymeint a gerynt a'e harglwyd ac eu brawdmaeth, yn dietiued', ac maent yn ei annog i ganfod gwraig arall. Yn ogystal â hynny, sylweddola gwraig Teyrnon y gallent fod ar eu helw'n ariannol am ofalu am fab Rhiannon, oherwydd mab 'dynnyon mwyn' ydyw.

Fel y rhan fwyaf o lenyddiaeth yr Oesoedd Canol, nid yw'r Mabinogion yn cynrychioli plant trwch y boblogaeth. Mae'r plant i gyd yn uchelwrol, ac ni cheir sôn am blant benywaidd ynddynt. Serch hynny, er na chlywn am 'blant' benywaidd yn y chwedlau, gwelwn y byddai dyletswyddau cymdeithasol a rhagfarnau gwrth-fenywaidd yn pwyso ar fenywod o oedran ifanc. Yn ôl Cyfraith Hywel, gallai merch briodi pan oedd gyn ieuenged â phedair ar ddeg mlwydd oed, a'i thad fyddai'n dewis ei gŵr drosti gan

---

[16] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod

amlaf.[17] Enghraifft amlwg o hyn yw bod Branwen yn cael ei rhoi yn wraig i Fatholwch heb i Fendigeidfran ymgynghori â hi, er mai gŵr addfwyn a rhinweddol yw ei brawd. Gwyryf ddelfrydol yw cymeriad Goewin yn Math Uab Mathonwy, ond ar y pegwn arall y mae merched a ystyrir yn annymunol, sef Arianrhod (sy'n methu'r prawf gwyryfdod) a Blodeuwedd, y llances sy'n dilyn ei greddfau rhywiol.

Gwelwn hefyd ôl syniadau cyntefig a gwrth-fenywaidd am famau yn hanes anffodus Rhiannon yn y gainc gyntaf. Cyhuddir Rhiannon o ladd ei mab pan ddiflanna, a gadewir cŵn bach meirw yn ei le gan ei morynion. Ceir adlais o'r stori yn y rhamant Ffrengig, *Chevelere Assigne,* a droswyd i'r Saesneg yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ynddi, clywn am fam y Brenin Oryens yn cipio ei blant ac yn gadael cŵn bach yn eu lle.[18] Yn ôl Kenneth Jackson, gellir casglu mai bwyta ei baban oedd y cyhuddiad gwreiddiol yn erbyn Rhiannon, oherwydd mae'r morynion yn taenu gwaed y cŵn ar ei hwyneb. Dywed ei bod felly yn debyg i stori Sanskrit o'r chweched ganrif am wraig o'r enw Padmavati. Mae hi'n un o wragedd niferus i frenin, a'r gwragedd eraill yn eiddigeddus ohoni. Oherwydd hynny, dygant ei phlant, a'u taflu mewn blwch i'r Ganges. Taenir gwaed ar ei hwyneb, ac fe'i cyhuddir o fwyta ei phlant. Ond, canfyddir y plant, ac achubir Padmavati rhag cael ei dienyddio.[19] Mae'r ddwy stori, fel hanes Medea, yn adleisio hen fytholeg am y 'Fam Fawr' yn creu ac yn dinistrio ei phlentyn, megis y dduwies Gaia yng ngwlad Groeg a Kali yn India.[20] Maent hefyd yn ffurf ar y motiff 'Y Wraig a Gyhuddir ar Gam'[21] a welir eto yn yr Ail Gainc. Yn y chwedl honno, cosbir Branwen am ymosodiad Efnisien ar geffylau Matholwch.

Er mor gryf yw dylanwad motiff 'Y Plentyn Rhyfeddol' ar y chwedlau, mae un plentyn cyffredin ymhlith y cewri, fel y nodwyd eisoes, sef Gwern, fab Branwen. Rôl fechan sydd ganddo yn yr Ail Gainc tan ei farwolaeth erchyll, ond cawn yr argraff ei fod yn blentyn hoffus a bodlon yn yr olygfa cyn ei farwolaeth, gan fod ei deulu yn ysu i roi maldod iddo; plentyn 'go iawn' ydyw. Dywed Efnisien ei fod am 'ymtiryoni' ag ef, ond o gael y cyfle hwnnw, cyflawna weithred hollol wrthun a'i daflu i'r tân. Mae'r weithred hon yn cyfleu natur annynol Efnisien ac yn pardduo ei gymeriad yn fwy nag y gallai

---

[17] *Ibid.* t.5
[18] Orme, t.290
[19] Kenneth Hurlston Jackson, *The International Popular Tale and Early Welsh Tradition* (Caerdydd, 1961)
[20] Gw. David & Margaret Adams Leeming, *Encyclopedia of Creation Myths* (Rhydychen, 1994) t.99 ac Erich Neuman, *The Great Mother* (Princeton, 1974) t.150.
[21] Stith Thompson, *Motif-Index of Folk Literature,* (Copenhagen, 1955-58), K. 2116.1.1.1.

unrhyw weithred ymosodol arall; os gall niweidio plentyn hoffus a diniwed, mae'n amlwg nad oes teimladau dynol naturiol ganddo. Yr hyn a wna'r llofruddiaeth hyd yn oed yn waeth yw'r ffaith ei fod yn ewythr i Wern. Yn ôl Nicholas Orme, roedd pobl yr Oesoedd Canol yn hen gyfarwydd â hanes Herod, a lladdfa'r plant diniwed, ond ni chlywyd am lofruddiaeth o fewn teuluoedd yn aml:

*... most medieval people probably saw the massacre as something exotic: the kind of cruelty typical of Jews. If it carried a lesson for their own society, it may have suggested that abuse of children had its origins outside families rather than inside, still a common assumption today.*[22]

Ar ôl marwolaeth erchyll Gwern, cawn olygfa hynod o rymus, wrth i Branwen ddilyn ei greddf famol, a cheisio neidio i'r tân i'w achub. Cymer gryn dipyn o nerth i'w dal yn ôl; y mae'n rhaid i Fendigeidfran y cawr ei dal 'y rwng y taryan a'y yscwyd' i'w hamddiffyn yn y gyflafan. Er i Gwern gael ei anfon at rieni maeth o oedran ifanc iawn, y mae Branwen yn dal i'w garu yn angerddol, ac yn ymateb i'w lofruddiaeth fel y byddai'r rhan fwyaf o famau heddiw - yn emosiynol, heb ystyried y perygl iddi hi ei hun.

Cawn sawl darlun arall o glymau emosiynol rhwng plant ag oedolion yn y chwedlau. Nid yw mam weddw Peredur yn ceisio ymbellhau'n emosiynol oddi wrth ei mab, er iddi golli ei meibion eraill. Y mae'n gofalu amdano yn amddiffynnol iawn ac yn barod ei chyngor. Gallwn gasglu mai siom a thorcalon oedd achos ei marwolaeth ar ôl i Beredur ei gadael. Teimlwn loes Rhiannon ar ôl iddi golli ei mab, a diddorol yw gweld greddf famol gref gwraig Teyrnon, er nad yw baban Rhiannon yn perthyn iddi trwy gig a gwaed. Y mae'n cynhyrfu wrth feddwl y gallai esgus bod yn feichiog, ac er bod y ddau yn falch o weld ei fod yn faban o waed bonheddig, dywed y wraig y bydd y baban yn dod â 'digrifwch a didanwch' iddynt; dyna yw ei phrif reswm dros ofalu amdano.

Y mae gofal Gwydion am Lleu yn eithriadol o dyner. Y mae Gwydion yn benderfynol o dorri'r tair tynged a osodwyd ar ei nai, ac y mae Lleu yn hollol ddibynnol arno ef ac yn ei garu 'yn uwy noc un dyn'. Fodd bynnag, roedd y berthynas rhwng bachgen a brawd ei fam yn un hynod o bwysig yn yr Oesoedd Canol, ac yn aml, fe'i

[22] Orme, t. 101

hanfonid at yr ewythr hwnnw ar faeth. Felly, gellir dadlau fod perthynas agos Lleu a Gwydion yn hollol nodweddiadol o'r cyfnod.

Serch hynny, nid darlun 'byw' o blant a gawn yn y Mabinogion, ac o ddarllen y chwedlau, cawn yr argraff fod plentyndod yn gyfnod byrrach yn yr Oesoedd Canol nag ydyw yn ein hoes ninnau. Nid yw'n gyfnod di-bryder, llawn hwyl a sbri yn y Mabinogion; mae'r plant yn derbyn cyfrifoldebau oedolion (megis Pryderi yn gofalu am y ceffylau), ac yn wynebu anawsterau o oedran cynnar (megis y dynged a osodir ar Lleu). Serch hynny, ni ellid defnyddio'r Mabinogion i hyrwyddo dadl Ariès am ddiffyg diddordeb rhieni'r Oesoedd Canol yn eu plant. Er mor ddi-liw yw plant y Mabinogion, nid yw'r oedolion o'u cwmpas yn ddifater yn eu cylch; maent yn ymddiddori ynddynt ac yn gofalu amdanynt yn gariadus.

## II
## Llenyddiaeth Grefyddol

### Bucheddau'r Seintiau

Mewn gwirionedd, nid oes llawer o sôn am blentyndod y seintiau yn y Bucheddau. Gwrthdaro rhywiol yw thema nifer o fucheddau'r santesau, felly mae eu hanes yn dechrau yng nghyfnod eu llencyndod. Gwelwn fotiff y 'plentyn rhyfeddol' yn y bucheddau eraill, ond yn wahanol i'r chwedlau, cyneddfau deallusol y seintiau a bwysleisir. Roedd Dyfrig yn enwog am ei ddoethineb a'i ddeallusrwydd o oedran cynnar, a dywedir bod llawer o'r seintiau wedi dysgu darllen mewn diwrnod. Ym muchedd Illtud, rhoddir mwy o bwys ar ei ddysg a'i ddealltwriaeth o'r clasuron nag ar ei fywyd sanctaidd a mynachaidd.[1] Elfen gyffredin arall yw disgrifiad o amgylchiadau geni unigryw y seintiau, ac y mae'n rhaid i linach y sant fod yn arbennig. Ymerawdwr Caer Gystennin yw tad Cyngar, a gellir olrhain ach Dewi Sant yn ôl at Iesu Grist.

### Buchedd Beuno

Cafodd Beuno genhedliad gwyrthiol, sy'n adleisio'r modd y cafodd cymeriadau blaenllaw yn y Beibl, megis Samuel a Ioan Fedyddiwr, eu cenhedlu. Roedd rhieni Beuno yn hen ac yn ddi-blant, ond cânt eu bendithio â baban oherwydd eu ffydd ddiysgog yn Nuw. Roedd hyn yn erbyn trefn natur, fellu credid bod plant a enid mewn amgylchiadau o'r fath yn arbennig, ac yn rhodd gan Dduw.[2] Yn y testun *Gwassanaeth Meir,* mewn aralleiriad o'r ysgrythur, clywn am feichiogrwydd gwyrthiol Elizabeth:

*A Llyma Elizabeth, dy gefnithderw, gwedy ymdwyn mab yn y heneint, yr hwnn yw'r chwechet mis [idi], yr [honn] a elwir yn anuab.*[3]

Ni sonnir rhyw lawer am blentyndod Beuno yn ei fuchedd, heblaw am nodyn yn dweud iddo gael ei addysgu gan Sant Tangusius. Un o'r traddodiadau pennaf yn ymwneud â Beuno yw iddo atgyfodi chwe pherson, ac y byddai'n atgyfodi seithfed person. Cyfeirir at hyn ym Marwnad Siôn y Glyn.

---

[1] Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997) t.63
[2] James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995) t.69
[3] Brynley F. Roberts (gol.), *Gwassanaeth Meir* (Caerdydd, 1961) t.8

Motiff cyson yn y Bucheddau yw tarddiad ffynnon ar fan ble y torrwyd pen morwyn. Ym Muchedd Ddewi, cawn darddiad Ffynnon Dunod, ac ym Muchedd Beuno, mae Caradog yn torri pen Gwenffrewi. Tardda ffynnon ble cwymp ei gwaed, ac mae Beuno yn ei hatgyfodi. Hanes tebyg yw atgyfodiad Tigiwc. Mae hithau yn forwyn sy'n cael ei lladd gan ŵr a oedd am iddi fod yn gariad iddo. Yn y Bucheddau, pwysleisir diweirdeb y santesau yn fwy nag unrhyw un o'u rhinweddau eraill.

**Dewi Sant**

Yr oedd Dewi Sant yn fab i Sant mab Ceredig, sylfaenydd Ceredigion, fab Cunedda o'r Hen Ogledd a orchfygodd Ogledd Cymru, a'i fam oedd Non ferch Cynyr.

Mae cysylltiad agos rhwng Dewi a Non. Cyfeiria Meurig Dafydd at ŵr mawr fel '... ail mab Non'.[4] Mae'r cysylltiad yn annatod, fel Iesu a'r Forwyn Fair, ac yr oedd Non, fel Mair, yn fam ddelfrydol y dylai menywod geisio ei hefelychu.

Bu cryn anghytuno ynglŷn ag achau Dewi; yn ôl Sieffre o Fynwy, 'Brut Dingestow' a Gerallt Gymro, roedd Dewi yn ewythr i'r brenin Arthur. Ond, mae fersiynau eraill o 'Brut y Brenhinedd' a 'Bonedd y Saint' yn nodi mai gor-nai i Arthur yn hytrach nag ewythr iddo oedd Dewi. Fodd bynnag, y peth pwysig oedd cael perthynas rhwng y ddau ŵr mawr, ac roedd perthynas yr ewythr a'r nai â'i gilydd yn arbennig o bwysig yn yr Oesoedd Canol. Yn aml, byddai ewythr yn cynnig mwy o arweiniad a chyngor i fachgen ifanc na'i rieni.[5]

Lluniwyd *Buched Dewi* yn niwedd yr unfed ganrif ar ddeg gan Rhigyfarch, mab hynaf Sulien Ddoeth, brodor o Lanbadarn Fawr yng Ngheredigion. Yr oedd hon yn un o'r bucheddau cynharaf, ac mae'n debyg iddi fod yn ysbrydoliaeth i'r bucheddau eraill a luniwyd ar ei hôl.[6] Eithr adlais gwan o'r fuchedd hon yw bucheddau'r seintiau eraill; mae'r gwyrthiau arbennig a'r cyffro a geir ym *Muched Dewi* yn esbonio i ryw raddau pam y tyfodd ei gwlt i fod yn fwy poblogaidd na chwltiau'r seintiau eraill yn y ddeuddegfed ganrif.

Ceir techneg gyfarwydd ym Muchedd Dewi i sefydlu pwysigrwydd yr arwr, oherwydd clywn y bu disgwyl hir amdano. Daw angel at Sant Padrig yng Nglyn Rhosyn i ddweud wrtho bod yn rhaid iddo adael y tir i fachgen a enir ymhen deng mlynedd ar

---

4 Elissa Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987) t.31
5 Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod
6 D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965) t.xx

hugain. Y mae hyn yn peri loes i Badrig, gan fod plentyn heb ei eni yn bwysicach nag ef yng ngolwg Duw, ond yna rhoddir Iwerddon gyfan i'w ofal. Felly, yn ogystal â'r ddeng mlynedd ar hugain o aros am Ddewi, rhaid i sant mor bwysig â Padrig wneud lle ar ei gyfer. Mae amgylchiadau cenhedlu Dewi hefyd yn anghyffredin, (ond nid yng nghyd-destun y bucheddau) oherwydd caiff ei fam ei threisio gan Sant, ei dad. Mewn rhyw ffordd droëdig, efallai mai pwrpas yr elfen hon yw cyfleu purdeb Non; ni chafodd Dewi ei genhedlu o ganlyniad i chwant rhywiol ei fam. Nid yw cyfnod beichiogrwydd Non yn gyffredin ychwaith, oherwydd gall Dewi gyflawni gwyrthiau hyd yn oed cyn cael ei eni. Pan fo Non yn yr eglwys, ni all y pregethwr fynd ymlaen â'i bregeth gan fod baban mor eithriadol yn ei chroth. Sylweddola'r pregethwr – neb llai na Gildas ei hun - fod yn rhaid iddo adael Prydain i'r plentyn a symud i ynys arall. Yn ogystal â hynny, unig gynhaliaeth Non ar ôl iddi feichiogi yw bara a dŵr. Mae gwyrthiau'n ymwneud â cherrig yn rhan o'r traddodiad am genhedlu a geni Dewi, ond at un o'r hanesion hynny yn unig y cyfeirir yn y Fuchedd Gymraeg – un a welir mewn nifer o gerddi hefyd - sef yr hanes am y garreg yn llamu dros ben Non wrth iddi esgor ar Ddewi,

Yn ei llyfr *Traditions of the Welsh Saints*, cyfeiria Elissa Henken at bennill sy'n honni i Ddewi dyfu i fod 'cyn gryfed a milwr'.[7] Fodd bynnag, yn y Fuchedd, cyneddfau meddyliol a gwyrthiau Dewi a bwysleisir. Mae hefyd yn blentyn anghyffredin o ddisgybledig, gan iddo fyw ar fara a dŵr o'i blentyndod hyd ddiwedd ei oes.

Mae'r holl fucheddau'r gytûn i ffynnon darddu ar gyfer bedydd Dewi. Mae hyn yn beth cyffredin mewn bucheddau, ond defnyddiwyd y dŵr mewn gwyrth arbennig. Gwlychodd y dŵr wyneb y 'wynepclawr' a oedd yn ei ddal. Daeth ei holl nodweddion i'w wyneb, gan gynnwys ei olwg.

Dywedir ym Muchedd Dewi iddo astudio yn gyntaf yn Vetus Rebus, a elwir hefyd yn Hen Fynyw neu Henllwyn. Ym Muchedd Ailbe, dywedir i dad Dewi ei roi i Ailbe am byth, ac felly bod Ailbe yn dad maeth iddo. Mae hyn yn ddiddorol, gan na cheir cyfeiriad arall at dad Dewi yn y Fuchedd Gymraeg ar ôl ei genhedlu. Mewn buchedd Wyddelig arall, Buchedd Colman, daw'r sant hwnnw i dŷ Brenin Prydeinig. Mae'r Frenhines newydd esgor ar fab marw, ond mae Colman yn ei atgyfodi, ei feithrin a'i addysgu; Dewi yw'r plentyn hwnnw.

[7] Henken, *op. cit.*, t.36

Ceir rhagor o bwyslais ar natur 'ryfeddol' Dewi pan fo'n blentyn yn y fuchedd Ladin. Nodir i Ddewi gael ei ordeinio'n offeiriad ar ôl cam cyntaf ei addysg, ond dywed y bucheddau eraill iddo fynd at Paulinus (Peulin). Mae addysg Dewi hefyd yn fater dryslyd. Dywedir bod Dewi a Theilo yn gyfeillion ym Muchedd Teilo, a'u bod yn astudio ar yr un pryd â'i gilydd gyda Paulinus. Ond, yn ôl Buchedd Ddewi, bu Teilo yn ddisgybl i Ddewi ar ôl iddo adael Paulinus. Yn ôl traddodiad arall sydd i'w weld ym Muchedd Illtud, mae Dewi, Gildas, Samson a Paulinus yn gyd-ddisgyblion o dan Illtud, ac mewn ffynonellau eraill, mae athro Dewi yn wahanol, a rhoddir Dewi yng nghwmni seintiau sy'n hŷn nag ef. Y rheswm dros y dryswch hwn mae'n debyg oedd fod cofnodwr Buchedd Illtud am ddod â bri i wrthrych ei waith, a noda D. Simon Evans fod yr awdur yn ceisio cyfuno sawl traddodiad wrth roi Paulinus yn athro.[8]

***Pryd y Mab***

Disgrifiad o'r Iesu 'val yn oet deudegmlwyd' yw *Pryd y Mab*, ac fe'i ceir yn y testun defosiynol *Ymborth yr Enaid.* Yn ôl R. Iestyn Daniel, gellir tybio i'r testun gael ei lunio yng nghanol y drydedd ganrif ar ddeg gan brior cwfaint Dominicaidd, a'i fod yn rhan o weithgarwch llenyddol eglwysig a ddechreuodd yn y cyfnod er mwyn llunio canllawiau a fyddai'n gymorth i gynhyrchu corff o glerigwyr disgybledig.[9]

Traethawd mewn tair rhan yw *Ymborth yr Enaid,* a phob rhan yn ddatblygiad ar yr un flaenorol. Mae'r rhan gyntaf yn dweud sut y gellid osgoi pechod a byw'n rhinweddol, ac o ddilyn y cynghorion hynny, mae'r ail ran yn sôn am y broses o agosáu at Dduw. Yn y drydedd ran, sonnir am y perlewygon a'r gweledigaethau a brofir, cyn cymuno â'r angylion ar ôl i'r bywyd daearol ddod i ben. I'r drydedd ran y perthyn *Pryd y Mab.*

Gellir tybio i'r testun gael ei anelu at leygwyr, gan ei fod yn y Gymraeg, a'i gynnwys yn syml. Efallai mai ar gyfer nofisiaid y'i bwriadwyd, gan nad oes angen gwybodaeth o'r Lladin a diwinyddiaeth ar y darllenydd i'w ddeall. Mewn sawl ffordd, mae *Pryd y Mab* yn debyg i chwedlau a llenyddiaeth boblogaidd y cyfnod. Mae'n ddisgrifiad coeth, yn llawn geiriau cyfansawdd, e.e 'A gwynndal gwastatlyfyn ehanglathyr

[8] Evans, *op. cit.,* t.xviii
[9] Gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Ymborth yr Enaid* (Caerdydd, 1995) tt.17-22

mereridliw idaw', a dillad godidog yr Iesu yn adleisio'r ymhyfrydu mewn moethusrwydd a geir yn *Culhwch ac Olwen* neu *Breuddwyd Macsen*:

*A botymev o eur perffeithgoeth ar bop llawes, o ardwrn hyt ym penelin, a rudem gwerthfawr aym pob bwtwm.*

Mae pryd a gwedd yr Iesu hefyd yn arbennig o hardd; clywn fod

*Penn gogryngrwnn gwedeid idaw; a gwallt penngrychlathyr pefyrloyw eureit velynnlliw arnaw...*

Dyna rai o'r rhinweddau y credid y byddant gan blentyn delfrydol. Fel arwyr y Mabinogion, y mae'r Iesu hefyd yn blentyn arbennig o gryf. Mae ganddo 'vreisgyon vreicheu' a 'chorff lleweid adrerchawc'. Y mae'r awdur yn annog y darllenydd i feddwl am yr Iesu yn y cyflwr hardd, perffaith hwn er mwyn cael gweledigaeth ohono.

Gellir tybio fod y disgrifiad wedi ei seilio ar wrthrych megis cerflun mewn eglwys, eithr nid oes cerflun o blentyn o'r Cyfnod Canol wedi goroesi yng Nghymru. Yn ei lyfr *Medieval Stone Carving in North Wales,* cyfeiria Colin A. Gresham at feddrodau i wragedd, ond nid oes tystiolaeth i gerfluniau o blant gael eu gosod ar feddrodau yn yr Oesoedd Canol[10]. Beth felly yw sail disgrifiad *Pryd y Mab*? Daeth R.I. Daniel i'r casgliad mai mynegiant o brofiad personol y Brawd - yr awdur ei hun - yw 'Pryd y Mab', gan honni:

*Odid bod i'w gael yn unman yn llenyddiaeth gyfriniol Ewrop ymdrech mor fawr ac angerddol gan artist mor ddawnus i ddisgrifio'r hyn a welodd mor llwyr ac mor uniongyrchol â phosib.*[11]

Yn sicr, cafodd harddwch eithriadol y weledigaeth effaith syfrdanol ar y Brawd:

*Ac yna y syrthyawd y Brawt ger bronn yr euruab yn y varwlewyc o dra annwylserch garyat ar y dwywawluab hwnnw.*

---

[10] Colin A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales* (Caerdydd, 1968)

Gellid dadlau ei fod yn ddarn homoerotig; mae'r awdur yn delfrydu'r llanc, a gellir teimlo ei angerdd cryf tuag ato.

Dewisodd yr awdur bortreadu'r Iesu'n fachgen deuddeng mlwydd oed, ac nid yn oedolyn ar anterth ei ddeallusrwydd a'i ddoethineb. Yn ôl nifer o ffynonellau o'r Oesoedd Canol, roedd deuddeg oed yn oedran pwysig. Efallai mai'r hyn sydd i'w gyfrif am hynny yw'r ffaith mai deuddeng mlwydd oed oedd yr Iesu pan aeth â'i rieni i'r deml, pan syfrdanwyd pawb gan ei ddoethineb. Ym Muchedd Edmund gan Matthew Paris, dywedir iddo dyngu llw o ddiweirdeb ger bron delw o'r Forwyn Fair pan oedd yn llanc deuddeng mlwydd oed.[12] Yn ôl William o Pagula ac awduron eglwysig eraill, deuddeg neu bedair ar ddeg oedd yr oedran 'perffaith' i blentyn dderbyn bedydd esgob.[13] Defnyddir y gair 'perffaith' yn gyson yn *Pryd y Mab*, e.e 'koron o eur perffeithgwbyl', gan awgrymu ei fod yn gyfnod pur a dilychwyn yng ngolwg y Brawd. Gall bachgen deuddeg oed feddwl yn ddeallus ac yn rhesymol, ond nid yw eto wedi datblygu'r cyneddfau llai dymunol a ddaw o droi'n oedolyn. Mae deuddeg oed fel petai'n dynodi diwedd plentyndod, ond o ran rhywioldeb, a'i natur ddidwyll, nid yw plentyn deuddeg oed eto'n ddyn.

Yn fwy na dim, mae oedran yr Iesu yn y darn hwn yn gwrth-ddweud honiad Philippe Ariès nad oedd plentyndod yn gyfnod o bwys yn yr Oesoedd Canol.[14] Dengys hefyd na ddylanwadodd dadleuon pobl megis Awstin o Hippo a'r Pab Innocent III ynglŷn â natur bechadurus plant ar bob math o lenyddiaeth grefyddol. Yn sicr, cyfnod delfrydol yw plentyndod yn *Pryd y Mab*.

### *Llyma Vabinogi Iessu Grist*

Dyma'r enw a roddwyd ar ddogfen anghyflawn a geir yn Llyfr Gwyn Rhydderch a Pheniarth 14. Cyfieithiad o waith Lladin ydyw, ac yn ôl Dr. Gwenogvryn Evans, mae'r

---

[11] Daniel (gol.), *op. cit.*, t.xl
[12] Orme, t.211
[13] *Ibid.*, t.218
[14] Gw Y Cefndir Hanesyddol, uchod

cyfieithiad cynharaf ohono a geir yn y Llyfr Gwyn yn perthyn i chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[15]

Fel yr awgryma'r teitl, hanes bywyd cynnar Crist a gawn yn y ddogfen, gan ddechrau â'i ddihangfa i'r Aifft gyda Mair a Joseff. Bu cryn ddadlau ynglŷn ag ystyr y gair *mabinogi* ymhlith ysgolheigion,[16] ond 'hanes mebyd', mae'n amlwg, yw ei ystyr yma. Wrth gwrs, nid darlun o blentyn cyffredin a geir ynddo. Mae motiff y 'Plentyn Rhyfeddol' yn hynafol, a'r Iesu yw'r plentyn mwyaf rhyfeddol o'r cannoedd sydd i'w canfod mewn llenyddiaeth o bedwar ban y byd.[17] Mae'n rhyfeddol ym mhob ystyr - gall gyflawni gwyrthiau ac mae ei ddeallusrwydd arbennig yn ennyn pryder ac amheuaeth pobl ohono. Yn ogystal â hynny, mae yn eofn ac yn gryf yn gorfforol fel arwyr y chwedlau seciwlar. Yn y paragraff cyntaf, wyneba'r dreigiau gan ddweud wrth Mair a Joseff:

*"Na uit arnawch chwi ouyn amdanaf i yr uy mot yn uabyn bychan perffeith wyf i yr hynny a reit yw y holl aniueilieit y koedyd bot yn dof ger uy bron..."*

Yn hynny o beth, mae *Mabinogi Iessu Grist* yn wahanol iawn i *Pryd y Mab,* er mai darlun o'r Iesu yn blentyn a gyflwynir yn y ddau ddarn. Plentyn deuddeng mlwydd oed yw'r Iesu yn *Pryd y Mab,* ac mae'r awdur yn ymhyfrydu yn ei ieuenctid a'i harddwch ir. Eithr nid oes nodweddion plentynaidd o gwbl gan yr Iesu yn ei Fabinogi - mae'n ymddwyn fel hen ŵr doeth er ei fod yn 'uabyn bychan ar arffet y uam', ac yn siarad yn awdurdodol â'i rieni. Mae'n amlwg i hanes plentyndod yr Iesu fod yn ysbrydoliaeth i Fucheddau'r Seintiau, oherwydd mae'r seintiau yn annaturiol o aeddfed, fel yr Iesu, ac fel petaent yn oedolion wedi'u caethiwo yng nghyrff plant. Unwaith eto, gallwn gasglu mai gwaith awduron megis Awstin o Hippo sydd i'w gyfrif am y darlun hwn.

Serch hynny, un elfen gadarnhaol yn y ddogfen hon yw'r pwyslais a roddir ar agosatrwydd y teulu bach. Mae Mair yn fam gariadus, a'r Iesu wastad 'ar y harffet'. Nid cymeriad ymylol yw Joseff ychwaith; mae yntau yn gymeriad yr un mor amlwg â Mair ym mywyd cynnar ei fab. Mae cwlwm emosiynol agos rhwng y tri, a gellir tybio i'r ddelfryd hon fod yn un o'r dylanwadau a gyfrannodd at dwf y teulu niwclear erbyn diwedd yr

---

[15] Gw. Mary Williams (gol.), 'Llyma Vabinogi Iessu Grist' yn *Revue Celtique XXXIII* (1870 –1934) tt.184-207

[16] Gw. Y Darlun o Blant a Gyflwynir yn y Mabinogion, uchod

Oesoedd Canol. Erbyn tua 1400, nid oedd mor dderbyniol bellach i fagu plant anghyfreithlon yn agored a thyfodd priodas i fod yn sefydliad sanctaidd.

[17] Gw. Y Plentyn Rhyfeddol, isod

## III

## Ysgrifennu Hanesyddol

### Brut y Tywysogion

Yn *Brut y Tywysogion*, cawn hanes tywysogion Cymru gan ddechrau yn y seithfed ganrif, yn oesoedd tywyll yr Hen Ogledd hyd at 1282. Fel y gellid disgwyl, go annelwig yw'r cofnodion ynglŷn â'r tywysogion cynharaf, ond cawn ddarlun manylach o dywysogion yr Oesoedd Canol. Nid yw'r Brutiau'n sôn am blentyndod unrhyw dywysog, ond cyflwynant ddarlun lliwgar o gymdeithas y cyfnod. Yr hyn sy'n taro'r darllenydd yn bennaf yw diffyg teyrngarwch perthnasau tuag at ei gilydd. Er gwaethaf y pwyslais a rydd y Cyfraith Hywel ar ymrwymiadau teuluol, megis yng nghyfraith y 'galanas', ymddengys nad oedd y syniad fod 'gwaed yn dewach na dŵr' yn golygu rhyw lawer i'r tywysogion hyn. Mae Madog ap Rhiddid yn ddigon parod i fradychu Iorwerth, ei ewythr,[1] er y gwelwn mewn gweithiau llenyddol eraill fod y berthynas rhwng ewythr a'i nai yn bwysig iawn yn y cyfnod.[2] Hanes sy'n codi dro ar ôl tro yw gwrthdaro o fewn teuloedd, pan fo uchelgais yn bwysicach na chariad rhwng perthnasau; er enghraifft, clywn am Meirchion ap Rhys ap Rhydderch yn lladd ei gefnder Rhydderch ap Caradog trwy frad yn 1076. Byd ansicr a pheryglus yw byd y Brutiau; anodd oedd ymddiried yn unrhyw un.

Nid uned anwahanadwy oedd y teulu, ac nid o fewn teuluoedd 'niwclear' yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn byw. Gwelwn sawl enghraifft o lys rieni; mae Angharad ferch Meredydd, er enghraifft, fel Gwladus Ddu, yn fam i nifer o wŷr amlwg â chanddynt dadau gwahanol. Roedd cael plentyn o ordderch hefyd yn dderbyniol. Sonnir yn hollol ddidaro am blant llwyn a pherth y brenin Harri a'r ffaith fod ganddo ordderchau.[3]

Ni welwn blant yn ymddwyn fel plant; mae'r Arglwydd Rhys yn blentyn rhyfeddol sy'n adleisio Canu Aneirin, yn 'jeuanc o oet a gurawl o nerth'.[4] Gwelwn bwysau ar blant ifanc i ymddwyn fel oedolion; ar ôl marwolaeth Huw Fras, disgwylir i Roger, ei fab, gymeryd ei le 'kyt bei bychan y oet ... achaws [cof] a charyat y dat'[5] ac mae'r disgrifiad o Rhun ap Owain yn gosod safon o arwr delfrydol.[6] Disgwylid i feibion efelychu eu tadau

---

[1] Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogion* (Caerdydd, 1955) t.73
[2] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod
[3] *Ibid.*
[4] Jones, *op. cit.*, t.138
[5] *Ibid.*, t.40
[6] *Ibid.*, t.122

trwy ddisgleirio ar faes y gad; nid oedd plentyndod felly'n gyfnod 'hirfelyn tesog' i'w drysori.

Fel y gellid disgwyl, prin iawn yw'r sôn am fenywod yn y testun, a phrinnach fyth yw'r cyfeiriadau cadarnhaol atynt. Maent yn y cefndir, yng nghysgod eu gwŷr pwerus. Bywyd caled a'u hwynebai, heb lawer o ryddid. Clywn am Elinor, gwraig Llywelyn yn marw wrth roi genedigaeth i Wenllian. Yna, y mae'n rhaid i Wenllian fynd yn lleian yn erbyn ei hewyllys. Er hyn, gwelwn un enghraifft o deulu a chwlwm emosiynol agos rhyngddynt. Yn 1091, lladdwyd Moelcwlwm , ' brenin y picteid a'r yscotyeid' a'i fab Edward gan y Ffrancod. Gweddïa'r Frenhines Marged, ei weddw, gan ymbil ar Dduw i gael marw. Y mae Duw yn ateb ei gweddi:

*kanys erbyn y seithuet dyd y bu varw.*[7]

Caiff ei dymuniad, sef bod gyda'i theulu.

**Historia Gruffud vab Kenan**

Cymeriad hanesyddol o gig a gwaed oedd Gruffudd fab Cynan, a fu'n teyrnasu dros Wynedd yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif. Er ei holl lwyddiannau, fe'i gorchfygwyd nifer o weithiau gan y Normaniaid a threuliodd gyfnodau maith yn alltud tan ei farwolaeth oddeutu 1136. Er hynny, roedd yn arwr mawr i'w genedl ac ef oedd y cyntaf a'r olaf o dywysogion Cymru i fod yn destun bywgraffiad manwl, hyd y gwyddwn ni. Fe'i lluniwyd yn y Lladin ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif, a gellir tybio i'r testun gael ei gyfieithu yn fuan wedi hynny.

O ganlyniad i'r saib rhwng ei farwolaeth a llunio'i fywgraffiad, cafodd ei hanes amser i ddatblygu. Fel sawl cymeriad hanesyddol poblogaidd, tyfodd Gruffudd fab Cynan i fod yn arwr chwedlonol. Defnyddir fformwla a welwn yn y Bucheddau er mwyn cyfleu pwysigrwydd gwrthrych y bywgraffiad. Dywedir i Fyrddin ddarogan ei enedigaeth gyda'r geiriau canlynol:

*Llyminauc lletfer a daroganer*
*Anaeth diarvor dygosel.*
*Llegrur y new, llycraut llawer* [8]

---

[7] *Ibid.*, t.32

Gellir tybio i'r awdur ychwanegu at achau Gruffudd i ryw raddau hefyd. Y mae Gruffudd o 'vrenhinyaul genedel', ac achau Rhagnell, ei fam, yn ymestyn yn ôl at 'Harfagyr vrenhin, m.brenhin Denmarc', ond llinach ei dad yw'r un fwyaf aruchel bosibl - gall ei olrhain yn ôl at 'M. Adaf, M. Duw'.

Mae dechrau'r *Historia*'n ddiddorol. Sonnir am fan geni Gruffudd, Colomcell; dywedir mai ' tri milltir yv henne y urth y lle yd oed y vam a'e vamvaeth'. Erbyn cyfnod ysgrifennu'r *Historia*, mae'n rhaid bod defnyddio mamaeth yn arfer hollol gyffredin ymhlith y dosbarth uchaf. [9] Eithr, er gwaethaf y cwlwm emosiynol a fyddai'n datblygu wrth i'r famaeth fwydo'r plentyn o'i bron, mae perthynas glòs i'w gweld rhwng Gruffudd a'i fam. Sylwer fod tad Gruffudd yn absennol, fel y mae tadau nifer o arwyr chwedlonol megis Lawnslot a Thrystan. Ffigurau benywaidd felly sy'n llywio bywyd cynnar Gruffudd, ond dengys hyder a natur ymffrostgar, wrywaidd o gyfnod cynnar ac mae hanes ei ieuenctid yn debyg i ragarweiniad chwedl. Pan ddywed mam Gruffudd wrtho am 'dreiswyr' sydd wedi cipio teyrnas ei dad, mae Gruffudd yn benderfynol o'i hadennill.

I ryw raddau, gellir dadlau fod Gruffudd yn 'blentyn rhyfeddol'.[10] Dengys aeddfedrwydd arbennig wrth siarad â'i fam ynglŷn â thynged teyrnas ei dad, ac mae'n gweithredu'n fuan ac yn bendant wedi hynny trwy fynd i lys Mwrchath Frenin am gyngor a chymorth. Wedi hynny, tyf i fod yn arwr delfrydol:

*Bonhedic oed enteu, a thrugarauc urth y givdaut, a chreulavn urth y elynyon, a gwychraf em bruyder,*[11]

Yn ogystal â hynny, ceir disgrifiad o'i bryd a'i wedd sy'n adleisio'r disgrifiadau coeth a geir yn y Mabinogion. Manylir hyd yn oed ar y 'byssed hiryon' a'r 'esgeiryeu vnyaun' a oedd ganddo. Mewn adran arall, ceir disgrifiad o'i wraig, Angharad. Dywedir bod corff 'gwalcheid' ac 'aelodeu grymus' ganddi; byddai cryfder yn rhinwedd bwysig i wraig yn yr Oesoedd Canol, pan fyddai llawer o wragedd yn marw wrth roi genedigaeth. Mae ganddi hefyd rinweddau gwragedd delfrydol y Mabinogion:

---

[8] D. Simon Evans (gol.), *Historia Gruffud Vab Kenan* (Caerdydd, 1977) t.5
[9] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod
[10] Gw. Y Plentyn Rhyfeddol, isod

*...a da o uwyt a llynn, a doeth a chall, a chynghorwreic da, trugarauc urth y chyvoeth, a chardodus urth achanogyon, a chyfreithus ym pob peth.*[12]

Sonnir hefyd am ei feibion a'i ferched, ac fe'u henwir. Eithr, er mor ddelfrydol oedd Angharad ei wraig, dywedir:

*Ef a vu veibeon a merchet idav heuyt o garyatwraged*[13]

Dengys y nodyn ysgafn, 'ffwrdd â hi' hwn fod cael plant o ordderch yn rhywbeth a ddisgwylid i wŷr grymus ei wneud; bron nad yw'r awdur yn brolio am hyn.

Felly, nid oes darlun byw o blentyndod Gruffudd yn yr *Historia.* Unwaith eto, fel yn y Mabinogion, magu cyneddfau arwrol mewn plentyn yw'r nod. Mae'r *Historia,* er yn ddogfen hanesyddol, yn cydymffurfio â fformwlâu y chwedlau.

---

[11] Evans, *op. cit.,* t.17
[12] *Ibid.,* t.22
[13] *Ibid.*

## IV

## Cynghorau Catwn

Cyfieithiad o'r testun Lladin clasurol *Dionysii Catonis Disticha de Morbidus ad Filium* yw'r cynghorau hyn. Mae'r copi cynharaf o'r cyfieithiad i'w gael yn Llansteffan 27, (c.1400) ac y mae'r aralleiriad i'w gael yn Peniarth 3 (1300), felly gellir tybio i'r testun Cymraeg gael ei lunio oddeutu 1200. Ni chyfieithiwyd y testun i'r Saesneg tan y bymthegfed ganrif, a bu bechgyn yn ysgolion gramadeg Lloegr yn ymbalfalu trwy'r testun Lladin am flynyddoedd maith.[1]

Ni fu llawer o drafod ar Gynghorion Catwn gan ysgolheigion, a gweddol fras yw ymdriniaeth Ifor Williams ag ef yn ei olygiad ohono ym *Mwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, sef y testun y dyfynnir ohono isod.[2] Eithr, er nad yw'n waith cynhenid Gymreig, y mae'n werth ei drafod gan ei fod yn mynegi syniadau poblogaidd a oedd yn dderbyniol i Gymry'r cyfnod. Y mae hefyd yn gyfieithiad crefftus sy'n cynnwys nifer o nodweddion ieithyddol diddorol, megis y defnydd o'r gair *cu* a welwn isod; o gyfnod cynnar, y mae cysylltiad rhwng y gair a pherthynas deuluol.[3]

Nid oes llawer yn ymwneud â phlant fel y cyfryw yn y cynghorion, ond gellir casglu eu bod wedi'u hanelu at berson ifanc, gwrywaidd, gan fod yr awdur yn cyfarch y darllenydd fel a ganlyn: *Vy mab i y cu yr awrhonn y dysgaf i ytti pa ffuryf y kyf ansodych dy uoesseu.* Mae'n debyg y byddai'r darllenydd oddeutu un ar bymtheg neu ddeunaw oed, gan ei fod wedi derbyn peth addysg. Prin iawn oedd y merched a dderbyniai addysg yn yr Oesoedd Canol, felly arlliw gwrywaidd iawn sydd i'r cynghorion a cheir nifer o syniadau dilornus, gwrth-fenywaidd ynddynt, megis:

*8. Na chret guhudet dy wreic yn greulawn ar dy wassanaethweissyon nes gwybot gwirioned ohonat am a dywetto wrthyt kanys y wreic cassau a wna y neb a garo y gwr.*

ac

*...cany wyr gwreic atnabot yawn mwy no cham*

---

[1] Orme, t.279

[2] Ifor Williams, 'Cynghorau Catwn' B II (1925) tt.16-35

[3] gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod

- mynegiant di-flewyn-ar-dafod o'r dirmyg a'r amheuaeth a deimlid tuag at fenywod yn gyffredinol ar y pryd.

Fodd bynnag, cadarnhaol yn hytrach na beirniadol yw'r rhan fwyaf o'r cynghorion. Yn syml, canllaw i fyw yn dda ydynt, i fachgen sydd newydd gamu i fyd oedolion, a wynebu'r temtasiynau a'r trafferthion a ddaw yn sgil hynny. Rhybuddir ef i beidio â godinebu, ac yn bennaf oll, i fod yn bwyllog. Diddorol yw defnydd yr awdur o'r gair *massw*;

*... bot yn vassw ymplith dynyon ieueingk heb pechu. A bot yn brud ac yn araf ymplith dynyon prydyon.*

Mae'r gair *massw* i'w weld yn y gerdd 'Yr Adfail' gan Ddafydd ap Gwilym hefyd,[4] ac er bod y gerdd honno yn trafod perthynas rywiol rhwng Dafydd a merch, digrifwch ac ysgafnder oedd ystyr *massw* yn yr Oesoedd Canol – daeth naws rywiol i'r gair yn ddiweddarach. Trwy ddefnyddio'r gair *massw,* bwriad awdur Cynghorau Catwn yw cyfleu'r gwrthgyferbyniad rhwng byd dibryder yr ieuanc, a'r difrifoldeb a ddaw gyda henaint. Serch hynny, nid yw'r awdur yn annog pobl ifanc i fwynhau eu rhyddid - ni fynegir y syniad *Carpe Diem* yma. Yn hytrach, ar ddechrau'r cynghorion yn arbennig, rhydd yr awdur bwyslais ar ufudd-dod a pharch tuag at oedolion. Rhydd orchmynion megis 'Car dy rieni', 'Darostwng ac ufudhaa yr neb [a] uo uch a mwy y urdas no thi', 'Ovynhaa dy athro', a 'Diodef dy rieni yn enmynedus'. Yn ôl Shulamith Shahar, yr oedd y gorchymyn Beiblaidd 'Anrhydedda dy dad a'th fam' yn un o'r pwyntiau a bwysleisid fwyaf mewn llyfrau addysgol Canoloesol megis *Dives et Pauper* - llyfrau a ddibynnai'n helaeth ar destunau clasurol megis Cynghorion Catwn. Nid dyletswydd yn ôl yr ysgrythur yn unig oedd anrhydeddu'r rhieni ychwaith: hwy oedd ffigurau awdurdodol y teulu, a hwy a gynhaliai'r drefn gymdeithasol. Wrth ufuddhau iddynt, cadarnheid trefn gywir, hierarchaidd y gymdeithas.[5] Ategir hyn yn llyfr Nicholas Orme, *Medieval Children.* Wrth gyfeirio at yr awdur o'r unfed ganrif ar bymtheg, William Tyndale, dywed:

[4] GDG, 24

[5] Shulamith Shahar, *Childhood in the Middle Ages* (Llundain, 1992) t.166

*He and his contemporaries regarded the relationship of parents to children as mirroring that of king to subject and God to humanity. The universe was framed on principles of rule and obedience. Children might deserve care, but they were bound to serve, to listen and to obey.*[6]

Ceir pwyslais ar addysg ac ar wella'r meddwl mewn nifer o gynghorion, e.e

*28. Or byd plant ytt ac na bych gyuoethawc. par dysgu creffteu udunt. ual na bo eissyeu arnunt.*

ac

*1. Wrth hynny dysc. a dot yth vryt cadw y gorchymynneu hynn.*
*Ac na pheit a dyscu. kanys bywyt yw. A bot heb dyscu megys delw angeu yw.*

Fodd bynnag, y mae paradocs yn y cynghorion; er gwaetha'r pwyslais ar addysg, rhybuddir y darllenydd i beidio â bod yn rhy uchelgeisiol:

*21. A chanys natur ath wnaeth ditheu yn jeuangk yn dlawt ar dechreu dy oes. Godef dlodi yn anmynedus or goruyd arnat.*

Unwaith eto, cynnal y drefn gymdeithasol fel y mae yw'r nod, ac yn ôl Shahar, dyna oedd un o brif fwriadau addysg y cyfnod:

*... to teach the child to accept the social order and to respect it, since the existing order was considered both good and proper, the reflection of God's will and part of the harmonious order of things in the universe.*[7]

Athroniaeth y Stoiciaid oedd sail y syniadau hynny; yn syml, credid y dylid derbyn trefn Rhagluniaeth yn ddigwestiwn ac yn ddiachwyn.[8]

---

[6] Orme, t.83
[7] Shahar, *op. cit.*, t.167
[8] gw. R. M. Wenley, *Stoicism and its Influence* (Massachusetts, *s.d.*)

Problemau oesol a bydol yw gwraidd nifer o'r cynghorion eraill, sydd yn hollol berthnasol i'n hoes ni, e.e

*39. Bit anwylach gennyt y peth a gefeist drwy lauur nor peth a gefeist yn rat. kanys tostaf collet gan dyn yw colli y lauur.*

Eithr, ar brydiau, y mae'n amlwg nad yw'n destun Cymraeg gwreiddiol; y mae tinc hynafol, clasurol i gynghorion megis: *Os da gennyt dyscu caru neu orderchu. keis lyvyr ovit yr hwnn a elwir naset.* Dylid cofio fod y testun yn perthyn i gyfnod cyn-Gristnogol wrth synnu at agweddau a ymddengys yn hollol anhrugarog i ninnau heddiw:

*Y neb a ymwnel ar y eir yn gedymdeith ytt ac na bo ffydlawn o gallon a gweithret. gwna ditheu y gyffelyb idaw ynteu. ac uelly y twyllir twyll trwy dwyll arall.*

Pwyslais y Cynghorion yw bod ar delerau da â phobl yn y gymdeithas, yn hytrach na bod yn anhunanol - y mae twyll yn dderbyniol ar brydiau, os yw'n fodd o gadw'r ddysgl yn wastad. Nid yw'r awdur yn annog llwyr ymwrthod a hunan-ymwadiad ychwaith:

*6. Keis bop peth kyfartal. a mogel rac gormodder. kanys diogelaf vyd yr llong bo bassaf vo r dwvyr.*

Hunan-ddisgyblaeth a chymedroldeb yw'r delfryd; y mae'n tybio bod y darllenydd am yfed a mwynhau pleserau bywyd (nid oedd byd yr uchelwr Cymreig mor annhebyg â hynny i fyd Rhufeiniwr uchel ei dras) ac mae felly'n ei gynghori i wneud hynny'n synhwyrol:

*21. Adnebyd pan bechyc[h] ar diawt nat ydiw y bei ar y diawt. namyn ar y neb ae hyfo yn anghymedrawl.*

- cyngor gwerthfawr i sawl llanc deunaw oed heddiw!

## V

## Meddygon Myddfai

Teulu o feddygon gwlad o blwyf Myddfai, Sir Gaerfyrddin oedd Rhiwallon Feddyg a'i feibion Cadwgan, Gruffudd ac Einion. Meddygon Rhys Gryg, Arglwydd Dinefwr oeddent, ac yn ôl un o stentau arglwyddiaeth Llanymddyfri o'r drydedd ganrif ar ddeg, yr oedd hawl gan arglwydd Llanymddyfri i alw meddyg at ei wasanaeth o blith rhydd-ddeiliaid Myddfai.

Y mae tystiolaeth i'w disgynyddion barhau â'r olyniaeth feddygol hyd at y ddeunawfed ganrif, ac y mae cerrig bedd yr olaf ohonynt, David Jones (m. 1719) a John Jones (m. 1739) yn yr eglwys o hyd. Cofnodwyd triniaethau a ryseitiau a briodolir i Feddygon Myddfai mewn cyfres o destunau meddygol canoloesol. Cysylltir eu henw yn arbennig â thestun meddygol yn Llyfr Coch Hergest (c.1400), ond y mae rhaglith tebyg amdanynt i'w gael mewn llawysgrif a ysgrifennwyd ryw hanner canrif yn gynharach (BL. Add. 14912). Copiwyd y llawysgrif ddiweddaraf yn 1801 gan Iolo Morganwg o lawysgrif gan William Bona[1], eithr dylid amau dilysrwydd y testun hwnnw yn ôl Morfydd Owen; mae'n debyg mai ffrwyth dychymyg Iolo Morganwg ydyw yn bennaf.[2]

Yn ddiweddar, sonnid am Feddygon Myddfai gan amlaf yng nghyswllt chwedl Morwyn Llyn-y-Fan, chwedl a gyplysodd John Williams (Ab Ithel) â thestunau meddygol yn ei gyfrol *The Physicians of Myddvei*.[3] Fel nifer o bobl arbennig o ddysgedig, tyfodd y Meddygon i fod yn gymeriadau chwedlonol, â phwerau goruwchnaturiol. Heblaw am astudiaethau Morfydd Owen,[4] prin fu'r ymdriniaeth â'r testunau meddygol a briodolir iddynt. Y mae llawysgrifau Meddygon Myddfai yn sicr yn destunau hynod o ddifyr - fel nifer o destunau meddygol Ewropeaidd eraill o'r un cyfnod, maent yn gymysgedd o sawl ffynhonnell wybodaeth. Gellir olrhain cyfran helaeth o gynnwys y llyfrau yn ôl at destunau Lladin gwreiddiol, ac y mae dwy lawysgrif yn cynnwys rhai adrannau mewn Lladin. Ceir mynegiant o athrawiaeth y gwlybyron a etifeddwyd o'r cyfnod Clasurol; dro

---

[1] Y mae'r testun a gopiwyd gan Iolo Morganwg i'w gael yng ngolygiad John Williams (Ab Ithel) o *Meddygon Myddfai* (Ail argraffiad Felinfach, 1993), tt.35-198.

[2] Morfydd E. Owen, 'Meddygon Myddfai: A Preliminary Survey of some Medieval Medical Writing in Welsh', *Studia Celtica* X/XI (1976) t.210

[3] Williams (Ab Ithel), *The Physicians of Myddfei*; (gw. uchod)

[4] Yn ogystal â'i hysgrif yn *Studia Celtica*, cyhoeddodd Morfydd E. Owen 'The Medical Books of Medieval Wales and the Physicians of Myddfai' yn *The Camarthenshire Antiquary* cyf.XXXI (1995); gw. hefyd Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, *Drych yr Oesoedd Canol* (1986) tt.134-152

arall adlewyrchir mudiadau meddygol y Cyfnod Canol e.e. Salerno a Chares, ac ofergoeliaeth frodorol.

Sylwodd Morfydd Owen fod y testunau meddygol yn cynnwys patrymau tebyg i'r rhai a geid mewn rhyddiaith dechnegol mwy brodorol, megis testunau cyfreithiol a gramadegau'r beirdd.[5] Gwelwn gyffyrddiadau megis cyflythrennu, odlau, ac yn arbennig, dosbarthu ffeithiau yn grwpiau rhifyddol cyfrin, e.e:

*47. Seith gelyn llygat yssyd. wylav, a gvylaw, a gvylamec, a meddavt, a godineb, a sychbilen, a mvc.*[6]

Byddai technegau o'r math hwn yn nodweddiadol o'r traddodiad llafar, gan y byddent yn gymorth i'r disgybl gofio'r testun. Ym mhob cymdeithas gynnar, trosglwyddid gwybodaeth feddygol ar lafar i raddau helaeth; y mae'n bosibl felly mai crynhoad o hen ddeunydd a fu'n fyw ar lafar am flynyddoedd yw dysg Meddygon Myddfai.

Sylwer na ddefnyddir y gair 'plentyn' yn y testun; y 'mab bychan' sy'n haeddu sylw, ac nid y ferch. Eithr, gellir tybio nad oedd y gair 'plentyn' wedi datblygu eto, ac mai gair di-ryw yw 'mab'.[7] Y mae rhif 20 yn ryséit i wraig 'y vo arnei rvystyr am gaffel beichiogi',[8] a rhif 112 yn ryséit i wraig 'heb allu escor y llwyth',[9] ac anogir menywod sydd am feichiogi i fwyta cennin a letus. Serch hynny, cael etifedd gwrywaidd yw'r nod, ac nid plentyn iach o ba ryw bynnag, fel y dymuna'r mwyafrif o ddarpar rieni heddiw yn y gorllewin:

*69. Pvy bynnac a vynno gvybot beth a uo ygcroth gvreic ueichavc, ae mab. ae merch, edrychet arnei oe heisted ac oe seuyll; ac os y droet deheu gyntaf a symut mab a arvydocca; os yr asseu merch.*[10]

[5] Owen, 'Meddygon Myddfai : A preliminary Survey of Some Medical Writing in Welsh', t.233
[6] Williams (Ab Ithel), *op. cit.*, t.10
[7] Gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod
[8] Williams (Ab Ithel), *op. cit.*, t.7
[9] *Ibid.*, t.19
[10] *Ibid.*, t.13

Y mae'n amlwg hefyd i'r gwaith gael ei anelu at ddarllenydd gwrywaidd; fel yng Nghynghorion Catwn, ceir darlun negyddol o fenywod - temtwragedd sy'n achosi dynion i golli pob rheswm ydynt:

*150. Or mynny na del chvant gvreic itt; bvytta y rut y bore*[11]

Ar y pegwn arall, gwelwn y fenyw ddelfrydol - yr wyryf. Y mae rhif 70 yn brawf i weld a yw merch yn wyryf ai peidio; unwaith eto, tybir na ellir credu gair y ferch a mynegir teimlad o ddirmyg ac amheuaeth tuag at fenywod.[12]

O ystyried cyfran uchel marwolaethau plant yn yr Oesoedd Canol, y mae'n annisgwyl nad oes sôn am glefydau plant yn nhestunau Meddygon Myddfai; cyngor i rwystro plentyn rhag wylo yw'r peth a ddaw agosaf at hynny:

*73. Y mab bychan a dalho ar wylav; irer y deugyuys a mêr hyd. a anuynychach yd vyl.*[13]

Ymddengys mai tawelu plentyn oedd y peth pwysig, yn hytrach na sicrhau ei fod yn hapus ac yn iach. Efallai na chredai pobl yr oes fod angen triniaeth wahanol ar blant i'r un a dderbyniai oedolion, a'r ffin rhwng plentyndod a dod yn oedolyn mor denau. Eithr y mae'r lle amlwg a roddir i feichiogi a chael plant yn y gwaith meddygol hwn yn profi fod gan Gymry'r Oesoedd Canol ddiddordeb yng nghyfnod beichiogrwydd ac yn natblygiad y plentyn, a'u bod, fel pobl pob oes, yn awyddus i gael plant.

---

[11] *Ibid.*, t.26
[12] *Ibid.*, t.13
[13] *Ibid.*

## Pennod 4

## Themâu

### I

### Y Plentyn Rhyfeddol

Mae hanesion am 'blentyn rhyfeddol' i'w cael mewn chwedlau sawl gwlad; y mae'n un o fotiffau mwyaf poblogaidd llên gwerin. Yn y bôn, y mae tri math o blentyn rhyfeddol - y sant, y bardd neu broffwyd a'r arwr seciwlar. Ym mucheddau'r saint a'r chwedlau crefyddol, cyneddfau deallusol y saint a bwysleisir. Y mae rhai saint yn dysgu darllen o fewn ychydig ddyddiau, ac maent yn arbennig o ddoeth o oedran cynnar.[1]

Tebyg i blant rhyfeddol y chwedlau crefyddol yw'r 'proffwydi' neu'r 'beirdd'. Topos y plentyn doeth - y *puer senex* - yw sail y ddau fath. Roedd y topos yn boblogaidd iawn ymhlith awduron Cristnogol yr henfyd; y 'model' iddynt oedd Crist yn y deml, yn ddeuddeg oed.[2] Gellid gosod Taliesin a Myrddin yn y dosbarth hwn. Mae gan y ddau blentyn ddawn gyfareddol i rag-weld y dyfodol, a chysylltiad ag awen gyfrin.

Ceir sôn am Fyrddin mewn nifer o ffynonellau hynafol, ac mae'n debyg bod y chwedloniaeth amdano yn perthyn i gyfnod cynnar iawn. Eithr nid yw ei hanes wedi goroesi ar ffurf chwedl annibynnol. Mae'n ffurfio rhan o *Brut y Brenhinedd*, testun a luniwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond prif fwriad ei awdur yw adrodd hanes y brenin Gwrtheyrn. Digwydd bod yn rhan o'r hanes hwnnw y mae Myrddin; ef sydd yn atal castell y brenin rhag dymchwel bob nos trwy esbonio mai dreigiau yn ymladd o dan ei sylfeini sydd yn achosi'r distryw.

Nid cryfder corfforol na deallusrwydd arbennig sy'n gwneud Myrddin yn rhyfeddol, ond ei weledigaeth. Mae hefyd yn arbennig o aeddfed; mae'r beirdd yn ddilornus ohono, ond gall wrthbrofi eu dadl yn bwyllog ac yn hyderus. Gwelwn ef yn ymgasglu ei rymoedd goruwchnaturiol wrth baratoi i ddweud ei broffwydoliaeth:

*ymdorri o wylaw (a oruc a galw) y sypryt attaw a dywedut o brophwydoliaeth*[3]

---

[1] Gw. Llenyddiaeth Grefyddol, uchod

[2] James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995) t.64

Esbonia arwyddocâd y dreigiau; y mae'r ddraig wen yn cynrychioli'r Saeson, a'r ddraig goch yn cynrychioli'r Cymry, a'u hymladd yn cynrychioli'r frwydr barhaus rhwng y ddwy genedl. Wedi hynny, dengys huodledd arbennig wrth roi proffwydoliaeth faith am dynged y Cymry.

Dyna'r cyfan a welwn o Fyrddin y plentyn rhyfeddol. Y tu ôl i chwedl Lleu, mae defodau megis derbyn arfau sy'n dynodi'r broses o droi'n oedolyn. Mae Arthur yn torri gwallt Culhwch, sydd eto yn dynodi'r broses o aeddfedu. Ond ni welwn Myrddin yn tyfu ac yn aeddfedu. Pan eilw Emrys amdano beth amser ar ôl marwolaeth Gwrtheyrn, mae bellach yn oedolyn. Fel Taliesin, mae Myrddin yn croesi'r ffin o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn gyflym. Mewn gwirionedd, anwybyddir y ffin; bron nad yw Taliesin a Myrddin wedi cael eu geni'n oedolion. Mae hanes y ddau gymeriad yn dilyn patrwm 'Plentyndod y Proffwyd' a ddisgrifir gan James A. Schultz; clywn am ddechrau plentyndod y ddau, ond nid ei ddiwedd. Yn yr un modd, clywn am blentyndod Moses hyd ei fabwysiad, ac am blentyndod Ioan tan ei ymadawiad â'i gartref. Yr oedd hyn yn peri tristwch i Bruder Philipp, ysgolhaig Canoloesol o'r Almaen - ni allai ganfod unrhyw wybodaeth am yr Iesu wedi ei araith yn y deml tan ei fod yn oedolyn. Yng ngeiriau Schultz:

*... the childhood of the prophet does not introduce a childhood narrative but prefigures an adult narrative.*[4]

Rhan fechan o gronicl Elis Gruffudd a luniwyd rywbryd yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg yw *Ystoria Taliesin*. Felly, testun o'r cyfnod modern cynnar ydyw, ac mae dylanwad y Saesneg ar iaith Elis Gruffudd yn amlygu hynny. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth nad yw'r *Ystoria* wedi ei seilio ar hen chwedl boblogaidd a drosglwyddwyd ar lafar am genedlaethau. Yn ôl Ifor Williams, mae hanes Gwion Bach yn ddiweddarach na 796, ond mae'n bosib iddo gael ei lunio yn fuan wedi hynny.[5] Cyfeiria Elis Gruffudd yn betrusgar at amrywiadau yn y chwedl:

---

[3] John Jay Parry (gol.), *Brut y Brenhinedd* (Cambridge, Massachusetts, 1937) t.124
[4] Schultz, *op. cit.*, t.17
[5] Ifor Williams (gol.), *Lectures on Early Welsh Poetry* (Dulyn, 1944) t. 67

*Yn yr hwn J peris hi roddi yr edlyng a'i vwrw ef ynn y llynn, megis ac J mae hrai o'r llyure yn dangos, neithyr eraill a ddywaid i mae mewn avon J bwriwyd ef, a eraill a ddywaid mae ynn y mor J peris hi J vwrw ef...* [6]

Gwyr ei fod yn delio â hen grair werthfawr sy'n agos at galonnau pobl, ac nid yw am dynnu nyth cacwn i'w ben trwy hepgor unrhyw fersiwn o'r chwedl.

Egyr y chwedl gyda hanes plentyn o'r enw Gwion Bach, sydd yn gwylio diod hud y mae Ceridwen y wrach wedi ei baratoi i'w mab. Plentyn cyffredin, di-nod yw Gwion Bach, ond ar ôl i dri defnyn o'r ddiod dasgu arno, try'n blentyn rhyfeddol. Cynddeiriogir Ceridwen, gan na all ei mab ei hun dderbyn rhinweddau'r ddiod bellach, ond mae Gwion yn gallu trawsffurfio'n nifer o anifeiliaid a gwrthrychau er mwyn dianc rhagddi. Eithr pan fo ar ffurf gronyn o wenith, mae Ceridwen, ar ffurf iâr, yn ei lyncu. Wedi hynny, mae hi'n ei gario yn ei chroth am naw mis, cyn esgor arno ar ffurf baban.

Mae motiff gwrthrych neu greadur yn cael ei lyncu a'i ail-eni fel plentyn yn boblogaidd mewn llên gwerin a chwedlau cyntefig. Yn y llyfr *Motif-Index of Folk Literature* gan Stith Thompson, rhestrir motiff E607.2: *Person Transforms self, is swallowed and reborn in new form.* Dywedir ei fod yn fyth Gwyddelig ac Indiaidd. Ceir hefyd motiff T511: *conception from eating;* motiff sydd i'w weld mewn llenyddiaeth Wyddelig, Iddewig, Eifftaidd, Indonesaidd ac Esgimo, i enwi ond rhai.[7] Tybiodd beirniaid megis Alfred Nutt fod hynny'n adleisio cred y Celtiaid mewn ail-ymgnawdoliad, eithr dadleuwyd yn gryf yn erbyn hynny gan fod Annwfn, a'r syniad o fyd arall i'r meirwon, yn nodwedd amlwg mewn llenyddiaeth Geltaidd. Dadleuodd Kenneth Jackson fod genedigaeth y plentyn o'r hedyn yng nghroth Ceridwen, a'r motiff o genhedlu trwy fwyta, yn tarddu o gyfnod llawer mwy hynafol, pan na ddeallai pobl o ble yr oedd babanod yn dod.[8]

Diddorol yw gweld ymwybyddiaeth o glymau emosiynol rhwng mam a'i phlentyn wrth i'r chwedl fynd yn ei blaen. Er ei dicter tuag at Gwion Bach, ni all Ceridwen niweidio'r baban:

[6] Patrick K. Ford (gol.), *Ystoria Taliesin* (Caerdydd, 1992) t.67
[7] Stith Thompson, *Motif-Index of Folk Literature* [chwe chyfrol] (Copenhagen, 1955-58)
[8] Kenneth Hurlston Jackson, *The International Popular Tale and Early Welsh Tradition* (Caerdydd, 1961) t. 117

*Neithyr pann iddi hi edrych arno ef wedi dyfod i'r byd, ni allai hi ar ei chalon yr un o'r ddau: na gwneuthud iddo ef niwed korfforol a'i llaw ei hun na goddeu i neb arall J wneuthud Jddo ef yn i golwg hi.*

Felly, mae hi'n ei osod yn 'ddiddos' mewn cwrwgl, cyn ei fwrw i lyn, ac ni chaiff y baban niwed. Mae Elffin, gwas yn llys Maelgwn yn ei ganfod ac yn ei fedyddio:

*'Wele dal Jesin!' Seef yw hynny, 'taalken kannaid'. Ar y geiriau Jr attebodd yr edling o'r korwgyl, 'Taaliesin bid!'*

Dengys Taliesin aeddfedrwydd a deallusrwydd arbennig hyd yn oed pan fo'n 'edlyng', wrth ganu englynion i Elffin, ac yn ôl Patrick K. Ford, mae'r term 'edlyng' yn ddadlennol yma - gair Hen Saesneg a olygai 'etifedd' a drosglwyddwyd i'r Gymraeg:

*... the later, general sense of 'child, offspring' fits well enough here ... though this particular child is soon to prove that he is the 'king's successor', the heir apparent to the chieftaincy of poetry...* [9]

Eithr, efallai mai 'plentyn', yn syml, yw ei ystyr yn y cyswllt hwn. Nid oedd 'plentyn' yn air cyfredol yn y Gymraeg tan yn gymharol ddiweddar,[10] felly defnyddiwyd 'edlyng' a nifer o eiriau eraill i lenwi'r gwagle a oedd yn yr iaith.

Cawn argraff o natur fawreddog beirdd y llys, ac mae'r awdur fel petai yn eu dychanu gan fod Taliesin yn eu trechu, er nad yw ond bachgen ifanc. Eithr, nid nodwedd arbennig o Gymreig yw'r dychan hwn; mae cystadlaethau barddoni, pan fo bardd ifanc meistrolgar yn curo beirdd profiadol mewn llys brenin yn elfen amlwg mewn sawl chwedl ryngwladol.[11] Cloir y chwedl gyda phroffwydoliaethau dyrys Talieisin i'r brenin, ar ôl iddo brofi ei oruchafiaeth dros yr holl feirdd eraill er gwaethaf ei oedran.

Dadleua Juliette Wood mai elfennau nodweddiadol mewn nifer o chwedlau Ewropeaidd yw sail yr adran am Gwion Bach yn *Ystoria Taliesin,* sef dwy chwedl

[9] Ford (gol.), *op. cit.*, t.97
[10] Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod
[11] Ford (gol.), *op. cit.*, t.48

*märchen,* 'Y Neidr Wen' a 'Brwydr a dihangfa wrth drawsnewid'.[12] Yn sicr, mae tebygrwydd rhwng y motiffau hynny a hanes Gwion Bach; ym motiff 'Y Neidr Wen', caiff plentyn wybodaeth arbennig ar ôl sugno bys a losgwyd gan gawl, ond yn ôl Patrick K. Ford, gellir canfod motiffau *Ystoria Taliesin* mewn sawl chwedl Geltaidd hynafol. Gan amlaf, bydd elfen oruwchnaturiol yn gysylltiedig â chenhedliad neu enedigaeth arwr, ac mae datblygiad a chyneddfau Taliesin yn cyd-fynd â phatrwm bywyd sawl bardd Celtaidd chwedlonol.[13]

Mae tebygrwydd amlwg rhwng Taliesin a'r plentyn rhyfeddol Gwyddelig Finn; mae yntau yn trechu Mac Con trwy ganu penillion, a defnyddia Taliesin farddoniaeth i drechu Maelgwn ac i alw storm. Yn y ddwy chwedl, pwysleisir natur gyfrin yr awen, a'i grym hud a lledrith. Rhoddir esboniad tebyg am enwau'r ddau fachgen; mae'r ddau yn fabanod pryd golau - ystyr 'fin cumhul' yw cap gwyn, a thyf y ddau i fod yn arwyr arbennig.

*Culture Hero* yw enw Tom Peete Cross ar blentyn rhyfeddol o'r math hwn yn ei lyfr *Motif-Index of Early Irish Literature.*[14] Rhydd y ffurfiau canlynol ar y motiff:

*A 527.3* *Culture Hero as Magician*
*A 527.4* *Culture Hero as Poet*

Yn ogystal â hynny, ceir y ffurf *A 527.1* *Culture Hero Precocious* ganddo. Yn sicr, y mae'r beirdd-broffwydi ieuanc hyn, fel y saint, yn arbennig o aeddfed ac eofn; mae Taliesin yn dewis ei enw iddo ef ei hun tra ei fod yn faban mewn crud, a Myrddin yn barod i herio gweledigaeth beirdd Emrys. Eithr, maent yn llawer mwy ymffrostgar na'r saint. Un o rinweddau pennaf Dewi Sant oedd ei natur ddiymhongar; yn ei fuchedd, dywedir nad edrychodd ar lygaid ei athro Pawlinws yn ystod deng mlynedd gyntaf ei addysg gydag ef.[15]

Gellid tybio mai'r proffwydi neu feirdd yw'r ffurfiau mwyaf hynafol o blant rhyfeddol. Er mor ddiweddar yw testun *Ystoria Taliesin,* ac er mor ymylol yw cymeriad Myrddin yn *Brut y Brenhinedd,* tarddodd eu chwedlau mewn cymdeithas wahanol iawn

---

[12] Juliette Wood, 'The Folklore Background of the Gwion Bach Section of *Hanes Taliesin*', B XXIX, (1982) tt.621-634
[13] Ford (gol.), *op. cit.,* t.49
[14] Tom Peete Cross, *Motif-Index of Early Irish Literature* (Indiana, 1952) t.18
[15] D. Simon Evans, *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965) t.5

i'r Oesoedd Canol. Dônt o gyfnod cynnar pan oedd beirdd yn ennyn parch uchel iawn, a'u hawen a'u crefft yn eu codi uwchlaw dynion cyffredin. Credid bod yr awen yn rym cyfrin; does ryfedd felly i gymeriadau Taliesin a Myrddin fabwysiadu grymoedd goruwchnaturiol. Tyfodd Taliesin, y bardd disglair o'r chweched ganrif, i fod yn ffigur chwedlonol; yn ail gainc y Mabinogi, fe'i henwir fel un o'r rhai a ddihangodd o'r gyflafan yn Iwerddon. Rhaid cofio gwahaniaethu rhwng y cymeriad cig a gwaed - y Taliesin a ganodd fawl i Urien Rheged a'i fab - a'r cymeriad chwedlonol, ond mae'r ddwy elfen i'w cael yn *Ystoria Taliesin.* Ynddi, y mae Taliesin yn arwr grymus â phwerau goruwchnaturiol, yn ogystal ag yn fardd dawnus. Datblygodd cymeriad Myrddin yn yr un modd; yn y trioedd, dywedir mai Taliesin, Myrddin fab Morfryn a Myrddin Emrys oedd tri phrifardd Prydain, ond mae Myrddin yn fwy adnabyddus fel dewin bellach. Parodd y tebygrwydd rhwng y ddau fardd cyfrin gryn ddryswch. Yn *Ystoria Taliesin,* dywed Taliesin:

*Shihannes ddewin*
*a'm gelwis J Merddin;*[16]

Y trydydd math o blentyn rhyfeddol - y plentyn rhyfeddol seciwlar - yw'r math mwyaf poblogaidd. Nid cyneddfau deallusol sy'n ei wneud yn wahanol i blant eraill, ond ei ddatblygiad corfforol cyflym a'i fedr wrth drin arfau. Ni cheir sôn am addysg a datblygiad meddyliol y plant hyn. Yn llên ganoloesol yr Almaen, mae tyfiant cyflym yn dynodi y bydd plentyn yn ymladdwr gwych. Yr enghraifft enwocaf yw Malefer, sydd megis plentyn pum mlwydd oed pan gaiff ei fedyddio, ac mae arno angen ddeng nyrs i ofalu amdano.[17]

Ceir sawl enghraifft o 'blant rhyfeddol' o'r math hwn yn y Mabinogion, a'r mwyaf rhyfeddol, efallai, yw Pryderi. Y mae sawl ysgolhaig megis W. J.Gruffydd wedi dadlau mai Mabon, y duw Celtaidd *Maponos*, oedd Pryderi yn y chwedl ar ei ffurf wreiddiol.[18] Y mae hyn yn gwneud synnwyr os derbyniwn mai *Rigantona* yw Rhiannon, sef prif dduwies a 'Mam Fawr' y Celtiaid, oherwydd y 'Mab Mawr' oedd *Maponos.* Byddai ôl cymeriad goruwchnaturiol yn esbonio ei dyfiant a'i allu rhyfeddol. Pan ddaw

---

[16] Ford (gol.), *op. cit.,* t.76
[17] Schultz, *op. cit.,* t.65
[18] W.J. Gruffydd, 'Mabon ab Modron', *Revue Celtique,* XXXIII (1870-1934) tt.452-61

Teyrnon o hyd i Bryderi yn y Gainc Gyntaf, y mae'r baban 'yn gryf yn yr oet a oed arnaw', a chyflym yw ei ddatblygiad wedi hynny. Y mae'n cerdded yn gryf cyn cyrraedd blwydd, ac yn ôl yr awdur, 'breiscach oed no mab teir blwyd'. Erbyn ei fod yn bedair mlwydd oed, gall hyd yn oed ymdrin â cheffylau.

Yn y Bedwaredd Gainc, mae dau fab Arianrhod yn rhyfeddol. Gall Dylan Eil Don nofio cystal â'r 'pysc goreu', a thyf Lleu yn yn syndod o gyflym; erbyn iddo droi'n bedair mlwydd oed, 'nid oedd bachgen wyth mlwydd oed *gynureisket* ag ef.' Sylwer ar y gair 'braisg' unwaith eto, i ddisgrifio cryfder a thyfiant bachgen.[19]

Plentyn arall â chryfder arbennig yw Peredur; mae dawn gynhenid ganddo i drin arfau ac y mae'n saethwr penigamp. Lladdwyd ei dad a'i chwe brawd mewn brwydrau, felly ceisia ei fam gelu rhyfel a marchogion rhagddo, trwy fynd ag ef gyda hi i fyw mewn diffeithwch. Er hynny, y mae Peredur yn dangos dawn ymladd o oedran cynnar; gall redeg yn gynt nag ewig, ac y mae'n gwneud picellau a'u taflu'n fedrus. Adleisir yn y chwedl agwedd tuag at blant a oedd yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol, sef y gred fod gwaedoliaeth plentyn yn bwysicach na'i fagwraeth. Y mae Peredur yn dilyn ei reddf ac yn farchog fel ei dad. Ofer fu ymdrechion ei fam i'w amddiffyn, gan fod y fedr a'r reddf i ymladd yn rhywbeth cynhenid ynddo.[20]

Y mae hanesion am blant â chyneddfau corfforol tebyg yn britho llenyddiaeth sawl gwlad, yn enwedig llenyddiaeth Iwerddon; y mae Tom Peete Cross yn rhestru motiff y *boy hero* a *Boyish exploits of hero* ymhlith sawl ffurf arall ar y Plentyn Rhyfeddol. Fodd bynnag, efallai na fyddai plant fel Peredur mor 'rhyfeddol' â hynny yn yr Oesoedd Canol, oherwydd bod oedolion yn awyddus i ddatblygu diddordeb plant mewn rhyfela yn gynnar. Yr oedd dewrder a rhyfyg ar faes y gad yn rhinweddau llawer pwysicach i'w meithrin na chynneddfau deallusol yng nghymdeithas ryfelgar y cyfnod, gan nad oedd byddin broffesiynol yn bodoli. Yn 1512, gorchmynnodd Harri VIII i bob bachgen rhwng saith a dwy ar bymtheg mlwydd oed gael bwa a dwy saeth.[21] Heddiw, gall llawer o blant pum mlwydd oed ddarllen; efallai mai honno fyddai'r gamp fwyaf rhyfeddol i blentyn ei chyflawni yn yr Oesoedd Canol.

Mae'n naturiol mai plentyn rhyfeddol o'r trydydd math a welwyd amlaf yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Dosbarthiadau uchaf cymdeithas oedd cynulleidfa'r

---

[19] Ifor Williams (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi,* t.78
[20] Gw. Gwaedoliaeth a Magwraeth, isod

llenyddiaeth seciwlar, felly byddai dyrchafu plant o'r dosbarth hwnnw, trwy eu gwneud yn 'blant rhyfeddol' a ymddygai fel marchogion dewr, yn eu plesio. Y mae datblygiad Lleu ym mhedwaredd gainc y Mabinogi yn profi hyn. Yr hyn sy'n ei wneud yn ddyn, yn hytrach nag yn blentyn, yw ei fod yn meddu ar arfau ac yn briod. Nid yw wedi derbyn unrhyw addysg, ac mewn gwirionedd, y mae braidd yn ddiniwed. Nid yw'n amau dim pan fo Blodeuwedd yn ceisio ei ladd, ac er ei ddawn wrth saethu, Gwydion sydd yn meddwl am ffyrdd i'w gynorthwyo a rhaid iddo achub ei gam bob tro.

Yn anorfod, y mae rhai plant rhyfeddol nad ydynt yn cyd-fynd ag un ffurf ar y motiff yn unig. Yr enghraifft enwocaf, wrth gwrs, yw Iesu Grist. Mae ganddo ddoethineb arbennig a dawn i broffwydo ac y mae'n sant. Ceir hanes ei blentyndod mewn testun Cymraeg o'r Oesoedd Canol, *Mabinogi Iessu Grist.*[22]

Y mae sawl nodwedd yn gyffredin i'r tri math o blentyn rhyfeddol. Yn gyntaf, y mae tadau nifer ohonynt yn absennol - nid oes tad gan Fyrddin ac ni wyddwn pwy yw tad Lleu a Dylan Eil Don. Lladdwyd tad Peredur mewn brwydr, ac nid yw tad Dewi Sant yn rhan o'i fywyd; Non, ei fam, yn unig, sy'n ei fagu. Yn ogystal â hynny, y mae elfen oruwchnaturiol ynghlwm wrth genhedliad plant rhyfeddol o bob math. Cenhedliad gwyrthiol a gafodd Taliesin, a lleian bur, ddilychwin, oedd mam Myrddin - ni chenhedlwyd ef o ganlyniad i'w chwant rhywiol. Deffrodd hithau ganol nos yn y lleiandy, wrth deimlo 'gwas ieuwanc' yn cael cyfathrach rywiol â hi.[23] Yn ôl hen wr doeth o'r enw Meugant, un o'r angylion a fwriwyd o ddegfed gradd y nefoedd gyda Liwsiffer oedd y 'gwas ieuwanc' hwnnw. Nid yw genedigaeth y plant rhyfeddol yn gyffredin gan amlaf, ychwaith. Er nad yw Culhwch yn cydymffurfio â motiff y 'Plentyn Rhyfeddol' yn llwyr, y mae amgylchiadau ei enedigaeth yn anghyffredin, gan awgrymu mai person hynod ac arbennig ydyw. Mae ei fam yn colli ei phwyll ar ôl beichiogi ag ef, ac yn esgor ar ei baban mewn rhedegfa mochyn. Yn y Bedwaredd gainc, clywn am enedigaeth Lleu a Dylan, sydd hyd yn oed yn fwy rhyfedd; y mae Arianrhod yn esgor arnynt ar ôl camu dros ffon hudol.

Mae bachgendod llawer o blant rhyfeddol yn cydymffurfio â 'myth genedigaeth yr arwr'. Defnyddiodd Otto Rank, disgybl Freud, fywyd Moses yn enghraifft nodweddiadol o'r myth:

---

[21] Nicholas Orme, 'Festivities have always dragged on - for ages' yn *The Daily Express*, 31 Rhagfyr 2001, t.17

[22] Gw. Llenyddiaeth Grefyddol, uchod

i) Amddifadir ef yn fuan ar ôl ei enedigaeth.

ii) Fe'i hachubir gan ail deulu, sy'n ei fagu (merch y Ffaro yn achos Moses)

iii) Mae'n dychwelyd at ei deulu ar ôl cyrraedd oedran arbennig (Mae Moses yn dychwelyd at yr Israeliaid ac yn eu harwain o'r Aifft).[24]

Yn ôl James A Schultz, mae enghreifftiau lluosog i'w gweld yn llenyddiaeth ganoloesol yr Almaen, megis hanesion Faustinian, Wilhelm von Wenden a Gute Frau[25] ac mae motiff y plentyn yn cael ei gipio a'i fagu mewn lle dieithr i'w weld yn y gerdd *Lay de Freine* gan Marie de France.[26] Mae'n debyg mai Pryderi yw'r plentyn rhyfeddol Cymreig sy'n glynu agosaf at y myth - caiff ei gipio o'i grud yn faban newydd-anedig gan greadur anhysbys, caiff ei fagu gan ail deulu, ac y mae'n dychwelyd at ei deulu yn ddiogel ymhen blynyddoedd. Nid yw bywydau plant rhyfeddol eraill y chwedlau Cymreig yn rhwydd ychwaith; mae Myrddin am gael ei aberthu ac mae bywyd Taliesin hefyd yn y fantol ar ôl iddo gael ei roi yn y llyn. Ond, mae ffawd y plant rhyfeddol o'u plaid a gallant orchfygu pob anhawster, gan amlaf.

Ni ellir dadlau mai diddordeb arbennig mewn plant yw'r rheswm dros fotiff y plentyn rhyfeddol mewn chwedlau, oherwydd nid ydynt yn ymddwyn nac yn datblygu fel plant cyffredin o gwbl. Bu dadlau bod motiff y plant rhyfeddol yn dangos casineb pobl yr Oesoedd Canol tuag at blant. Yn ei lyfr *Centuries of Childhood,* cyfeiria Philippe Ariès at ddarlun o Ismael mewn Sallwyr a luniwyd oddeutu diwedd y ddeuddegfed ganrif.[27] Darlun ohono'n faban newydd-anedig ydyw, ond mae cyhyrau a siâp dyn ifanc ganddo. Mae'r artist fel petai'n amharod i weld dyn mor bwysig ar ffurf plentyn gwan, diamddiffyn. Efallai fod elfen o'r syniad hwnnw i'w weld yn y Bucheddau. Mae'r seintiau yn ddoeth, yn ddifrifol ac yn rhesymol fel oedolion; nid cyfnod dibryder o hwyl a chwarae yw plentyndod iddynt, ac nid yw'n gyfnod cyffrous o ddysgu a darganfod. Cred James A. Schultz fod awduron yr oes yn amharod i ddarlunio plant fel yr oeddent:

*The signs of the special nature of the hero or heroine are many and various, yet nearly all of them show the child to be like an adult. There is no heroism of children except in*

---

[23] Parry (gol.), *op. cit.,* t.12

[24] *Ibid.,* t.174

[25] *Ibid.,* t.195

[26] Orme, t.286

[27] Philippe Ariès, *L'Enfant et la vie familiale sous l'ancien régime* (Paris, 1960); arg. Saesneg, *Centuries of Childhood* (Efrog Newydd, 1962) t.31

*adult terms. Thus it is that, in the areas of their particular heroism, heroic children overcome the deficiencies of their childish nature and display the perfection of an adult.*[28]

Eithr, yn y chwedlau seciwlar, ni chawn argraff o ddirmyg tuag at blant. Yn syml, mae'r awdur am gyfleu cryfder a nerth eithriadol yr arwr, a phwysleisio ei fod yn hollol wahanol i ddyn cyffredin. Fodd bynnag, bu motiff y plentyn rhyfeddol yn ddylanwad mawr ar ein llenyddiaeth; hynny sy'n bennaf gyfrifol am brinder y darluniau realistig o blant sydd i'w cael yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol.

[28] Schultz, *op. cit.*, t.69

## II
## Gwaedoliaeth a Magwraeth

Heddiw, o ganlyniad i astudiaethau ar DNA, gwyddom fod rhieni yn trosgwyddo llawer o'u cyneddfau i'w hepil, ond yn ôl sawl arbenigwr ar ddatblygiad plant megis Dr. Spock, ychydig iawn o bersonoliaeth plentyn a ffurfir gan ei waedoliaeth. Yn ei farn ef, mae deallusrwydd hyd yn oed yn cael ei ddatblygu yn y cartref.[1] Eithr, yn yr Oesoedd Canol, credid fod natur dyn yn dibynnu'n llwyr ar ei waedoliaeth, ac mai ychydig iawn o ddylanwad a gâi ei fagwraeth arno, os o gwbl. Yn y chwedlau, nid yw cyneddfau'r plant rhyfeddol yn cael eu meithrin - rhodd gan natur ydynt, a phwysleisid mai ofer oedd ceisio newid y plant mewn unrhyw ffordd. Mae sawl chwedl o'r Oesoedd Canol yn sôn am rai a fu mor ffôl a cheisio gwneud hynny. Enghraifft nodweddiadol yw'r rhamant Ffrengig *Silence* gan Heldris o Gernyw, sy'n adrodd hanes nai brenin Lloegr, a geisiodd fagu ei ferch fel petai'n fachgen, er mwyn iddi gael etifeddu ei stad. Tyf ei ferch i fod yn 'farchog' disglair, ond daw'r gwirionedd i'r amlwg.[2] Neges y chwedl yw na all magwraeth plentyn orchfygu natur. Yr un yw hanfod chwedl *Peredur.* Wrth geisio atal ei mab rhag rhyfela, mae ei fam yn ymyrryd â dawn gynhenid a roddwyd iddo gan natur. Er gwaethaf ei hymdrechion i'w amddiffyn, mae'n anochel y bydd yn farchog fel ei dad. Yn fersiwn Almaeneg chwedl Peredur, cawn ychydig mwy o fanylion ynglŷn â'i ddatblygiad. Y mae angen peth arweiniad arno, ond byddai cyngor Gurnemanz yn ddiwerth oni bai am ei waedoliaeth, fel y dywed James A. Schultz:

*Nature is the more powerful since it provides the raw material. It determines what sort of development is possible as well as how fast and how far it will proceed. Without nurture, however, nature remains only potential. Nurture awakens and shapes nature, helping it to a more perfect realization.*[3]

Nid unigolion unigryw oedd plant i lawer o rieni'r Oesoedd Canol, ond ymgorfforiad ohonynt eu hunain. Yn y marwnadau i blant, yr hyn sy'n dwysáu galar sawl

---

[1] Gw. James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages* (Philadelphia, 1995) t.103
[2] Gw. Henrietta Leyser, *Medieval Women* (Llundain, 1995) tt.140-1 a S. Roche-Madhi (gol.), *Silence: A Thirteenth Century French Romance* (1992)
[3] Schultz, *op. cit.*, t.99

tad yw na chafodd eu meibion gyfle i ddilyn eu camre trwy ddod yn feirdd. Er mor ddiffuant yw eu galar, mae elfen hunanol iddo; roedd eu plant yn fodd i'w hanfarwoli.[4]

Dosbarth uchaf cymdeithas a fyddai'n darllen llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, felly nid yw'n annisgwyl fod holl lenyddiaeth y cyfnod yn cyfeirio at y dosbarth hwnnw. Cânt eu gweld fel ymladdwyr dewr ac awgrymir eu bod yn meddu ar foesau arbennig, a drosglwyddid o gehedlaeth i genhedlaeth. Ym Marwnad Gwladus Ferch Syr Dafydd Gam gan Lewys Glyn Cothi, awgrymir fod Gwladus Du wedi trosglwyddo ei natur fonheddig i'w phlant:

*a heddiw mae'n rhoddi medd*
*o fron honno'n frenhinedd.*[5]

Nid oedd modd dysgu taeog i ymddwyn yn fonheddig, fel y pwysleisiai chwedlau am fagwraeth Jiwdas. Er gwaethaf ymdrechion brenhines Scariot i feithrin cyneddfau bonheddig ynddo, roedd y cyfan yn ofer gan nad oedd gwaed brenhinol yn llifo trwy ei wythiennau.[6] Sylwodd Schultz na chafodd un o brif syniadau'r Beibl lawer o ddylanwad ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol:

*The Christian valorization of poverty and humility seems to have been applied only if they are voluntary, and for that one must be rich and noble to start with.*[7]

Yn sicr, o edrych ar lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, nid yw tlodi yn gyflwr i'w edmygu o gwbl. Yn y Mabinogion, y mae'n rhaid i berson berthyn i deulu cefnog a dylanwadol er mwyn haeddu unrhyw sylw ffafriol. Cawn ddisgrifiadau manwl o ddillad a chartrefi moethus; bywyd bras yw'r bywyd delfrydol ynddynt. Ym muchedd Dewi Sant, dywedir mai Ceredig, sylfaenydd Ceredigion oedd ei daid. Roedd bywyd syml Dewi, felly, yn hollol wirfoddol.[8]

Mae cyneddfau arbennig gan gymeriadau megis Bendigeidfran yn y Mabinogion, eithr eu gwaedoliaeth a'u gosododd yn gadarn yn eu safle cymdeithasol uchel, a dyna

[4] Gw. Marwnadau Canoloesol i Blant, isod
[5] GLGC, 110, ll.13-4
[6] *Ibid.*, t.101
[7] Schultz, *op. cit.*, t.60
[8] D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965)t.1

sydd wrth wraidd eu grym.[9] Er iddo gael ei herwgipio, mae Pryderi yn dychwelyd i'w le priodol o fewn cymdeithas; byddai'n groes i'r graen iddo aros yng nghartref Teyrnon a'i wraig, sydd o safle cymdeithasol is nag ef. Y mae hanes Pryderi yn nodweddiadol o chwedlau Almaeneg y cyfnod, yn ôl Schultz:

*The children's internal equilibrium is guaranteed by the immutability of the individual nature, which renders it immune to the effects of external trauma ... Thus, no matter how great the disruptions they endure, the changing relations of a MHG* [Middle High German] *childhood always lead them to the place that is theirs by nature.*[10]

Mynegir yr un athroniaeth yng ngherdd Dafydd Nanmor i Rys ap Rhydderch ap Rhys o'r Tywyn. Molir achau bonheddig y llanc:

*Yr hydd a gynnydd ei gyrn,*
*Y gwaed da a fag tëyrn.*
*Bonedd, mal etifedd maeth,*
*A fag y bendefigaeth.*[11]

a cheir nifer o gyfeiriadau at Gadwyn Bod yn y gerdd. Awgrymir bod Rhys, o ganlyniad i'w waedoliaeth, yn haeddu bod ar frig y gadwyn, fel yr hydd ym myd yr anifeiliaid. Roedd lle arbennig i bopeth yn y cread, a'r uchelwyr â'r achau mwyaf anrhydeddus yn haeddu eu safle breintiedig o fewn y gymdeithas.

---

[9] PKM, t.29
[10] *Ibid.*, tt.253-4
[11] Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962) tt.146-8

## Pennod 5

## Barddoniaeth

### I

### Plant yn y Canu Serch

Dengys y cerddi serch niferus o'r Oesoedd Canol sy'n dilorni ffigwr yr 'Eiddig' nad mater preifat rhwng parau priod ffyddlon yn unig oedd rhyw yn yr Oesoedd Canol. Pan oedd priodas wedi'i seilio ar drefniadau economaidd, ni fyddai cariad a serch yn rhan ohoni bob tro, felly byddai'n rhaid chwilio yn rhywle arall amdanynt. Ym marddoniaeth y cyfnod, nid yw cyflawni'r weithred rywiol yn fynegiant o gariad; pleser byr, anystyrlon ydyw gan amlaf, ac yn y cerddi mwyaf masweddus mae'n ymylu ar fod yn weithred giaidd ac ymosodol.[1] Ychydig o hwyl diniwed yw rhyw mewn cerddi eraill. Yng 'Nghywydd y Gal', er enghraifft, gwêl Dafydd ap Gwilym ei rywioldeb fel grym gwyllt afreolus - chwant y mae'n rhaid iddo ei ddiwallu. Trwy bersonoli ei bidyn, nid oes elfen ymenyddol nac ysbrydol i ryw o gwbl; dilyn ei reddf y mae Dafydd, heb feddwl am oblygiadau hynny.[2] Yn y gerdd 'Ei Gysgod', y mae Dafydd yn trafod ei bechodau, gan geisio eu cyfiawnhau. Unwaith eto, dadleua fod ei chwant rhywiol yn rhywbeth na all ei reoli:

*Ni wnaf yn erbyn fy nawn,*
*Ni rwystrais wraig gŵr estrawn*[3]

ac ni wêl ddim o'i le ar ryw y tu allan i briodas. Y mae nifer o gerddi eraill Dafydd yn trafod y 'triongl serch' rhyngddo ef, Morfudd, a'i gŵr a lysenwir yn Bwa Bach. Ar brydiau, bydd cywair cerddi megis 'Doe' yn ymffrostgar, yn dathlu llwyddiant Dafydd i gwrdd â Morfudd er gwaethaf gafael amddiffynnol ei gŵr amdani,[4] ond cywair gwahanol sydd i'r gerdd 'Siom'. Mae Dafydd yn mynegi ei dorcalon gan fod Morfudd yn feichiog â phlentyn y Bwa Bach:

---

[1] Gw. CMOC
[2] CMOC, tt.24-6
[3] GDG, 141, ll.49-50
[4] *Ibid.,* 131

*Eithr ei myned, gweithred gwall,*
*Deune'r eiry, dan ŵr arall,*
*I'w gwneuthur, nid llafur lles,*
*Yn feichiog, fy nyn faches*[5]

Yma, nid pleser anghyfrifol yw rhyw; ymddengys fel gweithred oeraidd, beirianyddol. Rhaid i Forfudd, yn anfoddog, gyflawni ei dyletswydd trwy ddarparu parhad i linach ei gŵr. Eithr o ddarllen y cerddi niferus a ganodd Dafydd i Forfudd, ymddengys bod gwir gariad rhyngddynt ac mae'n rhaid fod y ffaith iddi feichiogi â phlentyn y Bwa Bach yn ergyd drom iddo. Roedd y Bwa wedi llwyddo i feddiannu Morfudd yn llwyr, a'i beichiogrwydd yn arwydd ingol o amlwg o hynny. I'r Bwa Bach, 'mam ei blant' yw Morfudd;[6] cafodd rodd arbennig ganddi - ei phlentyn - rhywbeth na chafodd Dafydd ganddi fyth hyd y gwyddom ni.

Darlun negyddol o feichiogrwydd a gawn mewn sawl cân serch arall. Yng Nghywydd VII gan Bedo Aeddren, canlyniad anffodus ei bleser yng nghwmni merch yw ei beichiogrwydd.[7] Mae'r bardd yn cofio'n hiraethus am ei chorff lluniaidd cyn iddi feichiogi, yn 'Fain yn ei gwasg, fwynwen gynt.' Mae ei siâp chwyddedig yn ei gwneud yn hollol anneniadol iddo bellach. Nid yw ei ffrwythlondeb yn beth i ymfalchïo ynddo; mae hi'n drwsgwl ac yn afrosgo 'A'i gwedd fal un o'r Gwyddyl' yn ei olwg ef. Gyda dyfodiad ei blentyn i'r byd, mae'n rhag-weld dyfodol du o'i flaen pan ddaw diwedd ar ei ryddid:

*Och Fawr, ni byddwn iach mis*
*O'i bod mewn amod nawmis* [8]

Felly, gwna benderfyniad hollol hunanol:

*Och Dduw hael ei chwyddo hi,*
*o chwyddodd, yn iach iddi.*[9]

---

[5] *Ibid.,* 85, ll.29-32
[6] *Ibid.,* 79, ll.30
[7] P.J. Donovan (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982) t.8
[8] *Ibid.,* ll.17-18
[9] *Ibid.,* ll.31-2

Yn y gerdd 'Yr Oed' a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, clywn ymddiddan rhwng bachgen a merch. Y mae yntau am gael cyfathrach rywiol â hi, ond y mae hithau yn ei rybuddio:

*Dy nawdd rhag ennill dyn ym.*
*Cael dyn, pa fodd y cêl dau?*[10]

Unwaith eto, yn y gerdd 'Bargeinio' gan Ddafydd ap Gwilym, y mae beichiogrwydd yn beth i'w osgoi. Ceisia drefnu tâl am gyfathrach rywiol â merch:

*Minnau, da y gwyddwn fasnach*
*A roddwn bunt i'r ddyn bach*[11]

Eithr, mae'r telerau'n newid os oes perygl iddi feichiogi:

*Chweugain, o châi feichiogi,*
*I'r ddyn aur a roddwn i,*
*A'r chweugain ar oed chwegwaith*
*A roddwn, deuwn i'r daith.*[12]

Er gwaethaf dysgeidiaeth yr eglwys, nid atgenhedlu yw pwrpas cyfathrach rywiol yng ngolwg y beirdd. Mae beichiogi yn ffactor sy'n eu hatal, yn hytrach na'u hannog i gael rhyw.

---

[10] CMOC, ll.56-7
[11] GDG, 47, ll. 7-8
[12] *Ibid.*, ll. 11-14

## II

## Cerddi Mawl

O ddarllen cerddi mawl yr Oesoedd Canol, byddai'n deg i dybio na roddai'r beirdd lawer o bwys ar blant eu noddwyr. Byddai'r mwyafrif ohonynt yn dadau i nifer helaeth o blant - boed yn rhai cyfreithlon neu'n blant i ordderch - ond nid yw'r cerddi'n cyflwyno darlun o'r tad yn ymwneud â'i blant, ac ymddengys i'r beirdd dybio mai elfen ymylol o fywyd yr uchelwr yn unig oedd ei deulu; llawer pwysicach oedd ei fedrusrwydd ar faes y gad a'i letygarwch. Er hynny, y mae ychydig o eithriadau i'w cael yn y canu mawl. Y mae rhai cerddi yn rhoi lle canolog i blant, ac enghreifftiau eraill, yr un mor werthfawr, yn rhoi cip i ni ar agweddau'r oes tuag at blant.

Ar yr wyneb, ymddengys mai moesau, eiddo a golud y tywysog sy'n ennyn edmygedd Iolo Goch yn y gerdd 'Llys Owain Glyndŵr':

*Llys barwn, lle syberwyd,*
*Lle daw beirdd aml, lle da byd;*[1]

Sonnir am 'Naw neuadd gyfladd gyflun', a'r 'Gwirodau bragodau brig' cyn dod at ei deulu. Molir haelioni ei wraig, ond y mae hi fel petai yn wrthrych i gyfrannu at *ambiance* chwaethus y plas, yn hytrach na chymar i Owain Glyndŵr. Ni cheir sôn am wragedd y noddwyr yng ngherddi Beirdd y Tywysogion; er mor ymylol yw'r sylw i'r wraig, y mae Iolo Goch yn torri tir newydd. Diddorol hefyd yw'r cyfeiriad at blant y ddau:

*Merch eglur llin marchoglyw,*
*Urddol hael anianol yw;*
*A'i blant a ddeuant bob ddau,*
*Nythaid teg o benaethau*

Yn ôl Dafydd Johnston, y mae'r cwpled yn cyd-fynd â'r darlun trefnus a gyflwynir o lys Owain Glyndŵr:

*Rhoddir yr argraff fod pob dim yn ei le priodol, ac mewn cytgord perffaith â'i gilydd. Gellir gweld pensaernïaeth y tŷ ei hun fel symbol o harmoni ... y mae'r plant hyd yn oed yn ymffurfio mewn parau.*[2]

---

[1] GIG, X

Sylwer ar y modd y mae *plant* yn cael ei oleddfu â'r rhagenw trydydd unigol gwrywaidd; eiddo Owain Glyndŵr yw'r plant - maent yn 'benaethau' a fydd yn ehangu ei bwer. Fodd bynnag, cawn ddarlun cynnes o agosatrwydd y teulu gyda'r gair 'nythaid'. Gellir dadlau felly ei bod yn gerdd arloesol; mae hi'n ddathliad o agosatrwydd y teulu, ac yn y gerdd hon y cawn y darlun manwl cyntaf o'r teulu a'r cartref mewn cerdd fawl. Y mae'n deulu mawr, diogel - teulu delfrydol yr Oesoedd Canol, a chyfran marwolaethau plant mor uchel - ac mae'r ffaith fod y plant yn dod 'bob ddau' yn pwysleisio eu bod yn niferus. Credid bod teulu mawr yn arwydd o natur Gristnogol, rinweddol y rhieni, ac anffrwythlondeb yn gosb gan Dduw ac yn arwydd o bechod.

Cerdd dipyn yn gynharach gan Iolo Goch i Owain Glyndŵr yw 'Achau Owain Glyndŵr', oherwydd nid yw Owain eto'n dad ynddi. Molir ei achau aruchel, a mynegir dymuniad iddo barhau'r llinach:

*Ac iechyd a phlant gwycheirdd*
*Yn Sycharth, buarth y beirdd.*[3]

Eithr, nid am resymau llinachyddol yn unig y mae'r bardd yn dymuno hynny. Trwy gyplysu 'plant' a 'iechyd' y mae Iolo'n awgrymu y byddai'r naill yn arwain at y llall, ac ymddengys bod y ddau beth yn angenrheidiol er mwyn byw bywyd llawn. Gwyddom i Owain gyflawni dymuniad Iolo o ddarllen y mawl i'w lys, a cheir darlun llawnach o'i berthynas â'i blant yn y gerdd 'Moliant Owain Glyndŵr'.[4] Egyr y gerdd honno mewn modd confensiynol, wrth i'r bardd geisio cyfleu urddas Owain. 'Paun diwyd' ydyw, yn falch ac yn hardd, ac nid yw hynny'n annisgwyl o ystyried ei achau arbennig. Roedd ei dad, 'Iôr Glyn', yn enwog trwy Gymru, a'i daid yn 'frenin ar y barwniaid'. Trosglwyddasant eu moesau a'u rhinweddau i Owain; yn bwysicach na dim yng ngolwg Iolo, mae e'n 'Caru clêr, felly ceir clod'. Defnyddia Iolo Goch y topos 'garw / addfwyn' i ddisgrifio cymeriad Owain; mae natur ddeublyg ei gymeriad yn ei wneud yn uchelwr delfrydol:

*Garw wrth arw, gŵr wrth eraill,*
*Ufudd a llonydd i'r lleill.*

---

[2] Dafydd Johnston, *Iolo Goch*, Cyfres Llên y Llenor (Caernarfon, 1989) tt. 52-3
[3] GIG, VIII, ll.91-2
[4] GIG, IX

Wedi hynny, ceir trobwynt annisgwyl, oherwydd sonnir am rôl Owain fel tad. Roedd y beirdd yn amharod i gyfleu tynerwch yr uchelwyr, felly annisgwyl yw clywed am berthynas Owain â'i blant mor gynnar yn y gerdd, cyn bod sôn am ei ddewrder ar faes y gad. Cawn yr argraff nad oedd yn dad rhy llym, er gwaethaf ei rym a'i natur benderfynol. Awgrymir fod disgwyl i blant ddysgu adrodd eu hachau yn y cyfnod, ond ni orfodai Owain i'w blant wneud hynny:

*Ni fyn i un ofyn ach*
*I feibion, ni bu fwbach*

Roedd yn dad teg a charedig:

*Ni ddug degan o'i anfodd*
*Gan fab ond a gâi o'i fodd*

Ysywaeth, ymddengys nad oedd Owain yn dad nodweddiadol o'r cyfnod:

*Ni pheris drwy gis neu gur*
*Iddo â'i ddwylo ddolur;*
*Ni chamodd fys na chymwyll*
*Cymain â bw, cymen bwyll.*

Awgryma'r llinellau uchod fod curo plant yn arfer cyffredin yn yr Oesoedd Canol, ac y byddai bron yn ddisgwyliedig i Owain wneud hynny. Mae Owain yn wahanol i'r 'norm' gan ei fod yn addfwyn ac yn garedig tuag at ei blant.

Mae 'Moliant Owain Glyndŵr' yn gerdd arbennig o ddadlennol, oherwydd dengys sawl elfen o gymeriad Owain Glyndŵr - ei ryfyg garw ar faes y gad, ei gwrteisi yn y llys a'i groeso i feirdd, ond yn fwy trawiadol, ei anwyldeb tuag at ei geraint. Mae'n rhaid fod Iolo Goch wedi sylwi ar berthynas arbennig Owain Glyndŵr a'i blant gan iddo ddewis sôn am hynny mewn cerdd fawl. Gellir tybio iddo edmygu'r modd yr oedd Owain Glyndŵr yn magu ei blant, gan iddo gredu fod hynny, yn ogystal â'i haelioni a'i ddewrder, yn rheswm dilys i'w foli.

Yn ogystal â chyflwyno darlun o berthynas y tywysog â'i blant, mae 'Moliant Owain Glyndŵr' yn rhoi argraff o'r broses o dyfu'n oedolyn yn yr Oesoedd Canol. Roedd ymladd mewn brwydr yn dynodi fod Owain Glyndŵr bellach yn ddyn; yma, y mae'r gair *garw* bron yn gyfystyr â *gŵr:*



UNIVERSITY OF WALES SWANSEA LIBRARY

*Pan aeth mewn gwroliaeth gwrdd*
*Gorugwr fu garw agwrdd.*[5]

Cerdd arall sy'n trafod y broses o dyfu'n ddyn yw 'Bonedd Rhys ap Rhydderch ap Rhys' gan Dafydd Nanmor.[6] Mae hi'n gerdd fawl anghyffredin, gan ei bod yn cyfarch bachgen sydd oddeutu deunaw oed. Mae'n debyg bod Rhys newydd etifeddu ei stad, felly rhydd y bardd gyngor iddo wrth ymgymryd â'i gyfrifoldeb newydd:

*Da nofia dyn yn afon*
*O cheidw ei wallt uwch y don*

Ond cyfrifoldeb enbyd ydyw, oherwydd y mae'n rhaid i Rys gynnal enw da'r teulu a dilyn camre ei gyndeidiau:

*Da i ŵr o ryw ei daid*
*Ei wneuthur o benaethiaid*

Cyfyd delweddau o Gadwyn Bod yn gyson; defnyddir yr anifeiliaid pwysicaf - y carw, y gwalch, y llew a'r eryr - er mwyn cyfleu urddas Rhys. Gwelwn y gair 'brig' yn aml hefyd, er mwyn pwysleisio goruchafiaeth ei linach. Mae gan y bardd ffydd yn y gŵr ifanc:

*O fonedd y'th sylfaenwyd*
*Aberth holl Ddeheubarth wyd*

Gyda gwaed llinach mor arbennig yn llifo trwy ei wythiennau, mae'n anochel y bydd Rhys yn ŵr ifanc disglair. Dyna yw ergyd y gair 'bonedd' sy'n britho'r gerdd ac yn thema iddi:

*Bonedd, mal etifedd maeth,*
*A fag y bendefigaeth*

Yr oedd Dafydd Nanmor yn gredwr cryf mewn gwaedoliaeth; yn ei dyb ef, y mae Rhys yn haeddu safle uchel mewn cymdeithas ar sail ei waedoliaeth yn unig:

*Ystad o'r tad it a aeth,*

[5] GIG, ll.33-4
[6] Thomas Parry, *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962) tt.146-8

*A bonedd a'th wna'n bennaeth*

Y mae'r delweddau o Gadwyn Bod yn cryfhau ei ddadl. Fel ym myd natur, cred bod rhai pobl yn haeddu goruchafiaeth dros eraill. Y mae trefn naturiol i bopeth, ac ni ddylid ceisio ymyrryd â'r drefn honno.[7]

Y mae gwaedoliaeth yn un o themâu 'Moliant Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd a Threcastell' gan Gruffudd Fychan,[8] o ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Egyr y gerdd mewn modd anghyffredin. Clywn am amgylchiadau cenhedliad Hywel ar y noson y bu ei rieni'n 'cydorwedd'. Yr oedd yn anochel y byddai Hywel yn ŵr arbennig gan fod Goronwy ei dad yn 'aerwalch orau rhinwedd', a'i fam Gwerful yn 'ddibechod iawn, dda ei buchedd'. Eithr, mae elfen arall heblaw am waedoliaeth i'w chyfrif am arbenigrwydd Hywel, sef y 'nos fad y'i cad o'r cydorwedd'. Yma, adleisir credoau'r cyfnod am adegau ffafriol i genhedlu. Yn aml, byddai darpar rieni yn troi at y seintiau, neu seryddiaeth a chredoau paganaidd er mwyn amcangyfrif diwrnod da i genhedlu. Yn sicr, dewisodd Goronwy a Gwerful noswaith ffafriol gan i Hywel ap Goronwy dyfu i fod yn ŵr da. Yn ffodus i Gruffudd Fychan, ymddengys mai haelioni tuag at feirdd yw ei rinwedd amlycaf!

*O feirddion, cofion eich cyfedd - a'ch maeth,*
*A'ch urddol a'ch gwnaeth yn eich hardded.*[9]

Cerdd i filwr medrus a laddwyd ar faes y gad yw marwnad Gruffudd Llwyd ap Llywelyn Gaplan i Syr Rhys ap Gruffudd Ieuanc.[10] Yn naturiol, moli ei gampau ar faes y gad a wna'r bardd:

*Blaenaf wrth gyrchu fu fo,*
*Ac olaf pan fai gilio*

Serch hynny, nid cywair buddugoliaethus, hyderus sydd i'r gerdd yn llwyr. Y mae ei diweddglo yn llawn chwerwder, wrth i'r bardd alaru am ŵr ifanc a fu farw'n llawer rhy ifanc o ganlyniad i ryfel. Cyferchir arfau Syr Rhys:

---

[7] Gw. Gwaedoliaeth a Magwraeth, uchod
[8] Nerys Ann Jones & Erwain Haf Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1995) 10, tt. 137-9
[9] *Ibid.*, ll.19-20
[10] Dafydd Johnston (gol.), *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg* (Llandybie, 1989) tt.158-60

*Chwithau, gloyw arfau, a'i gledd,*
*A churas, ewch i orwedd;*
*Rhydwch, nac ymyrrwch mwy,*
*Ni rydewch gynt ar adwy.*

Wrth gwrs, mynegir yr un syniad mewn sawl marwnad; yr un drasiedi yw ergyd llinell enwog Aneirin 'Gredyf gwr oed gwas'.[11] Eithr mae'r cyfeiriad at blentyndod Rhys yn elfen anghonfensiynol yn y farwnad hon. Gan amlaf, disgrifir gwrthrych marwnad pan fo ar anterth ei aeddfedrwydd a'i rym, ond yr oedd Rhys, yn amlwg, yn blentyn arbennig:

*Nawmlwydd oedd Rhys yn ymladd,*
*Neu lai pan ddechreuodd ladd;*
*Yn ddeuddengmlwydd y gwyddiad*
*Dorri pawl onn mewn dur plad*

Clywn adleisiau o chwedl Pryderi yma; mae'r bardd fel petai'n ceisio ychwanegu at ddisgleirdeb Rhys trwy ddefnyddio motiff y plentyn rhyfeddol, er mwyn ei osod yn yr un uchelfannau ag arwyr chwedlonol. Serch hynny, mae'n debyg nad ymffrostio gwag yn unig yw hyn. Byddai disgwyl i blant gymryd cyfrifoldebau oedolion o oedran cynnar. Ni fyddai'n rhaid iddynt ddilyn cwrs o addysg hyd eu llencyndod, a'r oedran cyffredin i ferched briodi oedd oddeutu pymtheg.[12] Pan fyddai cyfyngder, a milwyr yn brin, byddai'n rhaid troi at blant am gymorth. Ymddengys i Lywelyn Fawr a'i feibion ddechrau ymladd pan oeddent yn ifanc iawn, o edrych ar ddyddiadau eu brwydrau. Byddai'r syniad o blant yn rhyfela yn creu arswyd yng nghalonnau pobl Cymru heddiw, eithr dengys y cyfeiriad hwn ei fod yn arferiad hollol dderbyniol yn yr Oesoedd Canol; dyna oedd prif amcan gŵyr ifanc o'r fath mewn bywyd.

Gellir tybio i 'Awdl Briodas Robert Hwitnai ac Elis ferch Tomas Fychan' gan Lewys Glyn Cothi gael ei chanu ym mhriodas y ddau, gan ei bod yn dathlu eu huniad.[13] Pwysleisir eu llinach anrhydeddus – 'eryr' yw Robert Hwitnai, a'i wraig megis 'haul ym mhlaid sêr'. Sonnir am haelioni'r pâr, a cheir darlun cywrain o olwg osgeiddig Elis:

*hi a wisg Dduwllun ddamasg ddillad,*
*siamled â felwed un ddyfaliad*

---

[11] Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938) t.1, ll.1.
[12] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod
[13] GLGC, 123.

Ond, cawn yr argraff fod rheswm amgenach nag ystyriaethau materol y tu ôl i'w huniad yng ngolwg y bardd. Y mae'r holl eiddo yn perthyn i'r *ddau* ohonynt,

*yn eu llys yn lle osai,*
*ac yn eu tŵr gwyn a'u tai*

a disgrifir hwy fel 'y ddau gymar'. Felly, er ei bod yn briodas ddelfrydol o safbwynt arian a statws, teimlwn fod gwir bartneriaeth a chariad rhyngddynt. Yn goron ar yr uniad hwn, dymuna'r bardd iddynt gael plant:

*ac o'r wraig egin a llin penllâd,*
*ac o'r gŵr epil a hil a had.*

Y mae cael plant yn fwy na modd o barhau'r llinach, fodd bynnag:

*Amen! hil a had fal y mynnai - hon*
*o hwn, arglwydd Hwitnai*

a thrawiadol yw'r cyfeiriad at 'hon'. Awgrymir fod cael plant yn ddyhead naturiol i fenyw, ac yn fwy na phroses oeraidd i ddarparu etifedd. Fel Owain Glyndŵr, y mae angen plant ar Robert ac Elis i lenwi eu bywydau a'u bodloni yn emosiynol.

Y mae sôn am blant mewn awdl fawl ddienw i Hywel ap Goronwy.[14] Gellir tybio i'r awdl gael ei chanu rhwng cyfnod dyrchafiad Hywel yn 1102 a dechrau ei bryderon yn 1105, gan mai tôn ryfygus, fuddugoliaethus sydd iddi. Yn ei dilyniant cyntaf, mynegir dymuniad i Hywel reoli Cymru gyfan a phwysleisir ei ragoriaeth dros bob arweinydd arall:

*O'r sawl pennaeth　a gais ynaeth　arfaeth camrwy*
*Hydr y cymell　Hywel o bell:　gwell yw no hwy!*

Sonnir am Urien Rheged yn yr un anadl ag ef, a chyflwynir darlun confensiynol o'r arwr delfrydol - gŵr ffyrnig ar faes y gad, sydd eto'n hael yn ei lys.

*Gorau brenin　o'r gorllewin　hyd yn Llundaint,*
*Haelaf, lariaf,　lewaf, tecaf　o Addaf blant,*

[14] J. E. Caerwyn Williams *et. al.* (gol.), *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion,* CBT I (Caerdydd, 1994) tt.8-9

Ar ôl yr holl frolio, annisgwyl yw diweddglo'r gerdd - cyfeiria'r bardd at un o gymeriadau cainc gyntaf y Mabinogi:

*O Deÿrnon,* *cywryd Lleon,* *galon reibiant*

Yn eu hysgrif 'Rhiannon gyda Theyrnon yng Ngwent', dadleua R. Geraint Gruffydd a Brynley F.Roberts fod y cyfeiriad at Deyrnon '... yn galw i gof ar unwaith gainc gyntaf y Mabinogi', os yw eu dehongliad o'r gerdd yn gywir.[15] Ymhelaetha Dafydd Johnston ar y pwynt hwn, gan ddadlau '... oni fyddai arwyddocâd yn y ffaith bod Teyrnon a'i wraig yn ddi-blant, a bod plentyn rhyfeddol wedi dod i'w rhan?'[16] Gellir tybio i'r bardd uniaethu Hywel ap Goronwy â Theyrnon oherwydd hynny - ar ddiwedd y gerdd, y mae'n dymuno iddo gael plant:

*Hoeddl hir a nef* *a chain addef* *trwy arddun iant.*
*Urdden arnaw,* *rhad ac anaw* *a ffaw a phlant!*

Er yr holl gampau milwrol y mae disgwyl i Hywel eu cyflawni, cloir y gerdd gyda'r llinellau uchod, yn hytrach na phroffwydoliaeth o goncwest waedlyd. Mynegir yr un syniad a welwyd yn 'Awdl Briodas Robert Hwitnai ac Elis ferch Tomas Fychan' ac 'Achau Owain Glyndŵr'. Ymddengys mai gwag ac ofer yw cyfoeth a grym heb blant, a iechyd a phlant fel petaent yn mynd law yn llall. Dymunir hir oes a llwyddiant i Hywel, eithr 'plant' yw'r gair olaf; dyna uchafbwynt a gerdd a thybiwn mai dyna'r peth a ddeisyfa Hywel fwyaf (er na chlywn a oes ganddo wraig eto).

Cerdd arbennig o gyfoethog i'w thrafod yn y cyswllt hwn yw cerdd fawl Ieuan Deulwyn i Syr Rhisiart Herbert a'i deulu.[17] O ystyried mai Herbertiaid Gwent a theulu Gruffudd ap Nicolas oedd dau o deuluoedd pwysicaf Cymru yn y cyfnod, does ryfedd fod priodas Syr Rhisiart Herbert a Marged, ferch Tomos ap Gruffudd ap Nicolas yn achos i'w ddathlu a'i gofnodi yn y gerdd hon. Sonnir am linach anrhydeddus Marged,

*llin domas yn llawn damasc*
*llawer o ayr ü ssyn ller wasc*

[15] R. Geraint Gruffydd & Brynley F. Roberts, 'Rhiannon Gyda Theyrnon yng Ngwent', *Llên Cymru* 13 (1974-81) t.290
[16] Dafydd Johnston, adolygiad o 'Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion' *Llên Cymru* 19 (1996) t.188

a phwysleisir goruchafiaeth y ddau. Defnyddir delweddau stoc megis llewod, a thynnir ar hen chwedloniaeth arwrol gyda'r cyfeiriad at 'fran Owain'. Fodd bynnag, ceir tro annisgwyl yn y gerdd wedi hynny, gyda'r lle amlwg a roddir i Wiliam, eu plentyn:

*y may gennyn eginnin*

Nid moli'r plentyn yn unig a wneir, ychwaith, er ei fod yn 'gyw eryr' sydd am ddilyn camre ei dad. 'Mab anodd' ydyw - fe'i gelwir yn 'derfysgwr' sy'n amharu ar lonyddwch ei rieni. Er hynny, teimlwn falchder gwresog y rhieni ynddo - rhyfeddir at faint y plentyn:

*mab dioed ym hob dwedyd*
*mwy no gwr yw mywn y gryd*

Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yn y gerdd, fodd bynnag, yw oedran Wiliam. Mae'n rhaid ei fod yn tynnu am ei ddwyflwydd oed, oherwydd nodir mai 'doe ddoedd yn oed y ddiddwyn'- mae'n barod i gael ei ddiddyfnu. Diddorol yw gweld fod plentyn mor ifanc yn haeddu sylw yng ngolwg y bardd. Cawn olwg hefyd ar arferion magu plant yr oes - y 'vamaeth' yn hytrach na Marged a fwydai'r plentyn o'i bron. Er mor wrthun yr ymddengys yng nghymdeithas ddatblygedig y gorllewin, yn ei llyfr *Childhood in the Middle Ages* dywed Shulamith Shahar ei fod yn arferiad hollol gyffredin a derbyniol ymhlith uchelwyr yr Oesoedd Canol.[18] Yn ogystal â hynny, cawn fynegiant o deimladau pobl yr oes tuag at blant. Ar y naill law, y mae Rhisiart a Marged yn trysori Wiliam, eithr teimlant ofn ac ansicrwydd yn ei gylch yn sgil cyfran uchel marwolaethau plant:

*defnydd jarll ond ovan y ddwyn*

Cloir y gerdd gyda gweddi dros Wiliam, cyn iddo gael ei anfon i ffwrdd 'ar vaeth' - tynged y rhan fwyaf o blant uchelwrol bryd hynny. Synhwyrwn gysgod bygythiol y pla dros y weddi besimistaidd, ymbilgar; gellir tybio mai cyfeiriad uniongyrchol at y pla yw'r gair 'marwolaeth':

*yr vamaeth y rof emyn*
*u alw am oes wiliam wynn*

---

[17] Ifor Williams, *Gwaith Ieuan Deulwyn* (1909) XXX tt.56-8
[18] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod

*mair vo eli marvolaeth*
*llaw mair vo lle may ar vaeth.*

Oherwydd hyn, y mae awdl Ieuan Deulwyn yn eithriad arbennig o drawiadol yn y canu mawl. Yn ogystal â rhoi lle canolog i blentyn yn y gerdd, cyflwyna Ieuan Deulwyn ddarlun o fagwriaeth nodweddiadol plentyn i uchelwr yn yr Oesoedd Canol.

Er mor ddiddorol yw'r cerddi hyn wrth drafod plant yn yr Oesoedd Canol, dyrnaid o gerddi yn unig sydd yma. Gellid disgwyl y byddai plentyn - ffrwyth uniad priodasol - yn ganolbwynt i gerdd i bâr priod, felly pam nad yw beirdd eraill yn rhoi sylw iddynt mewn cerddi mawl? Nid oes modd ateb y cwestiwn hwn yn hyderus, ond efallai mai un rheswm oedd cyfran uchel marwolaethau plant yn yr Oesoedd Canol. Yr oedd bywyd plentyn bach mor ansicr; efallai yr ofnid canu cerdd amdano gan na fyddai'n debygol o oroesi. Mae'n debyg y byddai rhai beirdd yn credu nad oedd plant bach yn teilyngu sylw am y rheswm hwnnw hefyd.

Am ateb mwy cadarnhaol i'r cwestiwn, dylid ystyried natur cartrefi'r uchelwyr. Byddai eu cartrefi yn llawn ac yn brysur, a'r plant efallai'n cael eu cuddio yng nghanol y gweision, y plant maeth a'r holl westeion eraill a fyddai yno. Mae'n ddigon posibl na fyddai'r bardd yn sylwi arnynt yn arbennig, ac na châi gyfle i ddod i'w hadnabod. Yn ogystal â hynny, byddai babanod yn cael eu hanfon at famaethau, a phlant yn cael eu hanfon at deuluoedd maeth o oedran cynnar, felly ni fyddai plant yr uchelwr yn byw gydag ef gan amlaf. Pe bai'r uchelwyr yn byw mewn cartrefi gyda theuluoedd niwclear bychain yn unig, mae'n debyg y byddai'r darlun o blant yng nghanu mawl yr Oesoedd Canol yn dra gwahanol.

## III

## Cymhariaeth o Waith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi

Mae'r darlun o blant a geir yng ngwaith Guto'r Glyn yn gonfensiynol, ond nid yw hynny'n annisgwyl. Mewn hanesyn a geir yn Peniarth 240, clywn farn Tudur Aled am ei gyfoeswyr. Yn ei dyb ef, Dafydd ap Edmwnd oedd y bardd gorau i ganu awdl, Dafydd ap Gwilym oedd meistr y canu serch, a Guto'r Glyn oedd y gorau am 'gywydd mab', sef cerdd fawl i ddyn.[1] Mae'r cyfeiriadau at wragedd yn ei gerddi felly yn gymharol brin, ac o ganlyniad i hynny, nid oes llawer o sôn am blant ynddynt ychwaith.

Yn aml, defnydd negyddol o'r gair 'plant' a geir yn ei gerddi, a hynny er mwyn dangos dirmyg tuag at y Saeson neu'r Normaniaid, e.e 'plant gwragedd Normandi' mewn cerdd i Risiart Gethin, [2] a 'plant Rhonwen' a 'plant Hors' yn ei gerdd i Wiliam Herbert.[3] 'Hil' yw ystyr 'plant' yma; nid yw eto wedi mabwysiadu'r ystyr fodern, a'r cysyniad o berthyn i deulu.[4]

Fel nifer o feirdd eraill y canu mawl, bydd Guto'r Glyn yn cyfleu pwysigrwydd parhau'r llinach uchelwrol yn yr Oesoedd Canol, a gwêl blant fel ymgorfforiadau o'u tadau. Yn ei gerdd i Wiliam Herbert, pwysleisir ei waedoliaeth, a'i debygrwydd i'w hynafiaid:

*Ni bu'n Lloegr ben a llygad,*
*Na brig mor debyg i'w dad.*[5]

Defnyddir trosiad cyfarwydd y goeden yn ei gerdd i feibion Llywelyn ap Hwlcyn o Fôn; maent yn 'goed ir' sydd wedi etifeddu rhinweddau'r tad.[6]

Wrth gwrs, y mae rhai eithriadau yn ei waith. Mae ei foliant i Feurig Fychan o Nannau yn cyflwyno darlun cynnes o berthynas Meurig a'i wraig. Mae eu mab yn briod bellach, ond mae'r teulu bach wedi aros yn glòs.

*Gwreiddiodd penaig o Rydderch,*

---

[1] Rhagymadrodd Ifor Williams (gol.), GGG, t.ix-xxiii
[2] GGG, II, ll.27
[3] GGG, XLVIII
[4] Gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod
[5] GGG, LI, ll.45-6
[6] GGG, XIV, ll.8

*Gŵr a'i fab a'i wraig a'i ferch.*
*Gwenyn o frig Nannau fry,*
*Gwerin ynt, gorau'n unty.*[7]

Mae ei gerdd i Ddafydd Mathau o Landaf yn dangos ymwybyddiaeth o werth emosiynol plant, gyda'i ddisgrifiad maith o'r 'Meibion fal cyrn hirion hydd'.[8] Trawiadol hefyd yw'r ddelwedd a ddefnyddia Guto i ddisgrifio plentyn ifanc Siôn ap Madog Pilstwn ac Alswn

*I Siôn, nef, ac Alswn wen,*
*A chynnydd i'r wreichionen.*[9]

Mae 'gwreichionen' yn awgrymu egni heintus y plentyn, a gobaith ar gyfer dyfodol disglair iddo.

Fodd bynnag, go lwm yw'r darlun o blant a geir yng ngwaith Guto'r Glyn o'i gymharu â phwysigrwydd plant yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, a'i ddyfeisgarwch wrth blethu'r delweddau ohonynt i'w gerddi. Serch hynny, ceir y darlun traddodiadol o blant yn rhai o gerddi Lewys Glyn Cothi hefyd. Maent yn ddigymeriad ac fe'u gwelir fel parhad i linach y tad yn unig. Ym marwnad Edmwnd Tudur, pwysleisir pa mor hanfodol oedd cael etifedd i ŵr o statws uchel

*Heb lin brenhinol*
*yma'r ym ar ôl,*
*heb urddol breiniol, heb wirionedd.*[10]

Gwelwn ddelwedd y goeden yn aml, i gyfleu sut yr oedd plant yr uchelwr wedi etifeddu ei rinweddau, megis ym moliant Llywelyn a Harri ap Gwilym:

*O dderwen Llangathen gynt*
*imp wedy'r impio ydynt.*[11]

Mae'r ddelwedd yn arbennig o gryf yn ei foliant i Ddafydd ap Tomas Fychan. Chwaraeir â'r gair 'plant'; a yw Lewys yn dangos ymwybyddiaeth o darddiad gwreiddiol y gair?

*Coed plan Tomas Fychan fu*

---

[7] GGG, LVII, ll. 51-4
[8] GGG, LXVII, ll.39-55
[9] GGG, XXIII, t.62, ll.67-8
[10] GLGC,10, ll.74-6.
[11] GLGC, 51, ll.13-4

*ei blant ef abl yn tyfu;*[12]

Mewn oes pan nad oedd priodas yn aml yn fwy na threfniant economaidd rhwng teuluoedd, yr oedd Lewys Glyn Cothi yn ŵr a oedd yn gweld gwerth emosiynol yn y sefydliad. Mae cerddi niferus ganddo yn dathlu uniadau hapus parau priod. Yn ei gywydd priodas i Einion ap Siancyn a Lleucu ferch Rys, dywed:

*Priodas pren pêr ydyw,*
*ac â phren o'i gyff a'i ryw*[13]

gan fynd ymlaen i ddweud yn llinell 28 mai 'merch wen ym mreichiau Einiawn' yw Lleucu. Ffrwyth a phwrpas uniad hapus o'r fath oedd plant ym marn Lewys, felly gellir dadlau fod y teulu yn sefydliad yr un mor bwysig â phriodas iddo. Yn ei farwnad i Edmwnd Tudur,[14] mae Lewys yn cydnabod pwysigrwydd plant yn y cartref. Yn llinellau 109-112, ceir rhestr o bethau sy'n cyd-fynd â'i gilydd, er mwyn pwysleisio dwyster effaith marwolaeth Edmwnd, a'r gwagle a adawodd ar ei ôl:

*Gwag tir a welir heb reolaeth,*
*gwag tŷ heb wely a mabolaeth.*
*gwag tref heb blasau, gwag traeth heb ddyfredd,*
*gwag annedd heb wledd, heb fedd, heb faeth.*

Dengys ymwybyddiaeth o'r pleser a ddaw o fagu plant ym 'Moliant Gwilym Fychan' gyda'r gair 'llawenydd':

*Llawenydd yw Dafydd deg*
*ab Gwilym ym mhob golwg,*

a chyflwynir darlun cynnes o deulu bach dedwydd:

*Tad, mam, mab dinam a dâl deunaw - 'n un,*
*tir y sy uddun', teiroes iddaw,*[15]

[12] GLGC, 80, ll.5-6
[13] GLGC, 61, ll.15-6
[14] GLGC, 10
[15] GLGC, 38, ll.13-4; ll.51-2

Yn y gerdd 'I Ofyn March gan Siôn Phylib', diddorol yw gweld y gair 'dedwydd' mewn cyd-destun teuluol, oherwydd dyna ble y gwelwn y gair gan amlaf hyd heddiw:

*Tri dedwydd sydd yng Nghil-sant,*
*o'm da oll y'm diwallant:*
*Sioned Llwyd, Phylip M'redydd,*
*eu mab Siôn i'm byw y sydd.*[16]

Y mae nifer o gerddi Lewys Glyn Cothi yn pwysleisio rôl bwysig y fam yn y cartref. Ceir darlun clasurol o'r Forwyn Fair yn bwydo'r Iesu o'i bron yn y gerdd 'Bendith ar Edudful ferch Gadwgon a'i Meibion', a defnyddir y fron fel arwydd o fagwraeth ym marwnad Gwladus ferch Syr Dafydd Gam:

*a heddiw mae'n rhoddi medd*
*o fron honno'n frenhinedd*[17]

Eithr ni fyddai Gwladus wedi bwydo ei phlant â'i bron ei hun, mae'n debyg. Sonnir am rinweddau llaeth y fron yn ei foliant i Rys ab Einion, gyda'r wireb:

*Ei fab, nid rhaid gyda'i faeth*
*dim mwy yma ond mamaeth.*
*Nid rhaid i enaid ddim da*
*na dim einioes ond manna.*[18]

Gan iddo dderbyn addysg eglwysig, gellid meddwl y byddai Lewys wedi gwrthwynebu'r arfer o ddefnyddio mamaethau, ond cyfeiria Lewys at famaeth yn hytrach na mam naturiol y plentyn yn y dyfyniad uchod, er mwyn cyfleu'r cysur a ddaw o dderbyn bwyd o'r fron.

Y mae plant i'w gweld yn ddelweddol yn ei waith yn aml er mwyn cyfleu ei hapusrwydd a'i fodlonrwydd; enghraifft hyfryd o'r ddelwedd honno yw'r llinellau canlynol o Foliant Lewys ap Gwatcyn:

---

[16] GLGC, 70, ll.1-4
[17] GLGC, 110, t.247, ll. 27-8
[18] GLGC, 49, ll. 53-6
Dylid nodi mai *I uab* oedd yn y llawysgrif wreiddiol. Mewn gwirionedd, y mae 'I fab' yn gwneud gwell synnwyr yma nag 'ei fab', gan mai gwireb yw'r llinellau hyn, sy'n honni fod plentyn bach yn cael ei holl faeth o'r fron.

*Yr enaid yn wirionach*
*a dau'n y byd fal dyn bach*[19]

Yn yr un modd, defnyddir rhieni maeth yn ddelweddol i gyfleu gofal arbennig ei noddwyr amdano, eu haelioni, a'i fodlonrwydd yn eu cartrefi. Yn llys Llywelyn ap Gwilym, mae'r bardd yn hapusach

*no mab mam ar ei famaeth*
*no merch ar ei dynion maeth*[20]

Eithr, nid yw'n drosiad gwreiddiol; fe'i defnyddir yn helaeth yng ngwaith Guto'r Glyn, megis yn ei gerdd i Abad Amwythig:

*Mab oeddwn, ni ddygwn ddig,*
*Maeth i abad Ymwythig.*[21]

Ceir enghraifft arall drawiadol o'r ddelwedd yng ngherdd Guto i Ddafydd, abad Glyn Egwestl. Yn y gerdd hon, mae Guto bellach yn hen ŵr oedrannus, ond caiff bleser yng nghwmni Dafydd a'i 'loyw win', a chanmolir ei groeso i'r cymylau:

*Tadmaeth am faeth ym a fu*
*Yma 'rioed (Mair i'w adu!)*[22]

Felly, yng ngherddi'r ddau fardd, mae rhieni maeth yn ffigurau addfwyn, croesawgar.

O astudio cerddi'r ddau fardd, gwelwn nad yw cyfeiriadau at blant yn hollol absennol o waith Guto'r Glyn, ond yn ddelweddol y gwelwn blant gan amlaf, megis yn y modd y mae Guto yn ei weld ei hun fel mab maeth wrth dderbyn croeso'r llys. Mae Guto'r Glyn yn sicr yn ymwybodol o'r difyrrwch a geir yng nghwmni plant, eithr llawenhau gyda'r noddwyr a wna, o weld pwysigrwydd eu plant iddynt, ac ni chawn werthfawrogiad personol o blant ganddo. Y mae'r darlun o blant yn llai gwrthrychol yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, oherwydd gwelwn ei deimladau personol ef ei hun tuag atynt. Y mae Lewys hefyd wedi sylwi ar natur babanod; maent i'w gweld yn cysgu'n ddibryder yn amryw o'i gerddi. I Lewys, mae babanod yn cynrychioli bodlonrwydd braf.

---

[19] GLGC, 133, ll.13-4
[20] GLGC, 53, ll.23-4
[21] GGG, XXIV, ll. 17-8
[22] GGG, CXIV ll. 27-8

Hyd y gwyddom, ni fu gan Guto'r Glyn blant; bu farw ar ei ben ei hun mewn mynachlog. Y mae hyn, efallai, yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng gwaith Lewys Glyn Cothi a'i waith ef. Gellir tybio mai'r rheswm dros ymwybyddiaeth Lewys o natur plant a'i hoffter amlwg ohonynt yw iddo ef ei hun fod yn dad, a cholli Siôn ei fab pan oedd yn bum mlwydd oed. Ar brydiau, gallwn synhwyro ergyd y golled arno. Yn ei foliant i Tomas ap Siôn a Gwenllian, mae Lewys yn sylweddoli mor fregus oedd bywyd plentyn yn y cyfnod wrth ddymuno hir oes i'w hepil:

*a Duw a ro yn dy ran*
*ddedryd iddaw ei oedran.*[23]

ac yn y gerdd 'Bendith ar Edudful ferch Gadwgon a'i Meibion', adlewyrchir y pryder y byddai rhieni yn ei deimlo dros eu plant mewn oes pan oedd cyfran marwolaethau plant yn echrydus o uchel. Gofynna Lewys i Dduw a'r saint warchod ei phlant

*rhag cas a chras echrysaint,*
*rhag rhaib, rhag gwewyr a haint* [24]

Ym 'Marwnad Hywel ap Dafydd', cyfeiria Lewys at Adda ac Efa - y rhieni cyntaf i golli plentyn, ar ôl i Cain ladd Abel.

*cwyn Adda, cwyn Efa'n iawn,*
*am Abel, un o'i meibiawn,*[25]

Cerdd arbennig o ddirdynnol yw marwnad Lewys i Risiart ap Tomas.[26] Dyn ifanc oedd Rhisiart pan fu farw, a chyfeirir at farwolaeth ei dad yn y gerdd hefyd; fe'i lladdwyd ym mrwydr Banbury yn 1469. Yr oedd Lewys Glyn Cothi yn canu tua ugain mlynedd cyn hynny, felly gellir amcangyfrif iddo golli Siôn ei fab tua 1460. Os yw hynny'n wir, cawn esboniad am ddwyster y gerdd, a chydymdeimlad Lewys â'r fam yn ei hunigrwydd, megis yn llinellau 11-12:

*Trist ydwyf trwy astudio,*

---

[23] GLGC, 67, ll.65-6
[24] GLGC, 168, ll.47-8
[25] GLGC, 85, ll.29-30
[26] GLGC, 128.

*tristáu ei fam trostaw fo;*

Fel yn y marwnadau i blant, disgwylir i'r rhieni dderbyn cysur wrth feddwl am y Forwyn Fair, gan i'w mab hithau atgyfodi:

*Mair a weles marwolaeth*
*Iesu ei mab dros ei maeth;*[27]

Odlir 'marwolaeth' â 'maeth'; y mae hyn yn drawiadol mewn cerdd sy'n trafod colled. Cawn ddarlun o agosatrwydd y teulu bach, sydd bellach wedi ei ddarnio:

*Nid drwg gan olwg Elen*
*hwyl ei mab yn ei helm wen,*
*a'i weled wrth wely'i dad*
*yn gorwedd yn un gariad.*[28]

Roedd yn rhaid i'r tad a'r mab fod gyda'i gilydd, hyd yn oed ar ôl marw:

*doeth oedd, fy mendith iddo,*
*fynnu'i fab wrth ei gefn fo.*[29]

Cloir y gerdd gyda chyfeiriad arall at y Forwyn Fair; dymuna Lewys iddi warchod y tad a'r mab yn y nefoedd.

Diddorol yw ystyried cerdd gan Robin Ddu, un o gyfoedion Lewys Glyn Cothi, yn y cyd-destun hwn. Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, nid oes llawer o sôn am blant y noddwyr yn y cerddi mawl, ac ymddengys na roddai'r beirdd lawer o bwys arnynt ar y cyfan. Ond, ym marwnad Robin Ddu i saith o blant Gruffydd ap Rhys o Gloddaith, cawn ddarlun o berthynas agos rhwng y bardd a phlant ei noddwr, ac ymddengys fod lle canolog a phwysig gan y plant yn y cartref – ymddengys yn wag ac yn oer hebddynt:

*Gwan yw'r Creuddyn ac unig,*
*Gruffydd sydd brudd heb ddim brig.*[30]

---

[27] GLGC, ll.5-6
[28] GLGC, ll.31-34
[29] GLGC, ll.43-44
[30] Y Parch Owen Jones (gol.), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (Llundain, 1876) tt.218-9. Am drafodaeth fanylach ar y gerdd, gw. Marwnadau Canoloesol i Blant, isod

Nid darlun gwrthrychol o blant a gawn yma, oherwydd teimlwn werthfawrogiad Robin Ddu ohonynt a rhydd fynegiant o'i alar personol ei hun drostynt, yn ogystal â galar eu tad. Gellid tybio, felly, i deimladau mwy twymgalon tuag at blant a'r uniad priodasol ddatblygu erbyn diwedd y bymthegfed ganrif, pan flodeuai Robin Ddu a Lewys Glyn Cothi.

Ni ellid cloi trafodaeth ar y darlun o blant yng ngwaith Lewys Glyn Cothi heb sôn am ei farwnad i'w fab, Siôn. Gellir dadlau mai yn y gampwaith honno y ceir y darlun mwyaf cyflawn a chofiadwy o blentyn yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol. Am y rheswm hwnnw, y mae 'Marwnad Siôn y Glyn' yn haeddu trafodaeth helaeth ar ei phen ei hun yn y traethawd hwn. Serch hynny, mae digon o ateg iddi yng ngweddill cerddi Lewys Glyn Cothi. Teg fyddai honni mai yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, yn fwy nag unrhyw fardd Cymraeg arall, y ceir yr adlewyrchiad cliriaf o drobwynt yn agweddau pobl tuag at blant ar ddiwedd yr Oesoedd Canol.

## IV

## Marwnadau Canoloesol i Blant.

Nid oes llawer o farwnadau Canoloesol i blant mewn unrhyw iaith yn ein meddiant heddiw. Enghraifft nodedig yw'r gerdd Saesneg *Pearl* o'r bedwaredd ganrif ar ddeg; y mae honno'n ymdrin â marwolaeth plentyn dwyflwydd y bardd, ond mae dull alegorïaidd y gerdd yn cymylu ei sefyllfa ffeithiol.[1] Mewn llenyddiaeth Geltaidd, ffuglennol yw'r marwnadau cynharaf i blant, sef canu Llywarch Hen a chanu Rónán yn y Wyddeleg; rhaid troi at ganu Norseg er mwyn darllen gwir farwnad i blentyn o'r un cyfnod, megis 'Sonatorrek' (Marwnad i'm Meibion). Lluniwyd marwnadau Gwyddelig i feibion, 'Donnchadh Mór o Dálaigh', yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond ni cheir marwnadau Cymraeg i blant ifanc tan y bedwaredd ganrif ar ddeg.[2] Wedi hynny, fodd bynnag, ymddengys beirdd canoloesol Cymru'n gymharol doreithiog yn y maes hwn; y mae chwe cherdd o'u heiddo yn marwnadu eu plant, a diogelwyd dwy farwnad arall i blant o'r cyfnod modern cynnar.

O gofio'r posibilrwydd mai cyn lleied ag un o bob tri o blant yr Oesoedd Canol a fyddai'n goroesi eu plentyndod, a llai na hynny pan fyddai pla, dylai prinder marwnadau i blant beri syndod i ni, mewn oes a chymdeithas a rydd bwyslais ar werth 'cathartig' barddoniaeth. Fodd bynnag, yn ei lyfr *Galar y Beirdd*, nododd Dafydd Johnston:

*Byddai'r syniad modern o farddoniaeth fel cyfrwng hunan-fynegiant yn gwbl estron i feirdd yr Oesoedd Canol.* [3]

Yn sicr, diben defodol oedd i lawer o farddoniaeth y cyfnod, ac ychydig o le oedd i blant yn y canu mawl traddodiadol ac yn y cerddi i wyr a gwragedd ar y cyd. Mynegiant o alar ar ran llwyth neu gymuned fyddai marwnad, yn hytrach na galar personol, a chan amlaf byddai'r elfen o fawl ynddi yn gryfach na'r galar. Y mae dylanwad y traddodiad defodol hwn i'w weld yn glir yn y farwnad gynharaf i blentyn sydd gennym, sef marwnad Cynddelw i'w fab, Dygynnelw.

---

[1] A.C. Cawley, *Pearl, Sir Gawain and the Green Knight* (Llundain, 1962)
[2] Adolygiad Patrick Sims Williams o *Galar y Beirdd,* CMCS 29 (1995), t.61
[3] GB, t.10

Bardd hunan-bwysig ydoedd Cynddelw; mae'n debyg y byddai'n tybio bod ei fab gyfuwch ei statws â'i noddwyr. Oherwydd hyn, y mae arddull y gerdd yn ffurfiol megis marwnad i uchelwr. Egyr y gerdd gan foli campau milwrol Dygynnelw; llanc ifanc, ac nid plentyn oedd Dygynnelw pan fu farw:

*Yng nghysgod clod, claer ddylaith - byddin,*
*ni byddud wrth gyfraith*

Tri englyn unodl union yw'r gerdd, a cheir mynegiant cryno o alar y bardd gyda'r geiriau 'dygen yw hebod bod byd', eithr nid yw'n ymgolli mewn emosiwn. Nid oes dim yn y gerdd i ddynodi mai marwnad i'w fab ydyw, hyd yn oed; rhaid i ni gredu gair y copïydd, a nododd yn y llawysgrif mai marwnad 'y Dygynnel6 y vab' ydoedd. Galar gweddus a fynegir, a chynhelir teimlad aruchel, urddasol trwy'r gerdd.

Galar dros blant ifanc a fynegir mewn marwnadau eraill gan dadau o'r Oesoedd Canol, ac mae'r beirdd a'u luniodd yn fwy diymhongar na Chynddelw. Yn wir, nid oedd tri ohonynt - Ieuan Gethin, Llywelyn Fychan a Llywelyn ap Gutun - yn aelodau llawn o'r gyfundrefn farddol, ac oherwydd hynny, nid oeddent yn rhwym i gonfensiwn. Cymhelliad personol a oedd ganddynt dros farwnadu eu plant ac felly mynegant brofiad uniongyrchol o golli plentyn. Gwelwn effaith andwyol y brofedigaeth arnynt; y mae marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, er enghraifft, yn fynegiant o'i orffwylledd. Serch hynny, nid yw'r hen arferion wedi llacio'u gafael yn llwyr ar y beirdd. Fel y gwelwn yn nes ymlaen, try nifer ohonynt at dermau stoc o'r canu serch yn eu marwnadau. Hyd yn oed mewn marwnad i fachgen, sef marwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab, Siôn, clywn ddylanwad y canu serch yn yr ebychiad 'fy nghae Esyllt, fy nghusan'. Yn ôl Lowri Lloyd, efallai mai cryfder emosiwn a'r sioc o wynebu'r pla oedd i'w gyfrif am hyn. Roedd arnynt angen geiriau i fynegi eu hemosiwn, ac i geisio deall rhywbeth cwbl ddieithr iddynt.[4]

Daeth y trawiad cyntaf o'r pla yn 1349, yn rym annealladwy a gipiai fywydau'n ddisymwth. Nid oes gennym ffigurau pendant, ond gallwn gasglu i boblogaeth rhai dinasoedd a phentrefi ostwng 70 neu 80%. Teimlwn fraw Llywelyn Fychan yn wyneb y bygythiad hwn. Nid yw 'Haint y Nodau' yn farwnad yn yr ystyr dechnegol, ond yn

[4] Lowri Wyn Lloyd, 'Agweddau ar y Teulu ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol', Traethawd PhD, (Prifysgol Cymru 2000) t.285

ymateb i ddinistr ofnadwy y farwolaeth fawr; ceir cyfres o linellau yn dyfalu'r pla yn gignoeth:

*hagr frech, anhygar ei frys,*
*on'd tebyg i had dubys*

Mynegir sioc ac anghrediniaeth Gwilym ap Sefnyn wedi'r ergyd o golli deg o'i blant, a phwysleisia'r gerdd ei unigrwydd yn ei brofedigaeth:

*Druan henfardd direol*
*ymdrigo'n wylo yn ôl.*

Yn ei ragarweiniad i'w 'Decameron', mynegodd Boccaccio ei ddicter wrth weld perthnasau yn cefnu ar ei gilydd adeg y pla. Yr hyn a'i dychrynodd fwyaf oedd gweld rhieni yn gwrthod cynorthwyo eu plant clwyfus, fel pe na baent yn blant iddynt bellach.[5] Eithr ni welwn deimladau hunanol felly yn y marwnadau a luniwyd adeg y pla, ac yn ôl David Herlihy, esgorodd y pla ar deimladau mwy cariadus tuag at blant yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Yn ei lyfr *The Black Death and the Transformation of the West*, ceir y dyfyniad hwn o gerdd gan William Langland:

*Don't let wealth spoil them while they are young*
*Nor for fear of the pestilence indulge them beyond reason*[6]

Y mae'r bardd yn beirniadu rhieni'r dosbarth masnachu am ddifetha eu plant, ac awgrymir mai eu hofn o'r pla a'u harweiniodd i wneud hynny. Y mae Dafydd Johnston o'r un farn ag ef:

*Fe ymddengys i hyn arwain at ymdeimlad fod bywyd y teulu dan fygythiad, a pharhad yr hil ddynol gydag ef. Yn ganlyniad i'r ymdeimlad hwnnw daeth rhieni i brisio eu plant yn fwy, ac i alaru'n ddwysach o'u colli.*[7]

---

[5] Danièle Alexandre-Bidon & Didier Lett, *Children in the Middle Ages* (Notre Dame, Indiana, 1999)
[6] David Herlihy, *The Black Death and the Transformation of the West* (Cambridge, Massachusetts 1997)
[7] Johnston, *op. cit.*, t.12

Mewn marwnad o'r bymthegfed ganrif gan Robin Ddu i blant Gruffydd ap Rhys o'r Gloddaith, cawn fynegiant o'r sioc a deimlid yng nghartref ei noddwr ar ôl marwolaeth saith

o'i wyth plentyn. Claddwyd hwy oll o fewn wythnos:

*Darfu o benadur-fainc,*
*Eu dwyn i gyd, ond un gainc!*[8]

Clywn am yr 'wylaw tost' a fu yn y cartref, ac am alar dirdynnol Gruffydd dros ei blant, er nad yw'r farwnad wedi'i hysgrifennu o'i safbwynt ef. Nid digwyddiad dibwys ac anochel oedd marwolaeth y plant yn nhyb y bardd; y mae'r ffaith iddo ysgrifennu marwnad iddynt yn profi fod lle canolog i'r plant yn y cartref, ac iddynt gael eu magu mewn awyrgylch gariadus.

Yn ogystal â mynegi galar dwysach, y mae'r cerddi wedi'r pla yn cyfleu'r pleser a ddaw o fagu plant. Yn ei gerdd 'Haint y Nodau', pwysleisia Llywelyn Fychan yr hwyl a'r difyrrwch a gafodd yng nghwmni ei blant gyda llinellau megis:

*Dwg fy niddan deganau*
*glân teg i'r goleuni tau*

Y mae mab Ieuan Gethin yn 'diddanu'i dad', ei ferch yn 'ddigri', ac ym marwnad Gwilym ap Sefnyn i'w ddeg plentyn, cyfeiria at ei 'hyfryd bobl hoywfraisg'. Roedd ystyr wahanol i *hyfryd* yn yr Oesoedd Canol, ac yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru y mae'n gyfystyr â llawen. Defnyddir y gair *hoywfraisg* yn helaeth yn y canu mawl, eithr ymddengys bod geiriau megis *llon* a *hyfryd* yn perthyn yn arbennig i fyd dibryder plant yn nhyb y beirdd.

Y mae'r holl farwnadau yn frith o dermau sy'n dynodi anwyldeb a chariad y beirdd tuag at eu plant. *Dillynion* yw plant Llywelyn Fychan iddo; ystyr *dillyn* yw rhywbeth cain a thlws, a chryfheir teimlad y llinell gyda'r ansoddair *mwynion.* Defnyddir gair diddorol gan Wilym ap Sefnyn i ddisgrifio'i fab: 'F'anrhaith oedd Wilym...'. Ystyr *anrhaith* yw trysor, megis *booty*; teimla'r bardd iddo fod yn ffodus i gael mab fel Gwilym. Y mae llinell 32 hefyd yn hynod effeithiol; cyfleir darlun cynnes o'i ofal addfwyn am ei

[8] Y Parchedig Owen Jones (gol.), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig II* (Llundain, 1876) tt.218-9

blant gyda'r trosiad 'fy nghenafon gwynion gwaisg'. Cawn y gair *anrhaith* ym marwnad Ieuan Gethin i'w fab hefyd, a pharadocs dirdynnol gyda'r llinell: 'fy mebyn oedd fy mwbach'. Y mae'r bachigyn o 'mab', sef *mebyn,* yn cyfleu cariad y bardd tuag ato, ond y mae *bwbach* yn cyfleu yr ofn a'r loes a gafodd yn sgil ei salwch a'i farwolaeth.

Ceir cyfoeth o dermau i ddynodi anwyldeb ym marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, a daw'r mwyafrif ohonynt o faes y canu serch: mae hi'n seren, yn em ac yn 'rhiain eurddoeth'. Cawn ddarlun o berthynas agos Llywelyn ap Gutun a'i fab, Gruffudd; cyfeiria ato fel 'Y ngharwr i'm cynghori', a 'f'anwylyd'. Fodd bynnag, y mae'r cerddi hynny yn llwm o'u cymharu â marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn y Glyn. O'r llinell gyntaf - 'Un mab oedd degan i mi' - ceir darlun clir o agosatrwydd y tad a'r mab. Yn y drydedd linell, gwelwn enw haniaethol - *cudab* - a luniwyd o'r gair *cu.* Amrywiad ar y gair *cudeb* ydyw; yr oedd y gair *cu* yn cyfeirio'n arbennig at gariad o fewn y teulu, ac felly ei ystyr yw rhywbeth tebyg i *anwyldeb.* Trwy lunio term haniaethol o'r gair *cu*, dengys Lewys ei fod yn ymwybodol o fath arbennig o emosiwn sy'n perthyn i gylch teuluol.[9] Mae *cudab* yn fynegiant cryf o gariad heb elfen rywiol, a cheir torreth o dermau anwes rhwng llinellau 32 a 41 sy'n ychwanegu at y mynegiant hwnnw, e.e:

*fy nhegan oedd, fy nghannwyll,*
*fy enaid teg, fy un twyll*

Yn ogystal â chryfhau gofal a chariad rhieni dros eu plant, gellir dadlau bod y pla yn un o'r ffactorau a arweiniodd at gyfyngu a chlosio'r uned deuluol. Clywn am alar y fam ym marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, ac mewn cerdd ddiweddarach o'r unfed ganrif ar bymtheg, y mae Huw Machno yn cynnwys ymateb ei holl deulu i farwolaeth ei fab, Owain. Gellid cymharu'r farwnad honno â'r gerdd 'Galarnad' gan Dic Jones. Yn y farwnad honno i'w ferch, pwysleisir undod y teulu yn eu galar drosti.[10]

Try'r holl feirdd at gysur ysbrydol yn eu trallod. Mynegir agwedd Gristnogol uniongred yng ngherdd Cynddelw - y mae'n ffyddiog y bydd Duw yn gofalu am ei fab yn 'harddfraint saint senedd'. Egyr Llywelyn Fychan ei gerdd gan ymbil ar Dduw:

*Duw erglyw, da fy Arglwydd,*
*deddfol Dad a Mab rhad rhwydd*

---

[9] Gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod
[10] Dic Jones, *Sgubo'r Storws* (Llandysul, 1986) tt.30-1

Fel Cynddelw, gweddïa dros enaid ei fab, cyn derbyn ewyllys Duw yn ostyngedig wrth ddatgan: 'Doeth y lluniaist bob da'. Mynegir cred boblogaidd o'r Canol Oesoedd yng ngherdd Llywelyn Fychan; yn ei dyb ef, cosb am bechodau'r ddynoliaeth yw'r pla:

*Haint brigladd, hynt beryglus,*
*haeddasom roi arnom rus,*

Y mae'r Forwyn Fair yn aml yn cynnig gwaredigaeth i'r beirdd o'u poen. Yr oedd y seintiau yn fyw iawn ym meddyliau pobl yn y bymthegfed ganrif, ond roedd y Forwyn Fair yn mynnu lle amlwg yng nghalonnau'r Cymry a phobloedd eraill. Cysegrodd San Bernard Urdd y Sistersiaid iddi, a dwysawyd ei phoblogrwydd wrth i'r Urdd hwnnw ymledu trwy Ewrop. Codwyd mynachlog gyntaf y Sistersiaid yng Nghymru yn 1140; wedi hynny, roedd y Forwyn i'w gweld mewn delwau enwog ledled y wlad megis delw 'fyw' yr Wyddgrug, delw Gresffordd, a'r Wyry Wen o Ben-rhys. Roedd rôl Mair fel mam yn un o'r rhesymau dros ei hapêl eithriadol; y mae hyn i'w weld mewn dogfen a oroesodd yn gyflawn mewn un ar ddeg o lawysgrifau canoloesol, sef *Gwassanaeth Meir* - trosiad o'r antiphon 'Salve Regina'. Cyferchir Mair gan Gabriel, ac fe'i gelwir yn 'santes vamaeth Duw'ac yn 'Vam Grist':

*Bendigedic wyt, Veir ymplith y gwraged; a bendigeit yw frwyth dy groth ti, Iessu.*[11]

Roedd Mair yn 'drugarawc' ac yn 'berffeithdec'ac yr oedd hithau hefyd wedi gweld marwolaeth ei mab. Nid oes unrhyw hwiangerddi Saesneg o'r Oesoedd Canol wedi eu cadw, ond goroesodd corff sylweddol o gerddi o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a ddychmygai'r Forwyn Fair yn canu i'r Iesu, gan rag-weld y dioddefaint oedd o'u blaenau.[12] Roedd y pathos hwn yn fyw ym meddyliau pobl yr Oesoedd Canol, felly er ei fod wedi colli ffydd yn Nuw a'r Iesu, gan ddweud mai 'y Gwr a'i gwnaeth aeth â hwn', y mae Llywelyn ap Gutun yn ymbil ar y 'Wyrf Fair', a Lewys Glyn Cothi'n cyfathrebu â hi yn ei farwnad i Siôn:

---

[11] Brynley F. Roberts (gol.), *Gwassanaeth Meir* (Caerdydd, 1961) t.6
[12] Orme, t.132

*O Fair, gwae fi o'i orwedd*
*A gwae fy ais gau ei fedd!*

Wrth gysylltu ei ferch â Mair 'wych ddiwair', y mae Ieuan Gethin yn pwysleisio ei diweirdeb, gan fod Mair yn gosod safon o brydferthwch a diweirdeb anghyraeddadwy i ferched yr Oesoedd Canol. Dywed Ieuan Gethin y bydd yn troi at Fair os na fydd y sant Cynin yn gallu ei gynorthwyo:

*Os Cynin ni phair, gwiw Fair, gwae fi,*
*uwch hedydden falch iechyd iddi*

hyhi yw'r grym eithaf yn ei dyb ef. Fodd bynnag, ni all hyd yn oed y Forwyn Fair gynnig cysur i Ieuan Gethin yn ei farwnad i'w fab:

*Gelwais ar Fair, air arab,*
*Ni'm clyw Mair, ni'm clywai'i mab*

ac ni all y rhan fwyaf o'r beirdd ddehongli eu colled yn rhesymegol. Yn ôl David Herlihy, yr oedd llawer yn amharod i dderbyn dysgeidiaeth yr eglwys yn ddigwestiwn wedi'r pla ac arweiniodd hynny at raniadau o fewn yr eglwys. Cafwyd trafodaethau ar natur crefydd; yr oedd nifer o ysgolheigion yn gwrthwynebu cwlt poblogaidd y seintiau, er enghraifft, gan gredu ei fod yn ofergoelus.[13] Serch hynny, gwelwn boblogrwydd y cwlt hwnnw yn amlwg yn y cerddi. Ym marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, dywed wrth ei wraig:

*Tripheth a wared pob caledi:*
*ympryd, pe gwyddyd, a gweddi - gywraint,*
*ac offrymu i saint a santesi.*

Ymbilia Lewys Glyn Cothi ar Ddwynwen - y santes a leddfai boen serch:

*Dwynwen! Gwae'i dad o'i eni!*

gan fod y santau a'r santesi brodorol trugarog yn apelio'n arbennig at y bobl gyffredin.

Y mae marwnad Ieuan Gethin i'w ferch yn hynod o chwerw a chableddus:

---

[13] Herlihy, *op. cit.*, t.81

*Sorrais wrth Iesu, pe gwiw sorri,*
*seren a gyrchodd o Lyn Seri*

Mynegir ei benbleth ysbrydol yn bellach trwy gyfrwng ei wraig. Y mae hithau yn ei gynghori i'w ladd ei hun, gan ddweud 'nid rhaid yt feddig ond dy foddi'. Y mae ei wraig fel petai'n lleisio ei ymateb greddfol i'r golled, tra bo ei atebion yntau yn cynrychioli'r ffordd resymol, grefyddol o ddelio â phrofedigaeth. Dengys y cecru rhwng y ddau sut y gall profedigaeth arwain at ymddygiad afresymol, ac o ganlyniad i'r ddeialog ynddi, cawn gerdd gwbl wahanol i'r confensiwn. Y mae naws aruchel Cynddelw yn bell o'r gerdd hon wrth i Ieuan Gethin geisio derbyn y drefn wrth gloi'r gerdd â'r ymbiliad: 'calon ni feddaf, cael nef iddi'.

Y mae Llywelyn ap Gutun yn beirniadu Duw yn chwerw yn ei farwnad i Ruffudd, a'i agwedd tuag at Ddydd y Farn yn heriol:

*Onid hir y mae'n tariaw?*
*Anffawd i Ddyddbraw na ddaw!*

Ni welwn barch tawel tuag at farwolaeth a threfn rhagluniaeth, gan fod marwolaeth bellach yn rym dinistriol o'u cwmpas ym mhobman. Sylwodd haneswyr ar newid ym myd celf yn y bymthegfed ganrif - tyfodd poblogrwydd darluniau *macabre* o gyrff pydredig, a dyma'r cyfnod, wrth gwrs, a esgorodd ar feirdd dychanol megis Siôn Cent.

Bu dadlau yn yr Oesoedd Canol o fewn yr Eglwys ynglyn â diweirdeb plant; credai rhai, megis Awstin o Hippo, fod plant wedi'u difwyno â'r pechod gwreiddiol ac nad oedd sicrwydd y caent fynd i'r nefoedd.[14] Yng ngwaith Lewys Glyn Cothi - un o'n beirdd mwyaf crefyddol - golwg ddaearol a gawn ar Siôn wrth i Lewys ffarwelio ag ef, sydd yn gywir yn seicolegol:

*... ac yn iach, fy nghâr arab,*
*iso'n fy myw, Siôn fy mab.*

[14] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod

ac nid yw'n gweddïo dros enaid y bachgen.[15] Serch hynny, mae'n debyg y byddai'n tybio mai mynd yn syth i'r nefoedd a wnâi Siôn, ac ni fynegir amheuaeth ynglyn â hynny yn y cerddi eraill chwaith. Bu cryn wrthwynebiad i ddadleuon Awstin; cytunwyd yn gyffredinol fod plant yn ddiwair ar ôl cael eu bedyddio. Mae tybio bod ei ferch ddyflwydd oed yn y nefoedd yn gysur i awdur y gerdd *Pearl* yn ei drallod. Mewn breuddwyd, gwêl ei ferch yn briodferch i'r Iesu. Mae hi'n wen ac yn bur: nid yw wedi cael ei llygru gan y pechod gwreiddiol, ac ni chawn sôn am ddioddefaint ac artaith uffern yn y weledigaeth hardd.

*Lorde, much of mirþe watz þat ho made*
*Among her ferez þat watz so quyt!*[16]

[Arglwydd! Mawr oedd ei miri
Yr oedd hi'n wen ymhlith ei chyfeillion]

Yn yr un modd, darlun cadarnhaol o fywyd ar ôl marwolaeth a gawn ym marwnad Robin Ddu i blant Gruffydd ap Rhys o Gloddaith.[17] Ceisia'r bardd gysuro ei noddwr trwy gyfleu darlun o fodlonrwydd y plant yn y nefoedd. Trwy ail-adrodd y gair 'un', pwysleisir nad yw perthynas agos a chariadus y plant wedi darfod ar ôl eu marwolaeth; maent yn gysur ac yn gwmni i'w gilydd yn y nefoedd:

*Un bryd aen' i Baradwys:*
*Un foddau blodau o blant,*
*Un feddwl yn nef fyddant:*
*Un luniaeth un oleuni,*
*Un blaid nef, fo'n blodau ni.*[18]

Felly, gellir casglu nad darlun negyddol o blant, yn ysbrydol, a geid yng nghelfyddyd a llên yr Oesoedd Canol ar y cyfan.

Er y cred llawer hyd heddiw mewn sawl cymdeithas mai'r fam yw'r rhiant 'emosiynol', tra bo'r tad yno i ddarparu disgyblaeth, cawn ddarlun diddorol ac annisgwyl

---

[15] Gw. Gwerthfawrogiad o Farwnad Siôn y Glyn, isod
[16] Malcolm Andrew & Ronald Waldron (gol.), *The Poems of the Pearl Manuscript,* (Suffolk, 1978) t.107, ll.1149-50; gw. hefyd cyfeithiad J.R.R. Tolkien o'r testun: *Sir Gawain and the Green Knight, Pearl and Sir Orfeo* (London, 1975) t.120
[17] Y Parch. Owen Jones *op.cit.,* tt.218-9
[18] *Ibid.,* t.219

ar brydiau o rôl y tad yn y marwnadau hyn. Yn ôl Gwilym ap Sefnyn, y mae'n 'meithrin' ei blant;

*Llawen oeddwn, gwn ganllys,*
*wrth feithrin Rhobin a Rhys.*

ac fel y gwelwyd eisoes, y mae'r marwnadau'n mynegi anwyldeb ac agosatrwydd y rhiant a'i blentyn. Er y byddai Lewys Glyn Cothi a Gwilym ap Sefnyn ymaith ar deithiau clera cyson, cawn ddarlun cynnes o'u perthynas â'u plant. Yn ôl Didier Lett, nid datblygiad diweddar yw'r 'tad newydd' y sonnir amdano heddiw; dengys nifer o ffynonellau eiconaidd ddarluniau o Joseff yn cyflawni dyletswyddau 'mamol'. Byddai llawer o famau yn marw wrth roi genedigaeth yn yr Oesoedd Canol, a phe baent yn goroesi, byddent yn aml yn wan ac yn sâl, felly byddai'n rhaid i ddynion gyflawni nifer o'u dyletswyddau.[19] Serch hynny, daw agweddau mwy nodweddiadol o wrywaidd i'r golwg, oherwydd mae gan y tadau ddisgwyliadau mawr o'u plant. Gwêl Cynddelw ei hunan yn darfod gyda marwolaeth Dygynnelw - cynigiai ei fab barhad i'w linach ac anfarwoldeb iddo. Syniad a fynegir dro ar ôl tro, er gwaethaf realiti'r sefyllfa, yw'r gred fod marwolaeth y plentyn yn groes i natur; dylai'r tad farw cyn ei blentyn ei hun, gan nad oes parhad i'r llinach pan fo trefn natur wedi ei gwyrdroi. Cawn yr argraff mai cymeriad byrbwyll oedd Llywelyn ap Gutun, a'i fab Gruffudd yn llawer doethach, gan iddo ei gynghori i osgoi cynnen. Teimla'r bardd, felly, mai ef a ddylai fod wedi marw, yn hytrach na'i fab:

*Pob enaid, o'm direidi,*
*a fynn Duw ond f'enaid i*

'Anffodus' yw ystyr 'diriaid' yma; mae ffawd yn ei erbyn gan i Gruffudd farw, yn llawer rhy ifanc. Y mae Siôn y Glyn, ar y llaw arall, fel petai'n ymgorfforiad o'i dad - cyferia ato fel 'fy nerth' a 'fy mabolaeth'. Awgrymodd Dafydd Johnston ei fod efallai yn fynegiant o'r grym rhywiol a'i cenhedlodd.[20]

Dengys astudiaeth ddiddorol gan John Munder Ross nad yw agweddau tadau wedi newid rhyw lawer hyd heddiw. Ar ôl gwylio ymddygiad rhieni â'u plant yn Efrog Newydd a Washington, daeth i'r casgliad canlynol:

---

[19] Alexandre-Bidon & Lett, *op. cit.*, t.62
[20] GB, t.17

*For the grown man - as much as for the woman – parenthood is both the outcome of his psychosexual history and a testimony to his manhood. Paternity and masculinity are inextricably interwoven.*[21]

Yn sicr, y mae Cynddelw a Gwilym ap Sefnyn yn ymfalchïo yn newis 'gwrywaidd' eu meibion o yrfa filwrol: Dygynnelw â'r 'llafn adrawdd llaith'; Hywel y 'marchog teg' a Iorwerth Gethin - 'drud y cyfeiriai'r drin'.

Y mae colli canghennau yn ddelwedd amlwg mewn marwnadau i blant uchelwyr, gan y byddai'r canghennau'n cynrychioli parhad achyddol. Ym marwnad Robin Ddu i blant Gruffydd ap Rhys o Gloddaith, mae'r goeden yn ddelwedd gref i gyfleu colled ei noddwr:

*Yn frig oedd foneddigaidd,*
*O bren dihareb ei wraidd;*
*A'r pren oedd Ruffydd ap Rhys,*
*Mwy na gwinllan mewn gwenllys.*
*Gwae finnau y gofynwr,*
*Gwympo gwydd, ag imp y gwr!* [22]

Er nad galarnad i blant y bardd yw'r gerdd, mae ynddi emosiwn byw a chredadwy. Cawn yr argraff fod Gruffydd yn teimlo'n anghyflawn heb ei blant – mae'n 'brudd heb ddim brig', a rhan ohono ef ei hun fel petai wedi marw.

Delwedd ganolog marwnad Gwilym ap Sefnyn i'w ddeg plentyn yw'r goeden:

*Euthum innau pan aethant*
*yn grinbren yn nen y nant,*

Nid oes parhad i linach Gwilym bellach 'heb obaith dail', ond y mae ystyr arall, ddwysach i'r ddelwedd. Mae cyswllt annatod rhwng y plentyn a dawn farddol y tad; hwythau oedd ei rym creadigol a'i awen:

*a fedrai impiaw awen*

---

[21] John Munder Ross, *What Men Want: Mothers, Fathers and Manhood* (Cambridge, Massachusetts; Llundain, 1994) t.48
[22] Y Parch. Owen Jones, *op. cit.*, t.219

*ar foncyff prifardd hardd hen*

Mynega Ieuan Gethin yr un syniad; honna ei fod 'heb awen mwy, heb un mab'.

Yn wahanol i'r Mabinogion, rhoddir cryn bwys ar addysg y plant yn y marwnadau hyn. Disgrifia Gwilym ap Sefnyn ei fab Iorwerth fel 'ysgolhaig huawdl', a chyfeiria at ei 'holl feibion llên'. Y mae'n chwarae ar y term yma, gan eu bod yn feibion yn y ddau ystyr - yn blant iddo ac yn ysgolheigion. Eithr ni wyddom a yw'n cyfeirio at ei ferched hefyd - y mae'n anhebygol y gallasent hwythau ddarllen ac ysgrifennu. Iorwerth Gethin yw'r unig fab iddo sy'n barddoni - 'deunydd prydydd pêr awdl' ydyw, ond y mae thema'r plentyn yn dysgu crefft ei dad yn codi'n gyson ym marwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab, Siôn. Unwaith eto, mae'r mab fel petai'n awen i'r tad: 'fy mron, fy nghalon, fy nghân' ydyw yng ngeiriau Lewys, a 'fy mardd doeth'. Y mae llinell 37 yn ddadlennol: 'fy nghyw yn dysgu fy nghân'. Er mai ond pum mlwydd oed ydoedd Siôn pan fu farw, ymddengys bod Lewys yn gweld dyfodol iddo fel bardd. Efallai, fodd bynnag, mai cyfeirio at ymdrechion y bachgen ifanc i ddynwared ei dad y mae. Yn yr Oesoedd Canol, byddai plant yn dysgu crefft trwy efelychu oedolion gan amlaf, yn hytrach na dilyn cwrs addysgol; goroesodd nifer o ddarluniau canoloesol o fechgyn yn gwylio eu tadau yn cyflawni tasgau megis gwasgu grawnwin.[23]

Moli dawn ei fab wrth ganu'r delyn a wna Ieuan Gethin:

*Ni welad, gwae'i dad nad iach,*
*dwylo angel deilyngach*

ac fe'i geilw'n 'gerddor' ac yn 'gyweirddant'. Efallai na fwriadodd i'r cyfeiriadau fod yn llythrennol; efallai mai bachgen ifanc yw ei fab, fel Siôn y Glyn, ond y mae amlder y cyfeiriadau yn ein harwain i gredu mai darpar delynor go iawn oedd ei fab. Diddorol hefyd yw llinellau 47- 48:

*Ni chawn, drwg yw 'nawn, un nos*
*er da'r byd fywyd f'eos.*

Yr oedd 'eos' yn deitl a roddid i unrhyw gerddor, eithr gellir tybio bod Ieuan Gethin yn cysylltu ei fab â Siôn Eos, telynor enwog a ddienyddiwyd o dan gyfraith Loegr. Yn

[23] Alexandre-Bidon & Lett, *op. cit.*, t.75

annisgwyl, nid oes sôn yn y farwnad am Dygynnelw'n barddoni, er iddo gael ei enwi ar ôl bardd. Hyd yn oed os bu yn fardd, fodd bynnag, efallai y byddai Cynddelw am ddilyn confensiwn, a chyfleu darlun arwrol o'i fab yn brwydro ar faes y gad.

Diddorol yw sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y darlun a gyflwyna'r beirdd o'u meibion a'r darlun a gyflwynant o'u merched. Cyfeirir at wedd olygus rhai meibion yn y marwnadau, e.e. 'Ieuan wiwlan' a 'Dafydd deg' yn 'Haint y Nodau', a Wiliam, 'Glana' dyn' ym marwnad Gwilym ap Sefnyn, ond y mae disgrifiadau o bryd a gwedd y ferch yn rhan allweddol o'i mawl, ac ni sonnir am ei chyneddfau deallusol. Yn hytrach, canolbwyntir ar ei harddwch, ei natur annwyl a'i moesau. Ymddengys Sioned, ferch Gwilym ap Sefnyn, megis uchelwraig o fyd y canu serch:

*f'enaid coeth, fynudiau cain,*
*f'anwylferch oedd fun aelfain*

a cheir disgrifiad ystrydebol ganddo o Angharad:

*Glân oedd ddarpar Angharad*
*a theg - gwae galon ei thad!*

Y mae marwnad Ieuan Gethin i'w ferch yn frith o ddelweddau a ieithwedd y canu serch. Mae hi'n 'riain fain fanadl ddigri', ac fe'i cyffelybir i wrthrychau nodweddiadol y canu hwnnw, megis eira, yr wylan ac ewyn. Mynegir anterth ei gariad tuag ati yn llinell 40 - y mae'n galaru am 'wen fawrwen a'm pair i ferwi'. Mae adleisiau'r canu serch i'w clywed ym marwnad Robin Ddu i blant Gloddaith hefyd; clywn am 'Annes wen' a 'Catrin liw rhin wenloer haf'.[24]

Y mae arfer cyfreithiol i'w gyfrif am y sylw a roddwyd i bryd a gwedd merch yn yr Oesoedd Canol. Byddai'n haws cael gwr i ferch hardd, ac ni fyddai'n rhaid i'w thad dalu tâl uchel o *argyfrau* amdano; byddai cael merch brydweddus felly o fantais ariannol i dad.[25] Cyfrifoldeb y tad fyddai diogelu diweirdeb ei ferch hefyd; yn ei llyfr *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod*, dywed Jane Cartwright y byddai cadw ei gwyryfdod yn hanfodol bwysig i ferch. Honna fod hyn i'w weld yn amlwg yn llenyddiaeth y cyfnod:

[24] Y Parch. Owen Jones, *op. cit.,* t.219
[25] Gw. Y Cefndir Hanesyddol, uchod

*..bron y gellid dadlau bod pob un o weithredoedd y ferch, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn gysylltiedig â'i phurdeb corfforol a'i rhywioldeb.*[26]

Fel y soniwyd eisoes, y mae Ieuan Gethin yn cysylltu ei ferch â Mair er mwyn pwysleisio ei diweirdeb: 'och Fair wych ddiwair', ac y mae llinellau 51- 52 yn hynod drawiadol:

*gwyddiad, nis diwad, distewi - cleiriach,*
*diwair eneth bach, wrth dirioni.*

Y mae'r defnydd o'r gair *geneth* yn brin yn yr Oesoedd Canol. Ymddengys y gair mewn cerdd ddychan gan Ddafydd y Coed yn Llyfr Coch Hergest, gan awgrymu mai cywair ieithyddol isel oedd i'r gair, ac mai gair a ddefnyddid ar lafar ydoedd yn bennaf. Serch hynny, ganrif yn ddiweddarach, cyplysir *geneth* â *diwair* yn y gerdd hon, gan brofi fod ei ystyr bellach yn gadarnhaol.[27]

Y mae'r darlun a gyflwyna Ieuan Gethin o'i ferch yn ei marwnad yn ddelfrydol, ond nid oes gwacter a diffyg teimlad yn y gerdd; cyfeiria at fesur y farwnad, gan ddweud mai'r awdl aruchel yw'r unig ffordd addas o farwnadu ei ferch:

*fy mhen ni wna cywydd*
*eithr awdl ar ei thrydydd*
*ac englyn am dywyn dydd.*

Ar y llaw arall, y mae Gwilym ap Sefnyn yn rhestru ei holl feibion cyn sôn am ei ferched yn ei farwnad i'w ddeg plentyn. Soniwyd uchod y gallai magu merch fod yn drafferthus i dad, gan y byddai'n rhaid iddo drefnu priodas iddi a thalu ei chostau. Yn ogystal â hynny, awgrymodd J.M.Ross y gallai cenhedlu merch dolcio balchder gwrywaidd dyn:

*a father will perhaps have to contend with the narcissistic injury and castration threat posed by having a girl. Loving as she is, she is not a boy and is thus an incomplete embodiment of himself.*[28]

---

[26] Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wyryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999) t.2
[27] Gw. Arolwg o Derminoleg yn Ymwneud â Phlant, uchod
[28] Ross, *op. cit.*, t.88

Eithr mae'r ddamcaniaeth *Freud*-aidd honno braidd yn eithafol. Er yr ymddengys bod Gwilym ap Sefnyn yn dangos ffafriaeth tuag at ei feibion, gellir tybio nad oedd yn caru ei feibion yn fwy na'i ferched. Cyfleir perthynas glòs rhyngddo ef a'i ferched yn y gerdd, a sylwn ar seicoleg y rhiant a'r plentyn ynddi. Nid oes sôn am agosatrwydd corfforol rhyngddo ef a'i feibion, ond dywed: 'Sioned, hi a'm cusanai.' Dengys astudiaeth Ross fod merched yn llawer mwy mwythlyd yng nghwmni eu tadau nag y mae meibion. Sylwodd eu bod yn chwareus ac yn fflyrtian â hwy i ryw raddau, ond yn fwy annibynnol a diamynedd yng nghwmni eu mamau. Felly, er y gwelwn ddisgwyliadau gwahanol gan dadau oddi wrth eu meibion a'u merched, ac ymddygiad gwahanol yng nghwmni'r naill ryw a'r llall, ni chawn brawf ohonynt yn ffafrio eu meibion yn emosiynol.

Er gwaethaf dwyster y cerddi, arwynebol yw'r darlun o blant ynddynt ar y cyfan. Cawn gip diddorol ar berthynas Llywelyn ap Gutun a'i fab pwyllog, eithr yr ymgais orau i gyfleu plentyn o gig a gwaed, ac felly'r farwnad fwyaf ingol, yw marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn y Glyn. Mae marwnadau cynharach o gyfnod trawiadau cyntaf y pla, megis cerdd Gwilym ap Sefnyn, yn canolbwyntio'n bennaf ar emosiynau y tad; nid yw hyn yn annisgwyl yn ôl Lowri Lloyd:

*Gyda dyfodiad sydyn rhywbeth cwbl anorchfygol a chwalodd barhad sawl teulu'n ddisymwth, unigrwydd oedd yr ymdeimlad llywodraethol yn y cyfnod.*[29]

Gwelwn effaith bersonol y brofedigaeth ar Lewys Glyn Cothi, gyda'r gyfres o linellau â'r rhagenw blaen 'fy' yn cyfleu ei hunandosturi. Er hynny, gwerthfawrogiad o'i berthynas â'i fab yw'r gerdd yn anad dim. Ceir defnydd helaeth o ferfau yn y gerdd; gwelwn Siôn fel plentyn byw, yn hytrach na chael disgrifiad statig ohono. Yn y farwnad hon a marwnad Llywelyn ap Gutun i raddau llai y cawn yr unig ddarluniau o blant real.

Erbyn heddiw, yn sgil gwaith arloesol awduron megis Shulamith Shahar, gellir dadlau yn argyhoeddiedig bod rhieni yr Oesoedd Canol, fel rhieni pob oes yn gyffredinol, yn caru ac yn gwerthfawrogi eu plant. Yn y llyfr *Children in the Middle Ages*, clywn am feddrodau canoloesol i blant a ganfyddwyd, sy'n cynnwys teganau a hoff bethau'r plant. Yn ôl Didier Lett, dengys hyn deimladau cynnes rhieni tuag at eu plant, meddant:

---

[29] Lloyd, *op. cit.*, t.285

*... despite the harshness of the times and the high rate of infant and child mortality, men and women of the Middle Ages took the care and time to attend to their dead children... In life, as in death, children of the high Middle Ages were surrounded with their parents' love...* [30]

Rwyf yn amau a ellid canfod prawf cryfach o gariad rhieni tuag at eu plant na'r marwnadau Cymraeg i blant. Y mae'r cariad a'r agosatrwydd ynddynt, y galar ingol a fynegant, a chywreinrwydd eu harddull yn tystio i'w hawduron drysori eu plant a cheisio eu coffáu mewn modd arbennig.

[30] Alexandre-Bidon & Lett, *op. cit.*, t.31

# V

## Gwerthfawrogiad o Farwnad Siôn y Glyn

Nid oedd marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn, ei fab pum mlwydd oed, yn gerdd unigryw yn ei chyfnod; y mae naw marwnad Gymraeg ganoloesol i blant wedi goroesi. Serch hynny, y mae 'Marwnad Siôn y Glyn' yn gerdd arbennig o drawiadol, ac yn haeddu sylw arbennig am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae ynddi ddyfnder emosiynol na cheir mo'i debyg yn y marwnadau eraill, canys er mor drasig yw'r colledion a ddisgrifiant, y mae'r darlun a gawn o berthynas emosiynol agos Lewys a'i fab yn dod ag elfen bersonol ddirdynnus i'r farwnad, sy'n cyffwrdd â'r darllenydd i'r byw. Yn ail, darlunnir plentyndod fel cyfnod unigryw ar ei ben ei hun - cyfnod dibryder o chwarae a hwyl. Y mae hyn yn beth amheuthun yng nghelfyddyd a llên yr Oesoedd Canol, canys cyfnod cymharol fyr oedd plentyndod bryd hynny; gan amlaf, byddai merched yn priodi pan oeddent oddeutu pymtheng mlwydd oed, a disgwylid i fechgyn ddechrau dilyn gyrfa o ryw fath yn ystod eu llencyndod. Eithr, yr hyn sy'n gwneud y farwnad hon yn gerdd mor eithriadol yw y darlun amlweddog a geir o Siôn ynddi. Dyma'r ymgais orau gan fardd canoloesol i ddarlunio plentyn o gig a gwaed, oherwydd ni cheisia Lewys lunio darlun delfrydol ac angylaidd o'i fab. Heb os, dyma'r portread realistig cyntaf a gawn o blentyn mewn llenyddiaeth Gymraeg.

Gellid tybio bod y farwnad hon yn wahanol iawn i grynswth gwaith Lewys Glyn Cothi, gan mai ef oedd un o feirdd mawl mwyaf y bymthegfed ganrif. Byddai marwnadau'r beirdd mawl yn mynegi galar ingol, diffuant o'r galon yn aml - ond mynegi galar y llwyth dros eu harweinydd, a chyfleu effaith y golled ar y bobl yn gyffredinol oedd dyletswydd y bardd. Nid cyfrwng i ymgolli yn ei emosiwn ei hun oedd y farwnad; roedd yn rhaid i'r bardd gyflwyno darlun gweddus ac aruchel o wrthrych y gerdd. Fodd bynnag, ni ddilynai Lewys Glyn Cothi y traddodiad canu mawl yn slafaidd, ac y mae nifer o elfennau anghonfensiynol yn ei waith. Ni ddylai'r emosiwn yn y gerdd ein synnu, oherwydd fel y sylwodd Dafydd Johnston, mae 'tynerwch dynol o fewn y teulu yn wedd ar fywyd a bwysleisir yn arbennig yn ei gerddi mawl'.[1] Ni ddylai'r sylw arbennig a rydd i'w fab beri syndod ychwaith, gan fod plant i'w gweld yn amlwg yn ei waith.[2] Efallai am

[1] Dafydd Johnston, 'Marwnad Siôn y Glyn', *Barn* 371 / 2
(Rhagfyr 1993 - Ionawr 1994) tt.91-93.
[2] Gw. Cymhariaeth o Waith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi , uchod

iddo ef ei hun fod yn dad, y mae Lewys yn darlunio plant mewn modd cadarnhaol ac yn ymwybodol o'r llawenydd a roddant i rieni. Yn y gerdd 'I Ofyn March gan Siôn Phylib', cawn ddarlun o deulu agos:

*Tri dedwydd sydd yng Nghil-sant,*
*o'm da oll y'm diwallant:*
*Sioned Llwyd, Phylip M'redydd,*
*eu mab Siôn i'm byw y sydd.*[3]

Defnyddir y gair 'dedwydd' mewn cyd-destun teuluol o gyfnod cynnar yma; mae'r teulu bach hwn yn gyflawn ac yn fodlon, a'r plentyn sydd i'w gyfrif am eu hapusrwydd. Dro arall, cyfeirir at blant yn ddelweddol i gyfleu bodlonrwydd Lewys. Yn ei gân fawl i Lywelyn ap Gwilym, dywed ei fod yn hapusach 'no mab mam ar ei famaeth'.[4]

Gellir tybio mai colli Siôn sydd i'w gyfrif am gydymdeimlad Lewys â mam Rhisiart ap Tomas flynyddoedd yn ddiweddarach yn ei farwnad ddwys i'w mab, pan ddywed:

*Trist ydwyf trwy astudio,*
*tristáu ei fam trostaw fo;*[5]

Gall ymuniaethu â'r tad hefyd; bu farw tad Rhisiart ym mrwydr Banbury yn 1469, a dychmyga Lewys ei fod yn y nefoedd, yn dyheu'n hiraethus am aduniad â'i fab:

*doeth oedd, fy mendith iddo,*
*fynnu'i fab wrth ei gefn fo.*[6]

Ceir nodyn arbennig o drawiadol ar y copi hynaf sydd gennym o Farwnad Siôn y Glyn yn Llanstephan 7, a gopïwyd o lawysgrif gan Lewys Glyn Cothi ei hun fwy na thebyg: 'Marwnat John y glynn mab V mlwydd. Lewis y glynn i dat ai kant.'[7] Felly, plentyn ifanc iawn oedd Siôn pan fu farw, ac nid oedd eto wedi croesi trothwy arbennig i blentyn yn yr Oesoedd Canol, sef ei seithfed mlwydd. Wedi cyrraedd yr oedran hwnnw, credid fod plentyn yn barod i ddechrau ar ei addysg o ddifrif, ac o dan Gyfraith Hywel,

---

3 GLGC
4 GLGC, 53, ll. 23-4
5 GLGC, 128, t.287, ll. 11-2
6 GLGC, ll.43-4

byddai'n ddigon hen i dyngu llw. Eithr, er mor ifanc oedd Siôn, y mae'n amlwg fod Lewys yn ei ystyried yn bersonoliaeth unigryw, a chafodd ei farwolaeth effaith andwyol arno.

Yn ôl swyddogaeth pob bardd proffesiynol yn y cyfnod, byddai disgwyl i Lewys fod oddi cartref yn aml ar deithiau clera. Serch hynny, ymddengys na chafodd ei absenoldeb cyson o'r cartref effaith ar ei berthynas â Siôn. Yn wir, cawn yr argraff fod y tad a'r mab yn gyfeillion pennaf, a'u bod fel petaent yn cau pobl eraill allan o'u byd. Yn ail linell y gerdd, mae Lewys yn crefu ar nawddsantes y cariadon:

*Dwynwen! Gwae'i dad o'i eni!*[8]

Yr oedd seintiau a santesi brodorol yn apelio'n arbennig at y bobl gyffredin, ond swyddogaeth arbennig Dwynwen oedd lleddfu poen y rhai a oedd yn dioddef o ganlyniad i serch; credid fod ganddi ffynnon wyrthiol i'w gwella. Felly, y mae'r cyfeiriad at Ddwynwen yn awgrymu bod perthynas Lewys a'i fab mor agos â'r berthynas rhwng cariadon, a Lewys fel petai'n dioddef gwewyr serch ar ôl marwolaeth ei fab. Yn ogystal â hynny, try Lewys, fel nifer o awduron marwnadau canoloesol i blant, at dermau'r canu serch i gyfleu cryfder ei emosiwn. Ei 'galon' ei 'enaid teg' a'i 'serch' yw Siôn, a theimlwn ei ing gyda'r ebychiad:

*fy nghae Esyllt, fy nghusan,*

Er holl adleisiau'r canu serch, nid yw'r farwnad yn dibynnu ar ystrydebau a thermau stoc, ac mae ei ieithwedd yn ddadlennol iawn ar brydiau. Gellir dadlau mai 'mab' yw gair thematig y gerdd, ac ymhyfryda Lewys wrth chwarae ag amwysedd ei ystyr. Erbyn heddiw, gair syml yw 'mab' sy'n amlygu perthynas rhwng plentyn gwrywaidd a'i rieni, ond yr oedd dwy swyddogaeth iddo cyn y cyfnod modern, gan nad oedd y gair 'bachgen' yn gyffredin bryd hynny.[9] O ganlyniad, 'mab' oedd y gair safonol i gyfleu *boy* yn ogystal â *son,* a dyna'r term amlycaf yn y farwnad hon, er bod tri gair i ddisgrifio Siôn - *mab, dyn* a *gwas* - o fewn dau baragraff cyntaf y gerdd. Efallai bod

---

[7] Llanstephan 7, Y Llyfrgell Genedlaethol
[8] GB, tt.102-4
[9] Gw. Arolwg o Derminoleg yn ymwneud â phlant, uchod

Lewys yn myfyrio ar ystyr ddeublyg y gair wrth ddefnyddio 'mab' cyn amled. Yn sicr, y mae'n creu amwysedd ar brydiau, megis yn llinell gyntaf y gerdd:

*Un mab oedd degan i mi;*

Cyfieithodd Dafydd Johnston y gair fel *son*,[10] eithr byddai *boy* yn rhoi ergyd cyn gryfed i'r llinell. Mynegir pwysigrwydd Siôn i'w dad o'r cychwyn cyntaf; 'mab' hefyd yw gair olaf y gerdd:

*iso'n fy myw, Siôn fy mab.*

a'r gyntaf yn y gyfres o linellau sy'n dechrau â 'fy' yw

*Fy mab, fy muarth baban*

gyda chynghanedd lusg gelfydd rhwng 'mab' a 'baban'. Yn ogystal â hynny, gwelwn eiriau sy'n cynnwys yr elfen 'mab'. Dywed Lewys ei fod yn 'udo fyth',

*am benáig mabinogi.*

Ni ellir bod yn sicr ynglŷn ag ystyr 'mabinogi' yma. Ystyr wreiddiol y gair 'mabinogi' oedd 'mebyd', ac y mae'n bosibl mai honno yw'r ystyr y mae Lewys am ei chyfleu. Eithr, byddai'r ystyr arall - 'chwedlau am febyd arwr' - yn gymwys.[11] Er nad oedd gan Siôn gyneddfau arbennig fel Lleu neu Pryderi, efallai fod Lewys yn awgrymu ei fod yr un mor rhyfeddol â'r plant hynny trwy ei alw'n 'benáig mabinogi'. Eithr, ni ellir bod yn sicr ynglŷn ag ystyr 'mabinogi' yma, ac efallai, yn syml, fod Lewys yn sôn amdano ef ei hun yn adrodd straeon i Siôn. Byddai gŵr dysgedig fel Lewys yn sicr o wneud hynny, ac y mae'r syniad o'r ddau yn mwynhau gwrando ar chwedlau gyda'i gilydd yn ychwanegu at ddarlun cynnes o berthynas y tad a'r mab.

Gair arall yn y gerdd sy'n cynnwys yr elfen 'mab' yw 'mabolaeth':

---

[10]GB, t. 103, ll.1

*f'ymbiliwr, fy mabolaeth.*

Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, yr un ystyr sydd i *mabolaeth* a *mabinogi,* sef 'mebyd'.[12] Eithr, yn *Galar y Beirdd,* honna Dafydd Johnston nad yw hynny'n ddehongliad hollol gywir o'r gair yn y cyswllt hwn:

*Trwy alw Siôn yn 'fy nghusan', 'fy serch', a 'fy mabolaeth', mae'r bardd fel petai'n gweld ei fab yn ymgorfforiad o'r grym rhywiol a'i cenhedlodd.* [13]

Mewn dwy gerdd faswedd anhysbys o'r Oesoedd Canol, ystyr anllad sydd i'r gair,[14] ac ymddengys 'mabolaeth' yng ngyd-destun serch yng ngherdd Llywelyn ap y Moel, 'I'r Bedwlwyn'.[15] Oherwydd hyn, gallwn gytuno â dehongliad Dafydd Johnston o'r gair, a chasglu y byddai *mabolaeth* yn golygu 'grym rhywiol gwrywaidd' yma.

Y mae gair trawiadol i'w weld yn nhrydedd linell y gerdd; aeth Lewys ati i lunio gair haniaethol o'r ansoddair 'cu', sef gair safonol y cyfnod i ddisgrifio cariad rhwng perthnasau - cariad a gofal heb unrhyw gynodiadau rhywiol:

*Gwae a edid, o gudab,*
*I boeni mwy heb un mab.*

Y mae cyd-destun teuluol i'r gair hyd heddiw gyda'r enwau 'tad-cu' a 'mam-gu'. Y mae'r gair 'cudab' felly yn dangos ymwybyddiaeth Lewys o'i ystyr, a'i ddyhead i ganfod yr union air i gyfleu ei deimladau tuag at Siôn. Diddorol hefyd yw'r gair 'tegan' yn y llinell gyntaf. Ystyr wreiddiol y gair oedd rhyw fath o wrthrych gwerthfawr, ac y mae'r ystyr hwnnw wedi parhau hyd heddiw i raddau yn nhafodiaith Pen Llŷn; fe'i defnyddir i olygu *china* neu *porcelain.* Awgryma hynny bod 'tegan' hefyd yn cyfleu harddwch bregus - y mae felly'n air arbennig o briodol i ddisgrifio plentyn. Gwelwn 'deganau' yn yr ystyr fodern yn y gerdd hefyd; yn aml, byddant yn tanio cof Lewys ac yn ei atgoffa o'i fab. Geilw ei fab yn 'fy nisyn', a cheir adlais o'r ddelwedd honno yn llinell ugain, pan sonnir am y gwrthrych ei hun:

---

[11] GB, t.101
[12] GPC, t.2295
[13] GB, t.17
[14] 'Cywydd y Cydio' (tt.54-7) ac 'Ymddiddan Rhwng Mab a Merch' (tt.78-81) yn CMOC

*a chymod er ysglodyn*
*ac er dis a garai'r dyn.*

Yn yr un modd, clywn am Siôn yn chwarae â 'bwa o flaen y ddraenen', cyn gweld y tegan hwnnw yn ddelweddol yn y llinell hon:

*fy serch, fy mwa, fy saeth,*

Dyma ran o lwyddiant y gerdd - y mae Lewys yn tynnu ei ddelweddau o fyd Siôn, sef byd y plentyn. Daw hyn ag unoliaeth i'r farwnad, gan ei siapio fel cylch, oherwydd symudwn yn ôl i fyd Siôn ar ddiwedd y gerdd pan ffarwelia Lewys ag ef:

*ac yn iach i gnau echwyn,*
*ac yn iach bellach i'r bêl,*

Fel y 'gro gwyn' a grybwyllir yn llinell deg, rhyw fath o gêm gyfnewid neu ddyfalu fyddai'r 'cnau echwyn'. Y tristwch yw mai gwrthrychau syml fel y rheiny a fu mor hoff gan Siôn yw unig ffordd Lewys o gyffwrdd â'i fab bellach.

Yn ogystal â'i delweddau, y mae strwythur y gerdd yn ei chlymu ynghyd yn gelfydd. Rhydd datblygiad y gerdd ddarlun o gyflwr meddwl bregus y bardd wrth iddo ddod i delerau â marwolaeth Siôn. Catharsis yw'r gerdd iddo, a chawn adlewyrchiad eglur a chredadwy o'i broses alaru. I ddechrau, mynegir poen a thrallod Lewys, sydd cyn gryfed â phoen gorfforol:

*Fy nwy ais, farw fy nisyn,*
*y sy'n glaf am Siôn y Glyn.*

Yn yr ail baragraff, cawn ddarlun o'r hyn a achosodd y boen, sef Siôn ei hun. Nid oes llawer o ansoddeiriau yn y paragraff ac y mae'r berfenwau niferus ynddo yn cyfleu prysurdeb y plentyn bach ac yn rhoi darlun crwn o'i bersonoliaeth. Y mae ymddygiad Siôn yn oriog ac yn nodweddiadol o blentyn pum mlwydd oed; bydd weithiau'n awyddus i blesio oedolion:

---

[15] Henry Lewis *et al.*, (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Caerdydd, 1937) t.189

*canu i bawb acen o'i ben,*
*canu 'wo' er cneuen*

yn bwdlyd dro arall:

*sorri wrthyf i a wnâi fo*

ond yn cymodi'n rhwydd 'er ysglodyn'. Y mae'r paragraff hwn yn wrthgyferbyniad llwyr i'r darluniau statig a braidd yn ystrydebol o blant a gawn yn y marwnadau eraill.Ym marwnad Ieuan Gethin i'w ferch, er enghraifft, manylir ar ei harddwch a'i diweirdeb. Mae hi'n 'seren' ac yn 'rhiain eurddoeth', fel gwrthrych anghyraeddadwy cân serch,[16] ac er mor ddwys yw galar y bardd o'i phlegid, ni theimlwn ein bod yn adnabod ei ferch o gwbl ar ôl darllen y farwnad.

Y mae trydydd paragraff 'Marwnad Siôn y Glyn' yn symud ymlaen i fynegi dyhead Lewys i gael Siôn yn ôl yn fyw, yn union fel yr oedd:

*Och nad Siôn, fab gwirion gwâr,*
*sy'n ail oes i Sain Lasar.*

Cyfeiria Lewys hefyd at wyrth Beuno Sant, a atgyfododd saith gŵr, a theimlwn ei anghrediniaeth. Nid yw eto'n barod i dderbyn bod ei annwyl fab wedi mynd am byth, ac y mae hyn yn ymateb hollol nodweddiadol i golled drom. Eithr daw i ddechrau dygymod â'r gwirionedd - myfyrio ar effaith bersonol y golled arno a wna wedi hynny, yn hytrach nag ymbil am wyrth. Gyda'r gyfres o linellau yn dechrau â 'fy', cyfleir hunandosturi Lewys:

*fy nerth - gwae fi yn ei ôl! -*
*fy ehedydd, fy hudol,*

Mae'r gyfres yn gyffelyb i dechneg dyfalu, eithr priodoleddau haniaethol a welwn fwyaf, megis 'fy enaid teg, fy un twyll' yn hytrach na gwrthrychau sy'n ymdebygu i Siôn.

---

[16] GB, t.80-7

Yn wahanol i farwnadau diweddarach, megis awdl Robert ap Gwilym Ddu i'w ferch, a 'Galarnad' Dic Jones,[17] ni cheir sôn am alar y fam; gwedd hollol wrywaidd sydd i'r galar. Sylwodd Dafydd Johnston ar duedd 'i fewnoli Siôn fel gweddau ar bersonoliaeth ei dad, ei galon, ei fryd, ei nerth, ac yn uchafbwynt ar y cwbl, ei fabolaeth'.[18] Yr oedd Siôn eisoes fel petai'n ymgorfforiad o'i dad, ac y mae Lewys felly'n gwangalonni am na wêl barhad iddo ef ei hun ar ôl marwolaeth gynamserol ei fab. Er mai ond pum mlwydd oed oedd Siôn, ymddengys bod Lewys eisoes wedi proffwydo dyfodol iddo fel bardd:

*fy mardd doeth, fy mreuddwyd oedd;*

Clywn am Siôn yn diddanu cynulleidfa am gneuen fel y byddai Lewys yn canu ei gerddi am dâl, a disgrifia Lewys ef fel cyw yn dysgu ei gân. Fodd bynnag, efallai na ddylid cymryd y cyfeiriadau hynny yn gwbl lythrennol.

Er gwaethaf tuedd Lewys i 'fewnoli Siôn', nid yw'n ceisio ymdopi ar ei ben ei hun yn llwyr â'i alar. Derbyniodd addysg eglwysig, ac fel y gellid disgwyl, y mae ei ffydd yn gynhaliaeth iddo yn ei drallod. Geilw ar Ddwynwen, ond Mair sy'n cynnig cysur arbennig iddo, fel y gwna i feirdd eraill mewn marwnadau i blant. Y mae Lewys yn ymbil arni am gymorth:

*O Fair, gwae fi o'i orwedd!*
*A gwae fy ais gau ei fedd!*

gan deimlo y gallai lles ddod o'r weddi, gan iddi hithau brofi'r un golled ag ef. Yr oedd cwlt y *Mater Dolorosa* yn arbennig o boblogaidd yn yr Oesoedd Canol. Fel y nododd Marina Warner, roedd y Forwyn Fair yn apelio'n arbennig at y bobl gyffredin, a'i hurddas yn ei dioddefaint yn rhan allweddol o'i hapêl:

[17] Dic Jones, 'Galarnad' yn *Sgubo'r Storws* (Llandysul, 1986) tt.30-1
[18] Johnston, 'Marwnad Siôn y Glyn'

*Through her sorrow, the man or woman in prayer could feel the stab of loss and agony ... She made the sacrifice on Golgotha seem real, for she focussed human feeling in a comprehensible and accessible way.*[19]

Yn ogystal â hynny, byddai gweddïo ar Fair yn cynnig rhyw fath o obaith i rieni yn eu galar, gan i'r Iesu ddychwelyd eto'n fyw at ei fam. Yn y llun 'Pietà' gan Giovanni Bellini, er enghraifft, y mae'r Forwyn yn dal corff marw ei mab. Ond, mae arlliw o adfywiad ar y gorwel, oherwydd gwelwn flodau cyntaf y gwanwyn yn y tirlun gaeafol.

Erbyn paragraff olaf y gerdd, ar ôl cryn ymgodymu, y mae Lewys fel petai wedi derbyn marwolaeth ei fab ac fe ŵyr ym mêr ei esgyrn na ddaw yn ôl. Golwg ddaearol sydd ar Siôn ar ddiwedd y gerdd, a'i fedd ynghau am byth. Dyma ddiweddglo sy'n groes i gonfensiwn yr oes; gan amlaf, byddai marwnad yn cloi â gweddi dros enaid yr ymadawedig, oherwydd credid y gallai gweddi fyrhau amser enaid yn y Purdan. Oherwydd hyn, a ffydd ddiysgog y bardd, mae absenoldeb gweddi o'r fath yn y farwnad yn annisgwyl gan nad oes sôn am dynged enaid ei fab. Ond mae'n debyg y byddai Lewys yn tybio nad oedd angen gweddi o'r fath ar blentyn diniwed fel Siôn, ac nid yw'r cyswllt emosiynol ac ysbrydol rhyngddo a'i fab wedi dod i ben, fel y dengys y llinellau canlynol:

*Siôn y sy'n danfon i'w dad*
*awch o hiraeth a chariad.*

Mae pellter rhyngddynt, ond erys Siôn yn fyw yng nghof ei dad wrth iddo feddwl am yr holl hwyl a gafodd yn ei gwmni. Gellid tybio y byddai Lewys yn gweld adlewyrchiad o'i febyd ei hun yn asbri ei fab, felly y mae hefyd fel petai'n ffarwelio â'i ieuenctid wrth ganu'n iach i Siôn:

*Yn iach wên ar fy ngenau,*
*yn iach chwerthin o'r min mau*

Fodd bynnag, y mae Siôn fel petai'n dal i fodoli o dan y ddaear:

*ac yn iach, fy ngâr arab,*

---

[19] Marina Warner, *Alone of All Her Sex* (Efrog Newydd, 1976) t.211

*iso'n fy myw, Siôn fy mab.*

ac wrth gloi'r gerdd ag enw Siôn, cawn fynegiant cadarn o berthynas y ddau. Mae'r gair terfynol 'mab' yn asio'r diweddglo â'r llinell gyntaf, gan ddod ag unoliaeth i'r gerdd.

Gellir gweld tebygrwydd rhwng y diweddglo hwn a 'Marwnad Lleucu Llwyd' gan Llywelyn Goch ap Meurig Hen - marwnad angerddol arall.[20] Yn y gerdd honno, golwg ddaearol a gawn ar Leucu wrth i'r bardd ffarwelio â hi:

*Clo dur derw, galarchwerw gael,*
*A daear, deg ei dwyael,*

Oddi tano mewn bedd y mae, ac nid yn y nefoedd. Ni ddychmyga bod ei henaid wedi symud i arallfyd, a'r bedd yw'r unig beth sy'n eu gwahanu. Fel Siôn y Glyn, mae Lleucu fel petai yn dal i fod yn fyw o dan y ddaear. Y mae Llywelyn Goch hefyd yn cloi ei farwnad trwy enwi ei gwrthrych, er mwyn mynegi perthynas emosiynol agos y ddau:

*A chlicied; yn iach, Leucu!*

Gwelodd Dafydd Johnston debygrwydd hefyd rhwng 'Marwnad Siôn y Glyn' ac englynion R. Williams Parry i Hedd Wyn.[21] Yn yr englyn cyntaf, cawn ddarlun o Hedd Wyn yn gorwedd yn ei fedd:

*Y bardd trwm dan bridd tramor, - y dwylaw*
*Na ddidolir rhagor* :[22]

Bardd agnostig ydoedd R. Williams Parry, felly ni wyddai â sicrwydd fod parhâd i'r enaid ar ôl marwolaeth ac y byddai Hedd Wyn yn y nefoedd:

*Tithau'n drist a than dy ro*
*Ger y ffos ddu'n gorffwyso.*

Wrth gwrs, pwrpas gwahanol sydd i'r ddelwedd o Hedd Wyn dan y ddaear - ceisio cyfleu ei rwystredigaeth o ganlyniad i'w farwolaeth gynamserol a wna Williams Parry.

[20] Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhydychen, 1962) Rhif 49, t.78
[21] Johnston, 'Marwnad Siôn y Glyn'
[22] GDG, 268, tt.442-3

Eithr, ym 'Marwnad Siôn y Glyn', ergyd y diweddglo yw fod Siôn yn dal i fod yn fyw yn ymwybyddiaeth ei dad, a phob atgof digymysg ohono yn ei anfarwoli.

Cerddi i'w mwynhau yn dorfol oedd barddoniaeth yr Oesoedd Canol. Yr oedd mwyafrif y boblogaeth yn anllythrennog, felly byddai'r syniad o ddarllen cerdd a'i gwerthfawrogi'n breifat yn ddieithr iawn iddynt. O gofio hynny, rhaid ystyried pwy fyddai cynulleidfa 'Marwnad Siôn y Glyn', ond anodd yw dychmygu cerdd mor ingol bersonol yn cael ei hadrodd o flaen cynulleifa. Y mae 'Marwnad Lleucu Llwyd' hefyd yn gerdd ingol bersonol, ac yn ôl y sôn, yr oedd galw mawr i'w chlywed. Eithr, yr oedd marwnadau i blant yn llawer prinnach na marwnadau i fenywod, a natur marwnad Lewys Glyn Cothi yn arbennig o gignoeth, felly ni chredaf iddi gael ei gwerthfawrogi yn y modd traddodiadol. Efallai i ychydig o rieni ei chlywed, ac uniaethu'n llwyr â Lewys, ond damcaniaethu'n unig y gellir ei wneud ar y pwnc hwn.

Diddorol yw sylwi mai ychydig iawn o sylw a dderbyniodd 'Marwnad Siôn y Glyn' tan yr ugeinfed ganrif. Nid oedd yn gerdd boblogaidd ac adnabyddus yn ei chyfnod, nac am genedlaethau wedi hynny, oherwydd mae'r copïau ohoni a oroesodd yn brin iawn. Er ei mawredd, efallai ei bod yn gerdd rhy arloesol yn ei chyfnod - mae hi'n gerdd 'fodern' mewn sawl ystyr. Mae arddull Lewys Glyn Cothi yn syml; nid yw'n ystumio'r iaith er mwyn llunio cynghanedd ac felly naws ryddieithol sydd i'r gerdd. Nid oes geiriau cyfansawdd i'w chymylu, ac ni cheisia Lewys addurno'r cyfan â'i glyfrwch, felly mae hi'n gerdd rwydd i'r darllenydd modern ei deall. Yn ogystal â hynny, mae ei harddull seml yn gwneud i eiriau'r bardd ymddangos yn hollol ddiffuant, ac felly'n dwysáu ein cydymdeimlad ag ef. Ond, er ei symlrwydd, mae hi'n gerdd arbennig o grefftus. Cymharer y gynghanedd lefn, ddidrafferth isod:

*Yngo y saif angau Siôn*
*yn ddeufrath yn y ddwyfron*

ag ymdrechion llafurus a thrwsgwl Ieuan Gethin yn ei awdl i'w ferch, er enghraifft:

*Mor ebrwydd, hylwydd gynheiliad - winllys,*
*ag unlliw eiry gawad*[23]

[23] GB, t.80, ll. 13-4

Yn ogystal â defnyddio arddull fodern, cyflwynodd Lewys Glyn Cothi ddarlun o'i fab yn yr un modd ag y byddem yn disgwyl i fardd modern ei wneud. Mynnodd gyflwyno darlun byw o Siôn; brithodd y gerdd â delweddau hapus a thermau anwes i gyfleu ei gariad tuag ato, a cheir pwyslais ar y pleser a'r 'diddanwch' a gawsant gyda'i gilydd. Felly, er gwaethaf y galar a'r golled drasig a gyfleir yn y gerdd, nid cywair hollol lleddf sydd i 'Farwnad Siôn y Glyn'. Yn anad dim, gwerthfawrogiad o'i gyfnod byrhoedlog ond euraidd gyda'i fab yw cerdd fawr, bwysig Lewys Glyn Cothi.

## Diweddglo

Bwriad y traethawd oedd adeiladu ar waith ysgolheigion o sawl disgyblaeth ar blant yn yr Oesoedd Canol. Fel y gwelwyd, darlun go ddu a gyflwynir o blentyndod yn yr Oesoedd Canol gan haneswyr megis Philippe Ariès. Eithr trwy drafod y pwnc yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod - maes sydd yn gymharol ddieithr i sawl hanesydd - ceisiwyd ffurfio barn ar natur plentyndod yn yr Oesoedd Canol, a phenderfynu a oes unrhyw sail i'w honiadau ar y pwnc.

O droi yn gyntaf at y rhyddiaith, nid ymddengys fod y darlun o blant yn y chwedlau seciwlar yn arbennig o ffafriol. O ganlyniad i fotiff y Plentyn Rhyfeddol, darlun afreal o blant a gawn ynddynt ar y cyfan, ac 'oedolion bychain' yw plant y llenyddiaeth grefyddol. Gellid dadlau fod y darlun hwn yn dynodi nad oedd plentyndod yn gyfnod pwysig ar ei ben ei hun yn yr Oesoedd Canol. Fodd bynnag, ceir rhai eithriadau yn y chwedlau. Y mae Teyrnon a'i wraig, er enghraifft, yn amddiffynnol iawn o'r plentyn yn eu gofal, er nad yw'n perthyn iddynt trwy gig a gwaed, ac y mae gwir gwlwm emosiynol rhwng Branwen a'i mab Gwern - unig blentyn 'cyffredin' y Mabinogion. Dengys y dystiolaeth yn ein llenyddiaeth fod plant yn cael eu trin yn wahanol i oedolion, ac y teimlid fod plentyndod yn gyfnod unigryw ar ei ben ei hun. Felly, nid cyfnod du ac anobeithiol oedd plentyndod yn yr Oesoedd Canol, ac nid creaduriaid oeraidd a di-deimlad oedd rhieni'r cyfnod. Y mae llawer o dystiolaeth yn rhyddiaith Gymraeg yr Oesoedd Canol i wrthbrofi honiadau Ariès yn llwyr.

Serch hynny, roedd plant yr Oesoedd Canol yn byw bywyd gwahanol iawn i blant y cyfnod modern yn y byd datblygedig, a deuai plentyndod i ben yn llawer cynt nag y gwna heddiw. Roedd pwysau ar fechgyn o gyfnod cynnar i dderbyn cyfrifoldebau oedolion, a phwysau hyd yn oed yn drymach ar fenywod ifanc i briodi ac i feichiogi - yn sicr, mynegir teimladau mwy addfwyn tuag at blant wrth nesu at y cyfnod modern. Daw'r rhan fwyaf o'r farddoniaeth a drafodwyd yn y traethawd o gyfnod diweddarach na'r chwedlau, ac o ganlyniad i hynny, cyflwyna ddarlun mwy real o blant.

Yn y canu mawl, y mae cyfoeth o gyfeiriadau at blant, sydd yn annisgwyl o ystyried natur ffurfiol y farddoniaeth. Enghraifft drawiadol yw cân fawl Ieuan Deulwyn i Syr Rhisiart Herbert; y baban, yn hytrach na noddwr y bardd, yw ei chanolbwynt. Y mae'r marwnadau mwyaf diweddar i blant yn cyfleu newid yn agweddau pobl tuag at bwysigrwydd plant; cânt eu gwerthfawrogi am resymau emosiynol yn hytrach na chael eu

gweld fel parhad i'r llinach yn unig gan y tadau sy'n galaru mor ddwfn o'u colli. Y mae marwnad Robin Ddu i blant Gruffydd ap Rhys o'r Gloddaith yn farwnad arbennig o bwysig, sydd yn profi nad oedd marwolaeth plentyn yn ddigwyddiad dibwys a anghofiwyd yn gyflym yn yr Oesoedd Canol. Ynddi, mae'r bardd yn cydymdeimlo â'i noddwr yn ei alar; trasiedi ofnadwy yw marwolaeth y plant, ac nid digwyddiad a oedd yn anochel. Cawn argraff o berthynas agos rhwng y bardd a phlant ei noddwr yn y farwnad, ac oherwydd hynny, gellid casglu fod lle mwy canolog i blant yng nghartrefi'r uchelwyr erbyn y bymthegfed ganrif.

Pwysleisiwyd yn y traethawd fod marwnad ingol Lewys Glyn Cothi i Siôn ei fab yn sefyll ben ac ysgwydd uwchben y marwnadau eraill i blant, o ran arddull, crefft a chynnwys emosiynol. Yn ogystal â hynny, rhydd Lewys Glyn Cothi lawer mwy o sylw i blant yn ei waith nag y gwna Beirdd y Tywysogion. Mae ei ganu mawl yn llawn cyfeiriadau at blant sydd yn dangos ei hoffter ohonynt, a defnyddia drosiadau o fyd plentyndod i gyfleu hapusrwydd; ychydig o syniadau sentimental am blentyndod a theimlad o hiraeth amdano a fynegwyd yn ein llenyddiaeth hyd hynny. Darlun cadarnhaol o briodas a gawn yn ei waith hefyd. Dethlir uniad sawl pâr cariadus yn ei gerddi, er mai trefniant economaidd oedd priodas yn y cyfreithiau. Felly, gellir dadlau fod ei waith, a'r darlun ffafriol o blant a gawn ynddo, yn dynodi trawsffurfiad yr uned deuluol, a throbwynt yn agwedd pobl yr Oesoedd Canol tuag at blant.

Ni newidiodd agweddau pobl tuag at blant yn ddisymwth ar drothwy'r cyfnod modern, fel yr awgrymir yn llyfr Ariès. Yn ôl Barbara A. Hanawalt:

*It is, of course, preposterous to argue that people woke up on the morning of January 1, 1500, and found that their family structure and their social values about little adults or little monsters in their households had undergone a revolution.*[1]

Ond nid yw'r rhan fwyaf o haneswyr yn cytuno ar beth oedd y digwyddiad, neu'r digwyddiadau pwysig a arweiniodd at y newid. Gan amlaf, tybir mai chwyldro diwydiannol y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd i'w gyfrif am hyn. Byddai'n rhaid i bobl adael eu cartrefi i weithio, felly trodd y tŷ o fod yn weithle prysur i fod yn gartref preifat i'r teulu niwclear yn unig. Cred gyffredin arall yw i Chwyldro

[1] Barbara A. Hanawalt, *Growing up in Medieval London* (Oxford, 1993) t.7

Protestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg ddileu hen arferion a chredoau ofergoelus ynglŷn â phlant, ac i blentyndod gael ei 'greu' bryd hynny.

Yn ôl Nicholas Orme, daeth y 'trobwynt' yn yr Oesoedd Canol. Bu newid yn rheolau'r Eglwys yn y drydedd ganrif ar ddeg, a olygai na allai pâr briodi nes eu bod yn eu glas lencyndod, yn deall y llwon ac yn gallu cael cyfathrach rywiol. Yn ei dyb ef, roedd dylanwad y ddeddf yn bell-gyrhaeddol:

*After 1200, childhood was more likely to be regarded as a distinct sub-adult condition, requiring separate treatment.* [2]

Fodd bynnag, o ystyried barddoniaeth yr Oesoedd Canol diweddar, a'r newid sydd i'w weld rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, efallai bod 1200 yn ddyddiad ychydig yn rhy gynnar i'w dderbyn. Cred Dr. R.A. Lowe, Athro Ymchwil yn Adran Addysg Prifysgol Cymru Abertawe, i'r newid ddod yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gyda chynnydd masnach. Datblygodd tai masnachwyr i fod yn fwy preifat, ac o ganlyniad i hynny, gallai plant chwarae mewn ystafelloedd caeëdig, ymhell o olwg eu rhieni. Roedd byd yr oedolion a byd y plant ar wahân bellach, ac yn ei dyb ef, dyna pryd y datblygodd y syniad fod plentyndod yn gyfnod gwahanol i weddill bywyd dyn, ac yn gyfnod i'w drysori. Yn 1598, gyda dyfodiad y *Poor Relief Act*, roedd dyletswydd ar y plwyf i ofalu am blant tlawd. Y mae hyn yn profi nad 'oedolion bychain' oedd plant yng ngolwg y gyfraith; roedd angen gofal ac arweiniad arbennig arnynt.[3]

Er mor eithriadol o bwysig fu'r datblygiadau hynny, y mae newid i'w weld yn agweddau pobl tuag at blant ymhell cyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Mewn seminar ymchwil ar blant yn yr Oesoedd Canol, honnodd Dr Deborah Youngs, darlithydd yn Adran Hanes Prifysgol Cymru Abertawe, fod sefydlu ysbytai arbennig i ofalu am blant amddifad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif yn arwydd o drobwynt yn nheimladau pobl tuag at blant.[4] Wrth gwrs, roedd ysbytai yn bodoli ers canrifoedd mewn dinasoedd megis Fflorens a Rhufain i drin y gwahanglwyfus a chleifion o bob math, ond nid oedd darpariaeth arbenigol ar gyfer plant. Roedd sefydlu'r ysbytai i

---

[2] Orme, t.216

[3] Gwnaeth y sylwadau hynny mewn seminar ymchwil a drefnwyd gan adran Astudiaethau Plentyndod Cynnar Prifysgol Cymru Abertawe, 7 Tachwedd 2001.

[4] Cynhaliwyd y seminar ar Ragfyr 5, 2001

blant, felly, yn gam pwysig ymlaen. Sylweddolwyd fod angen sylw a gofal arbennig ar blant, ac y dylent gael eu trin yn wahanol i oedolion. Sylweddolwyd hefyd fod gofal rhieni yn eithriadol o bwysig i ddatblygiad plentyn; yn amlach na pheidio, ceisid anfon plant amddifad at rieni maeth. O ganlyniad i hyn oll, ymestynnwyd plentyndod sawl plentyn, gan nad oedd yn rhaid iddynt fynd i'r gweithle a chamu i fyd oedolion o oedran ifanc iawn. Dengys y datblygiadau hyn oll ddealltwriaeth newydd o anghenion plant, ac awydd i'w diogelu rhag caledi bywyd.

Efallai bod ffactor arall yn fwy cyfrifol am y newid. Fel y soniwyd eisoes, ni ellir gorbwysleisio dylanwad y pla ar fywydau pobl yr Oesoedd Canol. Mae trychinebau erchyll o'r fath yn aml yn achosi i deuluoedd ddod yn agosach at ei gilydd; yn sicr, gwelwn dystiolaeth o hynny yn y marwnadau canoloesol i blant. Y mae gwewyr Gwilym ap Sefnyn yn ei farwnad i'w ddeg plentyn a laddwyd gan y pla, a dwyster marwnad Lewys Glyn Cothi i Siôn y Glyn yn cyferbynnu'n llwyr â marwnad ffurfiol Cynddelw i Dygynnelw ei fab a luniwyd yn y ddeuddegfed ganrif, ymhell cyn trawiad cyntaf y Farwolaeth Fawr yn 1349. Effeithiodd y pla ar bawb; ymosododd yn rheibus ar bobl o bob oedran, rhyw a safle cymdeithasol. Oherwydd hynny, bu'n fwy dylanwadol nag unrhyw gyfreithiau a newidiadau o fewn yr eglwys ar feddyliau pobl Cymru ar y pryd; gellir dadlau iddo gael mwy o effaith na dim arall ar y newid amlwg sydd i'w weld yn agweddau pobl tuag at blant ar ddiwedd yr Oesoedd Canol.

Erbyn heddiw, gosodwyd strwythur arbennig i fywydau plant mewn gwledydd datblygedig. Rhaid i bob plentyn ddilyn cwrs o addysg, ac mae gweithwyr cymdeithasol a llu o fudiadau elusennol ar gael i'w gwarchod. Ar y cyfan, mae pobl yr Oes Fodern yn iachach, ac yn byw yn hirach nag yr oeddent yn yr Oesoedd Canol, felly nid oes yn rhaid i blant ddelio â phrofedigaeth o fewn y teulu gyn amled ag y byddai plentyn yn yr Oesoedd Canol. Caiff plant eu gwarchod rhag elfennau caletaf bywyd; lluniwyd cyfreithiau i'w hatal rhag mynychu tafarndai, ac ni chânt weld ffilmiau os na chredir eu bod yn addas iddynt. Ceisiwn gadw plentyndod yn wynfyd pur.

Gwyddom heddiw y gall plentyn a gafodd ei gam-drin ddioddef problemau seicolegol enbyd trwy gydol ei oes, a sylweddolwn fod plentyndod yn effeithio ar weddill ein bywydau. Nid yw'n diflannu ac yn mynd yn angof ar ôl i ni droi'n ddeunaw oed, fel y nododd Nicholas
Orme yn ei lyfr *Medieval Children*:

*People, possessions, and happenings remind us of our childhood throughout our lives. Its scenes and characters return in our dreams and we leave it fully only when we die.*[5]

Serch hynny, ni ddylid delfrydu plentyndod y byd modern wrth ysgrifennu am blentyndod yr Oesoedd Canol. Gellir dadlau nad yw plentyndod yn y byd modern o angenrheidrwydd yn 'well' na phlentyndod yr Oesoedd Canol. Yn enw cynnydd ac elw, anfonwyd plant i weithio'n galed ym myd diwydiant hyd at ddechrau'r ganrif ddiwethaf, a chawsant eu hecsbloetio'n ddirfawr. Yn ogystal â hynny, yr oedd nifer o gredoau pobl ynghylch magu plant yn Oes Fictoria yn fwy llym na'r rhai a arddelwyd yn yr Oesoedd Canol. Ni ellir honni fod rhieni'r Oesoedd Canol yn 'ddrwg', a ninnau, yn yr unfed ganrif ar hugain, yn rhieni 'da', fel y nododd Blake Morrison yn ei adolygiad o lyfr Nicholas Orme, *Medieval Children*:[6]

*Walk any high street on a Saturday and watch how stressed-out English shoppers treat their children ... Medieval parents weren't the callous floggers and sadists of legend, but nor were they especially kind to children. And nor are we.*[7]

Mae plentyndod yn bell o fod yn wynfyd i lawer o blant, a chryn ddadlau yn bodoli o hyd am y dull gorau o'u magu, fel y dengys y dadlau diweddar ynglŷn â diddymu hawl rhieni i guro eu plant, a thwf gwersylloedd milwrol eu naws i blant drwg yn America. Honnir mai diffyg disgyblaeth yn y cartref yw gwraidd nifer o'n problemau cymdeithasol, ond cred llawer y gall gormod o ddisgyblaeth fod yr un mor andwyol.[8] Ceid yr un dadleuon yn yr Oesoedd Canol; y mae sawl dogfen o'r cyfnod yn honni bod rhieni ar fai am beidio â disgyblu eu plant a'u dysgu i barchu Duw a'i ddeddfau. Y mae'r pwyslais a rydd Cynghorau Catwn ar garu a pharchu rhieni yn awgrymu'n gynnil nad oedd plant yr Oesoedd Canol yn ofni eu rhieni yn fwy nag y gwna plant heddiw.

---

[5] Orme, t.341

[6] Orme

[7] Blake Morrison, adolygiad yn 'The Saturday Review', *The Guardian*, 15 Medi 2001, t.10

[8] Yn ôl Alice Miller, y dulliau llym o fagu plant a hyrwyddwyd gan Dr Daniel Gottlieb Meritz Schreber yn yr Almaen oedd man cychwyn Natsïaeth: *An animal will respond to attack with 'fight or flight'. Neither course is open to an infant exposed to aggression from immediate family members. Thus the natural reaction remains pent up, sometimes for decades, until it can be taken out on a weaker object. Then the repressed emotions are unleashed against minorities.*
'The Political Consequences of Child Abuse' *The Journal of Psychohistory* 26 (2), Fall 1998, gol. Lloyd deMause (gw. *www.psychohistory.com* )

Ni all yr astudiaeth hon brofi, na gwrth-brofi damcaniaethau haneswyr ar blentyndod yn yr Oesoedd Canol; mae'n debyg y bydd yn bwnc llosg am flynyddoedd i ddod. Er hynny, gall ein llenyddiaeth liwio'r darlun annelwig sydd gennym o blentyndod yn yr Oesoedd Canol, a chyfoethogi ein hastudiaethau yn y maes. Dengys yr astudiaeth hon fod llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol yn ffynhonnell werthfawr i haneswyr plant, ac yn ffynhonnell a esgeuluswyd yn rhy hir.

**Llyfryddiaeth**

Danièle Alexandre-Bidon & Didier Lett, *Children in the Middle Ages*
(Notre Dame, Indiana, 1999)

Malcolm Andrew & Ronald Waldron (gol.), *The Poems of the Pearl Manuscript*
(London, 1978)

Rhian M. Andrews *et al.*(gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill*
CBT VII (Caerdydd, 1996)

Philippe Ariès, *L'Enfant et la vie familiale sous l'ancien régime*
(Paris, 1960); arg. Saesneg, *Centuries of Childhood* ( New York, 1962)

____ *Western Attitudes Toward DEATH: From the Middle Ages to the Present*
(Baltimore, 1974)

P.C. Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts*
(Cardiff, 1966)

____ *Welsh Genealogies* Cyfrol 1
(Cardiff, 1974)

Naomi Baumslag & Dia L. Michaels, *Milk, Money and Madness: The Culture and Politics of Breastfeeding*
(Conneticut, 1995)

Kathleen Anne Bramley *et al.* (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill.*
CBT II (Caerdydd, 1994)

Andrew Breeze, *Medieval Welsh Literature*
( Dublin, 1997)

Rachel Bromwich a D. Simon Evans (gol.), *Culhwch ac Olwen*
(Caerdydd, 1997)

Louis Burghes, Lynda Clarke a Natalie Cronin, *Fathers and Fatherhood in Britain*
(Family Policy Studies Centre, *s.l.* 1997)

Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wyryfdod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol.*
(Caerdydd, 1999)

T.M. Charles-Edwards, 'The Heir-Apparent in Irish and Welsh Law', *Celtica* cyf.9 (1971) tt.180-90

N.G. Costigan *et al.,* (gol.) *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur etc.* CBU
(Aberystwyth, 1995)

R. Iestyn Daniel (gol.), *Ymborth yr Enaid*
(Caerdydd, 1995)

R. R. Davies, *The Age of Conquest: Wales 1063-1415*
(Oxford, 1991)

____ *Lordship and Society in the March of Wales*
(Oxford, 1978)

Sioned Davies, *Pedeir Keinc y Mabinogi*
(Caernarfon, 1989)

Lloyd deMause (gol.), *The History of Childhood*
(New York, 1974)

Myles Dillon & Nora Chadwick, *The Celtic Realms*
(London, 1967)

P. Diverres, *Le Plus Ancien Texte des Meddygon Myddveu*
(Paris, 1913)

P.J. Donovan (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo*
(Caerdydd, 1982)

Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu,* CBU
(Aberystwyth, 2000)

D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi*
(Caerdydd, 1965)

____ *Historia Gruffud Vab Kenan*
(Caerdydd, 1977)

J. Gwenogvryn Evans (gol.), *The Poetry in the Red Book of Hergest*
(Llanbedrog, 1911)

____ (gol.) *The Black Book of Camarthen*
(Pwllheli, 1906)

____ (gol.) *The White Book Mabinogion*
(Pwllheli, 1907)

John Fisher (gol.), *Kynniver Llith a Ban*
(Caerdydd, 1931)

Gordon B. Ford Jr. (gol.), *The Ruodlieb*
(Leiden, 1965)

Patrick K. Ford, *Ystoria Taliesin*
(Caerdydd, 1992)

Glenys Witchard Goetinck (gol.), *Historia Peredur vab Efrawc*
(Caerdydd, 1976)

Miranda Green, *Celtic Goddesses*
(London, 1995)

Colin A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales*
(Cardiff, 1968)

R. Geraint Gruffydd (gol.), 'Gwaith Llywelyn Fardd I ac eraill', CBT II
(Caerdydd, 1994)

____ & Brynley F. Roberts
'Rhiannon gyda Theyrnon yng Ngwent?', *Llên Cymru 13*
(1974-81) tt.289-91

W.J. Gruffydd, 'Mabon ab Modron', *Revue Celtique xxxiii*
(1870-1934) tt.452-61

Barbara A. Hanawalt, *Growing Up in Medieval London*
(Oxford, 1993)

Elissa Henken, *Traditions of the Welsh Saints*
(Cambridge, 1987)

David Herlihy, *The Black Death and the Transformation of the West*
(Cambridge, Massachusetts: 1997)

Urban Tigner Holmes, *Daily Living in the Twelfth Century*
(Wisconsin, 1952)

Dafydd a Rhiannon Ifans, *Y Mabinogion*
(Llandysul, 1980)

Kenneth Hurlston Jackson, *The International Popular Tale and Early Welsh Tradition*
(Cardiff, 1961)

Gill Jagger a Caroline Wright (gol.), *Changing Family Values*
(London, 1999)

Dafydd Jenkins (gol.) *Llyfr Colan*
(Caerdydd, 1963)

____ *Cyfraith Hywel*
(Llandysul, 1970)

____ (gol.) *The Law of Hywel Dda*
(Llandysul, 1986)

____ & Morfydd E. Owen (gol.), *The Welsh Law of Women*
(Cardiff, 1980)

Dafydd Johnston, *Galar y Beirdd*
( Caerdydd 1993)

____ *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*
(Caerdydd, 1991)

____ 'Lewys Glyn Cothi: Bardd y gwragedd'
*Taliesin* 74, tt.68-77

____ (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi*
(Caerdydd, 1995)

____ (gol.), *Gwaith Iolo Goch*
(Caerdydd, 1988)

____ *Iolo Goch*
(Caernarfon, 1989)

____ Adolygiad o 'Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion'
*Llên Cymru*, Cyfrol 19 (1996) t.188

Gwenan Jones (gol.), 'Gwyrthyeu y Wynvydedic Veir'
*Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* Cyfrol IX, (Caerdydd 1939) tt.334-341

Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*
(Caerdydd, 1991)

Y Parch Owen Jones, *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (2)
(Llundain, 1876)

T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled II*
(Caerdydd, 1926)

Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogion*
(Caerdydd, 1955)

Kathleen Coyne Kelly, *Performing Virginity and Testing Chastity in the Middle Ages*
(Llundain, 2000)

John T. Koch, *The Gododdin of Aneirin*
(Cardiff, 1997)

Margaret Wade Labarge, *A Baronial Household of the Thirteenth Century* (London, 1965)

Anne Laurence, *Women in England 1500 -1760* (London, 1994)

David Adams Leeming gyda Margaret Adams Leeming, *Encyclopedia of Creation Myths* (Oxford, 1994)

Henry Lewis (gol.), *Chwedleu Seith Doethon Rufein* (Wrecsam, 1925)

____ Thomas Roberts ac Ifor Williams (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill.* (Caerdydd, 1937)

Henrietta Leyser, *Medieval Women* ( London, 1995)

Lowri Wyn Lloyd, 'Agweddau ar y Teulu ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol' Traethawd PhD, Prifysgol Cymru 2000

____ 'Beth yw Perthyn? Pedwar Term Teuluol ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol' *Dwned,* Rhif 6 (Aberystwyth, 2000) tt.25-53

Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (gol.), *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986)

Proinsias Mac Cana, *The Mabinogi* (Cardiff, 1977)

J. A. MacCulloch, *Celtic Mythology* ( London, 1992)

T. Matthews (gol.), *Gwaith Siôn Cent* (Llanuwchllyn, 1914)

Rosalind Miles, *The Women's History of the World* (London, 1988)

Blake Morrison, 'The Child in Time', *The Saturday Review, The Guardian* ( Medi 15 2001) t.10

John Morris-Jones & John Rhŷs (gol.), *The Elucidarium and other tracts in Welsh* (Oxford, 1894)

____ & T.H. Parry-Williams (gol.) *Llawysgrif Hendregadredd* (Caerdydd, 1933)

John Munder Ross, *What Men Want: Mothers, Fathers and Manhood*

(Cambridge, Massachusetts, London, 1994)

Erich Neuman, *The Great Mother*
(Princeton, 1974)

David Nicholas, *The Evolution of the Medieval World*
(New York, 1992)

Nicholas Orme, *Medieval Children*
(Yale University Press, New Haven & London, 2001)

____ 'Festivities have always dragged on - for ages', *The Daily Express*
(31 Rhagfyr 2001) t.17

Morfydd E. Owen, 'Meddygon Myddfai: A Preliminary Survey of Some Medical Writing in Welsh', *Studia Celtica*, X/XI (1976) tt.210-33

John Jay Parry (gol.), *Brut y Brenhinedd*
(Cambridge, Massachusetts, 1937)

Thomas Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*
(Caerdydd, 1952)

____ (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse*
(Oxford, 1962)

William Owen Pughe, *A National Dictionary of the Welsh Language* Cyfrol 1
(Dinbych, 1803)

Brynley F. Roberts (gol.), *Gwassanaeth Meir*
(Caerdydd, 1961)

____ *Gerald of Wales*
(Caerdydd, 1982)

Thomas Roberts, *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*
(Cardiff, 1923)

____ (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*
(Caerdydd, 1958)

Shulamith Shahar, *Childhood in the Middle Ages*
( London, 1992)

James A. Schultz, *The Knowledge of Childhood in the German Middle Ages*
(Philadelphia, 1995)

Patrick Sims-Williams, adolygiad o 'Galar y Beirdd',
*Cambrian Medieval Celtic Studies* 29 (1995) tt.60-2

Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*
(Caerdydd, 1997)

Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*
(Caerdydd, 1976)

____ *Dafydd ap Gwilym - his poems*
(Cardiff, 2001)

Stith Thompson, *Motif-Index of Folk Literature*,[chwe chyfrol]
( Copenhagen 1955-58)

A.W. Wade-Evans (gol.), *Welsh Medieval Law*
(Oxford, 1909)

Marina Warner, *Alone of All Her Sex*
(New York, 1976)

R.M. Wenley, *Stoicism and its influence*
(Massachusetts, *s.d* )

Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth*
(Caerdydd, 1960)

Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin*
(Caerdydd, 1938)

____ (gol.) *Pedeir Keinc y Mabinogi*
(Caerdydd, 1951)

____ *Canu Llywarch Hen*
(Caerdydd, 1953)

____ *Lectures on Early Welsh Poetry*
(Dublin, 1954)

____ 'Cynghorau Catwn', *Bwletin Bwrdd y Gwybodau Celtaidd*, Cyfrol II
(Llundain, 1925) tt.16-35

____ (gol.), *Gwaith Guto'r Glyn*
(Caerdydd, 1939)

____ *et al.,* (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*
(Bangor, 1925)

John Williams (Ab Ithel) (gol.), *Meddygon Myddfai*
(ail arg., Felinfach 1993)

J.E. Caerwyn Williams, 'Nodyn Ychwanegol ar *Nyth Gwag' Ysgrifau Beirniadol XII* (Dinbych,1982) tt.327-9

*Idem*, (gol., gyda chymorth Peredur I. Lynch), *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion* (Caerdydd, 1994)

Mary Williams (gol.), 'Llyma Vabinogi Iessu Grist' yn *Revue Celtique* XXXIII (Paris 1870-1934) tt.184-207

Stephen J. Williams & J. Enoch Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd* (Caerdydd, 1961)

Juliette Wood, 'The Folklore Background of the Gwion Bach section of *Hanes Taliesin'*, B XXIX (1982) tt.621-634